Dogfen ir Cyhoedd

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

| GŴYS A RHAGLEN | SUMMONS AND AGENDA |
| --- | --- |
| ar gyfer | for an |
| CYFARFOD ARBENNIG O GYNGOR SIR YNYS MÔN | EXTRAORDINARY MEETING OF THE ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL |
| a gynhelir yn | to be held at the |
| SIAMBR Y CYNGOR SWYDDFA'R SIR LLANGEFNI | COUNCIL CHAMBER COUNCIL OFFICES LLANGEFNI |
| DYDD MAWRTH 18 HYDREF 2016 | TUESDAY 18 OCTOBER 2016 |
| am 10.00 o'r gloch | at 10.00 am |

**R H A G L E N**

**Cyflwyniadau - Cystadleuaeth Euro 2016**

Bydd Cadeirydd y Cyngor yn cyflwyno gwobrau ar ran y Cyngor i gydnabod llwyddiant Tîm Pêl-droed Cymru yng Nghystadleuaeth Euro 2016.

**1. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn datganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

**2. AROLWG SENEDDOL**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

**3. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2015/16**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 19 Medi, 2016.

**4. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

Ystyried mabwysiadu'r canlynol :-

"Dan Adran 100(A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn, oherwydd y posibilrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig ei rhyddhau fel y diffinnir hi yn Atodlen 12A y Ddeddf a'r Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm".

**5. YMATEB Y CYNGOR SIR I'R YMGYNGHORIAD CYN CYFLWYNO CAIS GAN HORIZON - CAM 2**

Y Prif Weithredwr i adrodd ar yr uchod.

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| **Pwyllgor:** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad:** | 18 Hydref 2016 |
| **Teitl yr Adroddiad:** | Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru – Cynigion Cychwynnol gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru |
| **Adroddiad gan:** | Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd |
| **Pwrpas yr Adroddiad:** | Ymgynghoriad. |
| **Gweithredu:** | Ymateb i'r ymgynghoriad. |

## 1. Cyflwyniad

Ar 24 Mawrth 2016, cyhoeddodd y Comisiwn Ffiniau i Gymru ('y Comisiwn') ddechrau Arolwg 2018 o Etholaethau Seneddol yng Nghymru, yn unol â darpariaethau Deddf Etholaethau Seneddol 1986 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Systemau Pleidleisio Seneddol ac Etholaethau 2011. Cyhoeddwyd yr adroddiad uchod gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru ar 13 Medi, gan ofyn am sylwadau ar y cynigion cychwynnol erbyn 5 Rhagfyr 2016.

## 2. Crynodeb o'r cynigion - Cymru

Mae'r ddeddfwriaeth newydd wedi lleihau nifer yr etholaethau seneddol yng Nghymru o 40 i 29.

Ni fydd unrhyw etholaeth yn parhau heb ei newid dan y cynigion cychwynnol. Ar gyfer llawer o ardaloedd, mae'r newidiadau arfaethedig yn helaeth.

Byddai Ynys Môn yn un o 16 o'r etholaethau presennol wedi'u cynnwys yn llawn mewn etholaethau newydd.

Mae Ynys Môn yn un o saith prif gyngor yng Nghymru sy'n disgyn islaw nifer uchaf yr amrediad etholwyr statudol, felly gellid eu cynnwys yn llawn mewn etholaeth newydd.

O'r 881 o wardiau etholiadol yng Nghymru, byddai 880 wedi'u cynnwys yn llawn mewn etholaethau newydd.

## 3. Crynodeb o'r cynigion - Ynys Môn

Cynigir creu etholaeth sirol yn cynnwys:

**Ynys Môn** CC presennol yn gyfan yn cynnwys wardiau etholiadol Sir Ynys Môn, sef Aethwy (4,906), Bro Aberffraw (2,882), Bro Rhosyr (3,626), Caergybi (6,146), Canolbarth Môn (4,874), Llifon (3,963), Lligwy (4,621), Seiriol (4,407), Talybolion (4,430), Twrcelyn (5,229) ac Ynys Gybi (4,203); a,

Y wardiau etholiadol yn **Arfon** CC presennol a Sir Gwynedd, sef Arllechwedd (971), Bethel (1,020), Cadnant (1,438), Cwm-y-Glo (710), Deiniol (496), Deiniolen (1,263), Dewi (1,098), Garth (420), Gerlan (1,559), Glyder (1,139), Hendre (835), Hirael (881), Llanrug (1,289), Marchog (1,446), Menai (Bangor) (839), Menai (Caernarfon) (1,671), Ogwen (1,556), Peblig (Caernarfon) (1,344), Penisarwaun (1,293), Pentir (1,636), Seiont (2,079), Tregarth & Mynydd Llandygai (1,531) a Y Felinheli (1,624).

Byddai gan yr etholaeth hon 77,425 o etholwyr sydd 3.6% yn uwch na chwota etholiadol y DU, sef 74,769 o etholwyr fesul etholaeth.

Mae'r adroddiad yn nodi ni all Ynys Môn fodloni'r gofynion statudol mewn perthynas â maint yr etholaeth ar ei phen ei hun.

Ystyriwyd sawl opsiwn, ond teimlwyd, oherwydd nifer yr etholwyr ychwanegol sydd eu hangen a'r gofyniad i'r Comisiwn ystyried ffiniau llywodraeth leol, y dylai'r etholaeth gynnwys y wardiau o amgylch Bangor ac yn cynnwys Tref Caernarfon a'r wardiau hynny yn uniongyrchol i'r dwyrain o Gaernarfon. Yn y modd hwn, mae'r etholaeth i'r de o Ynys Môn yn gyfan gwbl o fewn Sir Gwynedd.

Dewis arall fyddai cynnwys wardiau etholiadol i'r gogledd o Fangor, ond, gan ystyried yn benodol maint daearyddol 'Gogledd Clwyd a Gwynedd' (gweler tudalen 15) ac etholaeth 'Colwyn and Conwy' (gweler tudalen 19), ystyriwyd y byddai effeithiau niweidiol ar yr etholaethau cyfagos a fyddai'n llai dymunol.

## 4. Enw'r Etholaeth

Yr enw a awgrymir ar gyfer yr etholaeth yw **Ynys Môn ac Arfon** a'r enw arall a awgrymir yw **Isle of Anglesey and Arfon**.

Gan fod etholaeth bresennol Ynys Môn wedi'i chynnwys yn gyfan gwbl o fewn yr etholaeth, defnyddiodd y Comisiwn yr enw hwnnw yn gyntaf yn yr enw etholaethol arfaethedig. Ystyriwyd sawl opsiwn ar gyfer yr enw ychwanegol ac, oherwydd y gyfran o etholaeth bresennol Arfon a gwmpesir gan yr etholaeth newydd - tua 75% o'r etholaeth - ystyriwyd mai Arfon oedd yr enw mwyaf priodol.

Er gwybodaeth, yn ei gyfarfod ar 6 Mawrth 2012, rhoddodd y Cyngor Sir ystyriaeth i gynigion cychwynnol blaenorol eraill mewn perthynas ag arolwg o etholaethau seneddol gan y Comisiwn Ffiniau i Gymru. 'Menai ac Ynys Môn' oedd yr enw a awgrymwyd. Yn y cyfarfod hwnnw, penderfynodd y Cyngor:

*"awgrymu i'r Comisiwn Ffiniau i Gymru y dylid galw'r etholaeth seneddol arfaethedig yn Môn a Menai"*

5. **Materion i'w hystyried**

Gofynnir i'r Cyngor gadw mewn cof y materion canlynol wrth ystyried ei ymateb i'r ymgynghoriad:

- Cyd – destun hanesyddol o safbwynt cynrychiolaeth seneddol a'r angen i ddiogelu hunaniaeth unigryw'r ynys a'i ffiniau gweinyddol naturiol.

- Byddai ymestyn ffiniau'r etholaeth yn gwanhau atebolrwydd lleol a statws yr ynys.

- O dan y cynigion cychwynnol ar gyfer Lloegr, mae dwy o'r 501 etholaeth a ddyrennir i Loegr wedi'i neilltuo ar gyfer yr Ynys Wyth – mae Deddf 2011 yn nodi bod rhaid i Ynys Wyth gael dwy etholaeth (sydd ar hyn bryd yn un etholaeth). Mae dwy etholaeth ynysoedd yn yr Alban hefyd wedi'u diogelu o dan y Ddeddf – Orkney a Shetland, Na h-Eileanan.

- Rhoddodd Arweinyddion y Grwpiau ystyriaeth i'r cynigion cychwynnol ar 22 Medi 2016 a'r farn oedd na ddylid eu cefnogi.

6. **Argymhellion**

Gofynnir i'r Cyngor Sir:

- Am ei sylwadau ar y cynnig i greu'r etholaeth seneddol newydd a'r awgrym ar gyfer enw, hy **Ynys Môn ac Arfon** ac **Isle of Anglesey and Arfon**

- awdurdodi'r Prif Weithredwr, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd, i baratoi ymateb ar ran y Cyngor i'r Comisiwn Ffiniau dros Gymru erbyn 5 Rhagfyr 2016.

Dolen i'r adroddiad llawn:
http://comffin-cymru.gov.uk/2018-review/initial_proposals?skip=1&lang=cy

This page is intentionally left blank

| CYNGOR SIR YNYS MON | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **CYNGOR SIR** |
| **Dyddiad:** | **18 Hydref 2016** |
| **Pwnc:** | **ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2015/16 (Drafft)** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **CYNGHORYDD ALWYN ROWLANDS** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **SCOTT A ROWLEY** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **GETHIN MORGAN**<br>01248 752111<br>GethinMorgan@anglesey.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **n/a** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

**1.1** Mae angen i'r Cyngor gyhoeddi Dogfen Cyflawni Blynyddol cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl 1 Ebrill bob blwyddyn, dogfen sy'n cynnwys prif flaenoriaethau ac Amcanion Gwella yr Awdurdod ar gyfer y flwyddyn fel amlinellwyd yn y Cynllun Corfforaethol pedair blynedd.

**1.2** Yn ogystal, mae'n ofynnol hefyd i'r cyngor lunio a chyhoeddi ei Adroddiad Perfformiad Blynyddol erbyn 31 Hydref bob blwyddyn - dogfen statudol sydd yn dadansoddi perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn erbyn y gwellianau a'r blaenoriaethau amlinellwyd yn y Dogfen Cyflawni Blynyddol 2015/16 a'r Cynllun Corfforaethol 2013/17.

**1.3** Mae'r papur hwn yn amlinellu drafft ein Adroddiad Perfformiad sy'n edrych yn ôl dros berfformiad y Cyngor ar gyfer 2015/16.

**1.4** Mae'r Adroddiad yn edrych ar gynnydd y cyngor yn erbyn ein Amcanion Gwella ar gyfer 2015/16 fel amlinellwyd drwy ein 7 maes allweddol yn y Ddogfen Cyflawni Blynyddol 2015/16:-

1. Ein bod yn Tranwsnewid ein Gofal Cymdeithasol Hŷn i Oedolion
2. Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi
3. Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion
4. Rydym yn cynyddu ein Opsiynau Tai a Lleihau Tlodi
5. Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgell
6. Dod Cwsmeriaid, Dinasyddion a Bro
7. Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

**1.5** Mae'r drafft hwn yn edrych ar yr allbynnau a'r canlyniadau yn erbyn yr hyn y ddywedasom y byddem yn ei gyflawni yn ystod 2015/16 yn erbyn y 7 thema allweddol uchod

**1.6** Rhan allweddol o'r Adroddiad Perfformiad yw asesiad o berfformiad y Cyngor yn erbyn ei ddangosyddion perfformiad allweddol, sy'n edrych ar berfformiad blwyddyn ar flwyddyn yn ogystal ac wedi'w feincnodi yn erbyn awdurdodau lleol eraill yng Nghymru. Mae'r adroddiad yn tynnu sylw at ein llwyddiannau a meysydd lle mae angen gwella fel nodwyd drwy y Dangosyddion Strategol Cenedlaethol (DSC) a Mesurau Atebolrwydd Perfformiad (MACau).

**1.7** Gofynir i'r Pwyllgor felly :

- **Gytuno bod fersiwn terfynol yr Adroddiad Perfformiad 2015/16 sydd i'w gyhoeddi erbyn y dyddiad statudol yn mis Hydref yn cael ei ddrafftio gan Swyddogion mewn ymgynghoriad a'r Aelod Portffolio**

**B - B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

n/a

**C - Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith??**

Dirprwywyd y mater hwn i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| | DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| **1** | **Economaidd** | |
| **2** | **Gwrthdlodi** | |
| **3** | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| **4** | **Amgylcheddol** | |
| **5** | **Cydraddoldebau** | |
| **6** | **Cytundebau Canlyniad** | |
| **7** | **Arall** | |

| **F - Atodiadau:** |
|---|
| Atodiad A – Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2015/16 (Drafft ) |

| **FF - FF – Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):** |
|---|
| • Dogfen Cyflawni Blynyddol 2015/16<br>• Cynllun Busnes Corfforaethol 2013/17 |

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

# Cyngor Sir Ynys Môn

# ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2015/16
## Drafft

Cyngor Sir Ynys Môn
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW
Ffon: (01248) 752111

# Mynegai


| Pennawd | Tudalen |
|---|---|
| Gair gan yr Arweinydd | 3 |
| Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2015-16 – Cyflwyniad | 4 |
| Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn | 5 |
| Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi | 10 |
| Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion | 16 |
| Cynyddu Ein Dewisiadau Tai a Lleihau Tlodi | 23 |
| Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd | 30 |
| Canolbwyntio ar Gwsmeriaid, Dinasyddion a Chymunedau | 34 |
| Trawsnewid ein Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | 37 |
| Perfformiad Corfforaethol | 41 |
| Perfformiad Ariannol 2015/16 | 54 |
| Gwybodaeth Bellach | 55 |
| Atodiad 1 – Dangosyddion Perfformiad 2015/16 | 56 |

# Gair gan yr Arweinydd

Mae'r Adroddiad Perfformiad hwn yn edrych yn ol dros 2015/16 ac ar pa mor dda wnaethom wrth gyflawni'r amcanion a'r blaenoriaethau fel amlinellwyd yn ein Cynllun Corfforaethol pedair blynedd. Fe wnaethom nodi yn Adroddiad Perfformiad y llynedd (2014/15) sut y mae'r hinsawdd ariannol wedi newid yn ddramatig yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ac yn erbyn yr un cefndir o leihau cyllidebau a'r angen i wneud arbedion effeithlonrwydd yr ydym unwaith eto yn adrodd eleni. Fel y cyfryw, rydym yn falch bod dros 52% o'n Dangosyddion Perfformiad (DP) gwella yn ystod y flwyddyn ac rydym yn ymwybodol ac yn gweithio i wella y 45% sydd wedi dirywio mewn perfformiad.

Rydym hefyd yn falch ein bod wedi parhau i gyflawni llawer o'n haddewidion ym maes Gwasanaethau Oedolion, Addysg, Datblygu Economiaidd a Chymunedol a Thai - ein prif feysydd blaenoriaeth yn ystod 2015/16 - fel yr amlinellir yng nghorff yr adroddiad. Rydym yr un mor hapus gyda ein perfformiad yn y gwasanaethau corfforaethol - megis gwella ein gofal cwsmer a Technoleg Gwybodaeth, swyddogaethau sy'n helpu cefnogi ein darpariaeth gwasanaeth ac yn ein cynorthwyo i ddod yn gyngor gwell a mwy ymatebol.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod rhai meysydd lle mae angen i ni ganolbwyntio a gwella. Er nad yw rhai o'r meysydd hyn yn flaenoriaethau i ni, rydym yn ymwybodol bod angen i ni i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl waeth beth, a'n bod yn cael ein mesur a’n meincnodi yn erbyn cynghorau eraill yng Nghymru ar ein holl Ddangosyddion Perfformiad. Rydym hefyd wedi rhoi llawer o sylw i absenoldeb salwch yn ystod 2015/16 gan ein bod yn ymwybodol bod hwn yn faes y mae angen i ni wella. Rydym yn gobeithio y bydd y camau lliniaru, prosesau newydd a monitro rydym wedi eu rhoi ar waith yn cael effaith gadarnhaol yn y tymor hir. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i ganolbwyntio ar wella perfformiad ar draws pob gwasanaeth ac ar draws ein holl ddangosyddion perfformiad yn ystod 2016/17 wrth i ni barhau i ymrwymo i sicrhau ein bod yn dod yn un o'r cynghorau sy'n perfformio orau yng Nghymru ac yn parhau i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i bobl Ynys Môn.

Mae hwn yn gyfnod anodd i awdurdodau lleol yng Nghymru ac yn y DU yn gyffredinol wrth i ni barhau i gesisio cadw’r cydbwysedd rhwng yr angen i wneud arbedion effeithlonrwydd a darparu gwasanaethau o ansawdd. Fel Arweinydd, yr wyf yn ymwybodol bod yn rhaid ini weithiau wneud penderfyniadau anodd ar arbedion posibl, ond rydym hefyd wedi ymrwymo yma ar Ynys Môn i archwilio modelau darparu gwasanaeth amgen sy'n ceisio gwneud arbedion yn ogystal â pharhau i ddarparu'r gwasanaethau gorau posibl i bobl yr ynys.

Y Cynghorydd Ieuan Williams
**Arweinydd**

# ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2014-2015

# CYFLWYNIAD

Y nod ar gyfer Cyngor Sir Ynys Môn fel y nodwyd yn ein Cynllun Corfforaethol 2013-2017 yw erbyn 2017-

**"Y byddwn yn gyngor proffesiynol sy'n cael ei redeg yn dda, yn arloesol yn ein hymagwedd ac yn edrych tuag allan, yn ymrwymedig i ddatblygu ein pobl a phartneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o ansawdd da, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ein dinasyddion"**

Amlinellwyd sut y byddem yn cyflawni blaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol yn ein Dogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2015-16. Bydd y ddogfen hon felly yn amlinellu sut y gwnaethom gyflawni ar ein haddewidion dros y deuddeg mis diwethaf (2015/16) ac yn dangos ein parodrwydd i yrru a chyflawni ein dyletswydd o sicrhau gwelliant parhaus, sef yr hyn a ddisgwylir o bob Awdurdod Lleol yn unol â Mesur Llywodraeth Cymru 2009.

Dyma oedd y 7 maes allweddol yr oeddem yn canolbwyntio ar eu gwella yn ystod 2015-16, fel yr amlinellwyd yn ein Cynllun Corfforaethol 4 blynedd (2013-2017) ac yn ein Dogfen Gyflawni Flynyddol (2015/16): -

1. Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn
2. Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi
3. Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion
4. Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi
5. Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd
7. Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)

Yn yr adroddiad hwn, byddwn yn edrych yn ôl ar ein hamcanion dan y saith maes thematig allweddol hyn a mesur pa mor dda wnaethom ni mewn gwirionedd, yn ogystal â dadansoddi'r data perfformiad sy'n dangos ac sy'n cefnogi'r hyn a wnaed gennym i gyflawni ein canlyniadau yn lleol a chenedlaethol.

# Trawsnewid Gofal Cymdeithasol i Oedolion Hŷn

Mae pobl yn byw'n hirach ac o'r herwydd, rydym yn disgwyl gweld cynnydd o tua 70 % yn nifer y bobl dros 85 sy'n byw yn Ynys Môn dros y 10 mlynedd nesaf. Mae gan Ynys Môn un o'r poblogaethau pobl hŷn mwyaf yng Nghymru. Mae niferoedd y bobl sydd â chyflyrau cymhleth tymor hir gan gynnwys dementia hefyd yn cynyddu. Er mwyn darparu'r lefel angenrheidiol o gefnogaeth sydd ei hangen i gwrdd â'r cymhlethdodau cynyddol yn y galw (yn nhermau cyllid a gweithlu), mae'r Cyngor wedi cydnabod bod angen iddo newid y ffordd y mae'n darparu gofal cymdeithasol i oedolion er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn gynaliadwy yn awr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

**Sut gwnaethom ni hyn yn 2015/16?**

| **Ein Haddewid: Byddwn yn datblygu ac yn sefydlu ar y cyd â phartneriaid 2 gynllun tai gofal ychwanegol yng Ngogledd a chanol yr Ynys ac yn cynllunio ar gyfer cynllun tai gofal ychwanegol pellach yn Ne'r Ynys drwy:** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| Byddwn yn datblygu ac yn sefydlu ar y cyd â phartneriaid 2 gynllun tai gofal ychwanegol yng Ngogledd a chanol yr Ynys ac yn cynllunio ar gyfer cynllun tai gofal ychwanegol pellach yn Ne'r Ynys drwy:<br>• Gweithredu fesul cam yn Llangefni trwy sicrhau partneriaid adeiladu, cymeradwyo dyluniadau terfynol a chychwyn gwaith adeiladu ar y safle, yn ogystal â chwblhau gwaith paratoadol yn Gogledd yr ynys<br>• Bwrw ymlaen gyda'r rhaglen yn Ne'r Ynys trwy wneud penderfyniad ar y cynigion terfynol ynghylch: safleoedd tir, llunio achos busnes i'w gymeradwyo cyn cychwyn gwaith, nodi partneriaid Adeiladu cyn cymeradwyo'r dyluniadau terfynol a chychwyn gwaith adeiladu. |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Cytunwyd ar bartner i ddatblygu Gofal Ychwanegol yn Llangefni. Bydd Pennaf yn cychwyn gwaith ar y safle yn ystod Chwarter 1 2016/17 a disgwylir y bydd y cyfleuster yn agor ym mis Mai 2018<br>• Cwblhawyd asesiad o safleoedd tir posibl yn ne'r Ynys. Cytunir yn derfynol ar safle tir yn 2016/17.<br>• Mae'r Cyngor yn cydnabod nad yw cystal cynnydd â'r disgwyl wedi cael ei wneud yng ngogledd yr Ynys ond mae'n rhoi sylw i'r mater. |

| **Ein Haddewid: Gwella'r amrediad o wasanaethau sydd ar gael yn y gymuned ar gyfer pobl hŷn a'u hargaeledd gan leihau'r ddibyniaeth ar gartrefi gofal preswyl drwy a'r galw amdanynt:** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Bydd rhoi ar waith y Cynllun Gweithredu ar gyfer "Lle i'w Alw'n Gartref" yn golygu ail-ganolbwyntio ar yr unigolyn a rhoi eiriolaeth annibynnol i bobl hŷn a sicrhau gofal neu gymorth o ansawdd gwell o ganlyniad i faterion diogelu pan fyddant yn symud yn uniongyrchol o ysbyty i gartref gofal neu o gartref gofal arall. Mae hyn yn cynnwys hyfforddiant i staff i godi ymwybyddiaeth o ddementia a mynediad i Gofal Uwch Môn.<br>• Datblygu, cytuno a dechrau gweithredu model 'Hyb Cymunedol' erbyn Rhagfyr 2014, lle bydd ystod eang o gefnogaeth a gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan gymunedau lleol (ac yn aml yn anffurfiol) yn cael eu gwella a'u "cyd-gysylltu" fel bod gwell cefnogaeth a gofal yn cael ei darparu i'r person hŷn mewn angen gan a thrwy'r gymuned leol.<br>• Sefydlu' ymhellach y model Un Pwynt Mynediad a fydd yn cefnogi mynediad mwy effeithiol i wybodaeth, cyngor a chymorth ac integreiddio unigolion gydag adnoddau lleol eraill. |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Gwnaed cynnydd drwy ddarparu hyfforddiant i ddarparwyr gwasanaeth ar egwyddorion cyfeillio. Mae mynediad estynedig i wasanaeth eiriolaeth annibynnol wedi bod ar gael ar gyfer ymgynghoriadau. Mae cryn dipyn o hyfforddiant i staff ar Ymwybyddiaeth o Ddementia wedi cael ei gynnal ar draws pob sector.<br>• Cytunwyd ar y Strategaeth i Bobl Hŷn ac mae model yr Hyb Cymunedol yn elfen ganolog o'r strategaeth honno. Mae Cynllun Gweithredu ar gyfer gwireddu hyn wrthi'n cael ei ddatblygu gyda chynlluniau ar gyfer 2 hyb arall yn 2016/17.<br>• Mae'r Un Pwynt Mynediad yn parhau i fod yn fodel sefydledig. Bydd mynediad at feddygon teulu drwy gyfeiriadau ar lein ar gael yn gynnar yn 2016/17. Mae system wybodaeth ar-lein DEWIS wrthi'n cael ei phoblogi'n lleol. |

| **Ein Haddewid: Ailddatblygu ein gwasanaeth ail-alluogi i gefnogi a helpu pobl i wella ac adennill annibyniaeth trwy ddefnyddio cynlluniau cymorth sy'n seiliedig ar ganlyniadau trwy:** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Cryfhau'r farchnad a gweithredu rhaglen i allanoli gofal cartref ymhellach tra'n datblygu model arbenigol o ddarpariaeth fewnol.<br>• Sefydlu model cytunedig o ddarpariaeth gofal cartref gan yr Awdurdod Lleol a fydd yn |

| |
|---|
| darparu gwasanaeth ail-alluogi a chymorth dementia arbennig |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Cwblhawyd y gwaith ymgynghori gyda darparwyr ynghylch model ar gyfer gofal cartref yn y dyfodol.<br>• Mae model gofal cartref yr Awdurdod Lleol yn parhau i gael ei gryfhau gyda gofal 24 awr ar gael yn awr drwy'r gwasanaeth 'Night Owls'. |

| **Ein Haddewid: Mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd, datblygu trefniadau i reoli a darparu gwasanaethau ar y cyd, yn enwedig mewn perthynas â dementia, gwasanaethau i bobl hŷn yn gyffredinol a chymorth i ofalwyr trwy:** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Cyflwyno manyleb Gogledd Cymru ar gyfer darparu gofal preswyl wedi ei gyfoethogi ar gyfer pobl â dementia.<br>• Sefydlu'n gadarn gweithio amlddisgyblaethol o fewn y timau a gyd-leolwyd yn Llanfairpwll, Amlwch a Chaergybi i sicrhau ein bod yn ymateb i anghenion defnyddwyr gwasanaeth yn y gymuned mewn dull amserol ac effeithlon.<br>• Datblygu integreiddiad gwell o wasanaethau Anabledd Dysgu gan gynnwys ystyried comisiynu ar y cyd a rhannu cyllidebau . |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Ni chafwyd cytundeb i gyflwyno'r fanyleb ar sail ranbarthol<br>• Timau amlddisgyblaethol wedi cael eu sefydlu. Modelau ar gyfer cydweithio wrthi'n cael eu cryfhau.<br>• Dim cynnydd mewn perthynas â chyd-gomisiynu a sefydlu cyllidebau ar y cyd ar gyfer AD. |


## Gwybodaeth Perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Oedolion

Caiff canlyniadau'r Dangosyddion Perfformiad (DP) perthnasol ar gyfer Gwasanaethau Oedolion eu hamlinellu yn Nhabl 1 (isod) a cheir dadansoddiad o'r canlyniadau ar gyfer 2015/16 yn erbyn y flwyddyn flaenorol a safle pob DP yn y chwarteli.

| **Tabl 1**<br><br>Disgrifiad DP | 2013/ 14 | 2014/ 15 | Tuedd<br><br>Bl ar fl | Chwartel 14/15 |
|---|---|---|---|---|
| SCA/001: Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd | 1.8 | 6.63 | ⇩ | (18) |
| SCA/002a: Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | 49.5 | 43.5 | ⇩ | (18) |
| SCA/002b: Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | 23.28 | 20.63 | ⇩ | (18) |
| SCA/007: Canran y cleientiaid â chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu ac a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn | 92.2 | 93.6 | ⇧ | (2) |
| SCA/018a: Canran y gofalwyr sy'n gofalu ar ôl oedolion a gafodd gynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion eu hunain yn ystod y flwyddyn | 92.9 | 95.3 | ⇧ | (9) |
| SCA/019: Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion a gwblhawyd lle rheolwyd y risg | 91.92 | 93.18 | ⇧ | (19) |
| SCA/020: Canran y cleientiaid (oedolion) sy'n cael cefnogaeth yn y gymuned yn ystod y flwyddyn | 79.1 | | | Dim yn cael eu casglu mwyach |

Mae'r Dangosyddion Perfformiad ar gyfer Gwasanaethau Oedolion yn dangos newid bychan iawn rhwng 2014/15 a 2015/16. Nid yw'r DP ar gyfer nifer yr oedolion sy'n cael cefnogaeth yn y gymuned yn cael eu casglu bellach yn genedlaethol. O'r 6 DP sy'n weddill, mae un yn y chwartel uchaf ac un arall yn y chwarel canol uchaf - yr unig newid yw dirywiad yn SCA/001: Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd, lle rydym wedi symud o'r chwartel canol uchaf i'r chwarel canol is (o'r 9fed safle yng Nghymru yn 2014/15 i'r 18fed safel yn 2015/16, gweler Tabl 2). O'r 4 DP sydd yn y chwartel is - 18fed, 18fed, 18fed a'r 19eg safle ar draws Cymru - mae dau fodd bynnag wedi gwella o ran perfformiad (SCA/002b: Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth a SCA/019: Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion a gwblhawyd lle rheolwyd y risg).

Tabl 2




Mae'r DP sydd yn y chwartel uchaf (SCA/007: Canran y cleientiaid â chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu ac a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn) yn yr ail safle drwy Gymru gyfan o ran perfformiad, ac wedi cynyddu hefyd o 91.92 i 93.6 rhwng 2014/15 a 2015/16).

# Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi

Mae'r Cyngor yn gweithio i ddod â chymunedau lleol, mentrau cymdeithasol, busnesau a'r sector cyhoeddus at ei gilydd i gytuno a rhoi sylw i flaenoriaethau adfywio. Yn ogystal, anelwn at weithio mewn partneriaeth i ddefnyddio'r buddsoddiad economaidd arfaethedig i wella ansawdd bywyd. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen i ni feddwl yn greadigol, rhannu adnoddau a chydweithio i wella bywydau a chyfleoedd i bobl leol.

Mae'r economi yn fater o bwys i lawer ac mae ein dinasyddion yn ystyried bod creu swyddi yn hollbwysig i ddarparu sylfaen gadarn ar gyfer gwella ansawdd bywyd. Er y cydnabyddir mai'r sector preifat yw prif yrrwr economaidd a chrëwr cyfoeth ar yr Ynys, mae gan y Cyngor rôl o ran sefydlu amgylchedd ar gyfer twf lle gall busnesau lleol dyfu ac ehangu a lle gall mwy o fusnesau newydd sefydlu eu hunain a ffynnu.

Mae'r Rhaglen Ynys Ynni a'r statws Parth Menter a ddynodwyd yn ddiweddarach yn gyfle unwaith mewn cenhedlaeth i greu swyddi newydd sylweddol yn sgil y buddsoddiad arfaethedig a photensial y sector ynni carbon isel i dyfu. Fe ddywedom y buasem yn edrych ar ddatblygu cynlluniau sy'n cynyddu cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc, gwella seilwaith a chefnogi'r gadwyn gyflenwi. Yn ogystal, gwnaethom ddatgan y byddai'r Cyngor hefyd yn parhau i gefnogi a datblygu sectorau allweddol eraill, megis twristiaeth, sy'n gyrru economi'r Ynys.

**Sut gwnaethom ni hyn yn 2015/16?**

| **Ein Haddewid: Gweithio gyda Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i gryfhau pa mor gystadleuol yw economi'r ynys drwy wella seilwaith, argaeledd sgiliau a chefnogi cwmnïau lleol drwy:** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Datblygu 10 prosiect i fanteisio i'r eithaf ar gyfleon adfywio rhanbarthol a lleol<br>• Creu 5 o swyddi newydd, diogelu 10 swydd a chynorthwyo 10 o fusnesau Yng Nghaergybi (newydd neu gyfredol) trwy Gronfa Fuddsoddi Caergybi<br>• Cydweithio gyda'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector i wella cyfleon am swyddi, twf a ffyniant<br>• Manteisio ar gyfleon i ddenu cyllid Ewropeaidd a domestig trwy gyflwyno ceisiadau am gyllid allanol (gan gynnwys Cronfeydd Strwythurol UE 2014-2020 a'r Cynllun Datblygu Gwledig)<br>• Rhoi cymorth, arweiniad a chyngor i 50 o fusnesau ar yr ynys |

| Yr hyn a wnaethom |
|---|
| • Datblygwyd 15 achos busnes / astudiaeth ddichonoldeb er mwyn manteisio ar gyfleon lleol a rhanbarthol<br>• Crëwyd 6 o swyddi newydd, diogelwch 46 o swyddi a chefnogwyd 12 o fusnesau<br>• Mae cydweithio'n mynd rhagddo drwy Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru (BUEGC), rhannu gwybodaeth berthnasol i Gydranddeiliaid yng Ngogledd Cymru, defnyddio System newydd ar gyfer Rheoli Cleientiaid er mwyn sicrhau bod busnesau'n ymwybodol o'r cyfleon ac, yn ogystal, rhannu gwybodaeth drwy'r data-bas Datblygu Economaidd<br>• Cafodd 5 o brosiectau eu cau'n effeithiol yn ystod blwyddyn ariannol 2015/16 (CDG, Safleoedd ac Eiddo, Amgylchedd Arfordirol Ynys Môn, Cronfa Fuddsoddi Leol, SETS). Cyflwynwyd 7 o geisiadau am gyllid i ddarparu prosiectau / ymyriadau yr oedd y gwasanaeth wedi eu blaenoriaethu. Parhau i gefnogi datblygiad prosiectau megis Parc Gwyddoniaeth Menai. Cafodd prosiect Cymdeithasol-Economaidd yr NDA ei reoli a'i weithredu'n effeithiol.<br>• 186 o fusnesau ar yr Ynys wedi derbyn cymorth, arweiniad neu gyngor yn ystod blwyddyn ariannol 2015/16. |

| **Ein Haddewid: Gweithio gyda phartneriaid i hyrwyddo delwedd a chryfderau arbennig Ynys Môn ar gyfer ymwelwyr i hyrwyddo delwedd a chryfderau hynod Ynys Môn;** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Sicrhau cynnydd o 2% (oddeutu 30,000) yn nifer yr ymweliadau gan dwristiaid drwy ymgyrch marchnata ac hysbysebu wedi'i dargedu<br>• Sefydlu 6 o bwyntiau gwybodaeth newydd i dwristiaid mewn aneddiadau allweddol ar yr Ynys<br>• Cynnal Taith Prydain Aviva 'Grand Depart' ar 6 Medi 7 D2/15-16/28.4<br>• Datblygu economi Mordeithiau'r ynys trwy groesawu llongau mordeithio i Borthladd Caergybi<br>• Gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu a hyrwyddo delwedd a chryfderau hynod Ynys Môn<br>• Cynorthwyo a chefnogi pump o ddigwyddiadau twristiaeth lleol<br>• Rheolaeth effeithiol o waith adran forwrol y cyngor |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Er na fu modd cyflawni'r targed o 2% (0.7%), dylid nodi fod nifer yr ymwelwyr wedi cynyddu o 1,568M yn 2013 i 1,579M yn 2014. Yn ychwanegol at hyn, mae 88 o swyddi ychwanegol |

wedi cael eu creu yn y sector twristiaeth rhwng 2013 a 2014. Yn ychwanegol at hyn, gwelwyd gostyngiad mawr yn yr ymgyrch farchnata fyd-eang ar gyfer Gogledd Cymru wedi i'r holl frandiau lleol ddod i ben (cerdded, beicio, golff, ac ati).

- Sefydlwyd 6 o bwyntiau gwybodaeth newydd i Dwristiaid
- Llwyddwyd i gynnal 'Grand Depart' Taith Aviva o gwmpas Prydain o Fiwmares ar 6 Medi 2015
- Glaniodd 24 o longau mordeithio ym Mhorthladd Caergybi yn ystod 2015-16, yn cario cyfanswm o 11,912 o deithwyr
- Trwy'r Cynllun Rheoli Cyrchfan, llwyddwyd i gydweithio gyda sefydliadau megis Cymdeithas Dwristiaeth Ynys Môn, a Phartneriaeth Cyrchfan Môn i hyrwyddo delwedd a nodweddion hynod Ynys Môn
- Rhoddwyd cefnogaeth / cymorth i ddigwyddiadau twristiaeth lleol megis yr Ŵyl Gopr, Gŵyl Bwyd Môr Porthaethwy a Gŵyl Fwyd Biwmares
- Sicrhawyd ein bod yn cydymffurfio gyda gofynion y Côd Diogelwch Arforol ar gyfer Porthladdoedd

**Ein Haddewid: Gweithio gyda phartneriaid i oresgyn cyfyngiadau seilwaith (er enghraifft, lled band eang a thechnolegau symudol) i alluogi datblygiad a buddsoddiad ac i greu swyddi;**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Cynorthwyo Superfast Cymru yn ôl y gofyn gyda marchnata a hyrwyddo y Cynllun Band Eang ar Ynys Môn
- Adeiladu 3 uned busnes newydd yn Llangefni
- Clirio 0.54 hectar o dir yn Llangefni ar gyfer ail-ddatblygu
- Cydweithio gyda Rhwydwaith Ynni Scottish Power i wella isadeiledd trydanol Ynys Môn
- Gweithio gyda Dŵr Cymru i nodi gwelliannau posibl i'r isadeiledd dŵr a charthffosiaeth yn Ynys Môn
- Cydweithio gyda datblygwyr sector preifat i sicrhau bod trigolion yr ynys yn gallu manteisio ar gyfleon lleol a rhanbarthol ar gyfer swyddi, twf a ffyniant
- Rheoli rhaglen cadwyn gyflenwi ar ran Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i sicrhau bod y rhanbarth yn medru manteisio ar gyfleon sy'n codi o'r sector ynni carbon isel

**Yr hyn a wnaethom**

- Buwyd yn cydweithio gyda thîm marchnata Cyflymu Cymru i hyrwyddo manteisio Band Eang

Cyflym i drigolion a busnesau Ynys Môn. Roedd y gweithgareddau'n cynnwys dosbarthu a rhannu gwybodaeth am ddigwyddiadau perthnasol

- Codwyd tair uned fusnes newydd ar safle Pen-yr-Orsedd ar Stad Ddiwydiannol Llangefni
- Cafodd 0.54 hectar o dir yn Llangefni ei glirio ar gyfer ailddatblygu (sef hen safle Hyfforddiant Môn ym Mharc Busnes Bryn Cefni)
- Cynhaliwyd cyfarfodydd yn rheolaidd gyda'r prif gyflenwyr cyfleustodau i nodi / lliniaru / atal cyfyngiadau neu rwystrau i fuddsoddiad yn y dyfodol
- Mae gwaith yn parhau ar yr ymgysylltiad a gychwynnwyd eisoes gyda datblygwyr allweddol yn y sector preifat gan gynnwys Hitachi / Horizon er mwyn sicrhau y defnyddir llafur lleol lle bynnag y mae hynny'n bosibl er budd i drigolion Ynys Môn
- Penodwyd Rheolwr Rhaglen Ranbarthol ar gyfer BUEGC. Cychwynnodd gweithgareddau mewn perthynas â'r 7 Prosiect Rhanbarthol Trawsnewidiol gan gynnwys seilwaith, cymorth i fusnesau a data-basau.

**Ein Haddewid: Ymgymryd â'n cyfrifoldebau cynllunio yn effeithiol mewn perthynas â'r holl brosiectau mawr ar Ynys Môn, gan sicrhau bod yr effeithiau negyddol posibl yn cael eu lleihau i'r eithaf a sicrhau'r budd cymunedol mwyaf posib trwy:**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Sicrhau cyllid digonol ac amserol trwy Gytundebau Perfformiad Cynllunio fel bod datblygwyr yn cyfrannu at brosesau caniatâd cynllunio statudol a weithredir gan y Cyngor
- Sicrhau'r buddiannau economaidd-gymdeithasol mwyaf posib yn sgil datblygiadau mawr trwy'r broses gynllunio statudol
- Cydlynu a gweithredu gweithgareddau Rhaglen Ynys Ynni i gynorthwyo i sicrhau datblygiadau ynni mawr a dad-risgio prosiectau
- Nodi, diffinio a datblygu dyheadau Cyngor Sir Ynys Môn o ran sicrhau gwaddol yn sgil prosiectau ynni mawr (statudol ac anstatudol)
- Parhau i gydweithio gyda'r Adran ar gyfer Ynni a Newid Hinsawdd a Llywodraeth Cymru

**Yr hyn a wnaethom**

- Sicrhau dros £1.4M drwy Gytundebau Perfformiad Cynllunio yn ystod 2015/16 fel y gall datblygwyr gyfrannu tuag at y prosesau statudol yr ymgymerir â hwy mewn perthynas â chaniatâd cynllunio
- Sicrhawyd cyllid digonol ac amser drwy'r Cytundebau Perfformiad Cynllunio. Sicrhawyd cyllid ac adnoddau ar gyfer y Swyddfa Rheoli Prosiect. Casglwyd data gwaelodlin cynhwysfawr i

gefnogi asesiadau o effeithiau Gorsaf Bŵer Niwclear Newydd Horizon a'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â strwythur yr Adroddiad ar yr Effaith yn Lleol. Mae'r datganiad o'r sefyllfa o ran Llety ar gyfer Gweithwyr Adeiladu wrthi'n cael ei adolygu. Wrthi'n cynnal trafodaethau cyn cyflwyno cais gyda datblygwyr ar yr holl faterion cymdeithasol ac economaidd sy'n berthnasol i ddatblygiadau mawr.

- Ymgysylltwyd gyda datblygwyr a chydranddeiliaid allweddol i ddarparu cyngor a chefnogaeth annibynnol drwy Fforwm Strategol y Rhaglen Ynys Ynni a'r Bwrdd Ymgynghorol. Sefydlwyd Grŵp Tasg a Gorffen STEM mewnol i hyrwyddo'r rhaglen STEM ar Ynys Môn. Cefnogwyd y gwaith o briflifo'n effeithiol ffrydiau gwaith y Rhaglen Ynys Ynni sy'n ymwneud ag Iechyd, Cydlyniant a Diogelwch Cymunedol.
- Symudwyd ymlaen gyda'r prosiect ynni adnewyddadwy yng Nghanolfan Hamdden Amlwch.
- Ymgysylltu'n parhau gyda datblygwyr mawr ynghylch Cyfraniadau Budd Cymunedol Gwirfoddol a pharhawyd i gydweithio gyda'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd a chyda Llywodraeth Cymru.

**Ein Haddewid: Gyrru adfywiad cymunedol gan ddatblygu cynlluniau tref a chymuned cyfannol ar gyfer y prif aneddiadau ar yr ynys gan roddi blaenoriaeth i Gaergybi, Llangefni ac Amlwch drwy;**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Sicrhau'r buddiannau lleol mwyaf posib yn sgil prosiectau mawr arfaethedig trwy brosesau a gweithdrefnau anstatudol (gan gynnwys cyfraniadau budd cymunedol gwirfoddol)
- Sicrhau bod Caergybi'n manteisio'n llawn ar yr holl gyfleon Adfywio Economaidd mawr (yn unol â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru) drwy reoli a chydlynu'r Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid
- Denu £150,000 o fuddsoddiad sector preifat i mewn i Gaergybi
- Cefnogi menter Canol Tref Llangefni / Adfywio er mwyn gwella bywiogrwydd a bywiogrwydd economaidd-gymdeithasol y dref yn llwyddiannus; enghreifftiau o fentrau yn cynnwys:
- Datblygu Cynllun Cludiant Gwyrdd ar gyfer Llangefni (gan gynnwys cerdded a beicio);
- Symud ymlaen â phrosiect Ffordd Gyswllt Llangefni – disgwylir penderfyniad ar gais cynllunio yn y Gwanwyn / Haf 2015

**Yr hyn a wnaethom**

- Parhau i ymgysylltu gyda datblygwyr mawr ar Gyfraniadau Budd Cymunedol Gwirfoddol gyda Dogfen Ymagwedd Gyffredin ddrafft yn cael ei pharatoi gyda Pŵer Niwclear Horizon
- Cydlynwyd Rhaglenni Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (VVP) Caergybi a chynhyrchwyd adroddiadau a cheisiadau chwarterol. Goruchwyliwyd y cynnydd a wnaed o ran y themâu Pobl, Lleoedd a Chartrefi.

- Cafodd £169,421 o fuddsoddiad sector preifat ei ddenu i mewn i Gaergybi drwy Gronfa Fuddsoddi Caergybi.

- Mae gwaith yn parhau ar brosiect Adfywio Canol Tref Llangefni gyda nifer o weithgareddau wedi eu cynnal yng Nghanol y Dref. Mae cynllun Cludiant Gwyrdd yn anelu at wella mynediad i’r dref i gerddwyr a beicwyr gyda golwg ar sicrhau cyllid. Cymeradwywyd y cais cynllunio ar gyfer y ffordd gyswllt, cafwyd y cyllid ac mae’r contractwyr ar y safle.

Nid oes unrhyw Ddangosyddion Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer Adfywio Economaidd a Chymunedol

# Gwella Addysg, Sgiliau a Moderneiddio ein Hysgolion

Mae'r Cyngor eisiau i bob plentyn, pob person ifanc, pob dysgwr, lle bynnag y maent, waeth beth fo'u cefndir a'u hamgylchiadau gyflawni eu potensial llawn a bod yn barod i chwarae rôl weithredol fel dinasyddion cyfrifol ac eiriolwyr cymunedol yn y dyfodol. Er mwyn gwireddu hyn, ac i gyfrannu at weledigaeth uchelgeisiol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg yng Nghymru, mae angen i ni godi safon addysg yn Ynys Môn. Yn hyn o beth, derbynnir mai un o'r blaenoriaethau i'r Cyngor yw herio syniadau cyfredol, annog arloesed a datblygu seilwaith ysgolion a fydd yn codi safonau addysgu a chyrhaeddiad, lleihau lleoedd gwag, gwella canlyniadau addysgol i blant a phobl ifanc a bod yn ymatebol yn gymdeithasol-economaidd i'n rhaglen gwella cymunedol. Wrth wneud hyn rydym wedi parhau i ymgynghori ac ymgysylltu'n eang â rhieni a'r gymuned ehangach.

**Sut gwnaethom ni hyn yn 2015/16?**

| **Ein Haddewid: Parhau i godi safonau o ran cyrhaeddiad addysgol a phresenoldeb drwy** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Gwneud defnydd priodol o'r holl ddata sydd ar gael i gytuno targedau heriol ar gyfer yr holl ysgolion cynradd ac uwchradd mewn perthynas â chyrhaeddiad yn y Cyfnod Sylfaen, lefelau disgwyliedig a lefelau disgwyliedig + 1 yn y Cyfnod Sylfaen, CA2, CA3 a CA4;<br>• Defnyddio setiau data craidd a'r model categoreiddio cenedlaethol i herio perfformiad ysgolion unigol;<br>• Gweithredu'r Cytundeb Partneriaeth diwygiedig i dargedu ysgolion sydd angen cymorth a monitro ynghyd â'r ysgolion hynny sydd angen cefnogaeth sylweddol. Parhau i ddatblygu rôl Aelodau Etholedig o ran adolygu cynnydd;<br>• Defnyddio proses uwchgyfeirio gadarn i herio ysgolion nad ydynt yn gwneud cynnydd digonol, a defnydd o ymarferwyr ardderchog (lleol a rhanbarthol) i wneud gwelliannau trwy'r fenter hunanwella (ysgol i ysgol) a chymorth gan Ymgynghorwyr Her i herio staff a llywodraethwyr ysgol;<br>• Gwreiddio disgwyliadau'r Awdurdodau Lleol fod ysgolion yn gweithredu cynlluniau sydd wedi eu targedu i gefnogi'r holl ddisgyblion i gyrraedd eu potensial a sicrhau trefniadau cadarn ar gyfer safoni a chymedroli asesiadau yn y Cyfnod Sylfaen a CA2 a CA3. |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Gweithio mewn partneriaeth gyda GwE i herio'r holl ysgolion i sicrhau bod gweithdrefnau cadarn ar gyfer gosod targedau wedi eu sefydlu er mwyn lleihau'r bwlch rhwng targedau a pherfformiad.<br>• Sicrhau gwelliant o ran y cydweithio rhwng yr ALl a GwE i dargedu ysgolion a oedd yn peri pryder. |

- Cefnogaeth benodol gan yr Ymgynghorydd Her, a gwell cyfathrebu a chydweithio rhwng yr awdurdod lleol a GwE wedi arwain at broses effeithiol i sgriwtineiddio ysgolion ar bob lefel a'u dal i gyfrif.
- Disgwyliad yr ALl i'r ysgolion wella perfformiad pob disgybl yn golygu bod yr ysgolion yn fwy cadarn wrth nodi a rhoi darpariaeth wedi'i thargedu er mwyn cefnogi cyrhaeddiad unigolion.

**Ein Haddewid: Datblygu a chytuno ar strategaeth moderneiddio ysgolion i arwain penderfyniadau tymor hir a fydd yn cynnwys agor ein hysgol anghenion arbennig - Canolfan y Bont a darparu 2 ysgol gynradd ardal newydd drwy:**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Cychwyn gwaith adeiladu ar ysgol newydd yn ardal y Llannau ac un yng Nghaergybi ar yr amod y ceir y caniatadau a'r gymeradwyaeth angenrheidiol
- Sicrhau caniatâd a chymeradwyaeth ar gyfer rhaglen moderneiddio ardal Rhosyr erbyn Ebrill 2016 (Brynsiencyn / Parc y Bont / Dwyran / Niwbwrch / Llangaffo / Bodorgan)
- Cychwyn yr ymgynghoriad ar gyfer ardal Seiriol (ysgolion Biwmares a Llangoed, gan gynnwys pentrefi Llanfaes a Llanddona).

**Yr hyn a wnaethom**

- Cychwynnodd y gwaith adeiladu yng Nghaergybi yn Ionawr 2016 a disgwylir y bydd yr ysgol yn agor ym mis Medi 2017.
- Oherwydd yr olion archeolegol a ganfuwyd ar y safle, ni fu modd cychwyn ar y gwaith adeiladu ar Ysgol y Llannau hyd fis mai 2016 ond serch hynny, dylai'r ysgol agor ym mis Medi 2017.
- Cafwyd caniatâd y Pwyllgor Gwaith ym mis Hydref 2015 i adeiladu un ysgol newydd ac adnewyddu 2 arall.
- Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith ym mis Mehefin 2016 i ddal y broses ymgynghori ar gyfer ardal Seiriol yn ôl tan ar ôl mis Ebrill 2019 a bydd proses ymgynghori yn cychwyn yn Llangefni yn lle hynny.

**Ein Haddewid: Mabwysiadu a chyflwyno strategaeth sgiliau rhanbarthol sy'n fodd i Ynys Môn a Gogledd Cymru wella sgiliau'r gweithlu ac alinio eu hunain gyda chyfleoedd yn y dyfodol drwy:**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Datblygu cydweithrediad pellach rhwng ysgolion Môn a rhaglen Ynys Ynni i sicrhau'r amgylchedd gorau posib ar gyfer dysgu ac addysgu o safon uchel ar gyfer pynciau STEM (Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg), a sgiliau cysylltiedig

| |
|---|
| eraill ar gyfer cyflogaeth yng nghyd-destun datblygiadau yn y dyfodol gyda'r rhaglen Ynys Ynni a'r Bwrdd Uchelgais Sgiliau Rhanbarthol<br>• Datblygu Consortiwm Dysgu Ôl-16 Gwynedd a Môn ymhellach<br>• Datblygu'r defnydd o ddata perfformiad a thracio ôl-16 effeithiol i nodi arferion gorau a gwella perfformiad ar lefel Uwch a lefel Uwch Gyfrannol.<br>• Datblygu defnydd mwy effeithiol o drefniadau e-ddysgu ar lefel Uwch a lefel Uwch Gyfrannol o fewn y Bartneriaeth Ddysgu<br>• Parhau i gydweithio gyda Chwmni Prentis Menai i sicrhau bod gan bobl ifanc Ynys Môn gyfleon i gael mynediad i hyfforddiant ardderchog sy'n ymwneud â gwaith a phrentisiaethau<br>• Cynnal adolygiad o'r Gwasanaeth Ieuenctid i gwrdd â galwadau'r fframwaith Ymgysylltu â Phobl Ifanc a sicrhau gwasanaeth ieuenctid cynaliadwy ac effeithlon ar gyfer Ynys Môn. |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Cynhaliwyd cyfarfodydd o'r grŵp strategol i nodi Cylch Gorchwyl a meysydd i'w datblygu a chyfarfu Is-grŵp i nodi swyddogaeth allweddol ar gyfer y swydd sector uwchradd a chynradd i hyrwyddo blaenoriaethau STEM ac Ynys Ynni.<br>• Mae Consortiwm Ôl-16 Ynys Môn a Gwynedd yn parhau i ddatblygu meysydd astudiaeth cydweithredol.<br>• Mae data perfformiad yn cael ei ddatblygu'n unol â newidiadau cenedlaethol i ddangosyddion perfformiad ar lefel TGAU a mireinio'r dangosyddion ar gyfer lefel A ac AS.<br>• Ychydig iawn o waith datblygu pellach fu modd ei wneud mewn perthynas ag e-ddysgu yn 2015-2016 (un cwrs).<br>• Parhau i gydweithio gyda CLlM a Chwmni Prentis Menai i hyrwyddo cyfleoedd i ddisgyblion Ynys Môn.<br>• Mae'r opsiynau ar gyfer yr adolygiad o'r Gwasanaeth Ieuenctid yn mynd rhagddynt yn unol â'r amserlen a byddant yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Tachwedd 2016 fel y gall wneud penderfyniad ar yr opsiwn a ffefrir a bydd yn weithredol erbyn Ebrill 2017. |

## Gwybodaeth Perfformiad ar gyfer Addysg


Caiff canlyniadau'r Dangosyddion Perfformiad (DP) perthnasol ar gyfer Addysg eu hamlinellu yn Nhabl 5 (isod) a dadansoddir y canlyniadau ar gyfer 2014/15 (Blwyddyn Academaidd 2013/14) yn erbyn y flwyddyn flaenorol a safle pob DP yn y chwarteli.

| **Tabl 3**<br><br>Disgrifiad DP | 2014/15 | 2015/16 | Tueddiad Blwyddyn ar ôl Blwyddyn | Chwartel 15/16<br><br>(Safle ar lefel Cymru gyfan) |
|---|---|---|---|---|
| EDU/002i: Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol); ac sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd | 0.3 | 0.0 | ⇧ | (1) |
| EDU/002ii: Canran y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleol sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd | 14.3 | 0.0 | ⇧ | (1) |
| EDU/003: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon | 87.8 | 91.8 | ⇧ | (3) |
| EDU/004: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon | 83.6 | 84.5 | ⇧ | (9) |
| EDU/006ii: Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 | 67.2 | 64.8 | ⇩ | (3) |
| EDU/011: Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol | 598.3 | 571.7 | ⇩ | |


| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| EDU/015a: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau gan gynnwys eithriadau | 38.5 | 32.5 | ⇩ | (21) |
| EDU/015b: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau b) heb gynnwys eithriadau | 84.6 | 75.0 | ⇩ | (21) |
| EDU/016a: Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | 94.6 | 94.7 | ⇧ | (17) |
| EDU/016b: Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | 93.4 | 93.5 | ⇧ | (16) |
| EDU/017: Canran y disgyblion 15 oed ar y 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg | 53.8 | 56.9 | ⇧ | (12) |

O ran DP Addysg, mae darlun cyffredinol yn un positif iawn ac yn dangos gwelliant cyffredinol yn 7 o'r 11 DP perthnasol rhwng 2013/14 a 2014/15. Yn ychwanegol at hyn, mae 5 o'n DP bellach yn y chwarteli uchaf, sy'n welliant sylweddol rhwng 2014/15 a 2015/16. Er enghraifft, mae EDU/002i: Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol); ac sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd, wedi symud o'r chwartel gwaelod i'r chwartel uchaf i fod y gorau yng Nghymru yn 2015/16 (Tabl 4). Rydym hefyd yn falch fod EDU/011: Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol yn golygu ein bod yn dal gafael yn ein lle ymysg y chwe awdurdod yng Nghymru sydd ar frig y tabl (Tabl 5).

Tabl 4





Tabl 5




Fel Awdurdod Lleol bychan o ran maint y boblogaeth yn gyffredinol (o gymharu â'r rhan fwyaf o ardaloedd awdurdodau lleol yng Nghymru), rydym yn ymwybodol y gall gwaelodlin bychan a ffigyrau craidd ar gyfer rhan o'n DP arwain at amrywiadau gweddol fawr.

Gwelwyd dirywiad pellach yn y DP sy'n dangos canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a gyhoeddwyd o fewn 26 wythnos heb gynnwys eithriadau (Tabl 6), o 84.6% yn 2014/15 I 75% yn 2015/16.

Tabl 6




Mae presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd yn enghraifft arall o amrywiadau bychan yn achosi newidiadau reit ddramatig yn y chwarteli – lle mae symud o 94.6% yn 2014/15 I 94.7% yn 2015/16 yn golygu symud o'r chwartel canol isaf i'r chwartel isaf er gwaethaf gwelliant bychan yn y perfformiad  yn y DP ei hun (EDU/016a a EDU/16b).

# Cynyddu ein Opsiynau Tai a Lleihau Tlodi

Mae cael lle fforddiadwy safonol i fyw yn bwysig i sicrhau bod ein holl ddinasyddion yn byw mewn cartref diogel ac addas sy'n eu galluogi i gael y budd mwyaf ar gyfer mynediad i swyddi, cyfleusterau hamdden ac addysg a'u galluogi i gael y manteision cymdeithasol ac economaidd y maent yn dyheu amdanynt ac yn eu haeddu. Gyda chwmnïau ynni mawr byd-eang yn gweithio tuag at fuddsoddi'n sylweddol yn Ynys Môn, byddwn yn parhau i weithio gyda landlordiaid yn y sector cymdeithasol / preifat i sicrhau'r nifer uchaf posib o gartrefi o safon ar gyfer contractwyr. Dywedwyd y byddwn hefyd yn parhau â'n hymdrechion i ddatblygu'r farchnad dai ar gyfer pobl leol gyda phwyslais arbennig yn cael ei roi ar weithio gyda phartneriaid i gynllunio, datblygu a sefydlu mwy o opsiynau tai fforddiadwy ar gyfer ein dinasyddion.

**Sut y byddwn yn gwneud hyn yn 2015/16?**

| **Ein Haddewid: Gweithio gyda phartneriaid i foderneiddio a chydlynu'r gwasanaeth cyngor budd-daliadau er mwyn gwella annibyniaeth a gweithio tuag at ein strategaeth gwrthdlodi a lliniaru effeithiau diwygio lles drwy** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Sefydlu cysylltiadau cryfach rhwng rhaglenni gwrthdlodi, er enghraifft Cymunedau'n Gyntaf Môn, Teuluoedd yn Gyntaf, a Dechrau'n Deg) trwy Gynllun Peilot ar gyfer Fframwaith Canlyniadau Cyffredin a sicrhau'r cyfleon mwyaf posib ar gyfer buddion cymunedol rhwng Cymunedau'n Gyntaf Môn, Lifft a'r Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid<br>• Rhoi gwasanaethau cynghori a chymorth i gynorthwyo aelwydydd i ddiogelu ac uchafu incwm<br>• Rhoi taliadau tai dewisol i aelwydydd a effeithir gan fesurau Diwygio Lles<br>• Arwain a chefnogi gweithrediad y Cynllun Gweithredu Corfforaethol ar gyfer Diwygio Lles gyda'r nod o ostwng y tebygolrwydd y bydd trigolion yr Ynys yn dioddef tlodi a digartrefedd<br>• Cefnogi a gweithredu'r trefniadau Credyd Cynhwysol trwy gynnig cymorth i hawlwyr newydd<br>• Dod o hyd i ffyrdd o oresgyn pryderon landlordiaid ynghylch materion Diwygio Lles yn arbennig mewn perthynas â Budd-dal Tai.<br>• Rhoddi mwy o bwyslais ar atal digartrefedd |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| |

- Parhau i gefnogi gwaith rhaglenni ymyrraeth ataliol megis Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg a hyrwyddo cyswllt agosach gyda rhaglenni eraill i fynd i'r afael â thlodi, sef Cymunedau'n Gyntaf a Chefnogi Pobl. Cymerodd yr Awdurdod ran – yr unig un yng Ngogledd Cymru – mewn cynllun peilot Fframwaith Canlyniadau Cyffredin dan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru a bydd y gwersi a ddysgwyd o hyn o gymorth i yrru'r cynllun gwaith ar gyfer 2016-17 er mwyn gweithio'n agosach, mynd i'r afael â thlodi a thargedu adnoddau'n well mewn rhaglenni ymyrraeth ataliol gyda phlant a theuluoedd.

- Cafwyd llwyddiant mawr o ran cael pobl i mewn i waith, lleoliadau hyfforddi a gwirfoddoli drwy gyfuniad o LIFT, Communities 4 Work, Trac a gwaith craidd Cymunedau'n Gyntaf.

- Mae newidiadau yn sgil Diwygio Lles yn golygu bod raid i bobl ar incwm isel ac / neu fudd-daliadau reoli eu harian eu hunain yn well er mwyn sicrhau eu bod yn gallu talu eu biliau a chwrdd â'u hymrwymiadau ac mae Swyddogion wedi cael eu hyfforddi i ddarparu'r cyngor cychwynnol i gynorthwyo'r rheini sy'n cael anhawster i gynnal eu tenantiaethau a thalu biliau pwysig a'u cyfeirio at asiantaethau mwy arbenigol os oes angen. Aethom ati i wahodd tendrau er mwyn dod o hyd i asiantaeth bartner a fedrai ddarparu cefnogaeth gan weithiwr achos arbenigol yn y maes dyledion i'r Cyngor a chychwynnodd y swyddog prosiect yn y swydd yn Ebrill 2016.

- Cefnogwyd mentrau banciau bwyd gan gynnwys gosod biniau casglu ym mhrif adeilad y Cyngor er mwyn annog staff ac ymwelwyr i gyfrannu. Rydym wedi gweithio gyda'r Undeb Credyd i annog pobl na fedr agor cyfrifon banc i ymuno a chyda Uned Benthyca Arian yn Anghyfreithlon Cymru sy'n annog pobl i ddweud wrthynt am fenthycwyr diegwyddor ('loan sharks').

- Rydym wedi cydlynu ymgyrch i annog pobl i fanteisio ar ginio am ddim yn yr ysgolion drwy weithio gydag ysgolion a rhieni i ddwyn sylw nid yn unig at y buddion ariannol i deuluoedd ond hefyd y gwerth maethol.

- Rydym wedi parhau i ddelio gyda nifer sylweddol o geisiadau am Daliadau Tai Dewisol (TTD) gan Denantiaid sy'n wynebu gostyngiad yn eu Budd-dal Tai, yn enwedig yn sgil y Dreth Ystafell Wely. Gyda'r gostyngiad yn y gyllideb TTD, bydd llai o arian ar gyfer argyfyngau, felly bydd raid cyfeirio pobl a rheoli arian yn well er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol. Mae ein huned fudd-daliadau mewnol wedi helpu mwy o bobl nag erioed eleni i gael yr arian sy'n ddyledus iddynt - a bydd y rhan fwyaf ohono'n cael ei wario yn yr economi leol.

- Wedi lansio gwefan newydd ar fudd-daliadau ac wedi prynu 8 o gabanau gwybodaeth sydd wedi eu lleoli ar hyd a lled yr Ynys.

- Bydd polisi a chynllun gweithredu newydd ar gyfer mynd i'r afael â thlodi'n cael ei ddatblygu yn ystod 2016-17.

- Rydym wedi codi ymwybyddiaeth o Ddiwygio Lles, yn arbennig lledaeniad Credyd Cynhwysol sy'n cael effaith ar bobl sy'n hawlio Budd-dal Tai ac wedi ymgysylltu gyda phartneriaid er mwyn sicrhau bod hawlwyr a landlordiaid yn cael eu cefnogi drwy'r broses ymgeisio. Daeth Credyd Cynhwysol yn 'fyw' yn Ynys Môn ym mis Medi 2015 ac ar hyn o bryd, mae 17 o bobl yn ei hawlio. Bydd y galw am gymorth ac arweiniad yn cynyddu yn ystod y cyfnod nesaf pan fydd

Credyd Cynhwysol yn cael ei ymestyn i bawb sy'n derbyn 6 o fudd-daliadau allweddol.

- Rydym wedi hyfforddi staff i helpu dinasyddion sydd angen cymorth i chwilio am waith, cyflwyno ceisiadau am fudd-daliadau ar-lein, cefnogaeth i reoli eu harian a chymorthfeydd cynhwysiad digidol fel rhan o gytundeb a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau. Rydym hefyd wedi gweithio gyda phartneriaid megis CAB a Nyth ar amrediad o fentrau tlodi tanwydd mewn cymunedau gwledig.

- Gan weithio gyda Landlordiaid y Sector Rhentu Preifat a Thenantiaid, sefydlwyd partneriaeth gyda Chydweithredfa Cymru fel rhan o'r Prosiect, *Eich Arian, Eich Cartref* i'w cefnogi a chodi ymwybyddiaeth o'r cynlluniau anogaeth sydd ar gael (e.e. talu Budd-dal Tai yn uniongyrchol i Landlordiaid tenantiaid bregus). Rhoddwyd cyflwyniad hefyd gan y Swyddog Cynhwysiad Ariannol i Fforwm Landlordiaid Ynys Môn a fynychwyd gan fwy na 150 o landlordiaid. Arweiniodd hyn at nifer o gyfeiriadau ychwanegol.

**Ein Haddewid:Cynyddu'r opsiynau o ran tai fforddiadwy sydd ar gael ar hyd a lled yr ynys a dod â chartrefi gwag yn ôl i ddefnydd**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Cwblhau 24 o unedau un/dwy ystafell wely yn cael ei ariannu drwy'r grant Cartrefi Bychan
- Cwblhau 34 o Unedau Tai drwy Gynllun Grant Tai Cymdeithasol a Grant Cyllid Tai 12 D2/15-16/28.4
- Prynu 10 o unedau tai Cyngor ychwanegol
- Dod â 60 eiddo a fu'n wag yn y tymor hir yn ôl i ddefnydd

**Yr hyn a wnaethom**

- Gyda'n partneriaid, bu modd darparu 40 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol a hynny drwy gyfuniad o grantiau gan Lywodraeth Cymru [Grant Tai Cymdeithasol, Grant Cartrefi Bychan, Grant Cyllido Tai a chyllid o'r Rhaglen Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid] a chyllid a drefnwyd gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

- Am y tro cyntaf mewn 30 o flynyddoedd, prynodd y Cyngor 9 o Dai Cyngor a brynwyd dan y Cynllun Hawl i Brynu ac a oedd wedi bod yn wag am gyfnod hir.

- Drwy gyfuniad o gyngor, anogaeth a chymorth ariannol a gwaith gorfodaeth, daeth y Cyngor ag 86 o eiddo ychwanegol yn ôl i ddefnydd fel cartrefi yr oedd angen dybryd amdanynt ar gyfer teuluoedd.

| Ein Haddewid: Archwilio opsiynau i gefnogi pobl ifanc i gael i mewn i'r farchnad dai trwy |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Cynorthwyo 8 o aelwydydd drwy gynllun Prynu Cartref Ynys Môn |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Cynorthwywyd 6 o aelwydydd i brynu eu cartrefi cyntaf drwy ein cynllun Prynu Cartref Ynys Môn a weinyddir gan Grŵp Cynefin. Hefyd, fe welsom gynnydd yn nifer y ceisiadau ar y gofrestr tai fforddiadwy, Tai Teg. |

| Ein Haddewid: Gweithio gyda phartneriaid i gefnogi cyfleoedd prentisiaeth i bobl ifanc drwy |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Creu 10 o gyfleon ar gyfer swyddi / prentisiaethau trwy adeiladu cynlluniau tai fforddiadwy<br>• Creu cyfleon ar gyfer swyddi / prentisiaethau drwy ein cynllun cyfalaf tai Cyngor, yn buddsoddi dros £9.8 miliwn yn ystod 2015-2016 ar gynnal a chadw cynlluniedig, rheoli perygl tân, gwaith gwres canolog, gwaith amgylcheddol ac ailfodelu eiddo presennol. |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Parhawyd i wella a moderneiddio cartrefi Tenantiaid y Cyngor drwy fuddsoddi dros £6.5m mewn gwaith cyfalaf. Dengys tystiolaeth fod buddsoddiad o'r fath yn gwella iechyd, sefyllfa economaidd, cyrhaeddiad addysgol, rhagolygon cyflogaeth, rhagolygon cymdeithasol ac economaidd yr aelwydydd a'r cymunedau fel ei gilydd. Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl heb y berthynas weithio agos sydd gennym gyda Thenantiaid, Llais Tenantiaid a Swyddogion Môn, darpar Denantiaid o gofrestr dai gyffredin y Cyngor ar gyfer tai cymdeithasol, Aelodau Etholedig Lleol, partneriaid a Gwasanaethau eraill ar draws y Cyngor.<br>• Drwy adeiladu cynlluniau tai fforddiadwy, crëwyd 3 o gyfleon hyfforddiant a 4 swydd. Drwy waith ar y cynllun cyfalaf ar gyfer Tai Cyngor, crewyd 6 o brentisiaethau ac 8 swydd. |

| Ein Haddewid: Cefnogi'r rhai sydd mewn perygl o fod yn ddigartref ac sydd yn ddigartref i ddod o hyd i gartrefi parhaol drwy: |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Cael 10 eiddo ychwanegol gan landlordiaid Preifat bob chwarter drwy ddefnyddio pecyn cymhelliant Landlord Ynys Môn a sefydlu data-bas cynhwysfawr o landlordiaid sy'n gweithredu ar yr ynys.<br>• Cynyddu'r nifer o landlordiaid sydd ar ddata-bas Gwasanaethau Tai Ynys Môn gan o |

- leiaf 20 y chwarter
- Rhoi Caniatâd Cynllunio ar gyfer 20 o gartrefi fforddiadwy newydd

**Yr hyn a wnaethom**

- Mae atal digartrefedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i'r Cyngor ac mae Tîm Opsiynau Tai newydd wedi cael ei sefydlu sy'n darparu gwasanaeth mwy effeithlon ac eisoes, mae wedi cael llwyddiant mawr o ran atal digartrefedd. Mae'r Tîm wedi bod wrthi'n datblygu mwy o gynlluniau anogaeth i bobl leol gael mynediad i dai fforddiadwy i'w rhentu yn y sector rhent preifat - gyda'r posibilrwydd y bydd hyn yn atal aelwydydd a all fod yn ddigartref rhag bod yn ddigartref yn dilyn Deddf Tai (Cymru) 2014. Mae nifer o gynlluniau anogaeth i landlordiaid wedi cael eu datblygu megis cynlluniau rhent ymlaen llawn a bondiau di-arian a chyflwyno cymorth tai ar lefel isel i denantiaid bregus.
- Erbyn diwedd chwarter 2, 2015-16, roedd cyfanswm o 45 o landlordiaid ychwanegol wedi cael eu recriwtio i'r data-bas a byddwn yn parhau i weithio gyda'r Landlordiaid yn y Sector Preifat drwy'r Fforwm Landlordiaid Sector Preifat a thrwy'r gofyniad statudol i gofrestr gyda Rhentu Doeth Cymru


## Gwybodaeth Perfformiad ar gyfer Tai

Gweler y canlyniadau ar gyfer y Dangosyddion Perfformiad (DP) perthnasol ar gyfer Tai yn Nhabl 7 (isod) a cheir dadansoddiad o'r canlyniad ar gyfer 2015/16 yn erbyn y flwyddyn flaenorol a safle pob DP yn y chwarteli.


| **Tabl 7**<br>Disgrifiad o'r DP | 2014/15 | | Tuedd bl ar fl | Chwartel 15/16<br>('Ranc' Cymru Gyfan) |
|---|---|---|---|---|
| PSR/002: Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl | 229 | 239 | ⇩ | (12) |
| PSR/004: Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | 13.15 | 10.98 | ⇩ | (2) |
| PLA/006b: Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn | 39 | | | **Dim yn cael eu casglu bellach gan LlC** |

Bellach, dim ond dau o DP y gellir eu cymharu'n uniongyrchol sydd ar gael ar gyfer tai ac mae'r ddau'n gysylltiedig ag Adnewyddu Tai yn y Sector Preifat. Rydym yn y chwartel canol uchaf ac o gwmpas cyfartaledd Cymru yn achos y naill (PSR/004) ac wedi llithro o'r chwartel canol uchaf i'r chwartel canol isaf yn achos y llall (PSR/002) a gwelwyd dirywiad bychan yn eu perfformiad o 2014/15 (Tabl 8).

**Tabl 8**





**Tabl 9**




Er mai DP Cynllunio yn hytrach na Thai yw hwn (Tabl 10), mae'n ymwneud â'r amcan yn y cynllun corfforaethol i gyflenwi tai fforddiadwy ac yn dangos ein bod yn y chwartel uchaf, ac wedi symud o'r 11fed safle i'r 6ed safle rhwng 2014/15 a 2015/16.

**Tabl 10**


PLA/006(b): Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn, 2015-16
120
100
80
60
40
20
0
Gwynedd
Caerdydd
Sir Ddinbych
Bro Morgannwg
Sir Benfro
Caerffili
Torfaen
Ynys Môn
Conwy
Abertawe
Gogledd Cymru
De-Ddwyrain Cymru
Merthyr Tudful
Cymru
Castell-nedd Port Talbot
Blaenau Gwent
Pen-y-bont ar Ogwr
Wrecsam
De-Orllewin Cymru
Rhondda Cynon Taf
Casnewydd
Sir Fynwy
Powys
Sir y Fflint
Sir Ceredigion
Sir Gaerfyrddin
Chwarter uchaf
Chwarter uwch-ganolig
Chwarter is-ganolig
Chwarter isaf
Cymru
Gogledd Cymru
De-Orllewin Cymru
De-Ddwyrain Cymru
Ynys Môn

# Trawsnewid ein Darpariaeth Hamdden a Llyfrgelloedd

Rydym wedi cydnabod fod  cyfleusterau chwaraeon a hamdden yn chwarae rhan sylweddol yn iechyd y gymuned ac o ran gwneud pobl yn fwy hunan-hyderus. Rydym yn gweithio tuag at fabwysiadu ymagwedd fwy integredig o ran materion lles yn y dyfodol a fydd yn fodd i adolygu ac ailddiffinio  rôl chwaraeon a hamdden.  Wrth i rôl y gymuned a grwpiau eraill gynyddu o ran darpariaeth, byddwn yn sicrhau bod yr hyn yr ydym yn ei gynnig o ran hamdden yn addas i'r pwrpas ac yn sicrhau'r gwerth gorau posibl am arian wrth i ni geisio gwella iechyd a lles ein dinasyddion.

Nodwyd ein bod hefyd yn  awyddus i gadw ein lle a'n presenoldeb yng nghalon ein cymunedau drwy sicrhau bod ein llyfrgelloedd yn gweithio mewn partneriaeth a rhannu adeiladau, er mwyn sicrhau mynediad symlach, gwell a di-dor i bobl leol  i'r wybodaeth a'r gwasanaethau sydd eu hangen arnynt.

**Sut gwnaethom ni hyn yn 2015/16?**

| **Ein Haddewid: Datblygu a gweithredu strategaeth hamdden ar gyfer y tymor canol i arwain penderfyniadau a lleihau'r angen i'r Cyngor fuddsoddi yn ystod oes y cynllun hwn drwy** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Weithredu'r prosiectau allweddol a amlinellir yn y Cynllun Hamdden ar gyfer 2014- 2017<br>• Cynyddu'r niferoedd sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yn ein Canolfannau Hamdden<br>• Buddsoddi mewn cyfleusterau mwy hyblyg ac addas i'r pwrpas ar gyfer y dyfodol mewn ymateb i anghenion y cwsmer sy'n newid<br>• Trosglwyddo cyfleusterau awyr agored yng Nghaergybi i sefydliadau rheoli eraill<br>• Datblygu a gweithredu Rhaglen Wella ar gyfer Gofal Cwsmer yn y maes Hamdden<br>• Darparu cymysgedd o weithgareddau allgyrraedd i gynyddu presenoldeb a gwella cyfranogiad |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Sefydlu swydd Rheolwr Hamdden Masnachol sydd wedi'i benodi ers 1 Gorffennaf 2015<br>• Gosod Meddalwedd Chip and Pin a Dadansoddiad Ystadegol yn 2015-16. Mae Porth i Rieni wedi cael ei sefydlu ers mis Ionawr 2016 sy'n golygu y gall rhieni yn awr dracio ar-lein, gynnydd eu plant mewn gwersi nofio<br>• Defnyddiwyd buddsoddiad cyfalaf i atgyweirio a moderneiddio cyfleusterau (neuadd chwaraeon, ystafelloedd newid y pyllau nofio a'r ystafell ffitrwydd) er mwyn mynd i'r afael â'r canfyddiadau negyddol a chwrdd â disgwyliadau a galwadau cwsmeriaid<br>• Rhaglen Gwella Gofal Cwsmer wedi ei sefydlu ac yn cysylltu i mewn i'r cynllun Marchnata newydd<br>• Cynhaliwyd adolygiad pellach o'r gwasanaeth Datblygu Chwaraeon yn dilyn cadarnhad o flaenoriaethau cyllido Chwaraeon Cymru ar gyfer 2016-17 |

| |
|---|
| • Gwaith wedi mynd rhagddo ar allanoli'r pum cyfleuster awyr agored yn ardal Caergybi a throsglwyddwyd Cwrs Golff a Llain Ymarfer Llangefni i'r trydydd sector yn 2015/16<br>• Gwnaed gwaith gwella cyfalaf yng Nghanolfannau Hamdden Caergybi, Llangefni ac Amlwch a oedd yn cynnwys estyniad i'r ystafell ffitrwydd ym Mhlas Arthur, datblygu caffi yng Nghanolfan Hamdden Amlwch, datblygu'r ystafell amlbwrpas yn ystafell codi pwysau yn Amlwch, gwella cyfleusterau newid y pwll nofio ac arwynebedd y brif neuadd yng Nghanolfan Hamdden Caergybi<br>• Symudwyd ymlaen gyda'r gwaith o allanoli'r pum cyfleuster awyr agored yn ardal Caergybi<br>• Mabwysiadwyd a gweithredwyd Rhaglen newydd ar gyfer Gwella Gofal Cwsmer yn y Gwasanaeth Hamdden a oedd yn cynyddu'r ffocws ar foddhad cwsmer ac ansawdd y profiad pan yn ymweld â Chanolfannau Hamdden Ynys Môn neu'n cymryd rhan mewn gweithgareddau ynddynt. Mae staff Hamdden hefyd wedi derbyn hyfforddiant ar faterion Gofal Cwsmer ac mae'r agwedd cyfryngau cymdeithasol wedi cael ei datblygu ymhellach er mwyn cynyddu ymgysylltiad gyda chwsmeriaid<br>• Cymerodd 132,000 o bobl ifanc ran mewn rhaglenni datblygu chwaraeon / gweithgareddau allgymorth yn ystod 2015/16. Mae gwaith ardderchog yn parhau mewn ysgolion ac mae'r cynllun Llysgenhadon Ifanc yn ffynnu. Dangosodd canlyniadau'r Arolwg Chwaraeon Ysgolion a ryddhawyd yn ystod haf 2015 fod ffigyrau cyfranogiad ar gyfer pobl ifanc wedi codi o 38% yn 2011 i 50% yn 2015 |

| **Ein Haddewid: Cydgysylltu ein cyfleusterau neuaddau chwaraeon dan do gyda'n darpariaeth yn yr ysgolion uwchradd a thrafod gyda darparwyr allanol cymunedol i redeg y cyfleusterau gyda'r nos, ar benwythnosau ac yn ystod gwyliau Ysgol drwy** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Mabwysiadu ymagwedd fwy masnachol tuag at reoli cyfleusterau a darparu gweithgareddau yng Nghanolfannau Hamdden Amlwch, Caergybi, Llangefni a Phorthaethwy |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Wedi cyflwyno opsiynau Debyd Uniongyrchol newydd ac ychwanegol i gwsmeriaid. Wedi gwella cyfleusterau yn y Canolfannau Hamdden gan gynnig pecynnau debyd uniongyrchol 'gwerth am arian'. Mae newidiadau o ran oriau agor a mwy o opsiynau o ran dosbarthiadau ffitrwydd yn golygu bod y Canolfannau Hamdden yn awr yn ymateb i ofynion aelodau gyda chynnydd sylweddol rhwng Ebrill 2015 a Mawrth 2016 yn yr incwm a gafwyd o Ddebyd Uniongyrchol |

| **Ein Haddewid: Annog datblygu a chefnogi'r ddarpariaeth o weithgareddau chwaraeon a hamdden yn y cymunedau, gan y cymunedau** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |

| |
|---|
| • Llwyddo i drosglwyddo Cwrs Golff a Llain Ymarfer Llangefni i sefydliad rheoli arall (tan Ebrill 2017) |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Trosglwyddwyd Cwrs Golff a Llain Ymarfer Llangefni i'r trydydd sector yn 2015 |

| **Ein Haddewid: Ymchwilio i opsiynau a gweithredu model diwygiedig ar gyfer darparu gwasanaeth Llyfrgelloedd** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Cael cymeradwyaeth ar gyfer y modelau cychwynnol i drawsnewid y gwasanaeth Llyfrgelloedd, gan ymgynghori gyda'r cyhoedd a chytuno ar y model a ffefrir o Ebrill 2017 |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Cwblhawyd un rownd o ymgynghori cyhoeddus eleni yn ychwanegol at ymgynghori gyda'r cynghorau tref a chymuned a grwpiau cymunedol eraill a thrydydd partïon<br>• Cael cymeradwyaeth y Pwyllgor gwaith i'r modelau (wedi eu costio) a ffefrir yn fuan yn 2017 os bydd trafodaethau gyda phartïon sydd â diddordeb ynghylch gweithio mewn partneriaeth wedi'u cwblhau |


| **Ein Haddewid: Ymchwilio i opsiynau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaeth yn ein safleoedd treftadaeth ddiwylliannol a gweithredu trefniadau rheoli newydd (os yw'n berthnasol)** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Cael cymeradwyaeth ar gyfer y modelau cychwynnol i drawsnewid y gwasanaeth Treftadaeth gan ymgynghori gyda'r cyhoedd a chytuno ar y model a ffefrir o Ebrill 2017 |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Cyflwynwyd cyfleon i sefydliadau fynegi diddordeb a chyflwynwyd cynigion busnes i gynghorau tref a chymuned a thrydydd partïon eraill. Cynhelir trafodaethau pellach gyda grwpiau cymunedol i annog gweithio partneriaethaol er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y safleoedd hyn yn y dyfodol. Rhoddir prawf ar unrhyw opsiynau posibl a'u cyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith yn gynnar yn 2017 os bydd trafodaethau gyda phartïon sydd â diddordeb ynghylch gweithio mewn partneriaeth wedi'u cwblhau |

## GWYBODAETH PERFFORMIAD HAMDDEN A LLYFRGELLOEDD

Mae'r unig DP ar gyfer Hamdden a Llyfrgelloedd yn ymddangos yn Nhabl 12 (isod) ac yn dangos ein bod yn y 16eg safle yng Nghymru – o'r 12fed safle llynedd gyda gostyngiad bychan mewn perfformiad o 8,434 yn 2014/15 i 7,457 yn 2015/16.

| **Tabl 11**<br><br>Disgrifiad DP | 2014/15 | | Tuedd Bl ar Fl | Chwartel 14/15<br><br>('Ranc' ar lefel Cymru Gyfan) |
|---|---|---|---|---|
| LCS/002b: Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol | 8434 | 7457 | ↓ | (16) |
| LCL/001b: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | 4166 | 4053 | ↓ | (19) |

TABL 12




Mae'r unig DP ar gyfer Llyfrgelloedd yn dangos gostyngiad yn nifer yr ymweliadau o 4,166 i 4,053 fesul 1,000 o'r boblogaeth ac rydym yn aros yn y 19eg safle ar sail Cymru gyfan.

# Canolbwyntio ar Gwsmeriaid, Dinasyddion a Chymunedau

Fe wnaethom ddatgan fod gennym lawer i'w wneud eto i safoni a symleiddio prosesau a thrwy ein gwaith gyda Chynghorau eraill, rydym yn rhagweld y byddwn yn sicrhau effeithlonrwydd pellach yn ein swyddogaethau cefnogi a gwell gwydnwch o ran gwasanaethau arbenigol a sgiliau prin. Dywedasom mai rhan hanfodol o drawsnewid ein Cyngor yw gwrando ar yr hyn y mae ein dinasyddion, defnyddwyr gwasanaethau a busnesau yn ei ddweud - a gweithredu ar hynny. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, rydym wedi dangos ymrwymiad gwirioneddol tuag at ddarparu gwasanaethau'n well a bydd hyn ond yn gwella eto. Fe ddywedasom hefyd y byddwn yn gwneud y mwyaf o'n technegau cyfathrebu dwyieithog trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol fel 'Facebook' a Trydar yn ogystal â grwpiau traddodiadol wyneb yn wyneb, grwpiau ffocws, paneli dinasyddion a sioeau teithiol cyhoeddus.

**Sut gwnaethom ni hyn yn 2014/15?**

| **Datblygu , cytuno a llofnodi siarter cwsmer gadarn a dilys sydd yn gosod disgwyliadau penodol ar ein staff wrth ddelio â chwsmeriaid** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Darparu prosiect i gyfrannu tuag at y nod corfforaethol o sefydlu ffocws ardderchog ar y cwsmer, y dinesydd a'r gymuned. Drwy adeiladu ar fabwysiadu'r siarter gwasanaeth cwsmer ar gyfer y cyngor, byddwn yn sicrhau y bydd yr holl wasanaethau yn cyflawni'r safonau siarter gwasanaeth ac y bydd trefniadau monitro yn eu lle i sicrhau parhad ymarfer da. Y safonau hynny fydd –<br>○ Eich croesawu wrth i chi gyrraedd y Cyngor<br>○ Ceisio gweld y rhai hynny ohonoch gydag apwyntiadau o fewn 10 munud<br>○ Anelu i ddarparu'r gwasanaeth gorau posib o fewn yr adnoddau sydd ar gael<br>○ Ceisio datrys problemau a bod ag agwedd 'gallaf wneud'<br>○ Ateb galwadau ffôn o fewn 5 caniad pan fydd ein cyfleusterau ar agor<br>○ Ateb yr alwad yn ddwyieithog ac yna ymateb yn eich dewis iaith<br>○ Anelu i ateb eich llythyrau, ffacsys neu e-byst o fewn 15 diwrnod gwaith<br>○ Annog cyfathrebu drwy e-bost<br>• Datblygu pecyn cymorth i ddenu a chadw gweithlu hyblyg i gyfarfod â'n disgwyliadau a'n gwerthoedd i'n sefydliad i'r dyfodol. Recriwtio'r bobl iawn a moderneiddio agweddau'r staff |

| |
|---|
| presennol trwy gwestiynau alinio gwerth ar gyfer staff presennol a staff newydd<br><br>• Datblygu a chryfhau ein hymgysylltiad a'n hymwneud â dinasyddion Ynys Môn o fewn prosesau gwneud penderfyniadau ac atebolrwydd y Cyngor drwy gefnogi'r bartneriaeth Prosiect Lleisiau Cymunedol "Gwrandewch/Listen" er mwyn cynyddu ymgysylltiad unigolion a chymunedau sydd â diddordeb mewn dylunio a darparu gwasanaethau cyhoeddus ym Môn. |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Cynhaliodd y Cyngor ymarfer siopwr cudd ar thema gwasanaeth cwsmer yn ystod chwarter 3 2015/16. Roedd casgliadau'r ymarfer hwn yn gadarnhaol ar y cyfan a sefydlwyd cynllun gweithredu er mwyn rhoi sylw i rai diffygion. Bwriedir ailadrodd yr ymarfer yn ystod 2016/17<br><br>• Yn ystod y flwyddyn, gwnaed gwaith mewn cydweithrediad gyda grŵp o reolwyr i baratoi a mireinio cyfres o gwestiynau a fydd yn sylfaen i'r pecyn cymorth alinio gwerth "Rhoi Pobl yn Gyntaf". Cynhelir ymarfer arbrofol yn ystod 2016/17 |

| **Ein Haddewid: Archwilio ansawdd yr adeiladau y mae cwsmeriaid yn derbyn gwasanaethau ynddynt, gan anelu at gyrraedd safon gyson ar draws y Cyngor sy'n cyflwyno'r ddelwedd gywir ar gyfer y gwasanaethau sydd ar gael** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Bydd y rhaglen gweithio'n gallach yn atgyfnerthu ein prif dderbynfeydd a rhai allanol i ddarparu agwedd siop un stop i wasanaethu anghenion y cwsmer yn y pwynt cyswllt. |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Mae'r Rhaglen Gweithio'n Gallach wrthi'n ailfodelu prif dderbynfa'r Cyngor ar hyn o bryd er mwyn sefydlu'r Siop Un Stop o'r enw "Cyswllt/Contact Môn"<br><br>• Bydd yr holl dderbynfeydd mewnol yn cau a "Cyswllt Môn" fydd y pwynt cyswllt cyntaf ar gyfer yr Awdurdod<br><br>• Mae Ymgynghorwyr Generig wedi cael eu cyflogi er mwyn cefnogi, cynghori a chyfeirio o fewn Cyswllt Môn a fydd yn agor yn yr hydref 2016<br><br>• Y Gwasanaeth Dysgu (Addysg) wedi symud i mewn i Bencadlys y Cyngor sy'n golygu ei fod yn fwy hwylus i'n cwsmeriaid mewn amgylchedd swyddfa modern |

| **Sicrhau hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymreig drwy greu a gweithredu ar strategaeth iaith Gymraeg ddatblygedig** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Nodi'r prif flaenoriaethau ar gyfer y Strategaeth Iaith Gymraeg trwy gyfarfodydd rheolaidd |

| |
|---|
| o'r Fforwm Iaith Gymraeg |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Mae Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Iaith Gymraeg. Yn y Rhybudd Cydymffurfiaeth ar y Safonau Terfynol, pennwyd Safonau 145 a 146 sy'n ymwneud â chreu Strategaeth Iaith Gymraeg. Er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth, rhaid i'r Cyngor Sir fabwysiadu Strategaeth Iaith Gymraeg a'i chyhoeddi ar ei wefan erbyn 30 Medi, 2016.<br>• Bydd y Strategaeth yn amlinellu'r ymagwedd y bwriedir ei mabwysiadu mewn perthynas â hyrwyddo'r Iaith Gymraeg a hwyluso defnydd ehangach ohoni yn yr ardal. Bydd yn cynnwys targed ar gyfer cynyddu a chynnal nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn diwedd y bum mlynedd dan sylw.<br>• Mae Fforwm Strategol Iaith Gymraeg Ynys Môn wedi bod yn gweithio'n fwriadus dros yr ychydig fisoedd diwethaf i greu Strategaeth Iaith Gymraeg bartneriaethol (drafft) sy'n gosod y weledigaeth a'r cynllun gweithredu ar gyfer y flwyddyn gyntaf. Y bwriad yw creu cynllun gweithredu ar gyfer yr ail flwyddyn cyn diwedd blwyddyn gyntaf y Strategaeth. Pum mlynedd ar ôl cyhoeddi'r Strategaeth, bydd angen cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig ac asesu'r hyn y llwyddwyd i'w gyflawni. Cyfrifoldeb y Fforwm Strategol Iaith fydd monitro cynnydd yn erbyn y targedau. |

**Nid oes Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer y rhan hon**

# Trawsnewid ein Technolegau Gwybodaeth a Chyfathrebu ( TGCh )

Wrth drawsnewid ein gwasanaethau, bydd adnoddau'r Cyngor yn cael eu defnyddio'n fwy effeithlon ac effeithiol i gyflawni targedau a nodir a chynllunio'n unol â hynny. Bydd y Cyngor yn dod yn sefydliad 24/7 drwy ddefnyddio sianeli megis gwefannau a chyfryngau cymdeithasol, dulliau sydd eisoes yn cael eu defnyddio gan ein cwsmeriaid i ddiwallu llawer o'u hanghenion personol neu fusnes fel bancio neu siopa. Fel hyn, gall ein cwsmeriaid gael mynediad at yr hyn y maent ei angen, pan fyddant ei angen, ble bynnag y maent ac yn eu dewis iaith.

Gellir rhyngweithio yn electronig, yn fewnol ac yn allanol ac ar bob lefel. Bydd cyfathrebu wyneb yn wyneb a ffyrdd eraill ar gael ar gyfer y rhai sydd eu hangen. Drwy newid systemau, byddwn yn rhyddhau staff i 'wneud eu gwaith' o fewn ffiniau clir gan ddefnyddio prosesau sy'n gadarn eto'n ystwyth. Bydd ein systemau yn cefnogi ein blaenoriaethau a byddir yn rhesymoli'n drylwyr i sicrhau nad yw'r systemau hynny nad ydynt yn cefnogi'n blaenoriaethau yn cael eu defnyddio mwyach.

**Sut gwnaethom ni hyn yn 2015/16?**

| **Ein Haddewid: Galluogi staff i gael mynediad at y systemau cyfrifiadurol sydd eu hangen arnynt yn ddiogel o unrhyw leoliad :** |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Gweithredu'r Rhaglen Gweithio'n Gallach fydd yn cynnwys datblygu datrysiadau cadarn a chynaliadwy i alluogi mynediad o bell fydd yn golygu y bydd staff yn gallu gweithio'n fwy hyblyg i gyfarfod ag anghenion a galwadau ein cwsmeriaid. |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Mae cyfres o dechnolegau newydd wedi cael eu gweithredu'n llwyddiannus er mwyn cwrdd â dyheadau'r Cyngor o safbwynt Gweithio'n Gallach. Rhoddwyd pwyslais ar sicrhau bod y dechnoleg yn ymateb i gofynion y gwasanaethau a'r cwsmeriaid sy'n newid yn gyson ac y gellir cael at y dechnoleg, a'i defnyddio, o unrhyw leoliad.<br><br>Dyma rai o'r technolegau a ddarparwyd dros y 12 mis diwethaf:<br><br>➢ Wi-Fi wedi ei osod ar draws adeiladau'r Cyngor<br>➢ Mynediad rhwydd i'r cyhoedd ac ymwelwyr drwy NetMON<br>➢ Cyfleuster 'Argraffu Dilynwch Fi' diogel<br>➢ Microsoft Lync (Skype)<br>➢ Citrix a Mynediad Diogel o Bell |

- Etarmis ar gyfer clocio i mewn / allan o bell
- Gweithio Symudol a 'Dewch â'ch Dyfais Eich Hun' (BYOD)
- Haearn Symudol / contract EE
- System Rheoli Dogfennau'n Electronig
- Strategaeth wedi ei sefydlu

**Ein Haddewid: Galluogi cwsmeriaid a dinasyddion i gyfathrebu gyda'r Cyngor yn electronig dros y we ar amser ac mewn lleoliad sy'n gyfleus iddynt:**

**Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud**

- Ddatblygu a gwella'r gwasanaeth asesiad ariannol sengl
- Sefydlu system e-ffurflenni ar gyfer defnydd Gofal Cymdeithasol a Chorfforaethol
- Sefydlu systemau e-ffurflenni ar gyfer Refeniw a Budd-daliadau a'u hadolygu ar gyfer defnydd Corfforaethol
- Datblygu ymhellach y defnydd o e-ffurflenni i Aelodau gofrestru diddordebau, e-ffurflenni ar gyfer cofrestru etholiadol a gweinyddu etholiadau.

Rydym yn disgwyl y bydd hyn yn grymuso ein cwsmeriaid i gael at wasanaethau pan maent fwyaf eu hangen yn y modd y maent eisiau eu derbyn

**Yr hyn a wnaethom**

- Mae AppMôn wedi cael ei weithredu er mwyn darparu ar gyfer dinasyddion, gymhwysiad hunanwasanaeth symudol cynhwysfawr a dwyieithog y gellir ei ddefnyddio i gysylltu gyda'r Cyngor, adrodd ar faterion, cael at y wybodaeth a'r newyddion diweddaraf a chyflwyno ceisiadau
- Mae technoleg E-ffurflenni dwyieithog wedi cael ei weithredu er mwyn cwrdd â dyheadau'r Cyngor o ran Newid Sianel a Rhagoriaeth Cwsmer a ffurflenni Gofal Cymdeithasol dwyieithog y gall y cyhoedd a'r swyddogion proffesiynol eu defnyddio mewn cydweithrediad gydag Iechyd a Medrwn Môn
- Wedi cychwyn prosiect i logi a thalu am Wasanaethau Hamdden ar-lein
- Prosiect wedi cychwyn ar gyfer talu ar-lein am ginio ysgol

**Ein Haddewid: Sicrhau bod gwasanaethau yn defnyddio technoleg yn fwy eang i ddarparu gwasanaeth mwy effeithlon ac effeithiol drwy:**

| Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud |
|---|
| • Gyrru'r mentrau canlynol yn eu blaenau :-<br>• System Rheolaeth Ariannol<br>• System Adnoddau Dynol deinamig ar y We<br>• System Rheoli Perfformiad a Phrosiectau<br>• System Rheoli Cofnodiadau<br>• Systemau sy'n hwyluso Mynediad o Bell<br>• Pecyn cymorth recriwtio a chadw (RRT) |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Mae'r Adran TG wedi cefnogi ail-lansio'r System Rheolaeth Ariannol<br>• Yn dilyn yr adolygiad o'r system AD/Cyflogres, mae TGCh wedi cydlynu'r broses o symud ymlaen gyda'r prosiect hwn gyda'r cyflenwr a chydranddeiliaid mewnol er mwyn sicrhau bod gennym fanyleb o'r gofynion a oedd yn dderbyniol i'r cyflenwr ac yn cwrdd ag anghenion y sefydliad. Mae contract newydd wedi cael ei ffurfio a bydd y prosiect yn cychwyn yn ffurfiol yn ystod 2016/17<br>• Mae Strategaeth Rheoli Dogfennau a Chofnodiadau'n Electronig wedi cael ei sefydlu er mwyn symud ymlaen gyda EDRMS yn y sefydliad ac mae ymagwedd bragmataidd i hyn er mwyn sicrhau ei fod yn cwrdd ag anghenion busnes ac yn gost-effeithiol ar yr un pryd<br>• Mae datrysiad soffistigedig ar gyfer sicrhau mynediad diogel o bell wedi cael ei weithredu a bydd yn cael ei ymestyn yn ystod 2016/17<br>• Gwaith wedi cychwyn i sicrhau bod y System Gwybodaeth Ddaearyddol (GIS) ar gael yn gorfforaethol gan ddefnyddio'r dechnoleg orau. Mae hyn yn rhan o strategaeth ehangach i sicrhau bod gwybodaeth GIS ar gael yn ehangach drwy'r sefydliad.<br>• Mae gwaith yn mynd rhagddo i integreiddio'r Cyfeirlyfr Tir ac Eiddo Lleol gyda system busnes cefn swyddfa sy'n rhan o strategaeth ehangach o sicrhau bod y Cyfeirlyfr yn ased corfforaethol gyda'r nod o sicrhau un data-bas cyson ar hyd a lled yr awdurdod |

| Ein Haddewid: Chwilio am dechnolegau TGCh newydd i gwrdd ag anghenion y Cyngor a dinasyddion yr Ynys rŵan ac yn y dyfodol drwy: |
|---|
| **Yr hyn y dywedom y byddem yn ei wneud** |
| • Adolygu, ailddrafftio a mabwysiadu dogfen Strategaeth TGCh gynhwysfawr fydd yn amlinellu |

| |
|---|
| agwedd yr awdurdod tuag at dechnoleg a'i ddefnydd ohono i sicrhau y darperir gwasanaeth ac i sicrhau gwelliannau busnes<br><br>• Datblygu a darparu datrysiad wrth gefn cadarn i gefnogi'r systemau TG sy'n hanfodol ar gyfer busnes ac a fydd yn cefnogi trawsnewid yr Awdurdod |
| **Yr hyn a wnaethom** |
| • Mae TG wrthi'n datblygu a darparu datrysiad cadarn ar gyfer Adfer ar ôl Trychineb er mwyn cefnogi'r systemau TG sy'n hanfodol i'r busnes ac a fydd yn sylfaen i drawsnewidiad yr Awdurdod. Rydym hefyd yn cyflwyno datrysiad mwy cynhwysfawr na'r datrysiad wrth gefn corfforaethol<br><br>• Mae'r awdurdod wedi caffael darparwr ffonau symudol newydd sy'n rhoi gwell gwasanaeth (signal) ar draws yr Ynys ac yn gostwng ein costau data a theleffoni<br><br>• Mae'r gwasanaethau tai ar hyn o bryd yn defnyddio technoleg symudol a ddefnyddiwyd yn llwyddiannus yn ystod y cyfnod hwn ac sy'n galluogi staff i fynd yn uniongyrchol at gwsmeriaid neu i gyflawni tasgau heb orfod ymweld â lleoliadau'r Cyngor yn barhaus i gasglu gwybodaeth / cardiau tasgau newyd<br><br>• Mae technolegau modern, arloesol wedi cael eu sefydlu yn lle isadeiledd craidd y Cyngor a sydd wedi mynd yn hen, eu caffael yn effeithlon a sicrhau y bydd y manteision cost yn sylfaen cadarn i'r isadeiledd i gefnogi'r rhaglen flaengar o wasanaethau digidol y mae'r Cyngor wrthi'n eu cynllunio |

**Nid oes Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol ar gyfer y rhan hwn**

# Perfformiad Corfforaethol


Dyma'r drydedd flwyddyn ers i'r Cyngor fabwysiadu'r Cerdyn Sgorio Cenedlaethol - dull sy'n edrych ar y modd yr ydym yn cyflawni ein blaenoriaethau corfforaethol ac yn monitro'r dangosyddion iechyd corfforaethol sy'n sylfaen i holl waith y Cyngor. Mae'r cerdyn sgorio terfynol ar gyfer 2015/16 yn edrych ar y data diwedd blwyddyn ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16, ac yn dangos sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol am y flwyddyn.

Mae'n ceisio dangos bod y rhaglen gwelliant parhaus y mae'r Weinyddiaeth gyfredol wedi ei sefydlu yn cael ei gwireddu:

- Mae cyfraddau salwch ymysg staff wedi cynyddu rhywfaint – mae'r data diwedd blwyddyn yn dangos 12 diwrnod fesul aelod o staff Amser Llawn Cyfatebol (ALIC) sy'n gynnydd bychan o gymharu â'r un cyfnod llynedd (11.51 fesul ALIC). Rydym yn cydnabod bod llawer ar ôl i'w wneud gennym i gymharu'n ffafriol gyda'r rhan fwyaf o ALI eraill yng Nghymru. (Ar hyn o bryd, rydym yn 19eg allan o'r 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru o ran salwch).

- Mae ein salwch tymor byr ar gyfer diwedd 2015/16 (Chwarter 4), sef 3383 diwrnod yn dangos gwelliant o gymharu â'r un cyfnod llynedd (3887 diwrnod. Mae'r argymhellion a gawsant eu cytuno a'u gweithredu er mwyn mynd i'r afael â salwch tymor byr yn parhau i ddangos gwelliant fel y gwelir o'r tabl isod (Tabl 13)

**Table 13**




- Mae dadansoddiad o'r data cysylltiedig yn dangos mai un o'r prif resymau i ni fethu â chwrdd â'n targed corfforaethol oedd y cyfraddau Salwch Tymor Hir sydd ar gynnydd.

- Mae ‘rheoli’ salwch yn gysylltiedig â chyfraddau salwch. Mae cydymffurfiaeth y staff gyda pholisïau salwch corfforaethol yn rhan annatod o’r broses reoli o fewn y Cyngor ac mae hynny’n cynnwys y cyfweliadau dychwelyd i’r gwaith a’r Cyfarfodydd Adolygu Presenoldeb sy’n parhau i gael effaith gadarnhaol.


- O ran Rheoli Cwynion gan Gwsmeriaid, roedd 59 o gwynion wedi dod i law erbyn diwedd 2015-16 a 5 o gwynion Cam 2 yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. Ymatebwyd i’r holl gwynion ac o’r rhain, cadarnhawyd 14 ohonynt yn llawn, cadarnhawyd 7 yn rhannol ac ni chadarnhawyd y 38 arall.

**DANGOSYDDION PERFFORMIAD ERAILL (DP nad ydynt yn gysylltiedig â’r Cynllun Corfforaethol)**


Gan edrych ar DP eraill nad oes ganddynt gyswllt uniongyrchol â’r blaenoriaethau yn ein Cynllun Corfforaethol, rydym yn ymwybodol fod perfformiad wedi gwella o gymharu â 2014/15 mewn un maes (rheoli gwastraff) – am nifer o flynyddoedd yr awdurdod hwn oedd y gorau yng Nghymru. Symudodd y DP ar gyfer gwastraff a ddanfonwyd i safleoedd claddu gwastraff (WMT/004b) o’r chwartel is i’r chwartel canol is rhwng 2014/15 a 2015/16 o’r 20fed safle i’r 13eg safle (allan o 22 Awdurdod Lleol). Mae’r dangosydd ar gyfer gwastraff sirol a gasglwyd ac a gafodd ei ailddefnyddio neu ei ailgylchu, yn parhau i fod yn y chwartel canol is yn ystod 2015/16 ac yn weddol sefydlog gan symud o’r 12fed i’r 13eg safle. Gweler Tablau 14 a 15.

**PRIFFYRDD A RHEOLI GWASTRAFF**

**Tabl 14**




**Tabl 15**




O ran DP Priffyrdd, gwelwyd gwelliant yn THS/012: Canran y prif ffyrdd (A), y ffyrdd (B) nad ydynt yn brif ffyrdd a'r ffyrdd (C) nad ydynt yn brif ffyrdd sydd, yn gyffredinol mewn cyflwr gwael ac yn codi o 10.9 yn 2014/15 i 8.9 yn 2015/16 – gydag Ynys Môn yn symud o'r 18fed i'r 14eg safle ac yn symud o'r chwartel is i'r chwartel canol is. Yr un modd, mae'r DP ar gyfer y prif ffyrdd (A) sydd, yn gyffredinol mewn cyflwr gwael (THS/012a) hefyd wedi gwella o 3.7 i 2.7, ac wedi symud o'r chwartel canol is i'r chwartel canol uwch (ac o'r 13eg i'r 17eg safle) rhwng 2014/15 a 2015/16. Yr un modd, mae'r DP ar gyfer ffyrdd B a C nad ydynt yn brif ffyrdd ac sydd, yn gyffredinol, mewn cyflwr gwael (THS/012b a THS/012c) hefyd wedi gwella (symudodd ffyrdd B i'r chwartel uchaf ac i'r 6ed safle ar draws Cymru) sy'n golygu bod yr holl DP Priffyrdd wedi dangos gwelliant sylweddol yn ystod y 12 mis diwethaf.

O ran Strydoedd (glendid ffyrdd ac ati), mae'r ddau DP perthnasol wedi dangos gwelliant gydag un yn aros yn y 12fed safle (STS/005b: Canran y priffyrdd a archwiliwyd a oedd o safon glendid uchel neu dderbyniol) a'r DP ar gyfer gadael gwastraff yn anghyfreithlon (STS/006: Y ganran o achosion o adael gwastraff yn anghyfreithlon y cafwyd gwybod amdanynt ac gafodd eu clirio o fewn 5 niwrnod gwaith) yn symud o'r chwartel canol is i'r chwartel uchaf (a'r ail safle ledled Cymru) rhwng 2014/15 a 2015/16 (Tabl 16).

**Tabl 16**





**GWARCHOD Y CYHOEDD**

Gallwn weld ein bod yn perfformio’n dda mewn perthynas â materion gwarchod y cyhoedd, yr awdurdod hwn yw’r gorau yng Nghymru am sefydliadau bwyd..."sy’n cydymffurfio’n gyffredinol gyda safonau glendid bwyd” (PPN/009) ac mae 98.67 o’n sefydliadau bwyd wedi cyrraedd y safon hon.


**GWASANAETHAU PLANT**

Yn y Gwasanaethau Plant, mae 3 allan o’r 11 DP yn y chwartel uchaf, gyda thri yn y chwartel isaf, 2 yn y chwartel canol uchaf a 3 yn y chwartel canol isaf. Mae hyn ddirywiad cyffredinol mewn perfformiad o gymharu â 2014/15 gydag ond 3 o’r 11 DP yn dangos gwelliant yn 2015/16 o gymharu â 9 yn 2014/15. Fodd bynnag, rhaid trin y wybodaeth hon gyda gofal oherwydd fel y dywedwyd yn y blynyddoedd a fu, mae ffigyrau gwaelodlin rhai o’r DP yn isel sy’n golygu y gall amrywiadau bychain arwain at newidiadau dramatig o ran safle yn y chwarteli a hynny’r naill ffordd neu’r llall. Er enghraifft, rydym yn y 6ed safle yng Nghymru o ran cadw mewn cyswllt gyda phobl ifanc a oedd gynt yn derbyn gofal ac sydd mewn addysg, hyfforddiant neu waith (Tabl 17). Fodd bynnag, mae’r ganran o bobl ifanc a oedd gynt yn derbyn gofal ac y mae’r awdurdod yn cadw mewn cysylltiad â hwy pan maent yn 19 oed (SCC/33e) wedi newid o 100% yn 2013/14 i 50% yn 2014/15 ac wedi codi eto i 57.1% yn 2015/16 sy’n pwysleisio’r amrywiadau oherwydd y niferoedd gwaelodlin bychan iawn (Tabl 18).

**Tabl 17**





**Tabl 18**




Rydym yn falch mai ni sy'n parhau i fod yn yr ail safle drwy Gymru gyfan mewn perthynas â SCC/011b: Canran yr asesiadau dechreuol a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn lle bo tystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn ar ben ei hun, gyda pherfformiad yn gwella o 83.6 i 84.5 rhwng 2014/15 a 2015/16 (Tabl 19).

**Tabl 19**





Fodd bynnag, rydym yn bryderus bod perfformiad 2 DP, sef SCC/045: (Canran yr adolygiadau plant sy’n derbyn gofal, adolygiadau plant sydd ar y Cofrestr Amddiffyn Plant ac adolygiadau plant mewn angen a gafodd eu cynnal yn unol â’r amserlenni statudol) a SCC/025: Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy’n derbyn gofal oedd i fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a’u cynhaliwyd yn unol â’r rheoliadau, wedi dirywio yn ystod y 12 mis diwethaf, gyda SCC/045 yn symud o’r chwartel canol uchaf i’r chwartel canol is a SCC/025 yn symud o’r chwartel uchaf i’r chwartel canol is o fewn y cyfnod hwnnw.


**CRYNODEB CYFFREDINOL A CHAMAU GWEITHREDU LLINIAROL**

O ran dadansoddiad cyffredinol o’r cyfan o’n dangosyddion perfformiad (DP), gan gynnwys y rheiny nad ydynt wedi’u cynnwys ym mlaenoriaethau ein Cynllun Corfforaethol, gweler y prif negeseuon ar gyfer 2015/16 yn Nhabl 20. Mae’n dangos fod bron i 52.5% o’n DP wedi gwella yn ystod 2015/16 tra bod 45% wedi dirywio a 2.5% pellach heb newid rhwng 2014/15 a 2015/16. Mae Tabl 21 yn dangos ymhellach ein bod yn y 14eg safle yng Nghymru o ran y DP hynny sydd wedi gwella yn ystod y flwyddyn benodol hon o gymharu â’r flwyddyn flaenorol.

**Tabl 20**





**Tabl 21**





Fodd bynnag, os ydym yn dadansoddi Tabl 22 a Thabl 23 (isod), gallwn weld y bu gostyngiad bychan yn nifer y Dangosyddion Perfformiad yn y chwartel uchaf dros y tair blynedd diwethaf – o 16 yn 2013/14 i 12 yn 2015/16. Ychydig iawn o newid a welwyd yn nifer y DP yn y chwartel isaf – o 12 yn 2013/14 i 13 yn 2015/16. Ni fu unrhyw newid bron yn nifer y DP yn y chwartel canol uchaf dros y tair blynedd diwethaf, gyda'r nifer yn gyson rhwng 6 a 7. Fodd bynnag, gwelwyd cynnydd o 5 yn nifer y DP yn y chwartel canol isaf ers 2013/14. Yn gyffredinol felly, rydym yn credu bod ein dangosyddion perfformiad wedi dirywio rhywfaint o gymharu â'r sefyllfa dair blynedd yn ôl, ond bod 2015/16 yn dangos cynnydd bychan yn ein safleoedd yn y chwarteli o gymharu â 2014/15.

**Tabl 22**




**Tabl 23**





Mae Tabl 24 isod yn ddarlun o berfformiad y Cyngor ar draws yr holl wasanaethau ac ar sail flynyddol o ran safle ein DP cymharol (DSC a PAM) yn y 4 chwartel drwy gymharu 2015/16 gyda'r flwyddyn flaenorol. Mae Tabl 25 yn cymharu ein safle yn y chwarteli ar draws y 4 chwartel dros y 4 blynedd ddiwethaf

**Tabl 24**

| Perfformiad Cyngor Sir Ynys Môn | | 2015/16 Lleoliad Chwartel | | | | Newid y DP ers 2014/15 | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Nifer o DP | | Chwartel Uchaf | Canolig Uchaf | Canolig Isaf | Chwartel Isaf | Gwella | Heb Newid | Dirywio | Dangosydd Newydd |
| Oedolion | 6 | 1 | 1 | 0 | 3 | 4 | 0 | 2 | 0 |
| Plant | 10 | 3 | 2 | 2 | 3 | 3 | 1 | 6 | 0 |
| Tai | 2 | 0 | 1 | 1 | 0 | 0 | 0 | 2 | 0 |
| Datblygu Economaidd & Adfywio Cymuedol | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Dysgu | 12 | 5 | 1 | 2 | 4 | 7 | 0 | 5 | 0 |
| Priffyrdd, Rheoli Gwastraff ac Eiddo | 7 | 2 | 0 | 4 | 1 | 5 | 0 | 1 | 1 |
| Cyngor (Salwch) | 1 | 0 | 0 | 0 | 1 | 0 | 0 | 1 | 0 |
| Cynllunio & Gwarchod y Cyhoedd | 2 | 1 | 1 | 0 | 0 | 2 | 0 | 0 | 0 |
| **Cyfanswm Cyngor Sir Ynys Mon** | **41** | **12** 29% | **6** 15% | **10** 24% | **12** 29% | **21** 51% | **1** 2% | **18** 44% | **1** 2% |

**Tabl 25**




O ran y Dangosyddion Perfformiad hynny sydd naill ai yn y chwarteli is neu ganol is yn 2015/16, caiff y rhesymau am hynny a chamau lliniaru i fynd i'r afael ag unrhyw faterion o ran perfformiad eu nodi yn y Tabl isod (Tabl 26). Mae rhestr lawn o'n canlyniadau mewn perthynas â Dangosyddion Perfformiad Cenedlaethol yn 2014/15 ar gael yn Atodiad 1.

**Tabl 26**

| **OEDOLION** | Disgrifiad | **Qt** | **Rheswm a Chamau Lliniaru** |
|---|---|---|---|
| SCA/001: | Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd | | Mae perfformiad yn cael ei effeithio'n ddirfawr gan argaeledd gofal cartref sydd, yn ystod 2016, wedi bod yn annigonol. Mae'r adran ar hyn o bryd wrthi'n paratoi proses gaffael er mwyn cryfhau capasiti yn 2017/18. Yn y tymor byr, mae'r adran yn cryfhau capasiti ailalluogi pobl yn eu cartref er mwyn gwella perfformiad yn y maes hwn eleni. |
| SCA/002a: | Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | | Mae model yr adran yn seiliedig ar gefnogi unigolion i fod yn annibynnol o'r gwasanaethau ac mae cymorth ataliol cryf a chymorth lefel isel ar gael yn y cymunedau. Mae'r dangosydd hwn yn groes i'r amcan, amcan sydd yn gwbl gyson â gofynion y Ddeddf GC a Llesiant. |
| SCA/002b: | Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | | Mae'r adran yn cydnabod yr angen i gynyddu nifer yr opsiynau amgen sydd ar gael yn lle gofal preswyl. Mae Rhaglen Gofal Ychwanegol ar y gweill ac rydym yn parhau i weithio gyda'r farchnad gofal cartref fel opsiwn arall yn hytrach na gofal preswyl. |
| SCA/019: | Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli | | Mae nifer yr achosion POVA yn isel o gymharu ag awdurdodau eraill sydd â phoblogaethau mwy; o'r herwydd, gall nifer fechan o achosion arwain at ganlyniadau 'Coch'. Mae'r achosion hyn i gyd yn digwydd oherwydd bod unigolion yn dewis peidio â chyflwyno cwyn i'r Heddlu neu gymryd camau ffurfiol eraill mewn perthynas â'r gamdriniaeth y maent efallai wedi ei dioddef. Asesir yr unigolion hyn fel rhai sydd â chapasiti meddyliol. Mewn amgylchiadau o'r fath, mae unigolion yn cael cynnig cymorth (eiriolaeth, cefnogaeth i ddioddefwyr, cwnsela, IFVA ac ati) ond, yn y pen draw, yr unigolyn sy'n penderfynu peidio â gwneud cwyn neu aros mewn sefyllfa lle mae'n cael ei cam-d(th)rin. |
| **PLANT** | **Disgrifiad** | **Qt** | **Rheswm a Chamau Lliniaru** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| SCC/002: | Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth. | | Roedd perfformiad 15/16 yn well na pherfformiad y flwyddyn flaenorol a hynny mewn cyd-destun lle yr oedd cynnydd yn nifer y plant a oedd yn derbyn gofal. Symudodd 12 o 69 o blant (17.39%) ysgol yn ystod y flwyddyn.<br><br>Roedd 75% o hyn oherwydd cynlluniau tymor hir a wnaed ar gyfer y plentyn a'r gweddill oherwydd y pellter afresymol y byddai'n rhaid i'r plentyn ei deithio bob bore a gyda'r nos gyda hynny'n effeithio ar elfennau eraill o'u llesiant. |
| SCC/033d: | Y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal y flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy a hwythau'n 19 oed; | | Roedd perfformiad 15/16 yn well na pherfformiad y flwyddyn flaenorol. Mae'r nifer craidd isel iawn yn ffactor. O'r tri o bobl ifanc yr oeddem wedi colli cysylltiad â nhw, roedd dau wedi dychwelyd i ofal eu teuluoedd genedigol ac un person ifanc wedi gadael yr ardal ac wedi rhoi'r gorau i gadw cyswllt. |
| SCC:041a: | Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol a chanddynt gynlluniau llwybr yn ôl yr angen | | Mae'r Awdurdod Lleol yn cydnabod bod hwn yn faes y mae angen ei wella. Mae'r perfformiad yn ymwneud â 7 pherson ifanc: o'r rhain, roedd 1 wedi gwrthod y cynnig o gynllun llwybr, roedd angen adolygu 5 cynllun a dim ond un person ifanc oedd heb gynllun llwybr. |
| SCC/045: | Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, adolygiadau plant sydd ar y Cofrestr Amddiffyn Plant ac adolygiadau plant mewn angen a gafodd eu cynnal yn unol â'r amserlenni statudol | | Rhoes y cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal a nifer y plant a oedd yn destun cynllun amddiffyn plant, gryn bwysau ar y gwasanaeth. Mae hyn wedi ei adlewyrchu yn yr amserlenni ar gyfer cynnal Cynadleddau Amddiffyn Plant ac adolygiadau Plant sy'n Derbyn Gofal. Dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, rydym wedi gwella ein perfformiad yn barhaus ac yn cynnal Cynadleddau Amddiffyn Plant Cychwynnol o fewn yr amserlen. Nid oedd modd i ni gynnal a chryfhau'r perfformiad hwn yn 2015/16. Mae'r Awdurdod Lleol wedi cynyddu capasiti'r uned ac mae'n hyderus y bydd hyn yn sicrhau y gellir cynnal y cyfarfodydd hyn mewn modd amserol ac yn sicrhau bod cynlluniau cadarn yn eu lle ar gyfer plant sy'n derbyn |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | gofal ac/neu sy'n destun Cynlluniau Amddiffyn Plant. |
| SCC/025: | Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd i fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | | Rhoes y cynnydd hefyd bwysau ar y rhai sy'n gofalu am yr achosion o ran cydymffurfio gyda'r angen i ymweld â phlant yn rheolaidd. Gwelwyd gostyngiad yng nghanran yr ymweliadau â phlant a oedd yn derbyn gofal o fewn yr amserlen eleni i 82.79% o gymharu â 93.53% yn 2014/15. Mae'r awdurdod lleol wedi ychwanegu at ei gapasiti o ran gweithwyr cymdeithasol ac mae'n hyderus y bydd hyn yn sicrhau ein bod yn adennill tir yn y meysydd hyn. |
| **PRIFFYRDD & GWASTRAFF** | **Disgrifiad** | **Qt** | **Rheswm a Camau Lliniaru** |
| WMT/004(b): | Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi | | Yn 14/15, roedd y cyfan o'n gwastraff gweddilliol yn cael ei anfon i safle claddu gwastraff Llandduls, ond o fis Mai 2015, mae'r rhan fwyaf o'r gwastraff hwn wedi bod yn cael ei anfon i weithfeydd ynni i wastraff naill ai yn Runcorn neu St Helens. Bydd angen anfon hyn a hyn o dunelli i Landdulas hyd at fis Chwefror 2017 yn unol â'r contract. Felly, bydd y gwelliant yn parhau ar gyfer 16/17 ac yn gostwng i % fechan iawn erbyn by 17/18. |
| WMT/009(b): | Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall | | Llwyddwyd i sicrhau cyfradd ailgylchu o 59.5% sy'n uwch na'r targed o 58%. Bydd mwy o welliant yn 16/17 gyda mwy o wastraff gweddilliol yn cael ei anfon i weithfeydd ynni i wastraff a'r gwasanaeth casglu bob 3 wythnos yn cychwyn ym mis Hydref 2016. Daw'r effaith blwyddyn lawn i'r amlwg yn 2017/18, a disgwylir y bydd y gyfradd ailgylchu'r agos at y targed 70% ar gyfer 2024/25. |
| STS/005b | Canran y priffyrdd a'r tir perthnasol a adolygwyd sydd o safon glendid uchel neu dderbyniol | | Cynhaliwyd y gwelliant o 13/14 ond mae amheuon ynghylch cyfanrwydd peth o'r data a dderbyniwyd ar gyfer y DPA hwn oherwydd nid yw'n cael ei ddilysu'n annibynnol. |
| THS/007: | Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy'n | | Mae'r DPA hwn yn fesur o natur wledig yn unig, a Phowys fydd yr isaf bob amser ac mi |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y bws | | fyddwn ninnau bob amser yn y chwartel isaf.<br><br>Heb fuddsoddi i ddarparu gwasanaethau bws ychwanegol, ni fydd y DPA hwn yn newid. Ni fu ewyllys wleidyddol i warchod gwasanaethau bws yn yr awdurdod yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf ac mae hyn yn annhebygol o newid. |
| THS/012: | Canran y prif ffyrdd (dosbarth A),ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) a ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. | | Mae'r DPA hwn yn adlewyrchu'r toriadau a wnaed i'r gyllideb ar gyfer cynnal Priffyrdd. Fodd bynnag, wedi symud o'r 18fed i'r 14eg yn dilyn buddsoddiad cyfalaf. Disgwylir gwelliant pellach yn 16/17. |
| THS/012c: | Canran y ffyrdd (dosbarth C) nad ydynt yn brif ffyrdd a sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. | | Mae'r DPA hwn yn adlewyrchu'r toriadau a wnaed i'r gyllideb ar gyfer cynnal Priffyrdd. Fodd bynnag, wedi symud o'r 18fed i'r 16eg yn dilyn buddsoddiad cyfalaf. Disgwylir gwelliant pellach yn 16/17. |
| **CORFFORAETHOL** | **Disgrifiad** | **Qt** | **Rheswm a Chamau Lliniaru** |
| CHR/002: | Nifer y diwrnodau/shifftiau gwaith a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch fesul gweithiwr amser llawn cyfatebol yn yr awdurdod | | Rydym yn ymwybodol o'r angen i wella ein cyfraddau o ran absenoldeb salwch ac eisoes wedi sefydlu canllawiau a phrosesau newydd ar gyfer hyn (er enghraifft, rydym yn nodi achosion ail-adroddus unigol ac, yn ogystal, wedi cyflwyno process ddiwygiedig mewn perthynas â Chyfarfodydd Adolygu Presenoldeb (CAP). |

# Perfformiad Ariannol

**Cyllideb Refeniw**

Cafodd cyllideb refeniw o £124m (£126m yn 2014/15) ei gosod ar gyfer y Cyngor am 2015/16. Cafodd y gyllideb ei gosod yn erbyn setliad ariannol heriol gan Lywodraeth Cymru a gosodwyd targed heriol o £4.3 ar gyfer arbedion er mwyn gosod y gyllideb yn unol â'r adnoddau a oedd ar gael.

Cafodd y gyllideb ei monitro a'i rheoli'n ofalus drwy'r flwyddyn ac fe adroddwyd arni i'r Pwyllgor Gwaith yn unol â gweithdrefnau cydnabyddedig y Cyngor. Rhoddwyd gwybod yn gynnar yn y flwyddyn ariannol (Chwarter 2) bod gorwariant oddeutu £980k. Roedd y cyllidebau ar gyfer 2015/16 yn cynnwys gofyniad i sicrhau arbedion o £4.3 ac, yn gyffredinol, bu modd cyflawni hynny. Rhyddhawyd £500k o'r balansau cyffredinol yn ystod y flwyddyn er mwyn cwrdd â phwysau ariannol yn y Gwasanaeth Plant ac mae hynny, ynghyd ag arbedion pellach mewn cyllidebau corfforaethol, galw isel am gyllidebau wrth gefn ac addasiadau cyfrifo unwaith ac am byth wedi arwain at danwariant o £1.8m.

**Gwariant Cyfalaf**

Mae gwariant cyfalaf yn golygu'r gost o ddarparu neu wella asedau neu wariant arall ble mae'r manteision yn ymestyn y du draw i'r flwyddyn ariannol dan sylw. Ym mis Chwefror 2015, cymeradwyodd y Cyngor raglen gyfalaf o £23.7m ar gyfer 2015/16. Hefyd, dygwyd ymrwymiad o £4.0m ymlaen i 2014/15 ynghyd â chynlluniau ychwanegol gan gynnwys prynu allan o'r system gymhorthdal CRT a ychwanegwyd yn 2015/16 ac a oedd werth £30.5m, gan ddod â chyfanswm Cyllideb Gyfalaf 2015/16 i £58.2m. Y prosiectau neu'r cynlluniau mawr a oedd i gychwyn yn ystod y flwyddyn oedd Ffordd Gyswllt Llangefni a Phrynu Eiddo Cyfredol ar gyfer y CRT. Yr unig broseict mawr a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn oedd Cam Un y cynllun Safleoedd ac Eiddo.

Rhoes y Pwyllgor Gwaith sylw i adroddiad alldro cyfalaf yn ei gyfarfod ar 31 Mai 2016 a oedd yn dangos bod y Cyngor, mewn gwirionedd, wedi gwario £44.0m ar brosiectau cyfalaf yn 2015/16 gyda'r rhan fwyaf o'r llithriad yn cael ei drosglwyddo i 2016/17.

# Gwybodaeth Bellach

**I gael mwy o wybodaeth am unrhyw beth yn y ddogfen hon neu i wneud unrhyw sylwadau, cysylltwch os gwelwch yn dda gyda:**

**Swyddfa'r Prif Weithredwr**
**Cyngor Sir Ynys Môn**
**Swyddfeydd y Cyngor**
**Llangefni Ynys Môn**
**LL77 7TWF**
**fôn - 01248 752111**
**e-bost : ScopttRowley@ynysmon.gov.uk neu GethinMorgan@ynysmon.gov.uk**

**Mae'r ddogfen hon ar gael ar dâp, mewn braille ac ar wefan y Cyngor:**
**www.ynysmon.gov.uk/cynlluncorfforaethol**

**Gellwch gael mwy o wybodaeth hefyd fel a ganlyn:**
**Gellir gweld polisïau, cynlluniau a strategaethau a gyhoeddir gan y Cyngor ar:**
**www.ynysmon.gov.uk**

**Mae'r Cynllun Gwella Blynyddol ar gael ar wefan y Cyngor trwy glicio ar y ddolen a ganlyn:**
**www.ynysmon.gov.uk/AGBSAC**

**Mae Adroddiadau Archwilio ac Arolygu a gynhyrchwyd gan Reoleiddwyr y Cyngor ar gael ar eu gwefannau unigol fel a ganlyn:**

- **Swyddfa Archwilio Cymru:**
  **www.wao.gov.uk**
- **Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru:**
  **www.cssiw.org.uk**
- **Estyn:**
  **www.estyn.gov.uk**

**Os had oes gennych fynediad i'r rhyngrwyd, neu os hoffech gael dogfen nad yw wedi ei rhestru uchod, cysylltwch gyda'r Cyngor os gwelwch yn dda gan ddefnyddio'r manylion cyswllt a nodir ar frig y dudalen hon.**

**Atodiad 1:Sylwer: mae'r rank yn arwydd o safle'r DP yn erbyn y 22 Awdurdod Lleol yng Nghymru**

| DP | Disgrifiad | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2013/14 | 2015/15 | 2015/16 | 15/16 Tuedd | Chwartel a Ranc 15/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| MAC | CAM/037: Y newid canrannol yn y sgôr arddangos Tystysgrif Ynni (ATY) ar gyfartaledd yn adeiladau'r awdurdod lleol dros 1,000 metr sgwâr | Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo | < | - | 2 | 7.8 | ↑ | 3 |
| MAC | CHR/002: Nifer y diwrnodau/sifftiau gwaith wedi colli oherwydd salwch, fesul gweithiwr awdurdod lleol cyfwerth ag amser llawn | Adnoddau Dynol | < | 12.48 | 11.5 | 11.68 | ↓ | 19 |
| DCS/MAC | EDU/002i: Canran yr holl ddisgyblion (gan gynnwys y rhai sydd yng ngofal awdurdod lleol); ac sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd | Addysg | < | 0.00 | 0.3 | 0.0 | ↑ | (1) |
| DCS | EDU/002ii: Canran y disgyblion sydd yng ngofal awdurdodau lleol sydd mewn unrhyw ysgol a gynhelir gan awdurdod lleol, a hwythau'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol ac sy'n gadael addysg orfodol, hyfforddiant neu ddysgu seiliedig ar waith heb fod ganddynt gymhwyster allanol a gymeradwywyd | Addysg | < | 0.00 | 14.3 | 0.0 | ↑ | (1) |
| DCS/MAC | EDU/003: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon | Addysg | > | 87.98 | 87.8 | 91.8 | ↑ | (1) |

Tudalen 64

| DP | Disgrifiad | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2013/14 | 2015/15 | 2015/16 | 15/16 Tuedd | Chwartel a Ranc 15/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| MAC | EDU/004: Canran y disgyblion a aseswyd ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cyrraedd y Dangosydd Pynciau Craidd, fel y penderfynir gan Asesiadau Athrawon | Addysg | > | 81.46 | 83.6 | 84.5 | ↑ | (9) |
| DCS | EDU/006ii: Canran y disgyblion a aseswyd mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol, ac sy'n cael Asesiad Athrawon yn y Gymraeg (iaith gyntaf) ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 | Addysg | > | 61.75 | 67.2 | 64.8 | ↓ | (3) |
| DCS/MAC | EDU/011: Cyfartaledd y sgôr pwyntiau ar gyfer disgyblion sy'n 15 oed ar y 31 Awst blaenorol mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol | Addysg | > | 593.55 | 598.3 | 571.7 | ↓ | (6) |
| DCS | EDU/015a: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau gan gynnwys eithriadau | Addysg | > | 59.09 | 38.5 | 32.5 | ↓ | (21) |
| DCS | EDU/015b: Canran y datganiadau terfynol o anghenion addysgol arbennig a ddyroddir o fewn 26 o wythnosau b) heb gynnwys eithriadau | Addysg | > | 100.00 | 84.6 | 75.0 | ↓ | (21) |
| MAC | EDU/016a: Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion cynradd | Addysg | > | 94.41 | 94.6 | 94.7 | ↑ | (17) |

| DP | Disgrifiad | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2013/14 | 2015/15 | 2015/16 | 15/16 Tuedd | Chwartel a Ranc 15/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| MAC | EDU/016b: Canran presenoldeb disgyblion mewn ysgolion uwchradd | Addysg | > | 93.24 | 93.4 | 93.5 | ↑ | (16) |
| DCS | EDU/017: Canran y disgyblion 15 oed ar y 31ain Awst blaenorol, mewn ysgolion a gynhelir gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd y trothwy Lefel 2 gan gynnwys gradd A*-C TGAU mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf a Mathemateg | Addysg | > | 54.20 | 53.8 | 56.9 | ↑ | (12) |
| DCS | LCL/001b: Nifer yr ymweliadau â llyfrgelloedd cyhoeddus yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth | Llyfrgelloedd | > | 4024.47 | 4,166.4 | 4,053 | ↓ | (19) |
| DCS | LCS/002b: Nifer yr ymweliadau â chanolfannau chwaraeon a hamdden awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn fesul 1,000 o'r boblogaeth, pan fydd yr ymwelydd yn cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol | Datblygu Economi ac Adfywio Cymunedau | > | 8767.29 | 8,434.0 | 7457.0 | ↓ | (16) |
| DCS/MAC | PLA/006b: Nifer yr unedau tai fforddiadwy ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn fel canran yr holl unedau tai ychwanegol a ddarparwyd yn ystod y flwyddyn | Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | > | 83.97 | 39.2 | 46 | ↑ | (8) |
| MAC | PPN/009: Canran y sefydliadau bwyd sy'n 'cydymffurfio'n fras' â safonau hylendid bwyd | Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd | > | 93.38 | 97.0 | 98.67 | ↑ | (1) |
| DCS/MAC | PSR/002: Y nifer o ddiwrnodau calendr ar gyfartaledd a gymerwyd i roi Grant Cyfleusterau i'r Anabl | Tai | < | 213.11 | 229.5 | 239.00 | ↓ | (12) |

| DP | Disgrifiad | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2013/14 | 2015/15 | 2015/16 | 15/16 Tuedd | Chwartel a Ranc 15/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DCS | PSR/004: Canran yr anheddau sector preifat a oedd wedi bod yn wag am fwy na 6 mis ar 1 Ebrill ac a feddiannwyd eto yn ystod y flwyddyn o ganlyniad i weithredu uniongyrchol gan yr awdurdod lleol | Tai | > | 11.98 | 13.1 | 10.98 | ↓ | (8) |
| CS | SCA/001: Cyfradd yr oedi wrth drosglwyddo gofal am resymau gofal cymdeithasol fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 75 oed neu drosodd | Gwasanaethau Oedolion | < | 0.55 | 1.8 | 6.63 | ↓ | (18) |
| DCS | SCA/002a: Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y rhoddir cymorth iddynt yn y gymuned fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | Gwasanaethau Oedolion | > | 54.41 | 49.5 | 43.51 | ↓ | (18) |
| DCS | SCA/002b: Cyfradd pobl hŷn (sy'n 65 oed neu drosodd) y mae'r awdurdod yn rhoi cymorth iddynt mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth sy'n 65 oed neu drosodd ar 31 Mawrth | Gwasanaethau Oedolion | < | 25.30 | 23.3 | 20.63 | ↑ | (18) |
| MAC | SCA/007: Canran y cleientiaid a chynllun gofal ar 31 Mawrth, y dylai eu cynlluniau gofal fod wedi'u hadolygu a gafodd eu hadolygu yn ystod y flwyddyn | Gwasanaethau Oedolion | > | 87.86 | 92.2 | 93.6 | ↑ | (2) |
| MAC | SCA/018a: Canran y gofalwyr sy'n gofalu ar ôl oedolion a gafodd cynnig asesiad neu adolygiad o'u hanghenion eu hunain yn ystod y flwyddyn | Gwasanaethau Oedolion | > | 91.28 | 92.9 | 95.3 | ↑ | (9) |
| DCS/MAC | SCA/019: Canran y cyfeiriadau diogelu oedolion wedi eu cwblhau yn ystod y flwyddyn lle'r mae'r risg wedi ei reoli | Gwasanaethau Oedolion | > | 88.89 | 91.9 | 93.18 | ↑ | (19) |

| DP | Disgrifiad | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2013/14 | 2015/15 | 2015/16 | 15/16 Tuedd | Chwartel a Ranc 15/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DCS | SCC/002: Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth a chanddynt brofiad o symud ysgol unwaith neu ragor, yn ystod cyfnod neu gyfnodau o dderbyn gofal, ac nad oedd y symud hwnnw oherwydd trefniadau trosiannol, yn y 12 mis hyd at 31 Mawrth. | Gwasanaethau Plant | < | 20.00 | 18.5 | 17.40 | ↑ | (18) |
| DCS/MAC | SCC/004: Canran y plant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth sydd wedi cael eu lleoli o leiaf dair gwaith yn ystod y flwyddyn | Gwasanaethau Plant | < | 7.79 | 3.4 | 9.3 | ↓ | (10) |
| DCS | SCC/011b: Canran yr asesiadau dechreuol a ddigwyddodd yn ystod y flwyddyn lle bo tystiolaeth bod Gweithiwr Cymdeithasol wedi gweld y plentyn ar ben ei hun | Gwasanaethau Plant | > | 55.06 | 63.9 | 74.1 | ↑ | (2) |
| MAC | SCC/025: Canran yr ymweliadau statudol â phlant sy'n derbyn gofal oedd i fod i gael eu cynnal yn ystod y flwyddyn a'u cynhaliwyd yn unol â'r rheoliadau | Gwasanaethau Plant | > | 90.54 | 93.5 | 82.8 | ↓ | (16) |
| DCS | SCC/033d: y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal y flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy a hwythau'n 19 oed; | Gwasanaethau Plant | > | 100.00 | 50.0 | 57.10 | ↑ | (22) |
| DCS | SCC/033e: y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod mewn llety addas, nad yw'n llety argyfwng a hwythau'n 19 oed | Gwasanaethau Plant | > | 85.71 | 100.0 | 100.0 | ↔ | (1) |
| DCS | SCC/033f: y bobl ifanc a oedd yn derbyn gofal yn flaenorol ac y mae'r awdurdod mewn cysylltiad â hwy, ac y gwyddys eu bod yn ymgymryd ag addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth a hwythau'n 19 oed | Gwasanaethau Plant | > | 42.86 | 100.0 | 75.00 | ↓ | (6) |

| DP | Disgrifiad | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2013/14 | 2015/15 | 2015/16 | 15/16 Tuedd | Chwartel a Ranc 15/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DCS | SCC/037: Cyfartaledd y sgôr pwyntiau mewn cysylltiad â chymwysterau allanol plant 16 oed sy'n derbyn gofal mewn unrhyw sefyllfa ddysgu a gynhelir gan awdurdod lleol | Gwasanaethau Plant | > | 135.80 | 288.6 | 269.00 | ↓ | (9) |
| DCS | SCC/041a: Canran y plant cymwys, perthnasol a phlant a fu'n berthnasol a chanddynt gynlluniau llwybr yn ôl yr angen | Gwasanaethau Plant | > | 77.78 | 78.3 | 68.2 | ↓ | (22) |
| MAC | SCC/045: Canran yr adolygiadau plant sy'n derbyn gofal, adolygiadau plant sydd ar y Cofrestr Amddiffyn Plant ac adolygiadau plant mewn angen a gafodd eu cynnal yn unol â'r amserlenni statudol | Gwasanaethau Plant | > | 95.68 | 94.5 | 91.6 | ↓ | (13) |
| MAC | STS/005b: Canran y priffyrdd a'r tir perthnasol a adolygwyd sydd o safon glendid uchel neu dderbyniol | Priffyrdd, Rheoli Gwastraff ac Eiddo | > | 96.34 | 96.3 | 95.1 | ↓ | (12) |
| DCS | STS/006: Canran yr achosion o dipio gwastraff yn anghyfreithlon y rhoddwyd gwybod amdanynt ac y cliriwyd y gwastraff o fewn 5 niwrnod gwaith | Priffyrdd, Rheoli Gwastraff ac Eiddo | > | 95.55 | 95.9 | 98.49 | ↑ | (2) |
| DCS | THS/007: Canran yr oedolion sy'n 60 oed neu drosodd sy'n ddeiliaid tocynnau teithio rhatach ar y bws | Priffyrdd, Rheoli Gwastraff ac Eiddo | > | 70.73 | 72.5 | 73.20 | ↑ | (21) |
| MAC | THS/012: Canran y prif ffyrdd (dosbarth A),ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (B) a ffyrdd nad ydynt yn brif ffyrdd (C) sydd mewn cyflwr gwael yn gyffredinol. | Priffyrdd, Rheoli Gwastraff ac Eiddo | < | 11.71 | 10.9 | 8.9 | ↑ | (14) |
| DCS/MAC | WMT/004b: Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a anfonir i safle tirlenwi | Priffyrdd, Rheoli Gwastraff ac Eiddo | < | 44.11 | 43.2 | 16.9 | ↑ | (13) |

| DP | Disgrifiad | Gwasanaeth | Cyfeiriad | 2013/14 | 2015/15 | 2015/16 | 15/16 Tuedd | Chwartel a Ranc 15/16 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DCS/MAC | WMT/009b: Canran y gwastraff trefol a gesglir gan awdurdodau lleol ac a gaiff ei baratoi ar gyfer ei ailddefnyddio a'i ailgylchu/neu ei ailgylchu, gan gynnwys deunyddiau biowastraff wedi eu gwahanu yn eu tarddle ac a gompostir neu a drinnir yn fiolegol mewn ffordd arall | Priffyrdd, Rheoli Gwastraff ac Eiddo | > | 54.37 | 55.2 | 59.50 | ↑ | (13) |

This page is intentionally left blank

# DDIM I'W GYHOEDDI
# *NOT FOR PUBLICATION*

***Ymateb CSYM i Ymgynghoriad Horizon Nuclear Power cyn Cyflwyno Cais Cynllunio (PAC 2)***
***IACC's Response to Horizon Nuclear Power's Pre-Application Consultation (PAC 2)***

**PRAWF BUDD Y CYHOEDD**
***PUBLIC INTEREST TEST***

| | | |
|---|---|---|
| Paragraff(au)<br>*Paragraph(s)* | 14<br>*14* | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>*Schedule 12A Local Government Act 1972* |

| Y PRAWF – *THE TEST* | |
|---|---|
| Mae yna fudd i'r cyhoedd wrth ddatgan oherwydd / *There is a public interest in disclosure as:-*<br><br>Tryloywder o ran prosesau gwneud penderfyniad y Cyngor.<br><br>Transparency in the Council's decision making processes. | Y budd i'r cyhoedd with beidio datgelu yw / *The public interest in not disclosing is:-*<br><br>Mae'r adroddiad yn cynnwys ymateb arfaethedig y Cyngor i'r ymgynghoriad ar y cais datblygu mwyaf sylweddol ar Ynys Môn am genhedlaeth.<br><br>Nid yw'r Aelodau wedi cael cyfle hyd yn hyn i ystyried yr ymateb drafft, a byddai ei ddatgelu yn awr yn:<br><br>- Rhagfarnu ein gallu i gynnal materion cyhoeddus mewn ffordd effeithiol;<br>- Yn datgelu cyfathrebiadau mewnol rhwng swyddogion ac aelodau;<br>- Yn datgelu dogfennau drafft sydd i'w datgelu yn fuan yn eu ffurf derfynol.<br><br>Mae budd i'r cyhoedd o ganiatáu i'r Cyngor yr amser i feddwl ac ymarfer ei brosesau democrataidd cyn datgelu fersiwn derfynol yr adroddiad.<br><br>Pe câi adroddiad drafft ei ddatgelu fe all ragfarnu'r broses o gyfnewid safbwyntiau'n rhydd a didwyll rhwng aelodau ac / neu swyddogion ar y cynigion datblygu.<br><br>Mae ffurfio ymateb yn broses sy'n parhau ac nad ydyw hyd yn hyn wedi'i chwblhau.<br><br>*The report contains the Council's proposed consultation response on the most significant* |

<table>
<tr><td></td><td>development proposal on Anglesey for a generation.<br><br>Members have not yet had a chance to consider the draft response, and to disclose it now would be to:<br><br>- prejudice the effective conduct of public affairs;<br>- disclose internal communications between officers and members;<br>- disclose draft documents which are to be disclosed in final form imminently.<br><br>There is public interest in allowing the Council the thinking time to exercise its democratic processes prior to disclosing the final version of the report.<br><br>If the draft report is disclosed, it may inhibit the free and frank exchange of views between members and / or officers on the development proposal.<br><br>The formulation of the response is an ongoing process which is not yet complete.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Argymhelliad: Mae’r budd cyhoeddus o gadw’r eithriad yn gorbwyso’r budd cyhoeddus o ddatgelu’r wybodaeth.<br><br>Recommendation: The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information.</td></tr>
</table>

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **CYFARFOD:** | **Y CYNGOR SIR** |
| **DYDDIAD:** | **18 Hydref 2016** |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | **Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i Ail Gam Ymgynghori Cyn Ymgeisio Pŵer Niwclear PNH (PAC 2)** |
| **ADRODDIAD GAN:** | **Dr Gwynne Jones, Prif Weithredwr**<br><br>**Awdur:**<br>**Swyddfa'r Rhaglen Ynys Ynni**<br>**ladpl@anglesey.gov.uk**<br>**01248 752 435** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Er mwyn cael cymeradwyaeth y Cyngor Llawn i Ymateb i Ail Gam Ymgynghori Cyn Ymgeisio Pŵer Niwclear PNH Nuclear Power (PAC 2) ar Brosiect Newydd Wylfa.** |

**1.0 Cyflwyniad**

1.1 Mae'r Orsaf Niwclear newydd arfaethedig yn Wylfa Newydd yn Brosiect o Arwyddocâd Cenedlaethol fel y diffinnir hynny yn Neddf Cynllunio 2008. O'r herwydd, mae angen cyflwyno gorchymyn caniatâd datblygu (DCO) ar gyfer y brif orsaf bŵer a'r datblygiadau cysylltiedig oddi ar y safle. Mae Pŵer Niwclear PNH (PNH) yn rhagweld y bydd yn cyflwyno'r cais DCO i'r Arolygiaeth Gynllunio yng mis Mai 2017. Yn dilyn ymchwiliad i'r cais hwnnw, bydd argymhelliad yn cael ei wneud gan yr Arolygiaeth Gynllunio i'r Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Ynni a'r Strategaeth Ddiwydiannol a fydd yn penderfynu ar y cais a'r amodau terfynol (a elwir yn ofynion) ac a fydd yn berthnasol i unrhyw ganiatâd a roddir.

1.2 Yn unol â'r drefn statudol yng Nghymru, ni fedrir cynnwys gwaith galluogi megis gwelliannau priffyrdd a pharatoi safle, a datblygiadau cysylltiedig, e.e. Llety i Weithwyr, cyfleusterau Parcio a Theithio a Chanolfan Logisteg yn y cais DCO a byddant yn destun 10 o geisiadau ar wahân dan y Ddeddf Cynllunio

Gwlad a Thref (TCPA). Rhaid cyflwyno'r ceisiadau i Gyngor Sir Ynys Môn fel yr awdurdod cynllunio i'w penderfynu dros y misoedd nesaf.

1.3 Mae'r ail gam ymgynghoriad cyn ymgeisio (PAC2) yn dilyn yr ymgynghoriad PAC1 a gynhaliwyd ym mis Medi 2014, ac ymgynghoriad interim a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2016. PAC2 yw'r ymgynghoriad ffurfiol terfynol cyn cyflwyno'r DCO ac mae'n ymwneud â'r prif safle niwclear yn ei gyfanrwydd, y datblygiadau hanfodol bwysig oddi ar y safle annatod a datblygiadau cysylltiedig.

1.4 Dechreuodd y cyfnod ymgynghori o 8 wythnos ar PAC2 ar 31 Awst a daw i ben ar 25 Hydref, 2016. Gofynnir am ymatebion ynghylch y cynigion a ffefrir gan PNH ynghyd ag atebion i gyfres o gwestiynau penodol.

**2.0 Dogfennau PAC2 Ymgynghori PNH**

2.1 Mae'r gyfres o ddogfennau a gyflwynwyd fel rhan o gyflwyniad PAC2 PNH cynnwys y deunydd canlynol:

**Dogfennau technegol**

- Y Prif Ddogfen Ymgynghori
- Adroddiad ar y Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (ac Atodiadau)
- Adroddiad Interim ar yr Asesiad o'r Effaith ar Iaith
- Adroddiad Interim ar yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd
- Adroddiad Interim ar y Cynllun Tystiolaeth Drafft o'r Asesiad dan y Rheoliadau Cynefinoedd
- Adroddiad Interim ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb
- Adroddiad Interim ar yr Asesiad Cynaliadwyedd
- Prif Gynlluniau Drafft (Prif Safle)
- Adroddiad ar y Prif Gynlluniau Drafft (Cyfleusterau Pwerdy oddi ar y safle)
- Adroddiad ar y Prif Gynllun Drafft (Llety Dros Dro i Weithwyr)
- Adroddiad ar y Prif Gynllun Drafft (Parcio a Theithio a Logisteg)
- Cwestiynau strategol

**Dogfennau Annhechnegol**

- Dogfen Trosolwg o'r Ymgynghori
- Cynllun Budd Cymunedol
- Cynllun Lliniaru Sŵn Lleol

**Papurau pwnc**

- Adroddiad ar Ddewis Safleoedd ar gyfer Datblygiadau Cysylltiedig
- Adroddiad ar Ddewis Safleoedd ar gyfer Cyfleusterau oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer

- Adroddiad ar Lety i Weithwyr Adeiladu (Strategaeth)
- Nodyn Technegol ar Draffig a Thrafnidiaeth
- Fframwaith Datganiad Cynllunio (ac Atodiadau)

## 3.0 Agwedd ymateb CSYM

3.1 Er cysondeb, mae’r strwythur yn dilyn ymatebion blaenorol;

- Llythyr eglurhaol gan Brif Weithredwr CSYM
- Atodiad A - Adroddiad Strategol lefel uchel
- Atodiad B - Ymateb i Gwestiynau Strategol
- Atodiad C – Sylwadau ar yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Rhagarweiniol

3.2 Wrth baratoi'r ymateb manwl hwn, gofynnwyd am sylwadau gan Swyddogion o wahanol feysydd gwasanaeth ar draws CSYM, adborth o sesiynau briffio gydag Aelodau Etholedig a mewnbwn arbenigol gan ymgynghorwyr proffesiynol a chyfreithiol (a gyllidir gan HNP drwy'r Cytundeb Perfformiad Cynllunio a gytunwyd gyda CSYM). Maent wedi cael coladu mewn modd sy’n sicrhau eu bod yn strategol, yn adeiladol ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Mae'r ymateb yn ceisio dilyn y weledigaeth a'r amcanion ar gyfer Wylfa Newydd fel y’u nodir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol a gymeradwywyd gan Gyngor Sir Ynys Môn (2014).

3.3 Yn unol â chais CSYM yn yr ymateb i PAC1, mae PAC2 yn ceisio darparu llawer mwy o fanylion am y cynigion ond oherwydd nad yw dyluniad y prosiect yn derfynol eto, ni fedr PNH ar hyn o bryd ddarparu'r holl wybodaeth y bydd ei hangen i fynd gyda'r ceisiadau. Mae nifer o'r ymatebion CSYM felly yn ceisio amlygu meysydd lle mae angen rhagor o wybodaeth cyn y gellir llunio barn derfynol. Mae'r ymateb hwn hefyd wedi ceisio nodi dewisiadau eraill neu newidiadau i’r cynigion a ffefrir gan PNH ac yn nodi cynigion ar gyfer gwireddu'r buddion sy'n deillio o'r prosiect a’r mesurau lliniaru i ymdrin ag effeithiau andwyol a fydd, yn anochel, yn deillio o brosiect o'r maint a'r cymhlethdod hwn.

## 4.0 Trosolwg o ymateb CSYM

4.1 Mae'r llythyr eglurhaol gan Brif Weithredwr CSYM yn cadarnhau bod CSYM yn parhau i fod yn gefnogol mewn egwyddor i brosiect Wylfa Newydd. Er y gwnaed cynnydd sylweddol ers PAC1 a'r Diweddariad ar y Prosiect amlygwyd nifer o faterion allweddol.Mae'r rhain yn ymwneud â:

- Lefel y Wybodaeth yn PAC2
- Addysg, Sgiliau a Swyddi
- Y Gadwyn Gyflenwi
- Llety Gweithiwr / Tai

- Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig
- Twristiaeth
- Iechyd a Lles
- Methodoleg Dewis y Safle

**4.2** Yn yr Adroddiad Strategol lefel uchel (Atodiad A) mae'r prif themâu a nodwyd yn y ddau ymateb blaenorol yn cael eu cynnal a'u datblygu, ac mae'r rhain yn cynnwys:

- Cyfleoedd Cyflogaeth Lleol
- Addysg, Sgiliau a Hyfforddiant
- Y Gadwyn Gyflenwi
- Dadleoli
- Yr Iaith Gymraeg a'r Diwylliant Cymreig
- Priffyrdd a Thrafnidiaeth
- Twristiaeth
- Strategaeth Llety ar gyfer Gweithwyr Adeiladu
- Etifeddiaeth
- Effeithiau cronnus
- Gwastraff niwclear
- Lles, Cydlyniad a Chydraddoldeb
- Dewis Safleoedd

4.3 Gweler sylwadau manwl mewn perthynas â'r Cwestiynau Strategol a'r Adroddiad Rhagarweiniol ar y Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol yn Atodiadau B & C yn y drefn honno.

4.4 Wrth baratoi'r ymateb cynhwysfawr, ymgysylltodd swyddogion o CSYM gyda rhanddeiliaid eraill yn cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Heddlu Gogledd Cymru, y Gwasanaeth Tân ac Achub, Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Bydd pob un o'r sefydliadau hyn yn cael cyflwyno eu hymatebion eu hunain i'r ymgynghoriad hwn.

## 5.0 Casgliadau

5.1 Bydd yr Aelodau'n gyfarwydd â'r materion allweddol a'r prif themâu sy'n codi o'r ymgynghoriad hwn a rhai blaenorol. Er mai hwn yw cam ffurfiol diwethaf y broses ymgynghori, bydd cyfleon yn parhau i fod ar gael i swyddogion gael siapio'r cyflwyniad DCO a gyflwynir yn y pen draw. Yr un modd, bydd y sylwadau yn yr ymateb hwn sy'n ymwneud â'r elfennau hynny o'r prosiect sydd angen TCPA yn cael eu hystyried yn y trafodaethau priodol cyn cyflwyno cais. Bydd swyddogion yn ymdrechu i weithio gyda HNP i sefydlu Datganiad Tir Cyffredin y cytunwyd arno; fodd bynnag, lle ceir gwahaniaeth barn hyn, y

rhain fydd y sail ar gyfer Adroddiad CSYM ar yr Effeithiau yn Lleol. Bydd yr Aelodau'n cael eu diweddaru yn rheolaidd.

5.2 Gofynnir yn barchus i'r Aelodau gymeradwyo'r gyfres atodedig o ddogfennau sydd ynghlwm a fydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio ymateb ffurfiol CSYM i PAC2. Yn amodol ar gymeradwyaeth Aelodau Etholedig gofynnir am i awdurdod dirprwyedig gael ei roi i'r Prif Weithredwr i wneud unrhyw fân ddiwygiadau, amrywiadau neu gywiriadau sy'n cael eu nodi ac sy'n rhesymol angenrheidiol cyn cyhoeddi yr ymateb ffurfiol.

5.3 Gofynnir hefyd am ddirprwyo'r hawl i'r Prif Weithredwr gynnal trafodaethau ar y pecyn ymrwymiadau cyffredinol fydd yn cael ei gynnwys yn yr ymrwymiad cynllunio perthnasol (A106) a chytundebau cysylltiedig ar gyfer y ceisiadau DCO a TCPA.

**DIWEDD YR ADRODDIAD**

Dr. Gwynne Jones
Prif Weithredwr
Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfa'r Sir
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Gofynnwch am - Please ask for: Vicky Jones

☎ (01248) 752102 🖷(01248)750839

E-Bost-E-mail: gwynnejones@ynysmon.gov.uk

Ein Cyf - Our Ref. WGJ/VLJ
Eich Cyf - Your Ref.

**SWYDDOGOL**

Annwyl Mr Hawthorne,

YMATEB I GAM DAU YR YMGYNGHORIAD CYN-YMGEISIO AR BROSIECT PŴER NIWCLEAR PNH - WYLFA NEWYDD

**RHAGARWEINIAD**

Rwy'n ysgrifennu atoch ar ran Cyngor Sir Ynys Môn i gyflwyno ymateb ffurfiol y Cyngor i'r ymgynghoriad PAC2. Drwy wneud hynny, defnyddiaf ddull a strwythur tebyg i'r hyn a ddefnyddiwyd yn fy llythyrau at Mr Alan Raymant mewn ymateb i'r ddau ymgynghoriad blaenorol. Y nod yw dangos cysondeb a thryloywder drwy gyfleu sefyllfa CSYM yn gwbl groyw wrth i gynigion PNH ar gyfer Prosiect Wylfa Newydd esblygu dros amser.

Mae CSYM yn gwerthfawrogi'r swm sylweddol ac amlwg o waith a wnaed yn paratoi PAC2 ac yn credu bod llawer o'r materion a godir yn yr ymateb hwn, ac mewn ymatebion blaenorol, bellach wedi eu cynnwys yn briodol o dan benawdau clir yn y dogfennau. Er y gofynnwn am fwy o fanylion ar sawl mater, nodwn a derbyniwn yn gadarnhaol fod y prif faterion wedi cael sylw ac y bydd hyn yn gosod sylfaen dda ar gyfer trafod y manylion wrth symud ymlaen. Mae CSYM yn parhau i fod yn gefnogol o Brosiect Wylfa Newydd mewn egwyddor ac am weithio gyda PNH i helpu'r Prosiect i lwyddo a dod â chanlyniadau buddiol i'r Ynys.

Mae'r llythyr hwn yn dilyn ac adeiladu ar ohebiaeth flaenorol drwy dynnu sylw at faterion allweddol ac nid yw'n asesiad cynhwysfawr o'r cynigion. Mae CSYM wedi cyflwyno barn lefel uchel am bwyntiau amrywiol, gan gynnwys mesurau lliniaru posib; fodd bynnag cynigiwn ein barn ond fel canllaw a sail ar gyfer trafodaeth bellach oherwydd heb ddarlun llawn a manwl o'r cynigion a'r amodau sylfaenol

mae'n anodd mesur a gwybod maint eu heffaith i asesu faint o liniaru sydd ei angen. Cefnogir y llythyr hwn gan yr Atodiadau canlynol sy'n rhoi mwy o fanylion ar faterion blaenorol, ac i ddod, lle cytunwn ac anghytunwn yn eu cylch, ac sy'n cyfuno â'r llythyr hwn i lunio ymateb ffurfiol a manwl y Cyngor:

Atodiad A: Adroddiad Strategol Lefel Uchel
Atodiad B: Ymatebion i'r Cwestiynau Strategol a ofynnwyd yn PAC2
Atodiad C: Sylwadau ar y Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol

Lle bynnag y bu'n bosib mae CSYM wedi ceisio sicrhau cysondeb yng ngeiriad y dogfennau hyn ac osgoi dyblygu. Fodd bynnag, o ystyried yr amserlen dynn ar gyfer ymateb i PAC2, a'r mewnbwn yr oedd angen ei gasglu gan Wasanaethau ar draws y corff, gallai'r testun weithiau fod yn anghyson.

**CEFNDIR**

Gweledigaeth CSYM ar gyfer yr Orsaf Niwclear Newydd yn Wylfa, fel y'i cyflwynir yn y Canllawiau Cynllunio Atodol, yw ei bod yn "sbardun cadarnhaol i drawsnewid economi a chymunedau Ynys Môn, gan ddarparu cyfleoedd gwaith cynaliadwy, gwella ansawdd bywyd y genhedlaeth bresennol a'r rhai a ddêl a gwella hunaniaeth leol a chymeriad unigryw'r Ynys". Mae'r Weledigaeth hon yn trosi'n gyfres o ddisgwyliadau y bydd adeiladu a gweithredu Wylfa Newydd yn:

1. Cyfrannu at anghenion y DU am ynni carbon isel sicr a fforddiadwy;
2. Cydymffurfio â'r holl ofynion diogelwch ac atal risg i sicrhau Prosiect diogel a sicr gyda darpariaethau cynllunio argyfwng safadwy;
3. Cyfrannu'n sylweddol at dwf economaidd a ffyniant lleol cynaliadwy a thymor hir drwy ddarparu swyddi o ansawdd, hyfforddiant a chyfleoedd i'r gweithlu gael datblygu;
4. Cefnogi ffyniant busnesau lleol drwy ddarparu cyfleoedd mewnfuddsoddi a chadwyn gyflenwi priodol;
5. Cefnogi cynaliadwyedd, bywiogrwydd ac ansawdd bywyd ar Ynys Môn ac yn ei chymunedau (gan gynnwys cefnogi'r iaith Gymraeg a'i diwylliant) a hybu ymddygiad a byw mewn ffordd garbon isel.
6. Ystyried yr effeithiau amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd ac ar iechyd a darparu mesurau lliniaru a 'neu wneud iawn am unrhyw effeithiau niweidiol gan wneud y mwyaf o'r manteision cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol llesol;
7. Cyfrannu at wella seilwaith, cyfleusterau a gwasanaethau cymunedol lleol;
8. Hyrwyddo dulliau trafnidiaeth cynaliadwy gan gyflawni gwelliannau seilwaith er mwyn lleihau effaith y datblygiadau ar gapasiti a gwydnwch lleol, a gwella cysylltedd;
9. Cyfrannu at fioamrywiaeth yr Ynys ac ansawdd ei hamgylchedd naturiol; a

10. Cydnabod cefnogaeth y cymunedau lleol wrth dderbyn y Prosiect (yn ystod ei gamau adeiladu a gweithredu hyd at y cam datgomisiynu) drwy wneud iawn am effeithiau na ellir eu lliniaru, ac ennill ewyllys da a dealltwriaeth poblogaeth yr Ynys yn gyffredinol mewn ffyrdd eraill.

Mae cefnogaeth barhaus CSYM i'r Prosiect yn seiliedig ar ddisgwyl y cyflawnir y Weledigaeth a'r Canlyniadau hyn drwy gwrdd â'r saith Amcan canlynol a sicrhau bod Wylfa Newydd yn:

1. Cyfrannu at ddarparu Rhaglen Ynys Ynni Môn, a Pharth Menter Ynys Môn, fel bo'r Ynys ar y blaen gyda'r agenda cynhyrchu, gwasanaethu, ymchwil a datblygu ynni;
2. Sbarduno'r broses o drawsnewid economi Ynys Môn a Gogledd Cymru ac yn gwneud y mwyaf o bob cyfle i uwchraddio sgiliau a sicrhau gwaith i'r bobl leol;
3. Darparu manteision seilwaith sylweddol a pharhaol i gymunedau'r Ynys;
4. Cefnogi gwelliannau i ansawdd bywyd (gan gynnwys iechyd, lles ac amwynder) preswylwyr, ymwelwyr a gweithwyr yr Ynys yn ystod y camau adeiladu a gweithredu;
5. Cydnabod a chryfhau hunaniaeth unigryw'r Ynys a'i chymunedau;
6. Hyrwyddo symudiad pobl a deunyddiau'n gynaliadwy ac yn darparu seilwaith trafnidiaeth cadarn fydd yn gallu denu a chynnal twf economaidd a chreu cymunedau cynaliadwy; a
7. Gwarchod a gwella adnoddau ac amgylchedd unigryw'r Ynys, gan ystyried y newid yn yr hinsawdd.

Mae'r Weledigaeth hon, y Canlyniadau sydd mewn golwg ar gyfer y Prosiect a'r Amcanion ar gyfer eu cyflawni yn parhau i ategu dull cyffredinol yr awdurdod o ymdrin â'r Prosiect drwy geisio sicrhau y lleolir y datblygiadau iawn yn y lle iawn gan wireddu'r manteision a lliniaru'r effeithiau drwy gydol oes y Prosiect. Maen nhw hefyd yn cyfuno i greu'r sail ar gyfer yr ymateb hwn a, thrwy wneud hynny, yn ailddatgan y prif themâu sy'n codi ac y tynnodd CSYM sylw atynt yn ei ymatebion i'r ddau ymgynghoriad blaenorol. Fel a welir yn yr Adroddiadau Adborth ar yr Ymgynghoriadau, mae'r themâu hyn hefyd yn adlewyrchu'n fras yr adborth a dderbyniwyd gan y cyhoedd.

## MATERION ALLWEDDOL

Mae'r materion allweddol isod o dan benawdau er mwyn osgoi dyblygu. Dylid felly eu darllen ar y cyd â'r sylwadau mwy manwl yn yr Atodiadau.

### Lefel y Wybodaeth yn PAC2

Mae CSYM yn cydnabod bod llawer mwy o fanylder wedi'i roi yn y cynigion PAC2. Mae'n anochel bod manylion llawer mwy sylweddol wrthi'n cael eu paratoi ar gyfer

cyflwyno’r ceisiadau. Mae CSYM wedi ceisio bod yn adeiladol drwy daro cydbwysedd rhwng nodi lle mae gwaith manwl mewn llaw a rhoi adborth ystyrlon lle bynnag y bo’n bosib.

Mae CSYM eisiau tanlinellu pa mor bwysig yw ymgysylltu â PNH dros y cyfnod hwn cyn cyflwyno cais er mwyn symud ymlaen ar y gwahanol faterion a godir yn yr ymateb hwn a hynny er mwyn sicrhau cyfres o geisiadau addas i'r pwrpas ac a fydd yn gallu cyflawni amcanion y ddwy ochr. Yn benodol mae CSYM am nodi'n glir bod angen gwaith helaeth pellach i ddatblygu'r cynigion ar gyfer lliniaru'r effeithiau, creu Etifeddiaeth cadarnhaol o’r prosiect a sut y mae PNH yn bwriadu datrys unrhyw faterion annisgwyl neu ddifesur wrth iddynt godi a phryd y byddant yn codi drwy gydol oes y prosiect, nid yn unig yn y cam adeiladu.

**Addysg, Sgiliau a Swyddi**

Mae CSYM wedi bod yn gefnogol ac yn parhau i fod yn gefnogol o’r prosiect ar sail y swyddi y bydd yn eu darparu’n lleol yn ystod cam adeiladu a cham gweithredu’r prosiect. I sicrhau bod gymaint o bobl leol â phosib yn gallu manteisio ar y cyfleoedd hyn, mae angen i PNH ymrwymo’n fuan i hyrwyddo pynciau STEM yn ysgolion cynradd ac uwchradd yr Ynys. Mae angen gwneud hyn er mwyn ennyn diddordeb y disgyblion a goleuo eu dewisiadau o ran pynciau fel eu bod yn ennill y canlyniadau arholiad perthnasol i ddilyn prentisiaethau neu fynd ymlaen i ennill cymwysterau addysg bellach ac uwch i’w harfogi ar gyfer swyddi fydd ar gael drwy Wylfa Newydd. Nid yw’r ymrwymiad hwn, o ran maint nac amseriad angenrheidiol, yn amlwg yn nogfennau PAC2.

Mae gan CSYM farn debyg am gynigion PNH i ddarparu hyfforddiant sgiliau i bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant (NEET) a phobl ddi-waith hirdymor. Gyda chymorth arbenigol buan, gallai’r bobl hyn ennill y setiau sgiliau sydd eu hangen ar gyfer y nifer fawr ac amrywiol o swyddi cymorth fydd yn cael eu creu gan y prosiect.

Mae CSYM yn cydnabod y cymorth a roddwyd gan PNH i sefydlu gwasanaeth Brocera Cyflogaeth a Sgiliau ac yn gofyn am ei gefnogaeth i’w dreialu gyda’r contractau ar gyfer y gwaith o Baratoi a Chlirio’r Safleoedd.

Mae gan CSYM bryderon o hyd na roddwyd sylw dyledus ac na aseswyd y posibilrwydd y gallai’r prosiect ddadleoli swyddi cadwyn gyflenwi yn y sectorau gofal cymdeithasol, cymorth cartref a thwristiaeth a lletygarwch wrth i bobl sydd mewn gwaith ar hyn o bryd symud i swyddi a fyddai'n talu’n well mewn cysylltiad â Wylfa Newydd. Rhaid cael llawer mwy o wybodaeth am y swyddi fydd yn cael eu creu er mwyn gallu asesu canlyniadau unrhyw ddadleoli’n iawn a sut y byddai modd lliniaru yn erbyn hyn.

**Y Gadwyn Gyflenwi**

Mae CSYM yn croesawu Siarter Cadwyn Gyflenwi PNH ac yn parhau i gynghori y dylai fod yn ei lle ar gyfer y gwaith cynnar a'r datblygiadau cysylltiedig fel bod busnesau lleol yn gallu gwneud y mwyaf o'r cyfleoedd ac ennill profiad o'r system dendro cyn i'r brif broses o dendro am y gwaith adeiladu ddechrau.

Mae CSYM yn croesawu'r gwaith ar hyrwyddo rôl y gadwyn gyflenwi fydd yn cael ei wneud gan *Menter Newydd* sef y Rhaglen Parodrwydd Busnesau a sefydlwyd yn sgil datblygu cysyniad Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd. Ystyrir bod y sylwadau ar y cymorth sydd ei angen gan PNH i helpu pobl leol, ac yn enwedig pobl ifanc, i fod yn gystadleuol yn y farchnad waith ar gyfer Wylfa Newydd, yr un mor berthnasol i'r cymorth sydd ei angen ar fusnesau lleol i gystadlu ar gyfer cyfleoedd contractau gwasanaeth a chadwyn gyflenwi.

**Llety / Tai ar gyfer y Gweithwyr**

Roedd crynswth ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad Diweddariad ar y Prosiect yn canolbwyntio ar y mater hwn. Ehangwyd arno mewn cyfres o 26 o gwestiynau a anfonwyd ymlaen at PNH ond na chafwyd ymateb uniongyrchol iddynt. Mae CSYM wastad wedi cefnogi'r egwyddor o ystyried, yn gyntaf, beth yw potensial y stoc dai a thwristiaeth bresennol i'w defnyddio dros dro fel llety ar gyfer y gweithwyr. Mae CSYM hefyd yn cytuno y dylid ystyried tai gwag a segur ochr yn ochr â datblygiadau newydd, fel Land & Lakes, a'u defnyddio i ddechrau fel llety ar gyfer y gweithwyr ac yna at ddibenion Etifeddiaeth hirdymor yn dilyn y cam adeiladu.

Mae CSYM yn credu'n gryf bod lle i gynyddu faint o lety gweithwyr sydd ar gael ar gyfer y cam adeiladu drwy gyflwyno safleoedd datblygu preswyl eraill. Mae'r rhain yn cynnwys lleiniau unigol ac ystadau bychain yn ogystal â safleoedd mawr y cyfeiriodd PNH atynt yn y Diweddariad ar y Prosiect, sef 'safleoedd yng Nghaergybi' ond na symudodd ymlaen arnynt; gyda'r Cyngor yn cynnig safleoedd posib eraill, er enghraifft yn Amlwch (yn ogystal â Fferm Madyn).

Mae CSYM wedi cyfeirio'n barhaus at yr effeithiau posib ar y Sector Rhent Preifat a bod angen helpu i wrthbwyso hyn drwy Gronfa Tai Cymdeithasol er mwyn darparu mwy o gartrefi i'w gosod.

Mae CSYM wastad wedi derbyn y gallai fod angen llety dros dro ar gyfer y gweithwyr mewn adeiladau dros dro ar gyfer y cam adeiladu'n unig. Fodd bynnag, dylid ond ystyried y math hwn o lety ar ôl ystyried yr holl bosibiliadau eraill, gan gynnwys y rhai a ddisgrifiwn uchod, ac yna ei leoli ar safleoedd sy'n cydymffurfio â Pholisi Cynllunio (gan gynnwys y strategaeth ofodol), nad ydynt yn achosi problemau priffyrdd ac sy'n hygyrch ar gyfer gwasanaethau.

## Yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant

O'r cychwyn un mae CSYM wedi tanlinellu pa mor bwysig yw'r iaith Gymraeg a'i diwylliant fel edau aur sy'n gweu drwy brosiect Wylfa Newydd yn ei gyfanrwydd. Mae PNH wedi ymgynghori â'r awdurdod ar Strategaeth Iaith Gymraeg a Diwylliant arfaethedig y cwmni ac yn croesawu eu bod yn cydnabod pa mor bwysig yw'r elfennau hyn i gymunedau'r Ynys. Mae'r elfennau hyn i gyd yn gwneud llawer i ateb y pryderon a leisiwyd yn flaenorol gan CSYM a byddai'r awdurdod yn falch o ymgysylltu â PNH i'w datblygu ymhellach.

Mae CSYM yn falch o weld bod PNH yn cydnabod pwysigrwydd yr iaith Gymraeg ac yn cysoni ei asesiad o effaith â'i Strategaeth Iaith Gymraeg yn y dogfennau PAC2 ac yn yr "Addewid" a gyhoeddwyd gan y cwmni'n ddiweddar. Mae CSYM yn croesawu addewid PNH ynghylch y Gymraeg. Fodd bynnag mae diffyg eglurder ar unrhyw drefniadau atebolrwydd, rydyn ni'n dal i aros am raddfa a maint y mesurau lliniaru ynghyd â thystiolaeth o ymrwymiad PNH i brawfesur pob agwedd ar ei gynigion a'u heffeithiau yn erbyn yr Iaith Gymraeg.

Nid yw'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg eto'n llawn gydnabod graddfa anferthol y prosiect a'r effaith union ac anuniongyrchol y bydd y gweithwyr adeiladu dros dro a'u dibynyddion yn ei gael ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant. O ganlyniad mae diffyg ymrwymiad digonol yn yr adroddiad i gymryd camau lliniaru ar unwaith. Bydd effaith y prosiect hwn yn sylweddol a phellgyrhaeddol o ran y Gymraeg a'i diwylliant; mae'n hanfodol bwysig felly bod PNH yn dangos ymrwymiad pendant, gan gynnwys drwy fesurau lliniaru priodol, i gynnal a chryfhau'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Mae'r awdurdod yn parhau i argymell na ddylid edrych ar yr iaith Gymraeg ar ei phen ei hun ac yr edrychir arni ar draws y gwahanol feysydd pwnc ac, yn benodol, ei bod yn cael ei chynnwys fel un o'r derbynyddion yn yr asesiadau o'r effaith amgylcheddol.

## Twristiaeth

Mae CSYM yn parhau i leisio ei bryderon na roddwyd digon o sylw na phwysau i dwristiaeth fel sector economaidd allweddol ar yr Ynys. Bydd y prosiect yn effeithio'n uniongyrchol ar dwristiaeth wrth i nifer yr ymwelwyr leihau o bosib oherwydd y gwaith adeiladu, ac yn anuniongyrchol wrth i'r defnydd a wneir o lety twristiaeth i letya'r gweithwyr leihau'r cyflenwad, dadleoli staff ac wrth i nifer o'r gwahanol agweddau ar y prosiectau roi mwy o bwysau ar gyfleusterau. Felly, dylid ystyried hyn fel thema allweddol.

## Iechyd a Lles

Mae CSYM wedi pwyso'n gyson ar PNH i fabwysiadu safbwynt ehangach nag a wnaeth gyda'i waith i Asesu'r Effaith ar Iechyd hyd yma. Mae hyn yn seiliedig ar

ddeddfwriaeth y Cynulliad sy'n gofyn bod CSYM a chyrff cyhoeddus eraill yn ystyried amcanion llesiant ac egwyddorion datblygu cynaliadwy wrth wneud penderfyniadau. Rhaid ystyried y ddeddfwriaeth Llesiant a rhaid adlewyrchu'r cwmpas ehangach hwn mewn unrhyw gais a gyflwynir yn y dyfodol.

**Methodoleg ar gyfer Dewis Safleoedd**

Cyflwynodd CSYM sylwadau ar fethodoleg PNH ar gyfer dewis safleoedd yn ei ymateb blaenorol gan ail-godi'r pwyntiau mewn gohebiaeth fanwl. Yn ei gapasiti fel yr Awdurdod Lleol, mae CSYM wedi gwneud sylwadau ar y safleoedd hyn mewn ymateb i'r manylion a roddwyd yn PAC2 heb ragfarnu unrhyw benderfyniad a wneir yn y dyfodol gan unrhyw ran neu swyddogaeth o'r Cyngor ac i bwrpas yr ymgynghoriad hwn yn unig.

Erys yr awdurdod o'r farn bod yr adroddiadau dewis safle'n anghyson, nid ydynt yn cyfiawnhau'r meini prawf a ddefnyddir yn iawn, ac fe'u dylanwadir yn drwm gan opsiynau a thir sydd eisoes ym meddiant PNH. At ei gilydd, ni ystyriwyd yn iawn yr ymatebion i'r ymgynghoriad blaenorol o ran dewis safleoedd heblaw sôn yn fyr amdanynt ac yna eu diystyru heb fawr ddim tystiolaeth. Defnyddiwyd rhagofynion gweithredol fel "hidlydd" heb fawr o gyfiawnhad dros wneud hynny ac nid yw CSYM yn derbyn bod achos addas wedi'i wneud dros fod wedi ystyried yr holl safleoedd perthnasol yn iawn. Ni chyflwynir cyfyngiadau lleoli'r cyfleusterau oddi ar y safle'n ddigon manwl o gwbl. Yn benodol mae peidio â chynnwys Llangefni yn y broses asesu pedwar cam yn sgiwio'r broses drwy eithrio nifer o safleoedd mawr. Mae'r ystyriaeth ar wahân o safleoedd yn Llangefni'n annigonol ac anghyson â'r Canllawiau Cynllunio Atodol. Diystyrir y safleoedd yn Llangefni a oedd wedi eu hadnabod fel rhai addas posib ar sail amser teithio, mae'r asesiad ohonynt yn fras ac ymddengys iddo fod wedi cael ei gynnwys ond er mwyn ateb cais blaenorol CSYM i ystyried y safleoedd hyn ac er mwyn eu diystyru.

Gwneir sylwadau safle-benodol yn yr ymateb i gwestiwn 8 yn Atodiad B.

**CASGLIADAU**

Mae casgliadau'r Cyngor yn seiliedig ar y datganiadau a wnaeth PNH yn y Rhagair i ddogfen Trosolwg ar Ymgynghoriad PAC2.

Mae CSYM yn ardystio'n llawn y datganiad a wneir gan PNH bod gan "Wylfa Newydd botensial i newid bywydau er gwell ar draws Ynys Môn a dod â buddsoddiad a chyfleoedd sylweddol i gymunedau ac unigolion ar draws Gogledd Cymru a thu hwnt". Y cam nesaf yw trosi'r amcan aruchel hwn yn ymrwymiadau a gweithredu gweladwy sy'n cwrdd â disgwyliadau pobl, busnesau a chymunedau'r ardal ac y maent yn gymwys i fanteisio arnynt.

Ategwn hefyd y cysyniad o gael ‘trwydded gymdeithasol’ i weithredu. Mae’r ddogfen yn gosod allan yr hyn a ddywedwyd yn gyson wrth PNH, a sut y mae wedi ymateb i’r galwadau i fuddsoddi mewn rhaglenni addysg a sgiliau, i greu miloedd o swyddi lleol yn ystod y cam adeiladu, i ddatblygu gyrfaoedd da am genedlaethau i ddod drwy gydol oes yr orsaf bŵer ac i barchu a hyrwyddo’r iaith a’r diwylliant a’r dreftadaeth leol. Adleisiwn y galwadau hyn yn yr ymateb hwn.

Wrth ystyried sut i ddelio â’r mater hwn mae CSYM wedi cyflwyno’r cysyniad o Gronfa Cydnerthu Cymunedau. O ystyried cymhlethdod y Prosiect, ac fel y dywedwch “cyfnod prysur i ymgynghori ar brosiectau mawr” mae angen darparu ymateb lliniaru sy’n ddigon hyblyg i ymateb i’r hyn a fydd yn broses adeiladu ddeinamig a chymhleth dros ben. Er mwyn helpu i ateb yr her hon, byddai Cronfa Cydnerthu Cymunedau yn:

a) rhoi sylw i ganlyniadau datblygiad;
b) targedu’n benodol a grymuso pobl leol wrth ymateb i effeithiau datblygiad; a
c) byddai’n fwriadol hyblyg er mwyn gallu rhoi sylw i effeithiau wrth iddynt ddigwydd a mynd i’r afael â’r broblem o arian na ellid ei ddefnyddio o ganlyniad i feini prawf dosbarthu rhy gyfyngedig.

Mae CSYM o’r farn bod egwyddor y gronfa hon yn hanfodol i “sefydlu’r partneriaethau diffuant gyda’r cymunedau y mae PNH yn bwriadu bod yn rhan ohonynt” dros y 60 mlynedd nesaf a mwy. Byddai hyn ar wahân i’r Manteision Cymunedol Gwirfoddol sy’n destun ymgynghori ar hyn o bryd, ac y mae CSYM yn ymateb iddo ar wahân.

Edrychaf ymlaen at barhau i ymgysylltu’n adeiladol â PNH.

Yours sincerely,

**Gwynne Jones**
**Prif Weithredwr / Chief Executive**

# ATODIAD A

# ADRODDIAD STRATEGOL LEFEL UCHEL AR YMGYNGHORIAD CYN YMGEISIO CAM 2 PROSIECT WYLFA NEWYDD (HYDREF 2016)

## 1 CYFLWYNIAD

1.1 Mae Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) yn croesawu'r cyfle i gyflwyno sylwadau ar Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau (a elwir yn PAC2) Wylfa Newydd Pŵer Niwclear Horizon (PNH). Mae CSYM yn manteisio ar y cyfle hwn i ddarparu sylwadau strategol ac adeiladol i helpu i ddylanwadu ar y cynnig a lle bo hynny'n bosib i ddarparu awgrymiadau a/neu atebion fel dulliau lliniaru i oresgyn heriau er mwyn sicrhau bod y datblygiad yn llwyddiant i drigolion Ynys Môn, ei heconomi a’i hamgylchedd.

1.2 Mae CSYM yn gwerthfawrogi faint o waith sydd wedi'i gyflawni i baratoi ar gyfer PAC2 a’r ymdrechion a wnaed gan PNH i daro’r cydbwysedd priodol rhwng darparu’r manylion y mae CSYM ac eraill yn gofyn amdanynt, a chyflwyno ymgynghoriad ystyrlon lle nad yw pob elfen yn derfynol ac y gellir ei diwygio mewn ymateb i’r adborth a gyflwynir. Mae CSYM yn ystyried bod llawer o’r materion a godir yn yr adroddiad hwn yn ogystal â’r ymatebion blaenorol wedi’u cynnwys ym mhenawdau’r ddogfen. Er y gofynnir am ragor o fanylion am lawer o faterion, nodir a derbynnir yn gadarnhaol bod y prif faterion wedi’u hystyried ac wedi’u gosod allan i roi sylfaen ar gyfer trafodaethau am fanylion i fwrw ymlaen â nhw.

1.3 Mae CSYM yn dal yn gefnogol i Brosiect Wylfa Newydd mewn egwyddor, ac yn awyddus i ymwneud â PNH a gweithio gyda’r cwmni i helpu’r Prosiect i lwyddo a sicrhau canlyniadau cadarnhaol ar gyfer yr Ynys. Serch hynny, fel awdurdod perthnasol i’r Prosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol hwn, ni fydd CSYM yn cefnogi’r datblygiad doed a ddêl ac mae'n rhaid cael lefel briodol o ymrwymiad cadarn i nifer o’r themâu a nodir yn yr ymateb hwn er mwyn sicrhau hyder y gymuned leol cyn cyflwyno’r ceisiadau cynllunio a’r Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO). Dylai ymrwymiadau PNH alluogi mesurau lliniaru, cyflwyno camau gwneud iawn digonol i’r gymuned berthnasol pan nad oes modd gwneud hyn, a gwireddu manteision y prosiect yn llawn (gan gynnwys manteision i’r dyfodol).

1.4 Mae’r ymateb hwn yn cynnwys sylwadau lefel uchel, ac nid yw'n asesiad cyflawn, manwl o bob Prif Thema neu Fater. Mae CSYM wedi cyflwyno safbwyntiau lefel uchel ar fesurau lliniaru posib; serch hynny, caiff y rhain eu cynnig fel arweiniad a sylfaen ar gyfer trafodaeth bellach oherwydd heb ddarlun llawn a manwl o’r cynigion ac amodau gwaelodlin, mae’n anodd canfod a mesur yr effeithiau i asesu’r lefel liniaru angenrheidiol. Bydd angen gwyntyllu’r wybodaeth fanwl wrth i’r prosiect fynd ymlaen a dechrau’r drafodaeth cyn ymgeisio ar Geisiadau Cynllunio Gwlad a Thref a chyn cyflwyno’r DCO.

1.5 Caiff y sylwadau hyn eu cyflwyno er mwyn sicrhau bod yr effeithiau'n cael eu lliniaru'n llawn, bod y manteision (gan gynnwys y manteision i'r dyfodol) yn cael eu gwireddu i'w llawn botensial a bod cymunedau'r Ynys yn cael eu cefnogi a'u cryfhau yn gyfnewid am gynnal y datblygiad mawr hwn. Gan fod y wybodaeth fanwl yn y dogfennau yn gyfyngedig mewn rhai achosion, ni ellir dibynnu'n llwyr ar y sylwadau hyn oherwydd bod angen trafodaeth bellach, fanylach wrth i amrywiol agweddau'r prosiect gael eu datblygu. Mae CSYM wedi ymrwymo'n llwyr i gyfrannu at y trafodaethau hyn cyn cyflwyno cais am Orchymyn Cydsyniad Datblygu.

1.6 Er mwyn sicrhau cysondeb a thryloywder, mae'r sylwadau a gyflwynir isod wedi'u strwythuro o amgylch themâu sy'n hynod o debyg neu'n union yr un fath â'r Prif Themâu a godwyd yn ystod ymateb y Cyngor i'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio (Cam 1)[1] a'r Ymgynghoriad Anffurfiol[2] fel yr amlinellwyd yn y llythyr eglurhaol. Mae CSYM hefyd wedi cynnwys ymateb i Adroddiad Effaith Amgylcheddol Rhagarweiniol (PEIR) PNH yn yr Atodiadau. Mae adolygiad CSYM o'r dogfennau PEIR yn awgrymu bod cwmpas yr asesiad a'r derbynyddion a nodir yn briodol. Serch hynny, mae cryn dipyn llai o sicrwydd o ran y casgliadau a nodir yng nghyswllt arwyddocâd yr effeithiau gan nad oes digon o asesiadau na gwybodaeth gwaelodlin yn yr adroddiad a'i atodiadau. Ar ôl ymateb i Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam 2 (PAC2) roedd yn amlwg i CSYM bod y themâu strategol hyn yn parhau yn faterion blaenoriaeth uchel mae angen eu hystyried a'u trafod ymhellach â Chyngor Môn wrth i'r prosiect barhau i gael ei ddatblygu.

1.7 Mae PNH yn gwbl ymwybodol o ddisgwyliad y cyhoedd a'r gymuned y bydd y cyfleoedd cyflogaeth a chadwyn cyflenwi a fydd yn cael eu creu gan y datblygiad ar Ynys Môn a ledled gogledd Cymru (boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol) yn cael eu gwireddu'n llawn. Mae angen rhagor o eglurder o ran sut y caiff hyn ei wireddu, a sut y caiff yr effeithiau ar yr amgylchedd, iaith, llesiant ac ansawdd bywyd eu rheoli a'u lliniaru – yn enwedig yn y cymunedau cyfagos (Tregele, Llanfechell a Chemaes).

1.8 Yn ddealladwy, mae dogfennau PAC2 yn swmpus ond mae CSYM o'r farn bod rhywfaint o'r wybodaeth wedi'i dyblygu mewn rhai mannau ac yn cynnwys gormod o gyfeiriadau at ddogfennau eraill yn hytrach na chyflwyno'r holl wybodaeth am bwnc penodol mewn un lle. Ystyrir y byddai dull sy'n fwy seiliedig ar bynciau wedi gwneud y dogfennau yn fwy hygyrch i'r cyhoedd a phartïon eraill a chanddynt ddiddordeb i brosesu'r wybodaeth a chynnig ymatebion ystyrlon erbyn diwedd y cyfnod ymgynghori. Gofynnir i PNH

[1] Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Cyntaf (PAC1) dyddiedig 04 Rhagfyr 2014
[2] Ymateb i Ymgynghoriad anffurfiol â'r Cyhoedd Pŵer Niwclear PNH ar Ddiweddariad y Prosiect (Ionawr 2016) dyddiedig 24 Mawrth 2016

ystyried aildrefnu sut caiff rhywfaint o'r wybodaeth ei chyflwyno mewn ymgynghoriadau â'r cyhoedd yn y dyfodol, gan gynnwys yr ymgynghoriadau statudol angenrheidiol ar gyfer y ceisiadau.

## 2 CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL (CCA) WYLFA NEWYDD

2.1 Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) sydd wedi'u mabwysiadu yn amlinellu gweledigaeth ac amcanion CSYM ar gyfer Gorsaf Niwclear Newydd, ac yn hollbwysig, yn amlinellu Egwyddorion Arweiniol CSYM ar bob un o'r Prif Themâu gyda Phapurau Pwnc atodol.

2.2 Mae CCA Gorsaf Niwclear Newydd Wylfa yn darparu fframwaith a deunydd i CSYM ei ystyried wrth wneud penderfyniadau ceisiadau cynllunio yn y dyfodol. Mae hefyd wedi'i lunio i ddylanwadu, i lywio ac i helpu i siapio cynigion a phenderfyniadau hyrwyddwr y prosiect drwy egluro'n fanwl ddyheadau a disgwyliadau CSYM o'r Orsaf Niwclear Newydd arfaethedig.

2.3 Mae CSYM yn ailadrodd ei safbwynt sef y dylai Pŵer Niwclear PNH roi ystyriaeth lawn i'r CCA ar gyfer pob un o'r Prif Themâu ac unrhyw asesiad dethol safleoedd. Mae'r CCA yn cael ei adolygu ar hyn o bryd, ochr yn ochr â'r broses o ffurfio a mabwysiadu Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd newydd. Daw cwmpas yr adolygiad hwnnw a'r sylfaen dystiolaeth ddiweddaraf i'r casgliad mai dim ond yr adran Llety Gweithwyr Dros Dro sydd angen ei newid yn sylweddol i adlewyrchu'r cynnydd yn nifer y gweithwyr yn ôl PNH. Golyga hyn fod angen newid y dull "traean" sylfaenol a fabwysiadwyd cyn hyn. Ar wahân i ddiweddariadau er mwyn adlewyrchu mân newidiadau i ddeddfwriaeth, polisïau a ffeithiau, nid oes disgwyl newidiadau sylweddol yn y pynciau eraill. Ar hyn o bryd, mae'r CCA dal yn ystyriaeth gynllunio berthnasol a dylai gael lle blaenllaw yng nghynigion PNH.

## 3 CYFLEOEDD GWAITH LLEOL

3.1 Mae CSYM yn cydnabod bod gan y cyfleoedd creu swyddi sy'n gysylltiedig â Wylfa Newydd y potensial i drawsnewid yr economi yn yr hirdymor. Mae'r ymrwymiad i ddefnyddio busnesau a llafur lleol presennol i adeiladu a gweithredu Wylfa Newydd yn ffactor hollbwysig yng ngallu'r prosiect i gyfrannu at dwf economaidd Ynys Môn a Gogledd Cymru. Fel y cyfryw, mae'r gyfradd gyfranogi llafur yn ystyriaeth bwysig o ran lliniaru effeithiau negyddol a manteisio i'r eithaf ar fuddiannau'r prosiect o'r cyfnod byr i'r tymor hwy.

3.2 Mae'r ymgynghoriad yn cyflwyno ffigurau newydd am y cyfnod prysuraf o ran datblygiad Wylfa Newydd, sydd wedi newid yn sylweddol o'r rheini y nodwyd yn flaenorol ac a allai newid mwy o hyd. Mae hyn yn creu ansicrwydd o ran lefel yr effaith a'r buddiannau dilynol a faint o waith lliniaru sydd ei angen. Mae angen cyflawni rhagor o waith i esbonio'r "sefyllfa/cyfnod prysuraf" a'r prif

heriau/newidiadau a fyddai'n effeithio ar y ffigurau a'r broses o ddosbarthu swyddi a rolau ar draws rhaglen y prosiect.

3.3 Mae'r broses o ddatblygu cysyniad Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd yn dal i fynd rhagddi - mae'n hanfodol bod PNH yn ymrwymo i wella'r cyfleoedd swyddi lleol drwy gydweithio'n ffurfiol â'r Gwasanaeth arfaethedig. Mae CSYM yn gofyn i PNH nodi ymrwymiad cynnar a chyfrannu at y broses o gydweithio'n ymarferol drwy'r Gwasanaeth arfaethedig hwn er mwyn gallu bwrw ymlaen ag ef cyn i'r gwaith datblygu cysylltiedig ddechrau er mwyn gallu manteisio ar y cyfleoedd a grëwyd yn sgil y gwaith cynharach.

3.4 Fel un o'r prif flaenoriaethau, mae'r Cynllun Sgiliau a Gwaith Rhanbarthol a fabwysiadwyd yn ddiweddar gan Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yn argymell y dylai *"awdurdodau lleol ledled Gogledd Cymru weithio gyda chyflogwyr, datblygwyr a darparwyr i gefnogi prosiectau trawsffurfio allweddol yn y sector ynni er mwyn darparu'r cyfleusterau a'r arbenigedd angenrheidiol i gymhwyso pobl leol â gwybodaeth a sgiliau er mwyn iddynt gael gwaith yn y datblygiadau sydd ar droed*". Byddai'r dull hwn o weithredu yn cefnogi ac yn hyrwyddo gyrfaoedd lleol, twf economaidd a thwf cymunedol (yn y tymor byr a'r hirdymor). Gofynnir am ymrwymiad gan PNH i weithio gyda Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i sicrhau bod y Cynllun Sgiliau a Gwaith Rhanbarthol yn dod yn realiti i bobl ar draws y rhanbarth. Rhaid sicrhau ymrwymiad, ymgysylltiad a chydweithrediad ffurfiol drwy Wasanaeth Gwaith a Sgiliau Wylfa Newydd yn gynnar yn y broses a chyn cyflwyno ceisiadau.

3.5 Mae gan CSYM bryderon am lefel yr uchelgais o ran defnyddio llafur lleol, yn enwedig wrth bennu targed o 45% yn ystod y cyfnod gweithredu fel y nodwyd ym mharagraff 20.22 Prif Ddogfen Ymgynghori PNH. Mae CSYM o'r farn bod y targed hwn ar gyfer swyddi gweithredu yn rhy isel ac nid yw'n dangos lefel yr ymrwymiad hirdymor i'r ardal leol yr oedd i'w ddisgwyl o gofio addewid blaenorol PNH. Nid yw'r targed hwn yn adlewyrchu'r gallu a'r profiad sylweddol yn y diwydiant niwclear ar Ynys Môn ac yng Ngogledd Orllewin Cymru. Mae cyfleoedd clir i gynyddu'r canran hwn yn sylweddol drwy fanteisio ar y canlynol:

- Gweithwyr sy'n dychwelyd o'r DU ac o leoliadau eraill yn y byd;
- Pobl ddi-waith tymor hir a phobl nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET);
- Sgiliau a phrofiad presennol yn y diwydiant niwclear;
- Graddedigion o Golegau a Phrifysgolion a chanddynt y cymwysterau perthnasol ar gyfer y prentisiaethau (dim oedran penodol) a'r swyddi sydd ar gael;
- Llif cynyddol o ddisgyblion ysgol sy'n awyddus i fod yn rhan o'r sector ynni carbon isel;

- Cyfleoedd i symud pobl sy'n cael eu tangyflogi i swyddi gwell.

3.6 Mae CSYM yn gofyn i PNH gynnal rhagor o drafodaethau ar y mater hwn er mwyn penderfynu sut mae rhoi dulliau ac amodau ar waith ar y cyd er mwyn cynyddu’r ffigur targed a sicrhau nad yw busnesau lleol yn dioddef yn sgil effaith y dadleoli sy'n debygol o ddigwydd yn ystod cyfnod adeiladu’r prosiect.

3.7 Mae gwaith paratoadol PNH yn awgrymu bod y rhan fwyaf o’r gweithlu adeiladu mewn llawer o’i ddatblygiadau blaenorol wedi deillio o’r ardal “leol” dan sylw. Gan eu hystyried ochr yn ochr â thystiolaeth flaenorol o brosiectau seilwaith mawr eraill (gan gynnwys Hinkley Point C) o ran y cyfrannau llafur lleol sy'n cael eu cyflogi yng ngwahanol gamau’r prosiect, ac ystyried y gwahaniaethau yn neinameg y farchnad lafur, byddai hyn yn awgrymu y dylid gosod targed mwy uchelgeisiol na’r un sydd wedi'i bennu ar hyn o bryd.

3.8 Mae’r ffigurau llafur lleol hefyd yn pennu graddfa ystod o effeithiau eraill y prosiect hefyd. Po fwyaf y gyfran o ofyniad llafur prosiect sy'n deillio o’r gweithlu sydd eisoes ar gael yn yr ardal teithio i’r gwaith bob dydd neu’r dalgylch perthnasol, yr isaf fydd yr effaith gyffredinol a achosir gan weithwyr yn symud i mewn neu'n teithio i weithio ar y prosiect bob dydd o’r tu allan i’r ardal.

3.9 Mae angen hefyd deall yr effeithiau ar sectorau heblaw adeiladu, megis cyfleoedd ar lefel rheoli a phroffesiynol uwch neu swyddogaethau cefnogi fel bwyd, arlwyo, diogelwch, gweinyddu ac ati. Nid oes manylion wedi’u darparu ac mae hepgor hyn yn effeithio ar allu CSYM i ganfod y cyfleoedd posib i fanteisio i’r eithaf ar lafur lleol. Mae hyn yn hollbwysig i wireddu effaith fanteisiol bosib y prosiect. Mae’r data hyn yn angenrheidiol i bennu natur yr adnoddau hyfforddiant i liniaru effeithiau o ran swyddi, darparu sgiliau a dadleoli llafur. Mae’n hanfodol bod PNH yn defnyddio proses cwbl effeithiol i sicrhau bod pobl a busnesau lleol yn cael cymorth, yn deall, ac yn cael gafael ar gyfleoedd i gyfrannu at y gadwyn gyflenwi yn ystod y cyfnod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu’r orsaf yn y pen draw.

3.10 Mae CSYM, mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol eraill Gogledd Cymru a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, yn datblygu cronfa ddata a fydd yn tynnu sylw at allu a chymhwysedd holl Fusnesau Gogledd Cymru (gan gynnwys y rheiny a chanddynt brofiad yn y diwydiant niwclear). Mae’r gronfa ddata hon eisoes wedi'i defnyddio'n llwyddiannus i fynd i’r afael â nifer o geisiadau gwybodaeth gan PNH (a'i bartneriaid). Mae CSYM yn credu y bydd yr amcanion y mae CSYM yn eu nodi yn y CCA ac yn y Pwrpas Lleol yn cael eu datblygu ymhellach petai PNH a'i holl gontractwyr yn ymrwymo i ddefnyddio’r dull/cronfa ddata hon i fwrw ymlaen. Mae’n hollbwysig sicrhau ymrwymiad i fabwysiadu strategaeth gaffael sy'n galluogi cwmnïau lleol a

rhanbarthol i fanteisio i’r eithaf ar gyfleoedd. Rhaid cael cefnogaeth i alluogi’r gwaith o ddatblygu consortia busnesau bach er mwyn sicrhau y gall busnesau bach a chanolig dendro yn realistig am becynnau gwaith. Byddai CSYM yn croesawu trafodaethau ynghylch y pwynt hwn er mwyn penderfynu sut y gall helpu i gyflawni'r amcan hwn.

3.11 Mae CSYM yn croesawu’r Rhaglen Parodrwydd Busnes (canlyniad proses gydweithio lwyddiannus rhwng CSYM, PNH, Llywodraeth Cymru, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chanolfan Ymchwil Gweithgynhyrchu Niwclear Uwch) sy'n helpu cwmnïau lleol i ddatblygu’r sgiliau mae eu hangen arnynt i gymryd rhan yng nghadwyn gyflenwi’r diwydiant niwclear. Mae angen i hyn barhau i dyfu/datblygu ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda PNH i sicrhau hyn.

## 4 ADDYSG, SGILIAU A HYFFORDDIANT

4.1 Mae pennu, cyflawni a rhagori ar dargedau realistig ar gyfer cyflogaeth leol yn gofyn am ddealltwriaeth glir o’r galw am lafur a’r cyflenwad ohono. Yn gysylltiedig â hyn mae cyfathrebu a hyrwyddo'n effeithiol y cyfleoedd sydd ar gael o ran yr ochr cyflenwi a galw. Bydd angen bod yn llawer mwy eglur o ran dulliau, targedau, amseru a hyd penodol y galw a’r ffordd o fesur cysylltiedig er mwyn manteisio i’r eithaf ar y cyflenwad o lafur lleol a darparu ffordd o fuddsoddi'n effeithiol mewn addysg a hyfforddiant er mwyn sicrhau cyflenwad llafur ar gyfer y prosiect o’r tymor byr i’r tymor hir. Codir nifer o faterion penodol ynghylch addysg:

**Pwyslais ar y strategaeth ymgysylltu ag addysg**

4.2 Wrth fanteisio i’r eithaf ar y cyfleoedd y mae’r Prosiect yn ei greu, mae’n hanfodol cefnogi ysgolion cynradd ac uwchradd i sicrhau y gall pobl ifanc gael gafael ar y gallu, yr addysg a’r sgiliau gofynnol ac yn cael eu hysbrydoli i fod yn rhan o’r gweithlu adeiladu a gweithredu. Mae hyn yn gofyn am fuddsoddiad mewn adnoddau ac offer Technoleg a Gwyddoniaeth o safon uchel, a gwella sgiliau addysgu pynciau STEM ymysg athrawon mewn ysgolion cynradd lleol, yn ogystal ag athrawon technoleg a gwyddoniaeth arbenigol mewn ysgolion uwchradd. Gofynnir i PNH ystyried a chyflwyno cynigion cadarn yng nghyswllt hyn.

4.3 Gan gydnabod y bydd y trigolion a fydd yn symud i’r Ynys yn debygol o gynnwys teuluoedd rhai o’r gweithwyr ac yn cynyddu’r galw ar y ddarpariaeth addysgol sydd ar gael yn ogystal â’r galw ar adnoddau’r awdurdod addysg, gofynnir i PNH ystyried a chyflwyno cynigion cadarn o ran sut y gallant liniaru hyn a chefnogi’r amcanion o feithrin diddordeb yn y pynciau perthnasol ymysg pobl sydd eisoes yn byw yn yr ardal er mwyn helpu i gyflenwi’r gweithlu medrus sydd ei angen ar PNH. Bydd sicrhau bod y bobl sydd eisoes yn byw yn yr ardal yn cael cefnogaeth i gael gafael ar gyfleoedd swyddi hefyd yn

lleihau'r effaith o orfod annog pobl fedrus briodol i symud i'r Ynys ac yn cyd-fynd â'r amcan y mae PNH wedi'i nodi, sef y bydd yn gymydog da, gan greu Etifeddiaeth cadarnhaol a chymunedau gwell. Byddai hyn hefyd yn ymateb (yn rhannol) i'r heriau o ran yr iaith Gymraeg a'i diwylliant.

4.4 Mae pwyslais ar y sector addysg 16+ ond ni wneir fawr mwy na chodi ymwybyddiaeth o bynciau STEM ar y lefel cyn 16 oed. Mae CSYM yn nodi hyn fel risg i'r amcan cyflogaeth llafur lleol a'r Etifeddiaeth tymor hwy yn gyffredinol gan y bydd recriwtio pobl ifanc i swyddi sy'n cael eu creu gan y prosiect maes o law yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r amcanion hyn. Mae'r dull ymgysylltu cynnar hwn yn ofynnol fel sail ar gyfer strategaeth cyflogaeth hirdymor sy'n golygu bod angen annog pobl ifanc leol a chanddynt y sgiliau priodol i lenwi swyddi gwag y dyfodol yn unol â'r ymrwymiad 100 mlynedd i'r Ynys. Yn yr un modd ag y bydd angen cefnogaeth ar fusnesau, mae'n hollbwysig bod PNH a'i gontractwyr yn ymgysylltu'n llawn â darparwyr hyfforddiant a cholegau fel bod dealltwriaeth glir o'r gofynion ar gyfer gweithwyr a safonau hyfforddiant.

4.5 Ar hyn o bryd, nid yw'n ddigon clir sut bydd y ffigurau gwaith lleol (25% o gyfanswm y gweithlu adeiladu/45% o'r gweithlu gweithredu) yn trosi'n niferoedd gwirioneddol i gael eu hyfforddi i gyflawni'r targedau hyn a pha adnoddau y bydd eu hangen i sicrhau hyn. Fel awdurdod lleol ac awdurdod addysg, mae CSYM yn awyddus i gydweithio i ffurfio cynllun integredig, realistig ac un mae modd ei gyflawni er mwyn sicrhau bod y bobl addysgedig addas ar gael i fodloni'r targedau hyn.

**Capasiti ysgolion cynradd/uwchradd**

4.6 Mae rhywfaint o ddiffyg cywirdeb ar adegau yn y dogfennau am gapasiti ysgolion a'r effaith ddilynol arnynt pan fydd mwy o alw am lefydd. O ganlyniad, nid yw'r camau lliniaru cysylltiedig yn gywir nac yn ddigonol. Mewn rhai enghreifftiau defnyddiwyd data hŷn i wneud rhagdybiaethau am gapasiti ysgol leol, ystyrir bod yr asesiad o fewnlifiad y plant oedran ysgol yn rhy fach o ran nifer, ac nad yw'r sylfaen dystiolaeth o ran y niferoedd tybiedig yn glir nac yn bosib ei mesur. Felly mae'n rhaid i PNH gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y galw sy'n debygol o ddod i'r amlwg yn sgil pobl yn symud i'r Ynys ar gyfer y prosiect gan ddefnyddio sylfaen dystiolaeth glir a chyfredol. Mae CSYM yn awgrymu'n gryf y dylid cytuno ar gytundeb ysgrifenedig o ran sylfaen dystiolaeth briodol er mwyn caniatáu cyflawni'r asesiad gofynnol.

4.7 Nid oes digon o le mewn ysgolion cynradd ledled yr Ynys, ac mae'r data rhagdybio niferoedd disgyblion yn awgrymu y bydd mwy o alw a rhagor o bwysau ar lefydd ysgolion tan 2025 yn sgil cynnydd mewn cyfraddau geni a datblygiadau tai. Nid yw hyn yn cynnwys cynnydd mewn swyddi sy'n gysylltiedig â PNH a fydd yn rhoi mwy fyth o alw ar yr ysgolion llawn. Bydd yn

rhaid i brosiect PNH liniaru effaith y cynnydd mewn nifer y llefydd ysgol sy'n ofynnol, a gofynnir i PNH ymgysylltu â'r awdurdod i ddatblygu cynigion ar gyfer hyn cyn cyflwyno'r ceisiadau.

**Sgiliau a Hyfforddiant**

4.8 Nid oes digon o fanylion am elfennau sgiliau a hyfforddiant o ran cymwysterau, prentisiaethau, lleoliadau gwaith a chymwyseddau y mae eu hangen ar draws cyfnodau'r prosiect (adeiladu/gweithredu/datgomisiynu) a maint a chwmpas yr hyfforddiant fydd yn cael ei ddarparu i wella sgiliau ein gweithlu llafur lleol er mwyn sicrhau eu bod yn meddu ar y sgiliau angenrheidiol i gael swyddi yn Wylfa Newydd. Bydd angen buddsoddi ymlaen llaw mewn darpariaeth a chyfleusterau hyfforddiant er mwyn hwyluso'r aliniad rhwng y cyflenwad a'r galw am lafur/sgiliau. Mae'n rhaid sicrhau darpariaeth gynnar o gefnogaeth hyfforddiant a sgiliau er mwyn caniatáu i bobl leol lenwi swyddi yn ystod y cyfnod adeiladu a'r cyfnod gweithredu. Bydd hyn hefyd yn helpu i leihau rhai o effeithiau negyddol posib y prosiect y gellir eu priodoli i fewnlifiad o drigolion newydd. Bydd rhoi mynediad i bobl sydd eisoes yn byw yn y gymuned i'r rolau hyn yn cryfhau cydlyniad cymunedol ac yn helpu i ymgorffori'r prosiect yn y gymuned fel cyflogwr allweddol.

4.9 Fel y nodwyd eisoes, un o brif flaenoriaethau Cynllun Sgiliau a Gwaith Rhanbarthol Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru yw y dylai *awdurdodau lleol ledled Gogledd Cymru weithio gyda chyflogwyr, datblygwyr a darparwyr i gefnogi prosiectau trawsffurfio allweddol yn y sector ynni er mwyn darparu'r cyfleusterau a'r arbenigedd angenrheidiol i gymhwyso pobl leol â gwybodaeth a sgiliau er mwyn iddynt gael gwaith yn y datblygiadau sydd ar droed.* Bydd y dull hwn o weithredu yn cefnogi ac yn hyrwyddo gyrfaoedd lleol, twf economaidd a chymunedol ar gyfer cenedlaethau yn awr ac yn y dyfodol. Byddai CSYM yn annog PNH i gyflwyno ei ymrwymiad i gydweithio â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru i gyflenwi a gweithredu darpariaeth ychwanegol er mwyn sicrhau bod y Cynllun Sgiliau a Gwaith Rhanbarthol yn cael ei weithredu.

4.10 Mae angen eglurder am y mesurau arfaethedig ar gyfer buddsoddi mewn datblygu sgiliau, addysg a hyfforddiant, gan ganolbwyntio ar ddarparwyr hyfforddiant rhanbarthol a'r ddarpariaeth newydd sy'n gysylltiedig â Choleg Menai i gyd-fynd â rhaglenni hyfforddiant pwrpasol PNH (Prif Ddogfen Ymgynghori, pennod 8).

4.11 Mae'r rhaglen prentisiaeth dechnegol i'w chroesawu. Mae CSYM yn awyddus i sicrhau bod y lleoliadau'n arwain at swyddi parhaol lle bo'n bosib a byddai'n gwahodd PNH i gydweithio i lunio rhaglen i helpu i gyflawni'r amcan hwn. Byddai CSYM yn disgwyl gweld darpariaeth o leoliadau i fyfyrwyr graddedig ac ôl-radd yn y gweithluoedd adeiladu a gweithredu, a dylid datblygu rhaglen

addas ar gyfer y grŵp hwn hefyd fel rhan o'r strategaeth gyffredinol. Mae angen nodi targedau clir yng nghyswllt nifer y prentisiaid heb fod yn gyfyngedig i 24 oed ac o dannodd a'r lleoliadau gwaith o Ynys Môn a Gogledd Cymru mewn gwahanol grefftau a galwedigaethau ar draws gwahanol gyfnodau'r datblygiad (adeiladu/gweithredu/datgomisiynu). Y tu hwnt i'r gweithlu posib sydd eisoes yn meddu ar nifer o'r gofynion iechyd, diogelwch a sicrhau ansawdd i weithredu mewn amgylchedd a gweithlu niwclear, mae angen darparu adnodd i fynd i'r afael ag amrywiol ofynion y gweithlu llafur lleol nad yw ar hyn o bryd yn bodloni'r safonau angenrheidiol ar draws y gwahanol broffiliau galwedigaethol, y mathau o swyddi a'r lleoliadau gwaith. O'r herwydd, mae angen deall yr effeithiau ar sectorau heblaw adeiladu, e.e. cyfleoedd ar lefel rheoli a phroffesiynol uwch a swyddogaethau cefnogi fel bwyd, arlwyo, diogelwch, gweinyddu ac ati. Ni ddarparwyd manylion ynghylch yr effeithiau hyn yn y dogfennau felly mae hynny'n effeithio ar unrhyw fodd o ganfod potensial i fanteisio i'r eithaf ar lafur lleol. Mae hyn yn hollbwysig i ystyried effaith fanteisiol bosib y prosiect. Mae'n rhaid deall hyn er mwyn pennu natur yr hyfforddiant a'r adnoddau ariannol cysylltiedig a fydd yn cael eu darparu er mwyn lliniaru'r effeithiau sy'n ymwneud â swyddi, darparu sgiliau a dadleoli llafur.

4.12 Mae cadw a defnyddio'r sgiliau a'r wybodaeth sydd ar gael yng ngweithlu presennol Wylfa yn un o brif amcanion y Etifeddiaeth y bydd y prosiect yn ei sicrhau. Mae hyn yn sicrhau y gellir gwella manteision cadarnhaol prosiect Wylfa Newydd.

**Cynigion Lliniaru**

4.13 Gan nad yw'r rhestr o gynigion yn gynhwysfawr, mae CSYM yn awgrymu bod PNH yn ystyried y themâu allweddol canlynol i helpu i fynd i'r afael â'r materion uchod:

4.13.1 Mae angen rhagor o wybodaeth am nifer y gweithwyr a'r mathau o swyddi a rolau. Bydd angen i hyn ystyried mwy na dim ond y staff adeiladu a gweithredu, gan gynnwys y swyddi ategol fydd yn cael eu creu hefyd.

4.13.2 Rhaid cael rhagor o wybodaeth am y sgiliau sydd ar gael yn y gymuned leol a sut mae hyn yn cyd-fynd ag anghenion y prosiect er mwyn caniatáu'r lefel briodol o dargedu hyfforddiant a chyfleoedd addysgol cyn bod angen y swyddi er mwyn galluogi pobl leol i lenwi'r swyddi pan fyddant yn codi.

4.13.3 Pwyslais a dilysrwydd y strategaeth ymgysylltu ag addysg - mae angen rhagor o ystyriaeth i'r sector addysg cyn 16 oed er mwyn darparu'r gweithlu angenrheidiol i Wylfa Newydd yn y tymor hwy. Mae

hyn yn gofyn am fuddsoddiad mewn adnoddau ac offer o safon uchel i ddulliau addysgu technoleg a gwyddoniaeth mewn ysgolion uwchradd, yn ogystal â darparu adnoddau cwricwlwm.

4.13.4 Capasiti ysgolion cynradd/uwchradd - mae angen diweddaru'r sylfaen dystiolaeth a'r asesiad o effeithiau ar y galw am lefydd mewn ysgolion Bydd angen gweld cyfraniadau at ariannu llefydd mewn ysgolion er mwyn ateb y galw y bydd y prosiect yn ei greu a gwneud yn siŵr bod plant nad ydynt yn siarad Cymraeg/Saesneg yn cael eu hintegreiddio'n effeithiol.

4.13.5 Dylid cyflwyno rhaglen gyffredinol i godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo'r cyfleoedd i'r gweithlu presennol ac yn y dyfodol. Dylid defnyddio rhanddeiliaid, hyfforddiant a darparwyr addysg presennol, yn ogystal â sianelau'r wasg a dulliau hyrwyddo ehangach i gyflawni hyn gan gynnwys cyngor gyrfaol. Byddai CSYM yn argymell y dylai'r rhaglen hon ddechrau cyn cyflwyno'r DCO er mwyn galluogi digon o amser i'r rhaglenni hyfforddiant a sgiliau fynd i'r afael â'r galw disgwyliedig.

4.14 Mae rhagor o awgrymiadau penodol ar sut gellir sicrhau i'r graddau mwyaf posib bod pobl leol yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd llafur yn yr ymateb i gwestiwn 2 yr ymgynghoriad ar PAC2, ac maent wedi'u nodi yn Atodiad B yr ymateb hwn.

## 5 Y GADWYN GYFLENWI

5.1 Mae CSYM yn cydnabod y cynnydd a wnaed ar y Thema hon dros y misoedd diwethaf, yn sgil y gwaith sydd wedi cael ei wneud gan PNH a'i ymgynghorwyr perthnasol. Rydym yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi ymrwymiad PNH i ffurfio Menter Newydd ac i greu'r Siarter Cadwyn Gyflenwi, ac rydym wedi ymrwymo i barhau i weithio gyda PNH i greu cyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi i fusnesau lleol ar draws Ynys Môn a Gogledd Cymru, i hyrwyddo'r cyfleoedd hynny ac i sicrhau'r defnydd gorau ohonynt.

5.2 Ar hyn o bryd, nid oes llawer o wybodaeth fanwl ar gael am y Siarter Cadwyn Gyflenwi. Gallwn wneud sylwadau manylach a mwy adeiladol wrth i ragor o fanylion ddod i'r amlwg. Mewn egwyddor, mae CSYM o blaid parhau â'r gofrestr cyflenwyr a chyfres o ddigwyddiadau, cynlluniau a rhaglenni yn ymwneud â'r gadwyn gyflenwi (o Haen 1 i Haen 5) – mae hyn yn cynnwys y bwriad i recriwtio tîm datblygu'r gadwyn gyflenwi yn Ynys Môn i fwrw ymlaen â'r gwaith o ymgysylltu â busnesau lleol a rhanbarthol.

5.3 Mae cynigion y siarter cadwyn gyflenwi a'u heffeithiolrwydd yn dibynnu i raddau helaeth ar fwriad y gadwyn gyflenwi i fabwysiadu polisïau caffael cefnogol, ac ar allu busnesau lleol i gystadlu'n effeithiol am y contractau a

fydd ar gael. Bydd trefniadau monitro priodol yn hollbwysig o'r cychwyn cyntaf.

5.4 Mae CSYM yn awgrymu bod PNH yn ystyried y canlynol er mwyn sicrhau y gwneir y defnydd gorau posib o gyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi.

5.4.1 Dylai PNH, Menter Newydd a partneriaid sicrhau bod y siarter cadwyn gyflenwi yn mynd ati'n effeithiol i ymgysylltu â busnesau presennol, a'u hannog i gystadlu am gontractau yng nghadwyn gyflenwi Wylfa Newydd a'u hennill. Byddai targedau penodol yn cael eu gosod yn ôl gwerth a nifer i gefnogi hynny. Bydd dull o'r fath yn helpu i ddatblygu'r sylfaen fusnes bresennol ac i gadw staff, ac felly'n lleihau'r posibilrwydd y bydd y prosiect yn creu effeithiau negyddol yn sgil dadleoli swyddi. Byddai CSYM yn annog defnyddio consortia gan na fydd llawer o gwmnïau lleol / rhanbarthol yn gallu cystadlu am y cyfleoedd tendr fel arall, a byddai'n croesawu'r cyfle i weithio gyda PNH i hwyluso hynny.

5.4.2 Bydd rhaid i PNH a Menter Newydd weithio gyda phartneriaid – gan gynnwys CSYM, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru, Cyngor Busnes Gogledd Cymru, Busnes Cymru a Llywodraeth Cymru – i nodi a chynnal gwybodaeth am fusnesau yng Nghymru y byddai modd eu paru â phecynnau gwaith priodol yng nghadwyn gyflenwi Wylfa Newydd. Yn sgil hynny, bydd gofyn bod adnoddau ar gael drwy gydol cyfnod adeiladu, gweithredu a datgomisiynu'r prosiect er mwyn sicrhau bod busnesau bach a chanolig yng Nghymru yn dal yn rhan o gadwyn gyflenwi'r prosiect.

5.4.3 Dylid ariannu estyniad i Ganolfan Fusnes Môn neu greu Canolfan Fenter Ynys Ynni benodol gydag aelodau staff i roi cefnogaeth uniongyrchol i fusnesau lleol ac i fusnesau newydd a fydd yn cynnig gwasanaethau penodedig i brosiect Wylfa Newydd yn ystod y cyfnod adeiladu a gweithredu.

5.4.4 Dylai PNH a Menter Newydd gynnig ffordd o fonitro ac adrodd am wariant gyda chwmnïau lleol drwy ddefnyddio systemau caffael presennol i bennu'r cynnydd a wnaed o ran targedau neu ddatganiadau yn yr asesiad presennol. Gellid defnyddio'r un system hefyd i ddeall gwariant yn ystod y prif gyfnod adeiladu.

5.4.5 Byddai CSYM yn dymuno trafod ymrwymiad PNH/Menter Newydd i bennu lefel o werth contractau (er enghraifft o dan £250,000) a fydd yn cael eu cynnig i gwmnïau lleol, cyn agor y broses gaffael yn fwy

cenedlaethol. Byddai'r gronfa ddata o gwmnïau Gogledd Cymru yn llywio ac yn hwyluso'r broses hon.

5.4.6 Bydd angen bod yn agored, a chael manylion yn gynnar ynghylch beth fydd y pecynnau gwaith a phryd byddant ar gael er mwyn i gwmnïau – lleol a rhanbarthol – allu dechrau paratoi ar eu cyfer drwy hyfforddiant a gloywi sgiliau. Bydd hyn hefyd yn rhoi ffydd i fusnesau y bydd y cyfleoedd hyn yn rhai go iawn.

5.4.7 Dylai PNH a Menter Newydd fanteisio'n llawn ar wefannau caffael presennol fel GwerthwchiGymru ar gyfer cyfleoedd tendro, gan fod y rhain wedi ennill eu plwyf fel rhan o arferion gorau presennol cwmnïau. Bydd hefyd yn sicrhau cysondeb o ran eu dulliau tendro.

5.4.8 Mae CSYM yn disgwyl I unrhyw ymarfer caffael gynnwys y gofyniad I recriwtio / gyflogi yn lleol lle bo modd – byddai hyn yn scirhau hyn yn sicrhau bod manteision lleol yn cael eu hychafu.

5.5 Bydd gofyn bod y Siarter Cadwyn Gyflenwi a gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gadwyn gyflenwi yn cael eu hadolygu'n barhaus, er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn addas i'r diben i'r holl randdeiliaid.

## 6 DADLEOLI

6.1 Er ein bod yn croesawu'r cyfleoedd gwaith a sgiliau posib a fydd yn cael eu creu yn sgil y prosiect, rydym o'r farn bod dadleoli llafur yn dal yn fater sydd angen mwy o sylw nag y mae wedi'i gael hyd yma. Fel y nodwyd yn ymateb CSYM i PAC1 a'r ymgynghoriad Diweddariad ar y Prosiect 2016, nid oes llawer o fanylion i gydnabod yr effeithiau dadleoli posib. Mae angen gwneud rhagor o waith i ddatblygu cynllun lliniaru addas i reoli effeithiau dadleoli llafur. Roedd CSYM wedi disgwyl y byddai hyn wedi cael mwy o ystyriaeth a sylw yn yr ymgynghoriad presennol, ac mae'n dweud eto bod angen datblygu hyn fel rhan o'r gwaith o baratoi'r strategaeth liniaru, yr asesiad o'r effeithiau a'r sylfaen dystiolaeth y bydd eu hangen cyn cyflwyno'r cais. Mae CSYM yn annog PNH yn gryf i ymchwilio i effeithiau dadleoli ar Ynys Môn (a thu hwnt) oherwydd gallai hyn gael effaith niweidiol sylweddol ar y farchnad lafur, ar fusnesau presennol ac ar ddarparwyr twristiaeth. Byddai CSYM yn dymuno bod yn rhan o drafodaeth fanwl ar y pwyntiau hyn, ac mae'n gwahodd PNH i rannu gwybodaeth er mwyn gallu datblygu'r elfen hon yn ei gynnig ar y cyd â'r Cyngor. Mae angen datblygu'r gwaelodlin presennol, a'r dadansoddiad o lefelau cyflog a'r effeithiau cysylltiedig yn y tymor byr er mwyn gallu ystyried yr agwedd hon yn briodol.

6.2 Gallai effeithiau dadleoli llafur y prosiect fod yn sylweddol. Er enghraifft, mae'n bosib y byddai gweithlu llafur medrus yn symud er mwyn manteisio ar gyfleoedd i gael cyflogau uwch. Gallai hynny gael effaith niweidiol ar y cwmni neu'r contract maent yn ei adael, a allai arwain at oedi neu ostyngiad mewn unrhyw effaith economaidd e.e. Gwerth Ychwanegol Gros. O ran llafur, rhagwelir y bydd cyfnod adeiladu Wylfa Newydd yn dechrau yn 2018, gyda'r ail uned yn cael ei chwblhau yn 2027. Y tu hwnt i hynny, bydd cyfnod gweithredu'r orsaf yn para am 60 mlynedd arall. Mae'n bosib y bydd dros 10,000 o weithwyr adeiladu yn ystod cyfnod prysuraf y gwaith adeiladu, a'r rheini ar draws ystod o alwedigaethau ac yn meddu ar ystod o sgiliau. Ar ben hynny, bydd nifer o swyddi ategol pellach yn cael eu creu er mwyn gwasanaethu'r gweithlu adeiladu, a hynny yn erbyn y boblogaeth oedran gweithio yn Ynys Môn, sydd ond yn 31,972 (tua 33% o gynnydd). O ystyried lefel y galw a'r cyflenwad llafur sydd ar gael, mae'n debygol y bydd prosiect Wylfa Newydd yn ddeniadol iawn i'r gweithlu llafur sy'n gweithio mewn cwmnïau presennol. Bydd hyn yn creu swyddi gwag yn y cwmnïau presennol hynny a gallai hynny, yn ei dro, wanhau gallu cwmnïau unigol i gystadlu am gontractau ac am becynnau gwaith yn y gadwyn gyflenwi.

6.3 Bydd y galw ychwanegol yn cael effaith ddilynol ar brosiectau adeiladu eraill e.e. adeiladu tai, rhaglen gwella ysgolion ac amryw o brosiectau eraill y disgwylir y byddant yn cael eu hadeiladu ar yr un pryd â Wylfa Newydd. Ar y pwynt hwn, bydd effeithiau cronnus y prosiectau gwahanol yn debygol o waethygu'r effeithiau dadleoli llafur.

6.4 Nid dim ond ar y sector adeiladu y bydd dadleoli sgiliau/swyddi yn effeithio. Bydd pobl mewn swyddi tymhorol a swyddi cyflog isel yn cael eu denu gan y cyflogau uwch a fydd ar gael yn Wylfa Newydd - yn enwedig yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol, sy'n hollbwysig i economi'r Ynys. Mae'r sector iechyd a gofal cymdeithasol mewn sefyllfa fregus o ran colli staff yn barod, ac mae eisoes yn anodd llenwi rhai o'r swyddi hyn. Hefyd, gallai gweithlu llafur medrus mewn busnesau bach a chanolig lleol mewn sectorau eraill ar wahân i'r sector adeiladu symud i gwmnïau y tu hwnt i Ogledd Cymru, a byddai hynny'n cael effaith sylweddol ar y busnesau bach a chanolig. Mae hyn hefyd yn wir am weithlu llafur medrus yn symud i weithio i PNH, Menter Newydd neu'r prif gwmnïau Haen 2/3. Mae angen ystyried ffyrdd o ôl-lenwi'r swyddi gwag hyn yn unol ag anghenion busnesau lleol. Mae'r gwaith ymgynghori ar yr Astudiaeth o Effeithiau Niweidiol Wylfa Newydd (heb ei gyhoeddi) yn awgrymu y byddai rhai cwmnïau yn debygol o golli staff yn hytrach na thalu cyflogau uwch iddynt, ond yn y pen draw mae hyn yn dibynnu ar ganran y cynnydd mewn cyflog.

6.5 Mae tystiolaeth o Arolwg Busnes Gogledd Cymru Wylfa Newydd (2016) yn awgrymu bod rhai busnesau'n poeni y bydd y prosiect yn denu gweithwyr

adeiladu oddi wrthynt drwy gynnig swyddi â chyflogau uwch. Gallai hyn gael effaith ddilynol ar brosiectau adeiladu eraill e.e. adeiladu tai, rhaglen gwella ysgolion ac amryw o brosiectau eraill y disgwylir y byddant yn cael eu hadeiladu ar yr un pryd â Wylfa Newydd. Ar y pwynt hwn, bydd effeithiau cronnus y prosiectau gwahanol yn debygol o waethygu'r effeithiau dadleoli llafur.

6.6 Gallai effaith dadleoli ar lafur a busnesau sy'n gobeithio manteisio ar gyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi, ac ar fusnesau presennol eraill, gael effaith negyddol a sylweddol ar economi Ynys Môn. Mae angen ymchwilio i raglenni a strategaethau priodol a'u hystyried yn ddigonol er mwyn asesu sut gellir lleihau a/neu oresgyn effeithiau dadleoli. Mae CSYM yn gofyn am gael trafod dadleoli fel mater o frys gyda PNH, er mwyn cynllunio'r ffordd orau o gyflwyno mesurau lliniaru i fynd i'r afael â'r sefyllfa i'r graddau y bo hynny'n bosib.

6.7 Mae CSYM o'r farn y dylid ystyried y strategaethau canlynol er mwyn lliniaru effeithiau dadleoli:

6.7.1 Cydnabyddir y posibilrwydd o gyfleoedd ôl-lenwi wrth i weithwyr adael eu cyflogwyr presennol er mwyn cael eu cyflogi'n uniongyrchol gan orsaf bŵer Wylfa Newydd, neu drwy'r gadwyn gyflenwi (y cyfnodau adeiladu a gweithredu). Fodd bynnag, byddai'r ffactor deniadol o gyflogau uwch yn debygol o ddenu'r gweithlu llafur lleol mwyaf cymwys a medrus at Wylfa Newydd, ac felly byddai angen hyfforddiant er mwyn ail-lenwi'r swyddi gwag â gweithwyr addas. Dylid asesu'r galw a grëwyd a chynnig ffordd o roi cymorth ychwanegol ar gyfer hyfforddiant yn y meysydd lle mae'n debygol y bydd y gweithlu llafur lleol yn cael ei ddadleoli h.y. y meysydd lle bydd y gweithlu llafur lleol yn manteisio ar gyfleoedd gwaith yn ystod cyfnodau adeiladu a gweithredu'r orsaf bŵer. Fel y nodwyd yn y gwaith hyd yma, byddai hyn yn cynnwys *"crefftau adeiladu ac arbenigwyr"* (40% o'r gweithlu llafur lleol a ragwelir). Byddai'r 60% arall o'r gweithlu llafur lleol yn *"ymwneud â gwaith i gefnogi'r gweithlu adeiladu mewn amrywiaeth o swyddogaethau"*[3]. Felly, awgrymir bod gwaith pellach yn cael ei wneud i ddiffinio'r grwpiau hyn, a bod hyfforddiant priodol ac adnoddau cysylltiedig ar gyfer y meysydd hyn yn cael eu cynnwys fel mesurau lliniaru.

6.7.2 Mae angen gwybodaeth a dadansoddiad pellach o'r lefelau cyflog a fydd yn cael eu talu yn y datblygiad ac effeithiau hyn ar yr economi leol o ran dadleoli yn y tymor byr, a dadansoddi hynny yn erbyn proffil incwm presennol yr Ynys.

[3] Y brif ddogfen ymgynghori, paragraff 8.38

6.7.3 Mewn rhai achosion, gallai colli gweithwyr o fusnesau gael effaith negyddol o ran lleihau gallu'r cwmni hwnnw i gyflawni contractau presennol a chontractau posib yn y dyfodol, gan gynnwys y rheini y bydd PNH, Menter Newydd a'r gadwyn gyflenwi yn eu gosod ar dendr i'r farchnad. Mae angen asesu'r effaith debygol ar yr agwedd hon er mwyn gallu datblygu strategaethau lliniaru.

6.8 Mae'r siarter cadwyn gyflenwi yn gofyn am fynd ati'n effeithiol i ymgysylltu â busnesau presennol a'u hannog i gystadlu am gontractau yng nghadwyn gyflenwi Wylfa Newydd a'u hennill, drwy bolisïau rhagweithiol a thargedau penodol yn ôl gwerth a nifer. Bydd hyn yn helpu i ddatblygu'r sylfaen fusnes bresennol ac i gadw staff. Felly, mae'n hanfodol cael system fonitro ac adolygu sy'n gallu addasu'r ffordd o weithredu er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw ddiffygion a nodwyd yn ystod y cyfnod gweithredu. Mae CSYM yn disgwyl y bydd y gwaith monitro ac adolygu yn cael ei wneud ar y cyd â'r awdurdod a chyrff perthnasol eraill, gan gynnwys cynrychiolwyr o'r gymuned fusnes.

## 7 Y GYMRAEG A'I DIWYLLIANT

7.1 Mae Ynys Môn yn cael ei chydnabod fel un o gadarnleoedd y Gymraeg. Mae'r Gymraeg yn elfen naturiol o fywyd bob dydd ar yr ynys, ac yn adlewyrchu ei thraddodiadau a'i diwylliant. Mae'n cydblethu â'r hanes cyfoethog a'r diwylliant Cymraeg sy'n diffinio'r ardal a'i thrigolion. Mae cynaliadwyedd y Gymraeg yn dibynnu ar wella cymunedau Cymraeg drwy gynnig digon o gyfleoedd gwaith, addysgol, diwylliannol a chymdeithasol i ddefnyddio'r iaith bob dydd.

7.2 Fel y nodwyd yn flaenorol yn ein hymateb i PAC1 a'r Diweddariad ar y Prosiect, mae CSYM yn disgwyl i'r Gymraeg a'i Diwylliant gael eu trin fel thema hollgynhwysol ac yn llinyn aur sy'n sail i'r broses o ystyried a lliniaru effeithiau pob agwedd ar brosiect Wylfa Newydd. Nid yw'r awdurdod o'r farn bod PNH wedi gwneud hynny yn nogfennau PAC2. Er gwaethaf y datganiadau ei fod yn cydnabod bod y Gymraeg yn bwysig a bod yr iaith yn elfen sy'n rhedeg drwy'r holl ystyriaethau o ran effaith, mae'r Gymraeg wedi'i gosod mewn seilo ac wedi cael ei hystyried ar wahân mewn sawl elfen.

7.3 Mae CSYM yn cydnabod bod perygl y gallai'r prosiect hwn gael effaith sylweddol a phellgyrhaeddol ar y Gymraeg a'i diwylliant. Felly mae'n hollbwysig bod PNH yn dangos ymrwymiad pendant – yn cynnwys mesurau lliniaru priodol – i gynnal a chryfhau'r Gymraeg a'i diwylliant er mwyn eu cadw a'u diogelu i genedlaethau'r dyfodol, fel yr amlinellir uchod. Mae angen cynlluniau cadarn er mwyn mynd ati'n llwyddiannus i liniaru effaith gronnus y prosiect – yn y tymor byr a'r hirdymor – ar yr iaith a'i diwylliant ym mhob cymuned.

7.4 Croesewir yr ymrwymiad cychwynnol gan PNH yn y gweithdai cynnar gyda'r nod o ddatblygu cynllun gweithredu a strategaeth liniaru, ac mae'r awdurdod yn dal wedi ymrwymo i barhau â'r drafodaeth hon ar sail yr uchod. Mae angen i bob strategaeth allweddol ddatgan ymrwymiad pendant PNH i liniaru'r effeithiau negyddol ar y Gymraeg a'i diwylliant.

7.5 Mae CSYM yn gwybod bod PNH yn datblygu Strategaeth ar yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant, ac yn croesawu'r gydnabyddiaeth hon o bwysigrwydd yr elfennau hyn i gymunedau'r Ynys. Mae hefyd yn croesawu ymgynghoriad PNH ar yr elfen honno. Anogir PNH i rannu'r strategaeth hon â Chyngor Môn drwy gydol y broses o'i datblygu er mwyn cyflawni'r amcanion cyffredin o warchod a hyrwyddo'r elfennau hyn drwy rannu arbenigedd a gwybodaeth leol. Yn sgil y casgliad clir y bydd y prosiect yn cael effaith niweidiol ar y Gymraeg a'i diwylliant yn gyffredinol o ganlyniad i'r mewnlifiad[4], mae'n rhaid i PNH fynd ati i nodi a datblygu cynigion lliniaru addas.

7.6 Mae CSYM wedi mabwysiadu Strategaeth Iaith Gymraeg Ynys Môn 2016-2021 yn ddiweddar, sy'n ceisio cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg ar yr ynys o 57.2% i 60% erbyn 2021, yn unol â strategaeth ddrafft Llywodraeth Cymru 'Miliwn o Siaradwyr Cymraeg erbyn 2050'. Mae'r strategaeth yn cydnabod yr effaith mae datblygiad Wylfa Newydd yn debygol o'i chael ar y Gymraeg, ac yn diffinio'r prif ystyriaethau ar gyfer unrhyw fesurau sy'n ceisio cynyddu unrhyw fuddiannau a lleihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg. Mae'r strategaeth hon yn ystyriaeth allweddol mewn unrhyw fesurau sy'n ceisio cynyddu unrhyw fuddiannau a lleihau effeithiau negyddol ar y Gymraeg, a dylai gael ei hystyried yn briodol wrth fwrw ymlaen â chynigion. Mae CSYM yn disgwyl gweld y bydd y Strategaeth ar yr Iaith Gymraeg a'i Diwylliant sydd ar y gweill yn cydnabod y strategaeth hon yn glir ac yn cyd-fynd â hi.

7.7 Mae PNH wedi gwneud ymrwymiad lefel uchel i ddefnyddio Methodoleg Asesu Risg Llywodraeth Cymru wrth asesu risg a dilysu'r AEIG a'r strategaeth liniaru. Mae angen ei defnyddio er mwyn sicrhau bod y fethodoleg asesu effaith, y wybodaeth waelodlin, y canfyddiadau asesu a'r mesurau lliniaru arfaethedig yn gadarn. Mae CSYM yn croesawu addewid PNH o ran y Gymraeg, ond mae diffyg eglurder o ran unrhyw drefniadau atebolrwydd. Byddem yn awgrymu bod angen mabwysiadu fframwaith atebolrwydd, er enghraifft MOU neu gontract, ar gyfer yr Addewid hwnnw. Hefyd, mae angen diffinio camau gweithredu a mesurau i sicrhau bod yr addewid yn cael ei gyflawni, a mynd ati i'w rhoi ar waith.

[4] Adroddiad Interim Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg, paragraff 6.10

7.8 Ar hyn o bryd, nid yw'r AEIG yn llwyr gydnabod anferthedd y prosiect, a'r effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol y bydd gweithwyr adeiladu dros dro a'u dibynyddion yn ei chael ar y Gymraeg a'i Diwylliant. Mae hynny'n golygu nad oes digon o ymrwymiad yn yr adroddiad i fynd i'r afael â mesurau lliniaru ar unwaith. Mae'n rhaid gweithredu ar unwaith er mwyn gwrthsefyll y mewnlifiad o weithwyr a fydd yn ymwneud â'r prosiect.

7.9 Mae CSYM o'r farn bod cyfanswm nifer dibynyddion y gweithwyr, sef 480 (gan gynnwys 170 o blant), yn achosi pryder, gan y bydd hynny'n effeithio ar ysgolion, ar wasanaethau ac ar gymunedau. Gofynnir am ragor o fanylion a sicrwydd cyn cyflwyno'r cais o ran yr union nifer o weithwyr a dibynyddion a ddisgwylir er mwyn diffinio'r effeithiau ar ysgolion, ar wasanaethau ac ar gymunedau a gallu symud ymlaen â'r gwaith ar ofynion lliniaru pendant.

7.10 Nodir nad yw addysg wedi cael ei gynnwys yn y pum agwedd allweddol ar fywyd cymunedol yn adroddiad interim yr AEIG; mae CSYM o'r farn y dylid cywiro hynny.

7.11 Hefyd, mae angen cydweithio'n briodol â Chynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg a'r targedau priodol y mae'n rhaid eu cyrraedd ar lefel leol. Nid oes digon o gydweithio â Chynllun Integredig Sengl Gwynedd a Môn 2014 ychwaith, ac nid yw'r ddogfen yn cydnabod yn ddigonol sail statudol llesiant yng Nghymru na gofynion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 na Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

7.12 Mae rhagor o awgrymiadau penodol ynghylch sut dylai'r Gymraeg a'i diwylliant gael eu hystyried, eu gwarchod a'u cryfhau mewn cynigion, wedi'u cynnwys yn yr ymateb i gwestiwn 5 yr ymgynghoriad ar PAC2, ac maent wedi'u nodi yn Atodiad B yr ymateb hwn.

## 8 PRIFFYRDD A THRAFNIDIAETH

8.1 Mae CSYM yn cefnogi'r gwaith ar ffordd yr A5025 rhwng y Fali a safle Wylfa Newydd, a gwaith oddi ar y ffordd hefyd. Bydd y gwaith hwn o fudd uniongyrchol i'r datblygwr, gan sicrhau llwybr teithio mwy diogel i'w weithwyr a'i gontractwyr. Rydym yn cydnabod bod CSYM a PNH wedi cydweithio'n gyson â'i gilydd i lunio'r cynigion hyn. Mae CSYM yn disgwyl y bydd hyn yn parhau wrth i'r cynigion gael eu mireinio.

8.2 Mae CSYM hefyd yn cydnabod bod PNH wedi paratoi Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig sy'n rhoi manylion am gynigion fel rhan o Brosiect Wylfa Newydd, ac mae'n sylweddoli y bydd yn dal i ddatblygu wrth i ragor o fanylion ddod i'r amlwg. Bydd yn bwysig gwneud yn siŵr bod y Cyngor yn parhau i gydweithio â PNH i ddatblygu a mireinio'r Strategaeth.

8.3 Gan nad yw'r trafodaethau cyn ymgeisio wedi dechrau eto ar y rhan fwyaf o'r Datblygiadau Cysylltiedig a Chyfleusterau Oddi ar Safle'r Orsaf Bŵer, dim ond sylwadau lefel uchel am leoliadau unigol y byddwn yn eu cynnig. Mae CSYM, yn ei rôl fel yr Awdurdod Lleol, wedi rhoi sylwadau am y safleoedd hyn, gan ymateb i'r manylion a roddwyd heb ddangos rhagfarn tuag at unrhyw benderfyniad yn y dyfodol ynghylch unrhyw ran/swyddogaeth o'r Cyngor, ac at ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig. Ni ddylid cymryd dim byd yn y sylwadau hyn i fod yn safbwyntiau'r Cyngor fel Awdurdod Cynllunio ar unrhyw faterion a ystyriwyd os byddant yn cael eu cynnwys mewn unrhyw gais, a phennir neu ymatebir i unrhyw gais o'r fath yn ôl ei rinweddau ei hun. Ni cheir/ni ddylid ystyried bod CSYM, yn y sylwadau hyn, yn derbyn yr egwyddor o ddefnydd arfaethedig unrhyw safle. Byddai CSYM yn annog PNH i achub ar y cyfle i gael trafodaeth bellach am hyn yn y Cyfnod Cyn Ymgeisio.

8.4 Mae CSYM wedi rhoi sylwadau penodol am y llwybrau bysiau a'r safleoedd bws a nodwyd mewn ymateb i gwestiwn 4 yn ymgynghoriad PAC 2. Maent i'w gweld yn Atodiad B yr ymateb, a dylid darllen yr ymateb hwnnw ynghyd â'r adran hon.

8.5 Argymhellir y dylid rhoi ystyriaeth bellach i asesu sut gellir gwella cysylltiadau rhwng safle Parc Cybi a Phorthladd Caergybi i gefnogi'r gwaith o ddatblygu safle'r Ardal Fenter a gwella cysylltedd â'r Porthladd, sy'n borth rhyngwladol pwysig. Dylid ystyried hefyd a oes angen uwchraddio Porthladd Caergybi ar gyfer derbyn llwythi ar longau, neu a fydd angen gwella'r cysylltiadau rhwng y porthladd a'r cysylltiadau trafnidiaeth.

**Teithio Cynaliadwy (gan gynnwys Bysiau Gwennol PNH a Pharcio a Theithio)**

8.6 Mae CSYM yn croesawu amcan PNH i geisio sicrhau gwelliannau i'r seilwaith a chynlluniau hyrwyddo i gynyddu lefelau trafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio, ac i wneud yn siŵr bod cynlluniau'n cynnig dulliau teithio effeithlon, hyblyg, dibynadwy a chynaliadwy i'r gweithwyr. Fodd bynnag, gyda'r cynnydd mewn traffig, yn enwedig mewn cerbydau mwy, megis Bysiau Gwennol PNH, ar hyd yr A5025 rhwng Wylfa ac Amlwch, mae beicwyr yn wynebu mwy o risgiau gan fod llai o le iddynt ar y lôn a gan nad oes llawer o leiniau ar ochr y ffordd chwaith.

8.7 Er ein bod yn cydnabod bod y strategaeth arfaethedig i ddarparu gwasanaethau bws gwennol 'aml-stop' i godi gweithwyr mewn nifer o lefydd ar hyd gogledd orllewin a gogledd ddwyrain Ynys Môn, mewn theori, yn ymarferol, byddai CSYM yn cwestiynu a yw'n rhesymol tybio y bydd pob gweithiwr yn fodlon neu'n gallu cerdded neu feicio i'r man codi agosaf?

8.8 Fel y mae wedi'i ddweud dro ar ôl tro yn ei ymatebion blaenorol, mae gan CSYM bryderon difrifol am ddefnyddio Cyffordd 4 yr A55 a’r cylchfannau cysylltiedig, gyda llawer iawn o gerbydau’n mynd i mewn ac allan o'r safle Parcio a Theithio. Mae’r sylwadau isod yn cael eu gwneud heb ragfarn i'r safbwynt hwnnw. Rhoddir sylwadau am safle Dalar Hir mewn ymateb i gwestiwn 8 o ymgynghoriad PAC2. Maent i’w gweld yn Atodiad B yr ymateb, a dylid darllen yr ymateb hwnnw ynghyd â’r adran hon.

8.9 Mae ffigurau PNH yn awgrymu y bydd y cyfleuster Parcio a Rhannu yn mynd i’r afael ag achosion o un person yn unig mewn car. Mae hyn yn mynd yn groes i amryw o bolisïau lleol a chenedlaethol, gan gynnwys Polisi Cynllunio Cymru, Rhifyn 8, ac EA 14 y CCA ar Drafnidiaeth. Mae Polisi Cynllunio Cymru a TAN 18 yn ceisio gwneud yn siŵr bod cynlluniau sy’n creu llawer o draffig yn ganolog ac yn agos at gyfnewidfeydd trafnidiaeth gyhoeddus, a bod y cyfleusterau'n agos at y bobl fydd yn eu defnyddio (3.7 TAN 18). Mae Polisi Cynllunio Cymru hefyd yn hyrwyddo patrwm anheddiad sy'n defnyddio adnoddau’n effeithlon drwy leoli datblygiadau mewn ffordd sy'n lleihau'r galw am deithio, yn enwedig mewn car preifat. Yn yr un modd, mae’r polisïau hyn yn disgwyl i gynlluniau sy'n creu llawer o alw am deithio gael eu lleoli mewn canolfannau neu ar safleoedd hygyrch. Mae’n debygol iawn y byddai llawer iawn o'r gweithwyr yn teithio mewn car i'r man codi agosaf, yn enwedig mewn tywydd garw. Byddai hyn yn gwneud parcio gwrthgymdeithasol a/neu ar hap ym mhob man yn fwy tebygol, gan achosi rhwystrau a’r posibilrwydd o dagfeydd.

8.10 Mae CSYM yn rhagweld y bydd gweithwyr yn gwneud trefniadau anffurfiol i gwrdd â’i gilydd ger coridor yr A55, wrth gyffyrdd 6, 7 ac 8 ar y tir mawr yn fwy na thebyg, er mwyn rhannu car am weddill y daith i Dalar Hir. Mae CSYM hefyd yn rhagweld y bydd y cyfleuster Parcio a Rhannu yn St Tysilio, Llanfairpwll, yn llenwi'n fuan gyda gweithwyr PNH, gan atal pobl leol rhag gallu rhannu car, ac arwain at broblemau parcio hefyd. Felly mae angen i’r cyfleusterau a ddarperir ar hyd y cyffyrdd hyn fod yn rhan o’r mesurau a gynigir gan PNH fel rhan o’u strategaeth parcio a theithio.

8.11 I gynyddu nifer y bobl sy'n rhannu cerbyd, byddai CSYM yn argymell bod cyfleusterau Parcio a Rhannu llai yn cael eu hadeiladu ar gyffyrdd strategol (6, 7, 8) ar yr Ynys ac ar y tir mawr ar hyd yr A55. Byddai hyn yn lleihau'r angen i PNH adeiladu cyfleuster mor fawr beth bynnag fo’i leoliad, a byddai'n annog pobl i rannu car ac yn lleihau'r angen i bobl deithio ar eu pen eu hunain yn eu car (gan hybu teithio cynaliadwy). Byddai’r cynnig hwn yn mynd i'r afael â’r problemau a ragwelir o ran parcio anghyfreithlon ac anffurfiol, ac yn rhoi manteision parcio hirdymor tebyg i’r maes Parcio a Rhannu presennol yn St Tysilio.

8.12 Byddai creu nifer o gyfleusterau Parcio a Rhannu hefyd yn ychwanegu gwerth at Strategaeth Traffig a Thrafnidiaeth Integredig CSYM ac yn cyfrannu at Gynllun Teithio Gweithredol CSYM. Byddai hyn hefyd yn helpu i leihau tagfeydd ar Bont Britannia ac ar Gyffordd 4 yr A55.

8.13 Ni dderbynnir datganiad PNH sy'n dweud ei bod yn debygol y bydd mwyafrif yr 800 a mwy o weithwyr a fydd yn byw yn ardal Caergybi o fewn pellter cerdded neu feicio rhwydd i derminws y bws gwennol sy'n cysylltu â'r orsaf drenau, ac nid yw CSYM o'r farn bod y casgliad hwn yn dal dŵr. Byddai bwrw ymlaen ar y sail ddiffygiol hon yn cynyddu'r tebygolrwydd o barcio anghyfreithlon / anghymdeithasol, tagfeydd traffig a phroblemau diogelwch ffordd yn yr ardal leol wrth i weithwyr yrru i'r man codi lle nad oes digon o le parcio, ac nid yw effeithiau'r cynnydd mewn traffig ar y ffordd wedi cael eu hasesu na'u lliniaru'n briodol. Mae angen i PNH hefyd roi rhagor o fanylion ynghylch y ddarpariaeth parcio ar gyfer y 3,500 o weithwyr fydd yn aros yn y Llety Gweithwyr Dros Dro yn Kingsland / Cae Glas.

8.14 Er mwyn rhoi sylw i bryderon CSYM, dylai PNH ystyried y canlynol:

8.14.1 Darparu pwyntiau codi ychwanegol ar hyd y ffordd ar gyfer yr 800 a mwy o weithwyr y rhagwelir y byddant yn byw yn Ardal Caergybi (mewn mannau i gytuno arnynt gyda Chyngor Môn).

8.14.2 Darparu cyfleusterau parcio yn y Llety Gweithwyr Dros Dro yn Kingsland / Cae Glas fel bod cyfran o'r 800 a mwy o weithwyr fydd yn byw/aros yng Nghaergybi yn gallu defnyddio'r gwasanaeth Bws Gwennol o'r lleoliad hwn. Byddai hyn yn lleihau'r angen am faes parcio mor fawr yn y cyfleuster Parcio a Theithio a ddewiswyd.

**Teithio yn ôl ac ymlaen rhwng y Llety Gweithwyr Dros Dro a ffafrir gan PNH a'r Tir Mawr (ar ddechrau/diwedd shifft)**

8.15 Nid yw'r rhwydwaith ffyrdd strategol ar Ynys Môn yn cynnwys y ffordd Dosbarth III i Rosgoch a Burwen, fel y dangosir mewn amryw o ffigurau yn nogfennau PAC2. Os penderfynir bwrw ymlaen â'r safle sy'n cael ei ffafrio yn Rhosgoch, mae'n debygol y bydd llawer iawn mwy o draffig di-reolaeth ar ffyrdd Dosbarth II, III a diddosbarth i gael mynediad at Lety Gweithwyr Rhosgoch o'r/i'r A55. Mae CSYM yn bryderus y bydd gweithwyr yn defnyddio ffyrdd gwledig anaddas ar draws yr ynys ar ddechrau ac ar ddiwedd y patrwm shifft. Byddai'n naïf disgwyl i'r mwyafrif o'r gweithwyr adeiladu fynd i'r gogledd o Rosgoch i'r A5025, teithio ar hyd yr A5025 i'r Fali ac ymuno â'r A55 ar eu ffordd adref. Mae'n fwy tebygol y byddant yn dilyn y llwybr byrraf ar y system llywio lloeren ac yn teithio ar hyd y ffordd Dosbarth III anaddas i Ty'n Ffrwd, cyn mynd ymlaen ar hyd y B5111 i Lannerch-y-medd ac yna ar yr A55 drwy Drefor neu Langefni. Nid yw seilwaith y ffordd honno'n addas ar gyfer nifer y

cerbydau a ragwelir ar adegau newid shifft. Mae risg sylweddol y byddai hyn yn arwain at bryderon o ran diogelwch ar y ffyrdd, mwy o dagfeydd a mwy o botensial ar gyfer damweiniau, difrod ar ymylon ffyrdd a chwynion gan drigolion lleol, a fydd yn arwain at waddol negyddol yng nghyswllt adeiladu Wylfa Newydd. Bydd angen i CSYM gael trafodaethau â PNH i gytuno ar fesurau lliniaru priodol ar hyd y ffordd Dosbarth III rhwng Rhosgoch a Burwen os yw'r cynlluniau i fwrw ymlaen â safle Rhosgoch yn mynd rhagddynt.

**Y Cyfleuster Dadlwytho Morol**

8.16 Er bod PNH wedi cynnig y bydd y Cyfleuster Dadlwytho Morol yn danfon rhwng 60% ac 80% o ddeunyddiau i'r safle, mae CSYM yn credu nad yw PNH yn rhoi digon o ystyriaeth na phwys ar nifer y symudiadau cerbydau nwyddau trwm. Yn Hinkley Point C, roedd EDF wedi cynnig y byddai 80% o'r deunyddiau'n cael eu danfon dros y môr, ond mae hyd at 500 o symudiadau cerbydau nwyddau trwm ar y safle bob dydd o hyd.

**Mesurau Gwella Priffyrdd a Gwelliannau i'r A5025 rhwng Wylfa Newydd ac Amlwch, gan gynnwys y ffordd sy'n cysylltu'r A5025 â'r Llety Gweithwyr Dros Dro arfaethedig yn Rhosgoch.**

8.17 Nid yw'r rhwydwaith ffyrdd strategol ar Ynys Môn yn cynnwys y ffordd Dosbarth III rhwng Rhosgoch a Burwen, fel y dangosir mewn amryw o ffigurau yn nogfennau PAC2.

8.18 Mae CSYM o'r farn nad yw'r ffordd yn addas ar gyfer y cynnydd yn nifer y cerbydau mawr (bysiau) oherwydd eu lled, a'r ffaith nad oes llawer o leiniau ar ochr y ffordd. Er mai eithaf bach fydd y cynnydd mewn traffig yn gyffredinol, mae CSYM o'r farn y bydd y cynnydd canrannol yn nifer y cerbydau mawr (e.e. bysiau gwennol) ar ddechrau/diwedd shifftiau yn fawr iawn. Dylid asesu'r cynnydd mewn llif traffig yn ôl cynnydd fesul awr mewn traffig bysiau (i gynnwys gwasanaeth bws gwennol 'Gogledd Ddwyrain Ynys Môn' a phob Llety Gweithwyr Dros Dro), yn hytrach na'r mesur Traffig Dyddiol Cyfartalog Blynyddol (AADT). Dylid dadansoddi data damweiniau ar gyfer cerbydau mawr, a chydnabod y mynegai difrifoldeb uchel iawn. Hynny yw, cymhareb unigolion a laddwyd ac a anafwyd yn ddifrifol o'i gymharu â chyfanswm y damweiniau.

**Gwydnwch Pont Britannia**

8.19 Mae CSYM yn ategu ei farn am wydnwch Pont Britannia. Mae profiad lleol a data traffig yn awgrymu bod y Bont eisoes yn achosi tagfeydd go iawn ar yr A55 ar adegau prysuraf y dydd (tua'r dwyrain yn y bore a'r gorllewin yn y prynhawn), yn ystod misoedd yr haf neu pan fydd y fferi'n glanio yng Nghaergybi; mae goblygiadau traffig sylweddol i Bont Britannia yn hyn o beth. Dyma'r unig adran o Lwybr Ewropeaidd E22 sydd ag ond un lôn, felly mae hyn yn bryder yn barod ond bydd y traffig ychwanegol a gynhyrchir gan Wylfa

Newydd yn gwaethygu pethau ymhellach. Yn ogystal â hyn, mae tywydd garw yn cael effaith sylweddol ar Bont Britannia ac ar Bont Menai (llwybrau gwyro) pan fydd y pontydd ar gau i gerbydau ag ochrau uchel. Mae hyn yn codi pryderon sylweddol o ran gwydnwch.

8.20 Mae angen i PNH weithio'n agos gyda Chyngor Môn a Llywodraeth Cymru, National Grid a phartneriaid eraill yn y sector cyhoeddus (fel Heddlu Gogledd Cymru) i asesu’r effeithiau posib ar Bont Britannia'n llawn, a llunio camau lliniaru priodol i leihau traffig PNH sy'n croesi'r bont. Mae’r materion hyn wedi cael eu codi o’r blaen ac mae angen eu hymchwilio ymhellach.

**Trefniadau Mewn Argyfwng a Threfniadau Gweithredol**

8.21 Byddai CSYM yn croesawu trafodaethau â PNH ynghylch trefniadau i ddelio â digwyddiadau brys. Rydym yn gofyn i PNH ymgynghori ag Adran Cynllunio ar gyfer Argyfwng Gogledd Cymru ynglŷn â’r Cynllun Argyfwng er mwyn ymdrin â gwahanol sefyllfaoedd yn briodol.

8.22 Ar hyn o bryd, nid oes ystyriaethau ar gyfer sut bydd PNH yn rheoli sefyllfa pe bai digwyddiad difrifol yn cau’r A5025, gan atal mynediad i Safle Wylfa Newydd a’r Safleoedd Datblygu Cysylltiedig. Nid oes unrhyw lwybrau eraill addas wedi'u nodi rhwng Wylfa Newydd a’r amrywiol safleoedd Datblygu Cysylltiedig eraill. Nid yw gwaith cynnal a chadw’r gaeaf ar lwybrau mynediad Wylfa Newydd wedi cael eu hystyried chwaith, na’r potensial ar gyfer oedi a tharfu yn sgil gwaith stryd di-reolaeth sy'n ymwneud â chyfleustodau, ar ffyrdd mynediad Wylfa Newydd.

8.23 Mae CSYM o’r farn y gallai fod yn syniad da i ystyried cyflwyno’r Cynllun Trwyddedu Gwaith Stryd[5] i reoli gwaith cyfleustodau ar lwybrau mynediad Wylfa er mwyn cymryd camau i leihau’r oedi y mae gwaith stryd yn ei achosi. Byddai’n rhaid cael ymgynghoriad cyhoeddus ar gyfer cynllun o’r fath, cyn iddo gael ei gyflwyno i Weinidogion Cymru i’w gymeradwyo, felly byddai'n cymryd amser i'w roi ar waith. Felly mae PNH yn cael ei annog i ymgysylltu â Chyngor Môn yn fuan i benderfynu a allai cynllun o’r fath leihau rhai o’r pryderon a godwyd a chaniatáu i waith asesu gael ei wneud i baratoi ar gyfer unrhyw gynllun.

**Rheoli Traffig**

8.24 Mae PNH yn cydnabod y bydd mwy o draffig yn cludo nwyddau, deunyddiau a gweithwyr yn ystod cyfnod adeiladu’r Datblygiadau Cysylltiedig. Mae CSYM yn bryderus am y cynnydd sylweddol yn y traffig di-reolaeth ac am ddefnyddio ffyrdd anaddas, a fydd yn arwain at nifer o bryderon diogelwch ffordd, felly yr

[5] O dan Ddeddf Rheoli Traffig 2004

amlinellwyd yn barod. Ar ben y gwaith cyfalaf a awgrymwyd i helpu i oresgyn y pryderon hyn, mae CSYM yn awgrymu bod PNH yn creu'r pethau hyn:

8.24.1 Cynllun cynhwysfawr a chadarn ar gyfer Rheoli Traffig Adeiladu i'r Safleoedd Datblygu Cysylltiedig i'w gymeradwyo gan CSYM.

8.24.2 Cynllun Cyflawni Prosiect manwl lle mae'r Ganolfan Logisteg a'r cyfleuster Parcio a Theithio yn cael eu hadeiladu'n gyntaf er mwyn lleihau'r effaith ar y rhwydwaith ffyrdd lleol.

8.25 Yn ystod cam adeiladu a gweithredu'r prosiect, mae PNH wedi cydnabod y bydd angen cynnwys Pecyn Gwybodaeth am Deithio yng nghontractau'r gweithwyr er mwyn eu hannog i deithio mewn ffyrdd mwy cynaliadwy. Nid yw hyn yn ddigonol, ac mae angen Cynllun Teithio mwy trylwyr, a hwnnw'n cael ei fonitro a'i ddiweddaru'n rheolaidd. Byddai'r cynllun hwn yn cymell gweithwyr i deithio'n gynaliadwy, ac i beidio â bod yn ddibynnol ar gar preifat. Bydd angen i CSYM gael trafodaethau pellach â PNH i greu Cynllun Teithio effeithiol sy'n addas at y diben ar gyfer y cyfnod adeiladu a gweithredu.

8.26 O safbwynt Priffyrdd a Thrafnidiaeth, mae CSYM yn awgrymu bod PNH yn ystyried y canlynol (nid yw hon yn rhestr gyflawn):

8.26.1 Gwelliannau ar y llwybr uniongyrchol o Rosgoch i'r A55, sef yr B5112 (A5 Treban i Lannerch-y-medd), B5111 (Llannerch-y-medd i gyffordd Ty'n Ffrwd) a'r ffordd Dosbarth III o gyffordd Ty'n Ffrwd i safle Llety Gweithwyr Dros Dro Rhos-goch – gwneud ffordd arall addas yn ystod digwyddiad brys.

8.26.2 Nodi mewn contract ei bod yn rhaid i bob gweithiwr ddefnyddio ffordd benodol fel rhan o'u contract cyflogaeth.

8.26.3 Gwelliannau i ffordd yr A5025 o Gemaes i Amlwch a fyddai'n elwa o brosiect Wylfa Newydd yn y ffyrdd canlynol:

8.26.3.1 Ffordd well i fysiau gwennol PNH gael mynediad i'r Llety Gweithwyr Dros Dro yn ogystal â'r gwasanaeth arfaethedig ar gyfer y gogledd ddwyrain.

8.26.3.2 Gwella'r ffordd sy'n cysylltu'r Llety Gweithwyr Dros Dro yn Rhosgoch â'r A5025 i safon dderbyniol.

8.26.3.3 Darparu llwybr arall addas yn ystod argyfwng i safon debyg i'r gwaith ar y ffordd i'r A5025, y Fali i Wylfa Newydd.

8.26.3.4 Gwella'r ffordd i safon a fyddai'n golygu bod modd ei hystyried yn ffordd arall mewn argyfwng pe bai damwain ar yr A5025 i'r Gorllewin.

8.26.3.5 Lleihau'r risg o fysiau gwennol PNH yn gwrthdaro yn erbyn ei gilydd.

8.26.3.6 Y potensial i gysylltu'r gwelliannau â'r ddarpariaeth ar gyfer beicio.

8.26.3.7 Gwell diogelwch ar gyfer y rheini sydd ddim yn fodurwyr er mwyn lleihau'r cynnydd mewn cerbydau mawr, e.e. bysiau gwennol PNH.

8.26.4 Gwell diogelwch ar gyfer defnyddwyr llwybr beicio'r Trywydd Copr

8.26.5 Darpariaeth ychwanegol bwrpasol ar gyfer cynnal a chadw llwybrau mynediad Wylfa Newydd yn ystod y gaeaf.

## 9 TWRISTIAETH

9.1 Twristiaeth yw'r sector mwyaf yn economi Ynys Môn, ac mae'n creu dros £256M yn flynyddol. Rydym yn cydnabod bod PNH a'i ymgynghorwyr wedi cyflwyno Asesiad Twristiaeth i CSYM ei ystyried. Mae CSYM wrthi'n ei ystyried, a bydd yn ymateb iddo ar wahân. Fodd bynnag, yn gyffredinol byddem yn dweud nad yw'r Thema hon wedi cael ei hystyried yn ddigon manwl yn nogfennau PAC2. Dyma rai o'r materion sy'n codi o'r asesiad hwn: effeithiau niweidiol ar y llety a fydd ar gael i dwristiaid, llai o ymwelwyr yn ystod y cyfnod adeiladu, ac anghyfleustra i ymwelwyr gyda mwy o deithiau/tagfeydd yn sgil y datblygiad. Er ein bod yn nodi canlyniadau'r arolwg twristiaeth, mae cynnal arolwg ar ymateb i brosiect sydd heb gael ei adeiladu eto yn gwneud tybiaethau o ran sicrwydd y canlyniad ei hun, ac ni ellir dibynnu ar hynny wrth ddelio ag argraffiadau pobl.

9.2 Mae CSYM yn croesawu manteision sylweddol posib y prosiect hwn o ran twristiaeth wrth i'r safle ei hun ddod yn atyniad, a'r cynnydd posib yn y defnydd o fwytai, tafarndai a bwyd lleol. Nid yw dogfennau PAC2 yn cydnabod yr effeithiau/manteision posib yn fanwl, a byddai CSYM ynghyd â Phartneriaeth Cyrchfan Ynys Môn yn croesawu trafodaethau pellach ynghylch yr elfennau cadarnhaol yn ogystal â mesurau digonol i liniaru'r effeithiau niweidiol. Fel y nodwyd yn flaenorol yn ymateb CSYM i PAC1 a'r Diweddariad ar y Prosiect, mae angen cynnal asesiadau manwl o dwristiaeth a datblygu mesurau lliniaru gyda Chyngor Môn i sicrhau bod yr effeithiau niweidiol ar dwristiaeth yn cael eu hosgoi, eu lliniaru neu eu gwrthbwyso.

9.3 Mae'r Asesiad Twristiaeth yn cydnabod y risg a nodir yn yr Asesiad o Lety i Dwristiaid y gallai safonau llety ddirywio, ond mae'r cyfeiriad at fesurau lliniaru arfaethedig (B1.214) yn ymwneud â'r posibilrwydd o ddarparu gwasanaethau hamdden, nid at gynnal safonau llety yn y sector twristiaeth.

9.4 Mae'r dull cyffredinol o asesu effeithiau ar bob math o lety yn seiliedig ar argaeledd llofftydd, ac nid yw'n ystyried y ffordd byddai llety yn cael ei osod. Mewn nifer o achosion, byddai hyn yn seiliedig ar eiddo cyfan yn hytrach nag ar nifer y llofftydd. Mae defnyddio nifer y llofftydd yn rhoi amcangyfrif rhy isel o'r galw, ac mae hefyd yn dibynnu ar y gallu i reoli'r galw ar draws deiliadaethau a mathau o lety. Bydd hefyd yn dibynnu ar y gallu i reoli penderfyniadau llety'r gweithlu llafur sylweddol a fydd yn symud i mewn i'r ardal. Byddai'n ymddangos nad yw'r asesiad o'r mân-effeithiau niweidiol ar y sector twristiaeth yn rhoi darlun llawn o'r effeithiau, ac mae hynny'n debygol o fod yn wir am fathau eraill o lety, yn enwedig yn y sector rhent preifat.

9.5 Mae'n hollbwysig ein bod yn cynnal ac yn gwella'r arlwy i ymwelwyr yn ystod cyfnod adeiladu Wylfa Newydd. Mae atyniadau yn elfen bwysig o'r arlwy ehangach i ymwelwyr, ac mae'r awdurdod yn teimlo bod adeiladu cyfleuster twristiaeth yn cynnig cyfle unigryw i'n hymwelwyr. Felly, mae CSYM yn gefnogol mewn egwyddor i'r cysyniad o greu Canolfan Ymwelwyr a'r Cyfryngau. Mae angen i CSYM a PNH drafod y broses o greu'r ganolfan hon, yr union leoliad a'r cyfnod adeiladu dan sylw. Mae tystiolaeth anecdotaidd o safleoedd eraill yn dangos cefnogaeth fawr i dwristiaeth adeiladu, ac mae CSYM yn credu y dylai'r ganolfan fod ar agor yn gynnar yn y broses adeiladu er mwyn manteisio ar hynny a chreu canolbwynt i'r rhai sydd am ymweld â'r safle. Mae'r awdurdod yn rhagweld y bydd y ganolfan ymwelwyr newydd yn ganolbwynt pwysig rhwng y gymuned a'r orsaf bŵer, fel mae PNH wedi'i nodi yn y dogfennau ymgynghori. Byddai'n atyniad ymwelwyr poblogaidd iawn yn ystod tywydd gwlyb, yn ychwanegu at yr ystod o gyfleusterau addysgol sydd ar gael yn Ynys Môn, ac yn lle delfrydol i aros wrth grwydro ar hyd llwybr yr arfordir neu ymweld â gogledd yr ynys.

9.6 Ar y cyfan, nid oes llawer o waith ychwanegol wedi'i wneud o ran yr effeithiau ar dwristiaeth a chynigion lliniaru. Ar sail y wybodaeth a roddwyd, nid yw'n glir beth fydd graddau'r effeithiau ar y sector twristiaeth o safbwynt gweithgareddau ymwelwyr, effeithiau ar lety ac effeithiau ehangach ar weithgareddau yn y sector. Mae hyn yn cynnwys dadleoli swyddi o fusnesau yn y sectorau lletygarwch, bwyd ac arlwyo er enghraifft, ynghyd â sectorau eraill sy'n hollbwysig i'r sector twristiaeth a'r economi ehangach. Cyfeirir at strategaeth dwristiaeth sy'n nodi mesurau lliniaru, ond nid yw'r strategaeth wedi cael ei darparu ac nid oes unrhyw fanylion am y mesurau lliniaru ychwaith.

9.7 Mae'r pwnc hwn yn ategu'r mater ehangach o ran ansicrwydd yn yr asesiadau a'r achos dros sefydlu Cronfa Cydnerthu Cymunedau, er mwyn gallu cymryd camau ymyrryd ar gyfer effeithiau lle nad oes mesurau lliniaru wedi cael eu cynnig ar eu cyfer neu lle nad yw'r camau hynny'n effeithiol. Dyma awgrymiadau eraill ar gyfer mesurau lliniaru i'w hystyried ymhellach:

9.7.1 Swyddog monitro/adnoddau i ddarparu arolygon ymwelwyr rheolaidd er mwyn gweld beth yw'r effeithiau ac addasu mesurau lliniaru wrth i ddatblygiad Wylfa Newydd fynd rhagddo.

9.7.2 Cyfrannu at adnoddau ar gyfer gweithgareddau presennol er mwyn lliniaru'r gostyngiad yn nifer yr ymwelwyr ac mewn incwm cysylltiedig.

9.7.3 Adnoddau hyfforddiant mewn sectorau ehangach a fyddai'n dioddef yn sgil effeithiau dadleoli e.e. y sector bwyd, lletygarwch/arlwyo a meysydd eraill a fyddai'n gallu cefnogi cyfnod adeiladu'r prosiect, er mwyn lleihau effaith colli/dadleoli swyddi mewn busnesau presennol a sicrhau cyflenwad o weithlu llafur medrus ac addas. Mewn dadansoddiad diweddar, pwysleisiwyd bod Llety a Bwyd yn sector twf pwysig i Ynys Môn, ynghyd â thrafnidiaeth a dosbarthu.

9.8 Bydd Wylfa Newydd yn cael effaith enfawr ar Lwybr Arfordir Cymru. Bydd yn amharu'n sylweddol ar brydferthwch yr ardal i'r bobl a fydd yn defnyddio llwybr yr arfordir, trigolion lleol ac ymwelwyr â'r ardal yn ystod y cyfnod adeiladu, ac yn ystod y cyfnod gweithredu hefyd o bosib. Yn ystod y cyfnod gweithredu, dylai llwybr parhaol Llwybr yr Arfordir fod mor agos â phosib at y môr er mwyn cynnig y llwybr arfordirol gorau i ddefnyddwyr a gwell golygfeydd o'r môr. Mae un o'r opsiynau eraill a gynigiwyd yn cyflawni hynny, ac felly dyna'r opsiwn a ffafrir a dylid ei archwilio yn fanylach. Byddai CSYM yn falch o drafod hyn ymhellach â PNH cyn i'r agwedd hon gael ei chwblhau'n derfynol.

9.9 Pan fydd y gwaith o ddatblygu prosiectau mawr yn effeithio ar hawliau tramwy, cilffyrdd a llwybrau beicio, dylid cynllunio llwybrau eraill ar gyfer trigolion ac ymwelwyr a'u hyrwyddo er mwyn eu hannog i ddefnyddio dulliau cynaliadwy o deithio. Mae angen trafod hyn ymhellach â Chyngor Môn er mwyn dod i gytundeb.

9.10 Mae CSYM yn ailadrodd y pwynt hwn – ar hyn o bryd, nid yw Twristiaeth wedi cael ei ystyried yn ddigon manwl, a byddai'n annog PNH i roi llawer mwy o ystyriaeth i'r Thema hon cyn gwneud unrhyw gais.

## 10 STRATEGAETH LLETY GWEITHWYR ADEILADU

10.1 Mae CSYM yn croesawu'r ffaith bod Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu wedi cael ei chynnwys fel rhan o ymgynghoriad PAC 2. Mae hwn yn gam mawr ymlaen o ymgynghoriad PAC 1 a'r Diweddariad ar y Prosiect (Ionawr 2016), oedd ond yn cynnwys ychydig o wybodaeth am Strategaeth PNH ar gyfer darparu llety i weithwyr adeiladu dros dro (o ran nifer y gweithwyr, lleoliadau posib a dosbarthiad yn ôl sector/math o lety).

10.2 Serch hynny, mae pryderon o hyd ynghylch prinder y manylion yn y Strategaeth, a'r awgrym mai dim ond hyn a hyn o effaith y bydd ddarparu llety i weithwyr prosiect Wylfa Newydd yn ei chael. Mae gan CSYM bryderon mawr am y ffordd mae PNH yn cynnig dosbarthu gweithwyr i'r gwahanol sectorau.

### Sector Rhent Preifat

10.3 Yn ôl PNH, mae 1,300 o lofftydd ar gael yn y Sector Rhent Preifat (SRhP), ac mae'r Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu yn dweud mai 1,100 o weithwyr fydd y nifer mwyaf a fydd yn defnyddio'r sector hwn fel llety. Mae gan CSYM amheuon mawr am y datganiad hwn gan y bydd PNH i bob pwrpas yn defnyddio'r rhan fwyaf o le yn y SRhP. Eto fyth, nid yw'n sylweddoli y bydd hyn yn cael effaith fawr ar y sector.

10.4 Mae tystiolaeth a gomisiynwyd gan CSYM[6] yn awgrymu mai dim ond 260 eiddo rhent preifat sy'n dod ar gael ar Ynys Môn bob blwyddyn. Mae'r dystiolaeth hefyd yn dweud, pe bai gogledd Gwynedd wedi'i gynnwys, byddai'r ffigur yn 858 eiddo bob blwyddyn (ond mae hyn yn cynnwys Bangor, sy'n Ddinas Prifysgol).

10.5 Mae CSYM yn sylweddoli bod yr uchod yn cyfeirio at eiddo, nid llofftydd, ond bydd y diffyg lle yn y SRhP yn cael effaith andwyol iawn ar brisiau rhent yn y dyfodol. Ar sail Strategaeth bresennol PNH, bydd hyn yn arwain at brisiau rhent uwch (yn sgil mwy o alw a llai o gyflenwad ar gael ar y farchnad) a landlordiaid yn cael eu cymell i ddod â thenantiaethau presennol i ben yn hytrach na'u hadnewyddu er mwyn cael incwm rhent uwch gan weithwyr adeiladu. Yn sgil hyn, ni fydd pobl leol yn gallu fforddio rhentu tŷ, a gallai hyn gynyddu'n sylweddol y risg o ddigartrefedd ar yr ynys, dadleoli pobl leol sy'n gorfod symud i rywle arall i ddod o hyd i lety fforddiadwy, a'r effeithiau dilynol ar gydlyniant cymunedol, y Gymraeg a'i diwylliant, a'r gweithlu sydd ar gael.

10.6 Gan ystyried y prinder lle yn y SRhP a nifer y bobl sydd ar y rhestr aros am dŷ Cyngor ar hyn o bryd (350), byddai unrhyw ostyngiad yn y tai rhent sydd ar gael, neu gynnydd ym mhrisiau rhent o ganlyniad i hynny, yn cael effaith

[6] Martin Pereira Housing Consultancy -' A proposal with financial modelling to support the development and operation of an Isle of Anglesey County Council -run Leasing Scheme'.

negyddol iawn ar SRhP Ynys Môn, ac mae hynny'n annerbyniol. Mae angen i PNH roi sylw i hyn ar y dechrau drwy gynyddu cyflenwad y tai parhaol sydd ar gael i'w rhentu (ar gyfer gweithwyr adeiladu ac ar gyfer pobl leol) gan ddarparu etifeddiaeth barhaol.

10.7 Mae CSYM yn llwyr gydnabod y bydd Wylfa Newydd yn rhoi cyfle i Landlordiaid SRhP drwy gydol y cyfnod adeiladu (ac ar ôl hynny o bosib) ac mae hyn yn cael ei groesawu a'i gefnogi mewn egwyddor. Fodd bynnag, ni ddylai hyn fod yn niweidiol i'r sector drwyddo draw, ac yn sicr ddim i'r teuluoedd agored i niwed sy'n byw mewn tai yn sector hwn ar hyn o bryd.

10.8 Mae CSYM yn awgrymu y dylai'r mesurau lliniaru arfaethedig gynnwys:

10.8.1 Cefnogi neu hyrwyddo mesurau i gynyddu cyflenwad y Llety Rhent Preifat sydd ar gael ar Ynys Môn. Bydd angen i PNH weithio gyda Chyngor Môn, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill i gynyddu cyflenwad llety parhaol newydd, gan wneud yn siŵr bod tai gweigion yn cael eu defnyddio unwaith eto, ac annog landlordiaid i gynyddu cyflenwad y SRhP sydd ar gael a sicrhau bod y safon yn ddigonol.

10.8.2 Darparu Cronfa Dai i CSYM er mwyn rhoi cymorth ariannol i gynlluniau sy'n anelu at sicrhau bod mwy o dai ar gael i liniaru unrhyw effeithiau negyddol posib fydd yn deillio o Brosiect Wylfa Newydd ar y farchnad dai leol. O ran y SRhP, bydd y Gronfa Dai yn cael ei defnyddio ar gyfer cynlluniau fel:

10.8.2.1 Achredu Landlordiaid;

10.8.2.2 ysgogi cyflenwad newydd yn y sector rhent preifat drwy roi cymorth ariannol ar gyfer mân welliannau;

10.8.2.3 cefnogi cynllun gwarantu blaendal neu rent drwy ddarparu blaendaliadau rhent ar gyfer teuluoedd sy'n symud i'r sector rhent preifat;

10.8.2.4 ariannu Swyddogion Tai Cyngor Sir i reoli, gweinyddu a monitro'r Gronfa Dai a'r Cynlluniau, yn ogystal ag ariannu adnoddau ychwanegol i alluogi tîm Iechyd yr Amgylchedd CSYM i fonitro'r tai ychwanegol mewn aml-ddaliadaeth;

10.8.2.5 cefnogi mesurau lliniaru eraill ym maes tai, megis gwasanaethau tai mewn argyfwng, os bydd trigolion yn colli eu cartrefi neu'n cael eu symud.

10.8.2.6 Monitro cyflenwad a galw yn y SRhP.

**Perchen-feddianwyr**

10.9 Mae PNH yn tybio y bydd 730 o weithwyr adeiladu yn prynu eu tŷ eu hunain. Yng nghyd-destun Ynys Môn, mae hynny'n ffigur sylweddol. Mae PNH yn dweud bod 9,561 o lofftydd ar gael (o stoc o 38,450) a bod trosiant presennol y farchnad yn awgrymu bod 950 o lofftydd ar gael. Ar sail lefel y galw (hynny yw 730), nid oes disgwyl y bydd effaith uniongyrchol ar yr hyn sydd ar gael, ac ni fydd hyn yn cael effaith sylweddol ar y sector perchen-feddianwyr.

10.10 Mae CSYM o'r farn bod hyn yn gamarweiniol ac yn rhy syml oherwydd gallai'r gweithwyr sy'n debygol o brynu eiddo fod yn weithwyr ar lefel uwch sy'n ennill cyflog da – gweithwyr sy'n debygol o fod ar Ynys Môn drwy gydol y cyfnod adeiladu (ac ar ôl hynny o bosib) ac sy'n debygol o ddod â'u teuluoedd gyda nhw. Ni fydd y rhain, fwy na thebyg, yn dai mewn aml-ddaliadaeth sy'n cynnig llety i 3 neu 4 gweithiwr adeiladu. Yn hytrach, byddant yn gartrefi ar gyfer teulu – un i bob gweithiwr – i'r gweithiwr ei hun a'i ddibynyddion. Nid yw pobl yn prynu llofft, maent yn prynu tŷ. Ni ellir cymharu 950 llofft â 730 eiddo; os cymerir bod gan eiddo 3 ystafell wely ar gyfartaledd, mae 730 eiddo yn golygu 2,190 o lofftydd.

10.11 Ar ben hynny, o ran lleoliad yr eiddo hyn, maent yn fwy tebygol o fod ar Ynys Môn (wardiau gogledd Ynys Môn ac o bosib 30 munud o'r safle) a gallent fod yn dai teulu gyda 3 ystafell wely neu fwy. Felly mae disgwyl i nifer yr eiddo sydd ar gael yn y sector perchen-feddiannwyr hwn (h.y. fewn 30 munud o'r safle) fod yn llai o lawer na'r hyn y mae PNH yn ei dybio (h.y. o fewn y KSA, neu 60 munud o'r safle). Yn ôl PNH, bydd datblygwyr yn rhag-weld ac yn ymateb i alw er mwyn sicrhau bod rhagor o lofftydd ar gael. Mae CSYM o'r farn mai prin yw'r dystiolaeth sy'n awgrymu y bydd hyn yn digwydd go iawn, ac ni ellir dibynnu ar hyn.

10.12 Heb roi camau lliniaru priodol ar waith, gallai gweithwyr sy'n prynu tai ar yr Ynys gael effaith ddifrifol ar y farchnad dai bresennol. Drwy leihau nifer y tai sydd ar gael i bobl leol eu prynu, mae prisiau tai yn debygol o godi, ac mae hyn yn golygu na fydd pobl leol yn gallu fforddio i brynu tŷ yn eu cymuned leol. Yn sgil hyn, gallai pobl leol symud o'u cymunedau lleol. Byddai hyn yn cael effaith negyddol fawr ar gynaliadwyedd cymunedau gwledig Ynys Môn ac ar faterion allweddol eraill fel y Gymraeg.

10.13 Bydd angen i PNH gynyddu cyflenwad y tai ar Ynys Môn yn sylweddol i gwrdd â'r galw cynyddol hwn drwy gynlluniau fel ailddefnyddio eiddo gwag (cynllun sy'n cael ei gydnabod a'i groesawu gan CSYM), ond hefyd drwy adeiladu neu hybu adeiladu llety mwy parhaol o lawer ar yr Ynys na'r 50 o unedau arfaethedig yn Fferm Madyn. Fel y soniwyd uchod, mae 730 o anheddau yn ystod y cyfnod adeiladu yn swm anferthol yng nghyd-destun Ynys Môn, a

gallai hyn arwain at effeithiau niweidiol iawn yn yr hirdymor ar y farchnad dai leol ac ar gymunedau, cyfleusterau a gwasanaethau Ynys Môn.

10.14 Mae CSYM yn awgrymu y dylai’r mesurau lliniaru arfaethedig gynnwys:

10.14.1 Darparu Cronfa Dai i CSYM er mwyn rhoi cymorth ariannol i gynlluniau sy’n anelu at sicrhau bod mwy o dai ar gael i liniaru unrhyw effeithiau negyddol posib a allai ddeillio o Brosiect Wylfa Newydd ar y farchnad dai leol.

10.14.2 Cydweithio â Chyngor Môn, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill ym maes tai i ddarparu mwy o lety parhaol ar yr Ynys a fydd yn lleddfu'r pwysau ar y farchnad dai. Bydd hefyd yn waddol i weithwyr Wylfa Newydd yn y cyfnod gweithredu ac i drigolion Ynys Môn yn gyffredinol.

10.14.3 Cyfrannu'n ariannol at a/neu ddarparu gwasanaethau a chyfleusterau seilwaith cymdeithasol ar Ynys Môn (manylion i’w cadarnhau ar ôl asesu capasiti ac ansawdd y ddarpariaeth bresennol yn erbyn gofynion y dyfodol) er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn ddigonol i'r gweithwyr adeiladu ac i drigolion Ynys Môn.

10.14.4 Mae’n ofynnol bod unrhyw dai newydd a godir ar yr Ynys yn cyd-fynd â’r Cynllun Datblygu Lleol, a hynny yn yr ardaloedd mae trigolion yn dymuno byw ynddynt yn y dyfodol (edrych ar waddol y dyfodol) ac nad ydynt yn cael effaith niweidiol ar yr iaith nac ar seilwaith lleol. Ni ddylai'r Etifeddiaeth gynnwys tai nad oes modd eu gwerthu yn y dyfodol – gallai hynny fod yn waddol negyddol.

**Tai Gwag**

10.15 Mae CSYM yn cydnabod ac yn croesawu ymrwymiad PNH i ailddefnyddio tai gwag. Mae CSYM yn cefnogi’r ymrwymiad i hwyluso lleihau nifer y tai gwag yn Ynys Môn, ond nid dim ond er mwyn darparu llety uniongyrchol i’r gweithwyr adeiladu y dylid gwneud hyn, ond hefyd i liniaru’r effeithiau dadleoli ehangach y bydd y mewnlifiad o weithwyr yn eu hachosi, ac unrhyw effeithiau canlyniadol ar lefelau rhent a phrisiau tai.

10.16 Bydd angen cynllunio'n ofalus er mwyn annog perchnogion/landlordiaid i ddarparu llety ar gyfer y ddau ddefnydd. Er bod yna tua 800 o eiddo gwag ar yr Ynys ar unrhyw adeg, mae llawer o resymau pam mae eiddo dal yn wag ac felly wrth wneud tybiaethau o ran faint o eiddo gwag fyddai modd ei ddefnyddio fel llety i weithwyr Wylfa Newydd, dylai’r ffigur ystyried yr eiddo hwnnw nad yw’n debygol o fod ar gael, er enghraifft:

- Eiddo gwag “gweithrediadol” h.y. Eiddo sy'n wag rhwng cael ei osod neu yn y broses o gael ei werthu;
- Eiddo sydd wrthi’n cael ei adnewyddu, naill ai fel cartref i’r perchennog neu i’w osod;
- Eiddo nad yw'n addas i’w uwchraddio i safonau rhentu e.e. oherwydd diffyg gwasanaethau neu lle maen nhw;
- Perchnogion nad ydynt yn awyddus i’w heiddo gael eu defnyddio eto am amrywiol resymau.

10.17 Ar y Prif Lwybr Trafnidiaeth, mae 200 o eiddo gwag hirdymor ar hyn o bryd. Mae hyn yn dangos maint y broblem ochr hon yr ynys, a bydd datblygiad PNH yn effeithio fwy byth arni. Dylai PNH felly ymrwymo i ddarparu grantiau/benthyciadau i ailddefnyddio eiddo gwag fel ffordd o leihau nifer y bobl leol a fydd yn cael eu hadleoli o bosib o’r SRhP a’r sector eiddo i berchen-feddianwyr.

10.18 Mae’r nifer sydd wedi cofrestru ar gyfer y cynllun benthyciad presennol Troi Tai’n Gartrefi ar gyfer landlordiaid sy’n adnewyddu/troi eiddo i'w rhentu wedi bod yn uchel, ac o’r trafodaethau a gynhaliwyd â rhai o’r datblygwyr a landlordiaid llai, mae o leiaf 6 prosiect wedi cael ei ddatblygu gyda gweithwyr adeiladu Wylfa Newydd mewn golwg. Serch hynny, mae llawer o berchnogion yn aros i ddyddiad cychwyn pendant gael ei gyhoeddi ar gyfer adeiladu Wylfa Newydd (y Penderfyniad Buddsoddi Terfynol) cyn penderfynu buddsoddi yn eu heiddo gwag presennol i’w paratoi ar gyfer y farchnad rhentu a chyn ychwanegu at eu portffolio rhentu. O’r herwydd, mae’n anodd rhagweld y galw am gyllid yn y dyfodol.

10.19 Er bod tai gwag yn gallu cefnogi anghenion gweithwyr adeiladu o ran llety, dylid ystyried hefyd yr adeiladau masnachol gwag sydd ddim yn cael eu defnyddio'n ddigonol a’r capeli ar yr Ynys, a allai fod yn addas i'w troi’n llety i weithwyr a bod yn rhan o’r Etifeddiaeth tai ar ôl hynny. Byddai hyn yn cyd-fynd â’r arweiniad a roddwyd yn y CCA, sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi troi adeiladau presennol yn llety ar gyfer gweithwyr.

10.20 Mae CSYM yn cydnabod y rôl y gall eiddo gwag ei chwarae o ran cynyddu cyflenwad y tai ar yr Ynys, ac mae’n croesawu gweld eiddo gwag yn cael eu defnyddio unwaith eto. Mae hyn wedi esgor ar lawer o fanteision cymdeithasol, a dylid ei annog. Byddai CSYM yn annog PNH i weithio gyda Chyngor Môn a pherchnogion eiddo i ailddefnyddio’r eiddo cyn Penderfyniad Buddsoddi Terfynol PNH. Bydd hyn yn caniatáu digon o amser i ddod o hyd i’r eiddo, sefydlu cynllun a dechrau gweithio ar yr adeiladau.

10.21 Mae CSYM yn awgrymu y dylai’r mesurau lliniaru arfaethedig gynnwys:

10.21.1 PNH i ariannu Cynllun Tai Gwag i annog pobl i ddod â thai gwag yn ôl i'r farchnad dai. Bydd y Cynllun Tai Gwag yn cynnwys tai ar gyfer Gweithwyr Wylfa Newydd yn ogystal â phobl leol er mwyn lliniaru effaith dadleoli yn y SRhP a gwneud yn siŵr bod pobl leol yn gallu prynu cartref yn ystod y cyfnod adeiladu.

10.21.2 PNH i ariannu 2 Swyddog Tai Gwag ar gyfer y cyfnod adeiladu a sicrhau bod arian grant ar gael i berchnogion eiddo gwag. Bydd modd defnyddio'r eiddo unwaith eto, a byddai modd darparu llety i 3 chontractwr ym mhob annedd, er enghraifft. Byddai'r cynllun hwn yn gwella cyflwr y stoc tai presennol yn y sector rhent preifat, a fyddai'n cael ei fonitro ar gyfer iechyd a diogelwch yn y dyfodol drwy Rhentu Doeth Cymru a'r Gwasanaeth Iechyd yr Amgylchedd lleol. Mae angen i'r gwaith hwn ddechrau yn 2017. Bydd aros tan Benderfyniad Buddsoddi Terfynol Wylfa Newydd yn rhy hwyr.

**Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu PNH**

10.22 Er ein bod yn cydnabod bod rhaid cael ardal wrth gefn/clustogfa ar gyfer llety gweithwyr adeiladu, ni ddylid ystyried mai Llety i Weithwyr Adeiladu Dros Dro yw'r penderfyniad diofyn os oes digon o ddarpariaeth ar gael mewn sectorau eraill. Bydd angen i PNH ddarparu dewis o lety a bydd rhaid cael mesurau lliniaru ar y cychwyn er mwyn cynyddu lefel y stoc dai (cyflenwad) i fodloni'r galw. Mae hyn yn cynnwys ailddefnyddio tai gwag (fel y nodir uchod), cynyddu cyflenwad y llety parhaol (i'w rhentu a'u prynu) a darparu cynlluniau wrth gefn i CSYM fel mesurau lliniaru yn erbyn unrhyw effeithiau niweidiol ar drigolion presennol (e.e. Sector rhent preifat a gallu pobl leol i fforddio tŷ gan fod PNH yn llyncu'r stoc sydd ar gael a bod hynny'n gwthio prisiau eiddo i fyny).

10.23 Mae CSYM yn deall y cynnig i gael 500 o lofftydd ar y safle (er bod angen eglurhad/cyfiawnhad sylweddol pellach o ran pa fath o weithwyr y bernir ei fod yn 'hanfodol' eu bod yn cael cartref ar y safle) ac yn hollol gefnogol i ddefnyddio Land & Lakes i ddarparu 3,500 o lofftydd o ystyried ei fod wedi cael caniatâd cynllunio yn ddiweddar a bod hynny'n gadael Etifeddiaeth derbyniol i Ynys Môn. Fodd bynnag, mae CSYM yn poeni oni ellir taro bargen gyda Land & Lakes byddai'r ddarpariaeth hon yn newid yn ôl yn ddiofyn i'r safle Rhosgoch a ffafrir gan PNH a'r mathau/sectorau eraill o lety. Er y byddai hyn yn destun trafodaeth fasnachol rhwng PNH a Land & Lakes (ac ni fyddai CSYM am gyfrannu at y drafodaeth hon na dylanwadu arni o gwbl), rhaid ystyried cynllun wrth gefn ar yr adeg hon fel y gall CSYM a'r cyhoedd ei ystyried (hynny yw, dewis credadwy arall yn lle Land & Lakes).

10.24 Byddai CSYM hefyd yn gofyn am fwy o lety parhaol na'r 50 o unedau i'w darparu yn Fferm Madyn. Mae sawl safle posib arall sy'n addas yn Amlwch, yn cynnwys Amlwch A lle mae tai wedi'u dyrannu yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd sydd yn yr arfaeth, yn ogystal ag ardaloedd eraill o fewn 30-60 munud sy'n safleoedd addas ar gyfer llety parhaol. Drwy gydweithio â Chyngor Môn a Llywodraeth Cymru, cred CSYM y dylid datblygu mwy o dai parhaol a fydd yn rhoi mwy o waddol. Gallai'r rhain ddarparu llety ar gyfer y 730 o weithwyr y rhagdybir y byddant yn prynu eu cartrefi eu hunain yn ystod y cyfnod adeiladu a'r gweithwyr gweithredu wedi hynny.

10.25 At hynny, os nad oes darpariaeth ddigonol ar gael yn y sectorau eraill (hynny yw, twristiaeth, SRhP ac yn eiddo i berchen-feddianwyr), yna yn yr un modd nid Rhosgoch ddylai fod y dewis diofyn yma chwaith. Bydd angen i PNH sicrhau bod darpariaeth ddigonol ar gael yn y SRhP fel nad yw prisiau rhent yn cael eu gwthio i fyny gan effeithio'n andwyol ar allu preswylwyr i fforddio rhentu tŷ. Yn yr un modd, dylid ystyried capasiti twristiaeth yn ofalus (hynny yw, o ran nifer y llofftydd sydd ar gael) ond dylid edrych ar y dadansoddiad hwn yn ofodol er mwyn cael cydbwysedd priodol rhwng y ddarpariaeth llety i dwristiaid ac i weithwyr adeiladu.

10.26 Bydd hefyd angen i PNH sicrhau nad oes effaith niweidiol ar wasanaethau a chyfleusterau'r Ynys yn ystod y cyfnod adeiladu. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft, meddygfeydd meddygon teulu, deintyddion, ysgolion, swyddfeydd post ac ati.) Gan fod hwn yn brosiect adeiladu 9 mlynedd, gallai Wylfa Newydd gael effaith ar wasanaethau a chyfleusterau Ynys Môn am flynyddoedd lawer a rhaid pennu mesurau lliniaru priodol a digonol ar gyfer hyn. Mae hyn yn hynod berthnasol i Strategaeth Llety Gweithwyr Adeiladu PNH oherwydd bydd y rhan fwyaf o'r effeithiau cymdeithasol hyn yn ddibynnol ar y Strategaeth hon (hynny yw, ble fydd y gweithwyr a faint ohonyn nhw fydd yna, pa ofynion seilwaith cymdeithasol fydd eu hangen ar y gweithwyr a beth yw capasiti'r ddarpariaeth bresennol, a phwy sy'n gyfrifol am ddarparu hyn, sut bydd yn cael ei ddarparu ac ymhle).

10.27 Gan gofio maint y prosiect hwn a nifer y gweithwyr adeiladu a ragwelir, bydd hyn yn cael effaith ar seilwaith cymdeithasol Ynys Môn heb os nac oni bai. Er ei fod yn anodd rhagweld dewisiadau personol ac ymddygiad pobl, bydd nifer sylweddol o weithwyr ddim mewn llety a adeiladwyd i bwrpas ar ddull campws, a bydd hynny'n cael effaith ar wasanaethau a chyfleusterau Ynys Môn. Bydd y gweithwyr yn y campiau dros dro hyd yn oed yn chwilio am wasanaethau a chyfleusterau ar eu 3 diwrnod i ffwrdd - a rhaid ystyried hynny. Felly bydd CSYM yn gofyn am fesurau lliniaru ar gyfer yr effeithiau mesuradwy hyn a'r effeithiau na ellir eu mesur. Er enghraifft, gallai hyn fod yn welliannau i gyfleusterau hamdden, cyfleusterau gofal iechyd a darpariaeth debyg.

10.28 Mae CSYM yn awgrymu y dylai'r mesurau lliniaru arfaethedig gynnwys:

10.28.1 PNH i gynyddu cyflenwad y llety mewn sectorau eraill (yn enwedig SRhP, eiddo i berchen-feddianwyr a llety cudd). Bydd hyn yn lleihau'r pwysau ar farchnad dai sydd eisoes yn gyfyngedig ac yn sicrhau nad llety gweithwyr dros dro fydd y sefyllfa ddiofyn. Dylai unrhyw dai ychwanegol fod yn dai o ansawdd, a fydd yn rhan o'r Etifeddiaeth tai i'r dyfodol ar gyfer yr Ynys. Bydd CSYM yn gweithio gyda PNH i greu modelau o lety y gellir eu trosglwyddo o lety gweithwyr adeiladu i gartrefi o ansawdd i deuluoedd ar ôl i'r cyfnod adeiladu ddod i ben.

10.28.2 Parhau i ddatblygu ac ariannu'r Porth Rheoli Llety Gweithwyr Adeiladu (CWAMP). Bydd hyn yn sicrhau y defnyddir cymysgedd briodol o fathau o lety ac yn sicrhau bod y gweithwyr yn cael eu dosbarthu'n briodol. Dylid monitro'r porth yn erbyn cyfres o drothwyon y cytunir arnynt. Yna, pan gyrhaeddir y trothwyon hynny, bydd yn rhyddhau nifer benodol o dai i weithwyr adeiladu dros dro.

10.28.3 Bydd cysyniad y CWAMP ddim ond yn gallu datrys rhywfaint o'r materion sy'n ymwneud â chyd-destun y farchnad dai leol, ond bydd yn helpu i reoli'r contractwyr yn y SRhP yn ogystal â helpu i godi safon stoc y SRhP ar yr Ynys wrth i Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd a Swyddogion Tai wirio'r eiddo hyn yn rheolaidd. Bydd trefniadau llywodraethu ac aelodaeth y CWAMP yn hanfodol er mwyn sicrhau ei fod yn llwyddo, yn ogystal â chod ymddygiad y cytunir arno ac eglurder o'r goblygiadau os byddwch yn torri'r cod. Bydd hyn yn arwain at lai o broblemau cydlyniant cymdeithasol ar yr Ynys, a thrwy hynny'n lleihau baich gwaith Swyddogion CSYM, yn enwedig y Swyddog Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Bydd angen i PNH gyflogi swyddogion gwrthgymdeithasol ychwanegol, neu gyllido CSYM neu'r Heddlu i wneud hynny.

10.28.4 Cydweithio â Chyngor Môn, Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill ym maes tai i ddarparu mwy o lety parhaol ar yr Ynys a fydd yn lleddfu'r pwysau ar y farchnad dai. Bydd hefyd yn waddol i weithwyr Wylfa Newydd yn y cyfnod gweithredu a thrigolion Ynys Môn yn gyffredinol.

10.28.5 Cyfraniad ariannol tuag at ddarparu seilwaith cymdeithasol digonol ar gyfer y gweithwyr adeiladu ac ar gyfer trigolion Ynys Môn. Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd gan PNH yn y Diweddariad ar y Prosiect 2016, y dewis gorau oedd gwella'r gwasanaethau a'r cyfleusterau presennol, a byddai CSYM yn cefnogi'r farn honno.

10.28.6 Mae angen pecyn a strategaeth benodol, gan weithio gyda Gwasanaethau Tai CSYM, ar sut byddai PNH yn cefnogi'r aelwydydd bregus a allai gael eu dadleoli gan ddatblygiad Wylfa Newydd. Rydym yn amcangyfrif y bydd 2,000 o aelwydydd Ynys Môn mewn perygl os bydd y rhent yn codi 10% yn lleol yn y SRhP. O'r rhain, byddai 330 yn bensiynwyr a 598 yn rhieni sengl.

## 11 ETIFEDDIAETH

11.1 Mae CSYM yn credu bod gan Wylfa Newydd y potensial i esgor ar fanteision ac effeithiau sylweddol i Ynys Môn a'i chymunedau am flynyddoedd lawer. Bydd datblygu, gweithredu ac etifeddiaeth Gorsaf Niwclear Newydd Wylfa (a'r datblygiadau cysylltiedig) yn allweddol i drawsnewid cynaliadwyedd, llesiant a ffyniant hirdymor yr Ynys a'i thrigolion.

11.2 Mae angen diffinio'r Etifeddiaeth hwn yn well. Ar hyn o bryd, nid oes manylion o gwbl o ran sut gallai'r cyllid gael ei ddarparu, a phrin iawn yw'r wybodaeth am y mecanwaith darparu, y targedau, y cwmpas, yr amser ac am faint bydd yn para. Ar gyfer yr holl fanteision a nodir o ran Etifeddiaeth, bydd CSYM yn disgwyl y bydd y manylion hyn yn cael eu darparu cyn cyflwyno'r cais fel y gall wneud sylwadau'n briodol o fewn yr Adroddiad Effaith Lleol. Rydym hefyd yn sylweddoli y byddai gwybodaeth o'r fath yn werthfawr i'r awdurdod archwilio (gweler NPS EN-1 paragraff 5.12.8) a fydd yn gorfod ystyried unrhyw fanteision o ran Etifeddiaeth.

11.3 Mae CSYM wrthi ar hyn o bryd yn llunio fframwaith thematig i amlinellu ein gweledigaeth o ran Etifeddiaeth a'n dyheadau o'r datblygiadau mawr amrywiol arfaethedig ar yr ynys. Byddwn yn trafod ymhellach â PNH a chwmnïau, cymunedau a sefydliadau eraill er mwyn sicrhau eu cefnogaeth i gyflawni hyn. At ddibenion y fframwaith hwn, mae 'Etifeddiaeth' yn golygu sicrhau effaith gadarnhaol ar gyfer Ynys Môn a'i chymunedau wrth ddatblygu, cyflawni a chynnal yr holl brosiectau mawr arfaethedig.

11.4 Mae dyheadau CSYM o ran Etifeddiaeth hefyd wedi'u hamlinellu yn ei weledigaeth ar gyfer prosiect Wylfa Newydd. Mae'r weledigaeth hon yn glir yn CCA Wylfa Newydd:

11.5 Mae'r Orsaf Niwclear Newydd yn Wylfa yn sbardun ar gyfer trawsnewid yr economi a chymunedau yn Ynys Môn a fydd yn darparu cyfleoedd gwaith cynaliadwy, yn gwella ansawdd bywyd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol ac yn hyrwyddo hunaniaeth a nodweddion unigryw lleol.

11.6 Mae CSYM yn ystyried bod mwy i fanteision Etifeddiaeth nag arian yn unig. Gall y Etifeddiaeth gyfeirio at effeithiau gofodol Wylfa Newydd a sut bydd

Ynys Môn yn edrych ar ôl y cyfnod adeiladu – yn cynnwys lleoliad a dibenion yr holl ddatblygiadau cysylltiedig – a pha gyfleusterau ac adnoddau ychwanegol fydd eu hangen i wasanaethu'r safleoedd hyn. Mae sicrhau Etifeddiaeth cadarnhaol hefyd yn gysylltiedig â chyflogaeth trigolion yr ynys i'r dyfodol; sicrhau bod busnesau lleol yn gallu manteisio ar gyfleoedd yn y gadwyn gyflenwi; gwella neu ddatblygu cyfleusterau cymunedol newydd a gwella seilwaith yr Ynys. Mae manteision Etifeddiaeth hefyd yn hanfodol ar gyfer gwella iechyd, llesiant, ansawdd bywyd ac amgylchedd naturiol yr Ynys, yn ogystal â chefnogi a chryfhau'r iaith Gymraeg a'i diwylliant. Gellir cyflawni'r manteision Etifeddiaeth hyn drwy fecanweithiau statudol a gwirfoddol, ac maent yn ddull priodol i liniaru a/neu wneud iawn am effeithiau niweidiol.

11.7 Rydym yn argymell y dylid cychwyn trafodaethau ystyrlon a rhagweithiol am y Etifeddiaeth cyn gynted â phosib gyda PNH er mwyn sicrhau bod yr holl gyfleoedd i wella ansawdd bywyd a llesiant cenedlaethau presennol a chenedlaethau'r dyfodol ar yr ynys yn cael eu gwireddu. Mae angen sicrhau bod Wylfa Newydd (a'r datblygiadau cysylltiedig) yn cael eu datblygu, eu hadeiladu a'u gweithredu mewn modd cydlynol ac integredig er mwyn dylanwadu a chefnogi dyfodol tymor byr a hirdymor Ynys Môn yn y ffordd orau bosib.

11.8 Rydym yn croesawu'r Bennod yn adroddiad y Prif Ymgynghoriad sy'n gosod ymrwymiad PNH i sicrhau bod y Prosiect yn cyflawni manteision a gwelliannau hirdymor i gymunedau yn ystod oes y prosiect, ac mae hynny'n cynnwys manteision cadarnhaol o ran y Etifeddiaeth. Fodd bynnag, ym marn CSYM mae llawer o'r manteision Etifeddiaeth a restrir yn y ddogfen yn cynrychioli manteision eilaidd sy'n deillio o ofynion y prosiect yn hytrach na manteision Etifeddiaeth yn eu rhinwedd eu hunain. Er enghraifft, mae'r Etifeddiaeth sy'n deillio o welliannau i'r A5205 yn sgil-gynnyrch y gofyniad i wella diogelwch y ffordd fawr er mwyn hwyluso'r prosiect. Yn yr un modd, rhaid adnewyddu'r stoc tai presennol er mwyn lliniaru effeithiau'r prosiect ar y farchnad dai leol, ac felly mae'r ffaith y bydd yr eiddo hyn yn gallu cael eu defnyddio ar ôl y cyfnod adeiladu unwaith eto yn sgil-gynnyrch y prosiect.

11.9 At hynny, byddai rhai o'r manteision a nodir, megis cadw'r cyfleusterau hamdden yn Rhosgoch, yn hollol anghyson â pholisi cynllunio CSYM oherwydd byddai yna gyfleuster cryn bellter o'r ganolfan boblogaeth yn Amlwch. Byddai'n fwy o waddol i'r gymuned leol petai gwelliannau'n cael eu gwneud i Ganolfan Hamdden Amlwch.

11.10 Gyda golwg ar yr enghreifftiau uchod, mae'r rhestr o fanteision Etifeddiaeth a nodir gan PNH, ym marn CSYM, yn bwynt cychwyn yn hytrach na rhestr gynhwysfawr o ddisgwyliadau cymunedau lleol wrth dderbyn prosiect am hyd at 100 mlynedd. Mae'r cyfeiriad gan PNH at y ffaith bod y rhestr o fanteision yn dal i gael eu hystyried ac yn parhau i fod yn debyg i'r rheini a drafodwyd

yng Ngham Un yr Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio yn siomedig, ac o ystyried yr amserlen a nodwyd gan PNH ar gyfer cyflwyno’r cais, mae angen gwneud cryn dipyn o waith, mewn partneriaeth â Chyngor Môn, dros y misoedd nesaf.

11.11 Mae CSYM yn dal i fod o’r farn y dylid adnabod cyfleoedd i wella’r Etifeddiaeth yn erbyn cyfres o fesurau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, er mwyn sicrhau’r canlyniadau cadarnhaol mwyaf o’r prosiect. Mae CSYM hefyd yn rhoi nifer fawr o enghreifftiau posib o waddol yn ei CCA, ac mewn sawl achos mae’r potensial i fanteisio i'r eithaf ar y buddiannau’n codi o leoli cyfleusterau mewn llefydd priodol. Er enghraifft, petai PNH yn ailedrych ar y ffaith annerbyniol eu bod ar hyn o bryd wedi anwybyddu Llangefni fel lleoliad unrhyw gyfleoedd datblygu Etifeddiaeth sy’n gysylltiedig â’r prosiect, a hynny o fewn neu yng nghyffiniau cymuned fwyaf yr Ynys, yna gellid gwireddu manteision sylweddol o ran Etifeddiaeth.

11.12 Yn ogystal â’r diffyg ystyriaeth briodol i effaith lleoliad y Etifeddiaeth, dylai PNH hefyd ystyried y Etifeddiaeth y tu hwnt i’r sffêr economaidd-gymdeithasol. Ar hyn o bryd, nid oes cyfeiriad o gwbl at waddol amgylcheddol, yn cynnwys gwelliannau i ddiwylliant yr ardal, ei llecynnau a’i thirweddau hanesyddol, a’i hamgylchedd naturiol. Er enghraifft, byddai CSYM yn disgwyl gweld ymrwymiadau gyferbyn â Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, yr Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol, a Pharciau a Gerddi Rhestredig o ran eu gwella a stiwardiaeth hirdymor gan adael Etifeddiaeth amgylcheddol gadarn i genedlaethau'r dyfodol.

11.13 Nid yw’r rhestr ganlynol yn un hollgynhwysfawr ond mae’n cynnwys rhai o’r meysydd thematig posib y byddai CSYM yn disgwyl gweld manteision Etifeddiaeth yn eu cynorthwyo:

**Creu economi ffyniannus a llwyddiannus**

- Ynys hyderus sy’n ymfalchïo yn ei heconomi gref sy’n darparu cyfleoedd cyflogaeth i bawb.
- Ynys sy’n cael ei chydnabod yn fyd-eang am sylwedd ac amrywiaeth y gwaith ymchwil, datblygu, cynhyrchu a gwasanaethau ym maes ynni.
- Canolbwynt ar gyfer busnesau cynaliadwy sy’n cefnogi cymdeithas lewyrchus, carbon-isel ac sy’n annog arloesedd ac entrepreneuriaeth.
- Ardal sydd â chysylltiadau da a seilwaith trafnidiaeth gadarn.
- Ynys sy’n parhau i ddenu ystod eang o ymwelwyr.

**Galluogi trigolion i wireddu eu potensial**

- Ardal lle mae cyfleoedd yn bodoli i alluogi pobl ifanc i aros ar yr ynys i fyw a gweithio.

- Poblogaeth fedrus a hyddysg.
- Ardal lle gall cymunedau ac unigolion gynnal a meithrin eu hannibyniaeth.
- Ardal lle mae pobl yn dewis byw a ffynnu.
- Ynys sy’n cyfleu delwedd gadarnhaol yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

**Sicrhau bod trigolion yn iach, yn ddiogel ac yn gyfartal**

- Ynys ddiogel, saff a deniadol i fyw a gweithio arni.
- Ynys sydd â chyfleusterau a gwasanaethau cymunedol ardderchog, yn cynnwys ysgolion modern o ansawdd uchel, tai fforddiadwy a darpariaeth iechyd effeithiol.
- Ardal gyda llai o amddifadedd, annhegwch ac ansymudedd cymdeithasol; lle mae gwasanaethau’n diwallu anghenion grwpiau agored i niwed.
- Ynys lle mae pobl yn cymryd rhan yn frwd mewn gweithgareddau hamdden, adloniant a diwylliant.

**Gwarchod a gwella’r amgylchedd naturiol ac adeiledig**

- Ynys sy’n cydnabod gwerth ac ansawdd ei hamgylchedd.
- Ynys sydd ag amgylchedd naturiol amrywiol a chydnerth.
- Ardal lle mae'r amgylcheddau naturiol ac adeiledig yn cael eu defnyddio’n gynaliadwy.
- Ynys sydd â mannau cyhoeddus o ansawdd uchel.

**Cynnal a hybu’r iaith a diwylliant**

- Ardal sy’n dathlu ei hunaniaeth ddiwylliannol a daearyddol unigryw.
- Ynys sy’n cofleidio ac yn hyrwyddo ei threftadaeth ddiwylliannol falch a’r iaith Gymraeg.

11.14 Agwedd bwysig o sicrhau Etifeddiaeth cadarnhaol fydd gallu’r gymuned i fynd i'r afael â materion annisgwyl neu ddifesur pan fyddant yn codi. Mae angen darparu ymateb lliniaru sy’n ddigon hyblyg i ymateb i hyn. Lle na ellir asesu’r effeithiau’n llawn ymlaen llaw neu lle na ellir eu lliniaru’n llwyr, yna bydd angen mesurau lliniaru eraill. Byddai hyn yn cynnwys y Gronfa Cydnerthu Cymunedau a gaiff ei chreu i ddelio ag effeithiau nas rhagwelwyd, effeithiau y tan-bwysleisiwyd neu effeithiau nad oes modd eu mesur. Byddai'r Gronfa Cydnerthu Cymunedau yn:

- mynd i’r afael â chanlyniadau’r datblygiad;
- targedu a grymuso pobl leol yn benodol wrth ymateb i effeithiau'r datblygiad;
- bod yn fwriadol hyblyg er mwyn gallu mynd i'r afael ag effeithiau wrth iddynt godi a rhoi sylw i'r broblem o fethu cael gafael ar y cyllid oherwydd meini prawf dyfarnu sy’n rhy gyfyngedig.

11.15 Mae CSYM yn ystyried bod angen cychwyn trafodaethau manwl am y Etifeddiaeth cyn gynted â phosib er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio ar bob cyfle i wella ansawdd bywyd cenedlaethau presennol a chenedlaethau’r dyfodol ar yr ynys.

## 12 EFFEITHIAU CRONNUS

12.1 Gan ystyried nifer y datblygiadau mawr arfaethedig ar Ynys Môn dros y 5 i 10 mlynedd nesaf, mae risg gwirioneddol y gallai hyn esgor ar effeithiau cronnus niweidiol ar yr Ynys. Mae hyn yn cynnwys effeithiau cronnus o fewn datblygiad PNH ei hun (hynny yw, Safle Wylfa Newydd a'r datblygiadau cysylltiedig) ac effeithiau cronnus gyda datblygiadau mawr eraill megis Land & Lakes, National Grid, LNG Great Lakes, Orthios ac eraill.

12.2 Mae CSYM yn ategu y bydd angen i PNH ystyried a rhoi sylw i’r effeithiau cronnus hyn drwy'r prosiect wrth symud ymlaen. Byddai CSYM yn disgwyl cytuno â PNH ymlaen llaw ar y fethodoleg a’r dull gweithredu a ddefnyddir i asesu’r effeithiau cronnus ar yr Ynys er mwyn monitro hyn wrth i brosiectau mawr ddatblygu.

12.3 Ymhlith y materion cronnus allweddol i CSYM mae’r cyfleoedd economaidd posib a gynigir i'r gweithlu lleol wrth i nifer o brosiectau gael eu cyflwyno ar yr un pryd yn Ynys Môn. Rydym yn ymwybodol fod PNH yn edrych ar y sgiliau sydd eu hangen yn lleol gyda golwg i gynyddu’r hyfforddiant er mwyn galluogi gweithwyr i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth ac i hyrwyddo ymwybyddiaeth o STEM a hyfforddiant STEM mewn ysgolion a sefydliadau addysg ôl-uwchradd er mwyn sicrhau bod trigolion iau yn gallu adnabod a manteisio ar gyfleoedd yn y gweithle i'r dyfodol. Dylid darparu'r union fanylion am y mesurau i’w cymryd.

12.4 Bydd cefnogi gwell cyrhaeddiad addysgol a chodi dyheadau hefyd yn bwysig wrth fynd i'r afael â’r effeithiau cronnus sylweddol posib ar fusnesau ac ar y gadwyn gyflenwi a fydd yn deillio o’r holl ddatblygiadau sy’n rhan o Brosiect Wylfa Newydd. Ar y cyfan, ystyrir bod yr effeithiau hyn yn fanteisiol oherwydd y cynnydd yn y galw. Fodd bynnag, mae’n bosib y bydd busnesau lleol yn ei chael hi’n anodd recriwtio a chadw gweithwyr yn wyneb y gystadleuaeth gan y prosiect. Felly, bydd angen cefnogi busnesau presennol drwy ddarparu hyfforddiant a datblygu sgiliau.

12.5 Bydd y diwydiant ymwelwyr ar yr Ynys hefyd yn teimlo’r effeithiau cronnus. Mae PNH yn nodi mesurau lliniaru ar gyfer y sector twristiaeth, megis marchnata a chefnogi'r ‘Brand’, er mwyn lleihau'r effeithiau. Cefnogir yr ymrwymiad hwn, ond bydd hefyd angen mesurau lliniaru ar ffurf atyniadau

twristiaeth amgen posib er mwyn cynnal nifer yr ymwelwyr dros y cyfnod adeiladu (e.e. gwelliannau i rannau eraill o'r rhwydwaith llwybrau troed a'r rhwydwaith beicio, a bwrw ymlaen yn gynnar i ddatblygu'r ganolfan ymwelwyr neu gyfleuster dros dro). Hefyd, dylai'r ymgyrch farchnata a brandio gychwyn cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau fel na fydd ymwelwyr yn cael eu darbwyllo o'r cychwyn i beidio ag ymweld ag Ynys Môn.

12.6 Gallai'r effeithiau amgylcheddol cronnus ar gymunedau lleol a'r amgylchedd lleol gynnwys y rheini sy'n deillio o ansawdd yr aer, sŵn ac effeithiau gweledol. Gallai cyfuniad o effeithiau darfu'n sylweddol ar gymunedau yng nghyffiniau'r safle ac ar y prif goridorau trafnidiaeth cysylltiedig. Mae CSYM yn disgwyl gweld gwybodaeth ddigonol, yn cynnwys darluniau cronnus, er mwyn dod i gasgliadau cadarn ar ba mor sylweddol y bydd yr effeithiau ar gymunedau lleol. Yn yr un modd, bydd angen gwybodaeth ddigonol i allu ystyried yr effeithiau cronnus ar yr Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ac ar safleoedd eraill sydd wedi'u dynode.

12.7 Rydym yn dal i bryderu nad oes ystyriaeth i'r iaith Gymraeg fel derbynnydd yn y dogfennau amgylcheddol cronnus a gyflwynwyd. Tybir y dylid asesu'r effeithiau cronnus ar y Gymraeg a bod mesurau lliniaru'n cael eu nodi lle deuir i'r casgliad y byddai effaith sylweddol.

12.8 Nid yw'r effeithiau uchod yn holl gynhwysfawr. Mae CSYM hefyd yn awyddus i archwilio effeithiau cronnus ar dai, isadeiledd cymdeithasol, seilwaith priffyrdd a lles iechyd.

12.9 Mae CSYM wedi taro golwg fanwl dros asesiad cronnus PNH. Darperir sylwadau ar lefel y wybodaeth a roddwyd, y fethodoleg, a'r rhestr hir a'r rhestr fer o safleoedd yn Nogfen Ymateb PEIR CSYM.

## 13 GWASTRAFF NIWCLEAR

13.1 Mae CSYM yn croesawu'r ymdriniaeth o faterion radiolegol yn y PEIR, er bod angen mwy o fanylion o hyd. Roedd yn destun pryder i CSYM nad oedd pennod ar hyn yn PAC1 a nodir bod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi gofyn am ystyried yr effeithiau hyn ym Marn Gwmpasu'r Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol.

13.2 Mae CSYM yn derbyn mai rheoleiddwyr eraill fydd yn cyfarwyddo sut caiff allyriadau radiolegol eu rheoli, serch hynny mae'r awdurdod yn awyddus i ddeall potensial yr effeithiau cronnus rhwng gweithredu Wylfa Newydd a datgomisiynu'r Orsaf Bŵer Bresennol yn Wylfa. Er bod y PEIR yn cyfeirio at ystyried effeithiau o'r fath yn yr asesiad cronnus, a thra bod yr Orsaf Bŵer

bresennol yn Wylfa yn rhan o'r cwmpas, ni wneir unrhyw gyfeiriad dilynol ac ni ddarperir unrhyw asesiad.

13.3 Hefyd, wrth sôn am effeithiau cronnus, hoffai CSYM weld gwybodaeth am y math, nifer ac amlder symudiadau cerbydau wrth symud deunydd radiolegol drwy’r cymunedau ar hyd yr A5025 ac amcangyfrif o’r dosiau a all ddeillio o hyn. Bydd PNH yn ymwybodol fod materion yn ymwneud â chanfyddiadau am iechyd yn bryder allweddol i gymunedau lleol a dylid ystyried gweithredu mesurau lliniaru a/neu fesurau gwneud iawn a gytunwyd gyda Chyngor Môn pe gallai hyn effeithio’n niweidiol ar gymunedau lleol, ar yr economi neu ar yr amgylchedd.

13.4 Nodwn y posibilrwydd y caiff gweddillion tanwydd eu storio am 140 mlynedd ar ôl gorffen gweithredu (yn ogystal â storio Gwastraff Lefel Uchel hefyd o bosib, o leiaf tan ar ôl datgomisiynu). Dylai'r datganiad amgylcheddol ystyried effaith cynnal a chadw cyfleuster o'r fath dros gyfnod mor hir o amser sy’n gyfystyr ag oes gyfan cenedlaethau o drigolion Môn.

13.5 Byddem yn croesawu gwybodaeth am y math o wastraff a gynhyrchir, faint o wastraff a gynhyrchir a’r gofynion ar gyfer ei storio. Hefyd, byddem yn dymuno cael gwybodaeth am yr amrywiaeth o wastraff a ragwelir dros oes gweithredu’r orsaf a dylid modelu’r amrywiaethau arwyddocaol hyn o ran eu heffeithiau ar gludiant (os yw’r gwastraff am gael ei symud oddi ar y safle).

13.6 Bydd yn anodd dadansoddi’n gywir yr effeithiau posib ar newid hinsawdd dros gyfnod mor hir o amser, ond rydym yn disgwyl i PNH ddangos eu bod yn storio’r gweddillion tanwydd yn ddiogel dros oes y cyfleuster.

13.7 Wrth symud ymlaen, byddai CSYM yn disgwyl i'r datganiad amgylcheddol gynnwys dadansoddiad a thystiolaeth feintiol i gefnogi'r honiadau a’r casgliadau sydd yn y PEIR. Hefyd, ac yn unol â’r CCA, mae CSYM yn disgwyl PNH i:

- Nodi ac asesu effeithiau posib storio gwastraff niwclear;
- Ymgysylltu’n llawn â chymunedau’r Ynys wrth ddatblygu cynigion ar gyfer storio gwastraff niwclear;
- Rhoi mesurau lliniaru a/neu wneud iawn ar waith fel y bo’n briodol;
- Darparu diogelwch safle digonol drwy’r Heddlu Niwclear;
- Egluro’r dull o ddatgomisiynu.

13.8 Mae gofyn i PNH wneud fwy o waith i adnabod yr effeithiau posib ar gymunedau lleol a nodi mesurau lliniaru a gwneud iawn yn unol â CCA GP17. Bydd hyn yn cynnwys sefydlu cronfa i dalu am effeithiau sydd heb eu hystyried, ac sydd naill ai’n ddifesur neu heb fesurau lliniaru, ond y bydd

cymunedau a'u trigolion yn eu hwynebu. Bydd effeithiau o'r fath yn cynnwys delio â'r disgwyliad y bydd gwastraff niwclear a gweddillion tanwydd yn cael eu storio yn Wylfa Newydd – a hynny nid am gyfnod 'interim', ond yn hytrach am hyd at 140 o flynyddoedd.

## 14 LLESIANT, CYDLYNIANT A CHYDRADDOLDEB

### Llesiant, Cwmpas yr Asesiadau Effaith

14.1 Mae ymatebion penodol i'r ymholiadau o ran llesiant, iechyd a chydraddoldeb a godwyd yn PAC2 wedi cael sylw yng nghwestiynau 6 a 7 yr ymgynghoriad PAC2, ac fe'u nodir yn Atodiad [B] yr ymateb a dylid ei ddarllen ynghyd â'r thema hon.

14.2 Fel y nodir yn flaenorol yn ymateb yr Awdurdod Lleol i'r Diweddariad ar y Prosiect Wylfa Newydd a'r Adroddiad Cynnydd ar yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, mae'r Cyngor yn disgwyl bod Llesiant yn cael ei drin fel thema hollgynhwysol sy'n sail i ystyried yr effeithiau a'r mesurau lliniaru ar gyfer holl agweddau prosiect Wylfa Newydd. Mae'n destun pryder nad yw PNH wedi dilyn y trywydd hwn yn y dogfennau PAC2 ac mae CSYM yn annog PNH i ailedrych ar yr agwedd hon cyn symud ymlaen i'r Asesiad Effaith ar Iechyd terfynol.

14.3 Mae dogfennau PAC2 yn seiliedig ar ofyniad asesu effaith ar iechyd mwy cyfyng (sy'n deillio o'r cyfnod cyn y ddeddfwriaeth Llesiant) ac felly nid yw'n rhoi sylw priodol i lesiant. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod y Cyngor wedi codi'r mater wrth ymateb i'r ddogfen Diweddariad ar y Prosiect a'r Adroddiad Cynnydd ar yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, yn ogystal â thrafodaethau lu rhwng PNH, y Cyngor a phartneriaid ym maes llesiant dros y 6 mis diwethaf.

14.4 Roedd yr Adroddiad Cynnydd ar yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn trafod y galw am rai gwasanaethau meddygol a gofal iechyd, ond nid yw'n cyfeirio o gwbl at wasanaethau gofal cymdeithasol a llesiant. Mae hyn yn wendid arwyddocaol oherwydd bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn darparu fframwaith ar gyfer cydweithio pellach ac integreiddio iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant. Mae hyn yn drueni oherwydd bod y Cyngor wedi nodi hyn yn flaenorol yn ei ymateb i'r Diweddariad ar y Prosiect a'r Adroddiad Cynnydd ar yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.

14.5 Nid oes modd llunio'r tri Asesiad Effaith drafft (Iechyd, Amgylcheddol a Chydraddoldeb) nac unrhyw gamau lliniaru ar eu pen eu hunain, heb ystyried y prosiect cyfan yn llawn. Nid oes digon o fanylion yn y cynigion o hyd. Mae'n rhaid cael eglurder ar y materion hyn er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Asesiad gwybodus o effeithiau ar y gymuned, ar iechyd, ar ofal cymdeithasol ac ar lesiant

- Datblygu buddsoddiadau Etifeddiaeth uchelgeisiol ar gyfer cymunedau ar Ynys Môn er mwyn lliniaru effeithiau negyddol (ar raddfa leol ac ar draws Ynys Môn).

14.6 Mae bylchau sylweddol yn y data am yr agweddau sy'n ymwneud â'r gymuned, iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant yn yr asesiadau o effaith, sef:

14.6.1 Data presennol ar wasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant a chapasiti'r gwasanaethau hyn.

14.6.2 Gwybodaeth ansoddol a gasglwyd gan blant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed ar wasanaethau gofal a chefnogi, a chapasiti'r gwasanaethau hyn.

14.6.3 Ffactorau sy'n effeithio ar ansawdd bywyd unigolion a chymunedau ar yr Ynys.

14.6.4 Cyflwr a phroffiliau gwaelodlin llesiant cymunedol ar gyfer pob ward etholiadol ar yr Ynys, a hynny o safbwynt llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol (gyda'r egwyddorion Datblygu Cynaliadwy a Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn sail iddynt).

14.6.5 Asesiad, dadansoddiad a dehongliad beirniadol o effeithiau tebygol Wylfa Newydd ar ofal cymdeithasol a llesiant yn ogystal â gwydnwch cymunedau'r Ynys.

14.7 Fel y nodwyd yn flaenorol yn ymateb yr Awdurdod i'r ddogfen Diweddariad ar y Prosiect a'r adroddiadau cynnydd ar asesiadau effaith, mae'r Asesiadau Effaith presennol yn fratiog ac nid ydynt yn asesiadau integredig ar draws yr amrywiol ystyriaethau sy'n ymwneud â'r gymuned, iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant. Mae gwybodaeth yn yr asesiadau effaith unigol yn anghyson. Lluniwyd yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb o fewn fframwaith y gofynion deddfwriaethol yn Lloegr ac nid yw'n cyfeirio o gwbl at ddyletswyddau sy'n benodol i Gymru. Hefyd, mae Adroddiad Interim yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn trafod dehongliad cyfyng iawn o wasanaethau cyhoeddus. Nid oes cyfeiriad penodol at wasanaethau a gomisiynir i ddiwallu anghenion plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed, nac ychwaith at faterion iechyd meddwl sy'n wendid arwyddocaol. Mae CSYM yn awgrymu y dylid ystyried y materion canlynol:

14.7.1 Dylid cymryd camau i sicrhau bod Llesiant yn cael ei drin fel thema hollgynhwysol drwy gydol y Prosiect.

14.7.2 Fel y cynigiwyd yn flaenorol, mae CSYM yn gofyn am drafodaeth fanylach o sut rhoddir sylw i effeithiau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant y datblygiadau arfaethedig fel rhan o'r prosiect cyfan. Dylid hefyd ystyried cynnwys hyn o fewn cwmpas yr asesiad o gydlyniant cymunedol (nad oedd wedi'i gynnwys yn PAC1 na PAC2 ac nid yw wedi dechrau eto). Hefyd, dylai'r Strategaeth Iechyd a Llesiant arfaethedig fod yn ffocws ar gyfer y trafodaethau hyn.

14.7.3 Dylid cynnal asesiad o'r effaith ar y galw am wasanaethau gofal cymdeithasol a llesiant ar y cyd â'r gwaith a gynlluniwyd ar adnabod yr effaith ar y galw am wasanaethau meddygol a gofal iechyd, a'r mesurau lliniaru sydd ynghlwm wrth hynny.

14.7.4 Rhaid cael golwg gynnar o'r cynigion terfynol ar gyfer y prosiect cyfan er mwyn sicrhau asesiad craff o'r effeithiau a'r cynigion ar gyfer lliniaru. Mae yna ystyriaethau allweddol ar gyfer gwasanaethau statudol a sefydliadau partner yn y 3$^{ydd}$ Sector a'r sector annibynnol a bydd angen digon o amser i ddarparu ymateb cadarn ac i gynnig mesurau lliniaru.

14.7.5 Dylid cymryd camau ar frys i gomisiynu pecynnau gwaith i lenwi'r bylchau data a nodwyd er mwyn sicrhau proffil gwaelodlin cadarn ac asesiad o'r effaith ar y gymuned, iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant y bydd mesurau lliniaru cynaliadwy wedi'u seilio arnynt.

14.7.6 Rhaid cymryd camau i sicrhau bod yr asesiadau effaith yn asesiadau integredig ar draws y sbectrwm o ystyriaethau yn ymwneud â'r gymuned, iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant. Dylid adolygu'r wybodaeth yn yr asesiadau effaith unigol er mwyn sicrhau bod y wybodaeth yn gyfredol ac nad yw'n anghyson.

14.7.7 Rhaid ehangu cwmpas yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd i gynnwys pobl ag anawsterau dysgu, namau gwybyddol ac anghenion dysgu ychwanegol, yn ogystal â phobl â chyflyrau cronig hirdymor fel grwpiau poblogaeth yr effeithir arnynt.

14.8 Mae data lleol ar gyfer y boblogaeth sy'n agos at ardal datblygu Wylfa Newydd yn awgrymu bod y cyfraddau gordewdra yn uwch yma na'r cyfartaledd yn Ynys Môn a Chymru. Gallai unrhyw ostyngiad yn argaeledd cyfleusterau chwaraeon a hamdden neu ddirywiad o ran pa mor ddeniadol yw lleoedd yn yr awyr agored ar gyfer hamdden olygu bod mynd i'r afael â'r mater hwn yn mynd yn anos. Nid yw ail-leoli gweithgareddau i Ganolfan Hamdden Amlwch yn fesur digonol i liniaru'r effeithiau hyn. Gallai sŵn, llwch

ac atyniad gweledol hefyd effeithio sut caiff ardaloedd eu defnyddio ar gyfer gweithgaredd corfforol.

## 15 DIOGELU, CYDLYNIANT CYMUNEDOL AC EFFEITHIAU

15.1 Mae diogelu, ffordd o fyw ac ymddygiad i gyd yn faterion o bwys a fydd yn effeithio ar gydlyniant cymunedau. Nid yw PNH wedi cydnabod yn briodol bwysigrwydd sicrhau bod trefniadau diogelu cadarn ar waith, fel yr awgrymwyd gan CSYM yn ei ymateb i'r Ddogfen Diweddariad ar y Prosiect a'r Adroddiad Cynnydd ar yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.

15.2 Mae CSYM yn nodi bod PNH yn bwriadu cael polisïau mewn grym ar gyfer ymddygiad y gweithlu a fydd yn amlinellu'n glir y safon ddisgwyliedig o ran ymddygiad. Mae CSYM o'r farn y dylai PNH hefyd osod disgwyliadau tebyg a chadarn ar gyfer ymddygiad ei gontractwyr.

15.3 Bydd unrhyw gynnydd mewn ymddygiadau sy'n peri risg, gan y boblogaeth sy'n derbyn y gweithlu adeiladu ac ymysg pobl ifanc, yn cael effaith ar gydlyniant cymunedol. Er enghraifft, byddai cynnydd mewn yfed alcohol (er y gallai roi hwb i'r economi fin nos gyffredinol) yn debygol iawn o arwain at effeithiau negyddol megis mwy o densiynau yn y gymuned, cyfradd uwch o ddigwyddiadau gwrthgymdeithasol a digwyddiadau treisgar/casineb, a byddai hynny yn ei dro yn creu fwy o ofn troseddau.

15.4 Cred y Cyngor fod yr amcan o gael Ynys o gymunedau cydlynol yn hanfodol a dylid cymryd yn ganiataol y bydd ein cymunedau yn fwy diogel wrth i ni gydweithio â'r Heddlu, gwasanaethau Golau Glas eraill a'r Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol. Mae CSYM yn poeni am y cynnydd posib mewn Masnachu Pobl a gweithgareddau caethwasiaeth fodern o ganlyniad uniongyrchol i Wylfa Newydd. Mae'r ymddygiadau hyn yn cael effaith niweidiol ddifrifol ar gymunedau lleol. Nid yw PAC2 yn cynnwys cynigion sy'n dangos sut mae PNH yn bwriadu rhyng-gysylltu â grwpiau a strwythurau presennol sy'n flaenllaw ym maes caethwasiaeth fodern a masnachu pobl. Dylid nodi'r rhain ac ymgynghori arnynt cyn cyflwyno'r ceisiadau.

15.5 Mae CSYM yn cytuno â barn PNH ei bod yn hanfodol ystyried sut gellir cynnal a thargedu'n effeithiol weithgareddau hybu iechyd ymysg y gweithlu, dibynyddion, adrannau rheoli cyfleusterau, y gadwyn gyflenwi a chymunedau lleol yn ystod cyfnod adeiladu Wylfa Newydd. Rydym o'r farn y bydd materion sy'n ymwneud â phobl agored i niwed yn hynod o arwyddocaol yn y sefyllfaoedd canlynol – pobl sy'n byw'n agos at adeiladau llety gweithwyr adeiladu; oedolion ifanc a phobl ag anawsterau dysgu, namau gwybyddol neu anghenion dysgu ychwanegol (oherwydd ei fod yn hawdd gwneud argraff arnynt); a phobl sydd eisoes ynghlwm wrth ymddygiadau lle gallai'r peryglon iechyd gynyddu.

15.6 Yn ogystal â phobl ifanc, dylid hefyd ystyried oedolion agored i niwed sydd ag anghenion gofal a phobl hŷn fel grwpiau sy'n hynod o sensitif yn y boblogaeth. Yn aml, mae'r oedolion hyn wedi'u hintegreiddio mewn cymunedau lleol, yn byw'n annibynnol ac yn cael cefnogaeth i ddiwallu eu hanghenion gofal. Mae'n hanfodol bwysig bod y risgiau diogelu posib hyn yn cael eu rheoli a'u lleihau i'r graddau mwyaf posib drwy fesurau lliniaru effeithiol. Mae CSYM yn awgrymu y dylid ystyried y canlynol:

15.7 Dylai PNH gydweithio â Chyngor Môn ac asiantaethau partner eraill i sicrhau bod trefniadau diogelu cadarn ac integredig ar waith er mwyn lleihau unrhyw risgiau diogelu i'r graddau mwyaf posib yn ystod cyfnod adeiladu Wylfa Newydd a thu hwnt. Dyma rai o'r elfennau y dylai'r trefniadau hyn eu cynnwys:

15.7.1 Annog oedolion agored i niwed yng nghyffiniau'r datblygiad a hefyd ymhellach i ffwrdd ledled yr Ynys i gymryd rhan mewn gweithgareddau Heneiddio'n Dda a'r Hwb Cymunedol. Bydd angen cynyddu capasiti'r Hybiau hyn drwy fuddsoddiad gan y datblygwr.

15.7.2 Yn ogystal â llinell gymorth 24/7, mae hefyd angen cytundeb ariannol rhwng PNH, asiantaethau partner a chynrychiolwyr y gymuned i roi sylw i faterion ffordd o fyw sy'n deillio o drosedd ac anrhefn ac ati.

15.7.3 Masnachu Pobl a Chaethwasiaeth Fodern - Dylai PNH drafod â'r awdurdodau perthnasol i sicrhau rheolaeth well yn ystod y cyfnod adeiladu er mwyn ymateb yn rhagweithiol i'r posibilrwydd o faterion diogelu difrifol a'u lleihau i'r graddau mwyaf posib.

15.7.4 Sefydlu mecanwaith i fonitro llesiant y cymunedau yr effeithir arnynt a gosod gwaelodlin cadarn er mwyn gwerthuso'r effeithiau yn ei erbyn o safbwynt ffordd o fyw ac ymddygiad sy'n peri risg (mae hwn yn fwlch yn y data ar hyn o bryd ac yn rhan o gais am adnoddau i PNH ym mis Gorffennaf 2016).

15.7.5 Ymestyn swyddogaethau'r Hwb Tai er mwyn lleihau i'r graddau mwyaf posib unrhyw risgiau diogelu posib i oedolion os ydynt yn penderfynu gosod ystafelloedd sbâr.

15.7.6 Rhaid cymryd camau ar frys i gwblhau'r asesiad arfaethedig o gydlyniant cymunedol er mwyn gwireddu'r nod o greu Ynys Môn o gymunedau cydlynol. Dylai'r asesiad effaith hefyd gynnwys mesurau lliniaru i leihau effeithiau niweidiol i'r graddau mwyaf posib, yn cynnwys:

- PNH i gydnabod y rhwymedigaethau a wynebir gan sefydliadau Golau Glas o ran mwy o heddlu, pobl, adnoddau a chyfleusterau ac ati, o ganlyniad uniongyrchol i gynigion PNH.
- Trafodaethau pellach gyda Chyngor Môn a sefydliadau partner i integreiddio â strwythurau diogelu presennol i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern (o ran rhannu gwybodaeth a chryfhau'r capasiti i gefnogi dioddefwyr)
- Uchelgais ar y cyd i greu cymunedau ledled yr Ynys sy'n fwy deniadol, hyfyw, diogel a chysylltiedig o ganlyniad i Wylfa Newydd.

15.7.7 Ystyried sut gellid targedu a chynnal yn effeithiol weithgareddau hybu iechyd (yn cynnwys iechyd rhyw) ymhlith y gweithlu a'r cymunedau lleol yn ystod cyfnod adeiladu Wylfa Newydd.

## 16 MYNEDIAD A GWASANAETHAU

16.1 O ran ansawdd aer, mae PNH yn rhagweld y bydd adegau lle bydd lefelau uwch o Ronynnau (llwch) a Nitrogen Deuocsid. Rhoddir ystyriaeth i ba weithgareddau monitro ansawdd aer y dylid eu cynnal a sut gellir rhybuddio pobl agored i niwed sy'n byw gerllaw pan fydd y cyfuniad o amodau tywydd a gweithgareddau Wylfa Newydd yn effeithio'n negyddol ar ansawdd aer.

16.2 Rhagwelir y bydd sŵn yn effaith sylweddol; mae'n debyg y bydd CSYM yn cael cwynion am y mater hwn a bydd rhaid iddo ymchwilio iddynt. O blith y trigolion hynny sy'n byw agosaf at y gwaith adeiladu, mae'n debyg y bydd hyn yn fwyaf tebygol o effeithio ar bobl sy'n treulio cryn dipyn o'u diwrnod gartref, yn cynnwys pobl hŷn, pobl ag anableddau a rhieni sydd gartref gyda'u plant. Bydd plant yn Ysgol Gynradd Cemaes yn profi lefelau uwch o sŵn yn ystod y cyfnod adeiladu.

16.3 Mae lletya gweithwyr yn y sector rhent preifat (megis ystafelloedd gwely sbâr) yn peri risgiau diogelu sylweddol oni bai fod hyn yn cael ei reoli'n briodol i leihau'r risg i'r graddau mwyaf posib. Mae CSYM yn poeni am sut i sicrhau bod mesurau digonol ar waith er mwyn:

16.3.1.1 Gwarchod plant, pobl ifanc ac oedolion agored i niwed lle mae meddianwyr yn gosod ystafell sbâr neu dai gwag.

16.3.1.2 Ymateb i ganlyniadau defnyddio'r opsiynau tai ar gyfer gweithwyr adeiladu a fyddai fel arfer ar gael i gartrefu unigolion agored i niwed (sy'n dibynnu ar fudd-daliadau'r wladwriaeth fel eu hunig ffynhonnell o incwm) mewn cymunedau lleol.

16.4 Nid oes digon o gydnabyddiaeth o hyd o'r effeithiau ar seilwaith trafnidiaeth leol - yn enwedig yr A5025 rhwng Cemaes ac Amlwch. Fel yr awgrymwyd yn flaenorol yn yr ymateb i PAC1, y Diweddariad ar y Prosiect a'r Adroddiad Cynnydd ar yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, mae hwn yn fater gwleidyddol ac uchel ei broffil. Nid oes digon o sylw wedi'i roi i'r mater er mai hon yw'r brif ffordd rhwng safle'r datblygiad arfaethedig a'r lleoliadau posib ar gyfer llety gweithwyr dros dro. Nid yw'r Adroddiad Interim Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn rhoi ystyriaeth ddigonol i sut bydd gwydnwch Pontydd Menai a Britannia rhwng yr Ynys a'r tir mawr yn cael ei asesu petai yna ddigwyddiad difrifol. Mae defnyddwyr gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant, yn ogystal â'r gweithwyr proffesiynol sy'n cefnogi eu hanghenion iechyd a gofal cymdeithasol, yn teithio'n helaeth ledled yr Ynys a'r tir mawr – er mwyn cael mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol neu i ddarparu'r gwasanaethau hyn.

16.5 Mae CSYM yn awgrymu y dylid mynd i'r afael â'r canlynol:

16.5.1 Bydd CSYM yn disgwyl gweld cynllun i fonitro Nitrogen Deuocsid o fewn safle'r datblygiad ac yn y cyffiniau, ar yr A5025 a'r A55 (ffordd osgoi Llanfairpwll). Dylid hefyd sefydlu cynllun pellach i fonitro mân-ronynnau (PM10 a PM2.5) a llwch sy'n aflonyddu. Mae'r Cyngor eisoes wedi mynegi y byddai'n well ganddo fabwysiadu lefelau Sefydliad Iechyd y Byd (WHO) ar gyfer PM2.5 oherwydd nad oes lefel ddiogel gydnabyddedig ar gyfer y llygrydd hwn. Gan ystyried yr effeithiau posib ar iechyd, rydym yn cytuno y dylid cael dull o rybuddio pobl pan fydd y lefelau'n uchel.

16.5.2 Mae CSYM yn disgwyl i PNH weithio gyda chymunedau, y 3$^{ydd}$ sector a darparwyr eraill wrth ddatblygu gweithgareddau cymunedol, clybiau neu ganolfannau gofal seibiant lle gall unigolion ddianc wrth effeithiau'r gwaith adeiladu.

16.5.3 Dylid pwyso a mesur gwydnwch Pontydd Menai a Britannia yn yr asesiadau effaith a dylid cynnal trafodaethau rhwng CSYM, PNH a Llywodraeth Cymru ar strategaeth liniaru.

16.5.4 Dylid asesu'r gwelliannau i'r prif-ffyrdd allweddol ar yr Ynys gan ystyried dewisiadau cludo amgen (yn hytrach nag ar y ffyrdd).

16.5.5 Llunio cynllun rheoli traffig wedi'i gostio a'i ariannu'n llawn sy'n ystyried y senarios adeg digwyddiad difrifol.

**Dadleoli'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol**

16.6 Fel yr ystyriwyd o dan thema 6 uchod, ni fydd dadleoli sgiliau/swyddi yn gyfyngedig i'r sector adeiladu'n unig ac mae'n drueni nad yw PNH wedi cydnabod hyn.

16.7 Dylai PNH gydnabod y risg sylweddol y bydd gweithwyr ym maes iechyd a gofal cymdeithasol yn dadleoli ac y dylent ymrwymo i weithio gyda'r Cyngor a darparwyr eraill i roi sylw i'r mater hwn drwy gyfrwng strategaeth hirdymor ar gyfer y gweithlu.

**Ymgysylltu ac ymgynghori**

16.8 Cyfeirir droeon yn nogfennau PAC2 am fwriad PNH i gynnal gweithgareddau ymgysylltu ac ymgynghori pellach gyda chymunedau lleol a grwpiau yr effeithir arnynt. Ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant, byddai'r rhain yn cynnwys grwpiau agored i niwed ac anodd eu cyrraedd, fodd bynnag nid yw dogfennau PAC2 yn cyfeirio'n benodol at y rhain. Mae CSYM o'r farn bod angen gwneud y gwaith ymgysylltu ac ymgynghori hwn mewn modd ystyrlon a deniadol. Codwyd hyn yn flaenorol â PNH ac roedd yn rhan o ymateb CSYM i'r Adroddiad i'r Diweddariad ar y Prosiect a'r Adroddiad Cynnydd Asesiad o'r Effaith ar Iechyd.

16.9 Fel y cynigwyd yn flaenorol gan CSYM, dylai PNH fabwysiadu fframwaith Cyfranogaeth Cymru, sef 10 Egwyddor ar gyfer Ymgysylltu â'r Cyhoedd yng Nghymru, fel sail ar gyfer rhaglen gadarn o ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau lleol a grwpiau agored i niwed.

# ATODIAD B

## CWESTIYNAU STRATEGOL

### 1 "A oes gennych unrhyw sylwadau cyffredinol ar Brosiect Wylfa Newydd fel y'i disgrifir yn yr Ymgynghoriad hwn?"

1.1 Mae CSYM yn cyfeirio PNH at yr adroddiad strategol lefel uwch a gyflwynwyd fel rhan o ymateb CSYM[7] lle ymdrinnir â'r cwestiwn hwn yn llawn. Gweler y cyflwyniad yn benodol (adran 1). Mae CSYM yn pwysleisio ei gefnogaeth barhaus i brosiect Wylfa Newydd, a'i safbwynt bod angen mwy o ymgysylltu ar frys ynglŷn â manylion y cynigion, yn cynnwys lliniaru a Etifeddiaeth, er mwyn caniatáu i'r rhain gael eu datblygu'n briodol cyn cyflwyno unrhyw gais.

1.2 Rydym yn darparu'r sylwadau penodol canlynol fel ymateb i'r cwestiwn hwn o dan rifau paragraffau'r Brif Ddogfen Ymgynghori:

- 1.19: Mae'r disgrifiad o Orsaf Bŵer Newydd Wylfa yn cynnwys yr orsaf bŵer arfaethedig ar safle Wylfa Newydd a 'strwythurau a nodweddion ategol fydd yn cael eu hadeiladu a'u gweithredu ar Ynys Môn'. Rydym yn tybio y bydd y strwythurau a'r nodweddion ategol yn cynnwys yr hyn a ddisgrifir yn rhywle arall fel 'Cyfleusterau Gorsaf Bŵer oddi ar y safle' fydd yn ffisegol ar wahân, ond yn lleol i Safle'r Orsaf Bŵer ac sy'n rhan annatod o ddatblygiad niwclear PNH yn gyffredinol. Dylai hyn fod yn amlwg yn nisgrifiad y prosiect ynghyd â'r llwybrau caniatáu arfaethedig ar gyfer y gwahanol elfennau, yn cynnwys y Datblygiad Cysylltiedig a ddisgrifir yn yr ail bwynt bwled.

- 1.20: Dylid egluro'r cyfeiriad at 'dir cyfagos ac ardaloedd morol' er mwyn cadarnhau bod hynny'n cyfeirio at dir a môr o fewn Ardal Datblygu Wylfa Newydd y mae angen ei gynnwys yn y diffiniad uchod o'r prosiect.

- 1.21: Nid yw'r cyfleoedd sy'n deillio o adeiladu a gweithredu Gorsaf Bŵer Wylfa Newydd yn gyfyngedig i hyfforddi ar gyfer swyddi. Hefyd, nid yw dyheadau CSYM yn gyfyngedig i greu 'Canolfan ragoriaeth o fri rhyngwladol ar gyfer cynhyrchu, arddangos a gwasanaethu ynni carbon isel'. Mae'r rhain wedi'u crynhoi yn y Weledigaeth a'r saith Amcan ar gyfer Prosiect Adeiladu Gorsaf Niwclear Newydd Wylfa fel y nodir hynny ym Mhennod 3 y Canllawiau Cynllunio Ategol a fabwysiadwyd yn ffurfiol gan CSYM yn dilyn ymgynghori cyhoeddus eang. Trafodir mwy ar hyn yn yr ymateb isod i'ch is gwestiwn ynglŷn â Gweledigaeth ac Amcanion eich prosiect. Hefyd, mae'n rhaid i gyfeiriad at y cyfleoedd a gyflwynir gynnwys effaith anochel prosiect o'r maint a'r cymhlethdod hwn a'r camau lliniaru.

[7] Atodiad A o Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau (PAC2) Pŵer Niwclear PNH

- 1.22: Mae cyfeiriad at nifer ac ystod y cyfleoedd o ran swyddi a chadwyn gyflenwi fydd ar gael i bobl leol a busnesau yn ystod y cyfnod adeiladu a gweithredu yn cael ei groesawu. Byddai datganiad cyffredinol ar ymrwymiad PNH i ddarparu cymorth er mwyn helpu pobl a busnesau i fanteisio ar y cyfleoedd hyn yn cael ei werthfawrogi. Wrth symud ymlaen, a chyn cyflwyno'r ceisiadau, mae CSYM yn credu bod angen mwy o eglurder a manylion ynglŷn â gofynion a phroffil llafur er mwyn sicrhau y ceir ymateb priodol a chydweithredol ac y targedir y camau lliniaru yn briodol.

1.3 Gan droi at Gwestiwn Gweledigaeth ac Amcanion y Prosiect **"A oes gennych unrhyw sylwadau ynglŷn â Gweledigaeth ac Amcanion ein Prosiect?"** ym Mhennod 2 y Brif Ddogfen Ymgynghori, dymuna CSYM gyflwyno'r sylwadau canlynol er mwyn i PNH roi mwy o ystyriaeth iddynt:

1.3.1 2.2: Mae prif swyddfeydd PNH Nuclear Power Wylfa Ltd yng Nghaerloyw, ac mae swyddfa'r safle ar Ynys Môn yn fychan iawn o'i gymharu. Yn GP1 CCA CSYM, nodir yn glir y disgwylir y bydd Canolfan Gorfforaethol yn cael ei sefydlu ar yr Ynys fyddai'n codi proffil PNH yng Ngogledd Cymru ac yn darparu cefnogaeth i hyrwyddo mewnfuddsoddiad gyda ffocws ar sefydlu cwmnïau sy'n ymwneud â thechnoleg carbon isel ar safleoedd Ardal Fenter. Er y gwyddys bod PNH wedi gwrthod y cysyniad o Ganolfan Gorfforaethol fel y rhagwelwyd yn wreiddiol, mae mwy o weledegdd a phresenoldeb lleol yn allweddol er mwyn dangos ymrwymiad a gweithredu amlwg i'r Ynys a'r ardal. Felly dylid nodi'r dewisiadau amgen a gynigir yn lle'r Ganolfan Gorfforaethol er mwyn cyflawni'r amcan Pwrpas Lleol o gryfhau'r economi a'r gymuned.

1.3.2 2.3: Mae'r Pwrpas Lleol yn cynnwys yr economi, yr amgylchedd a'r cymunedau. Mae hyn wedi'i alinio'n uniongyrchol â'r diffiniad o ddatblygiad cynaliadwy, sy'n egwyddor sy'n tanategu Amcanion Llesiant deddfwriaeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n sylfaen i'r penderfyniadau a wneir gan CSYM a chyrff cyhoeddus eraill sy'n rhanddeiliaid ym mhrosiect Wylfa Newydd.

1.3.3 2.8: Mae CSYM yn croesawu'r gydnabyddiaeth a roddir ar y cychwyn i bwysigrwydd Etifeddiaeth yng ngweledigaeth y prosiect. Fodd bynnag, nodir bod Etifeddiaeth hefyd yn perthyn i Ddatblygiad Cysylltiedig yn ogystal â'r Orsaf Bŵer, ac y dylai hynny gael ei gyflawni ym mhob cam yn ystod ei oes, o'r cam datblygu i adeiladu i weithredu i ddadgomisiynu ac yn dilyn defnyddio safleoedd y Prosiect, a gellir mynegi hynny'n fwy eglur. Wrth symud ymlaen mae CSYM yn dymuno

ymgysylltu â PNH ynglŷn â Etifeddiaeth yn llawer mwy trylwyr, a bydd hynny'n cynnwys disgwyliad yn unol â'r CCA bod hynny wedi cael ei ystyried mewn perthynas â holl elfennau'r prosiect yn cynnwys dewis safle a chynigion ar gyfer Datblygiad Cysylltiedig yn ogystal â'r cynigion ynglŷn â'r Orsaf Bŵer.

1.3.4 2.9: Yn unol â'r Pwrpas Lleol mae PNH yn nodi y bydd hefyd yn ceisio gwneud y mwyaf o'r buddion a lleihau'r effaith ar yr economi a diwylliant. Mae CSYM yn croesawu'r bwriad amlwg hwn a'r alinio â gweledigaeth amcan y CCA y mae hynny'n ei greu. Mae CSYM yn credu y gellid atgyfnerthu'r elfen hon drwy gyfeirio'n benodol at y cymunedau sy'n ffinio â datblygiad Wylfa Newydd.

1.3.5 Mae gweledigaeth y prosiect braidd yn gyffredinol ac nid yw'n gysylltiedig â safle Wylfa. Byddai CSYM yn disgwyl i'r weledigaeth gynnwys cyfeiriad at greu partneriaeth â'r gymuned leol er mwyn sicrhau bod dyfodol ynni cynaliadwy yn cael ei wireddu'n llwyddiannus. Dylai gynnwys cyfeiriad at y prosiect ei hun a'r gymuned leol oherwydd mai'r lleoliad hwn fydd yn gwasanaethu'r Orsaf Niwclear Newydd am gyfnod o 100 mlynedd a mwy. Mae angen ymrwymiad mwy cadarn rhwng y datblygwr a'r gymuned leol. Argymhellir bod gweledigaeth y prosiect yn adlewyrchu gweledigaeth 3.1 CCA CSYM: "Mae'r Orsaf Niwclear Newydd yn ysgogydd cadarnhaol ar gyfer gweddnewid economi a chymunedau Ynys Môn, a bydd yn darparu cyfleoedd cyflogaeth cynaliadwy, yn gwella safon bywyd i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol ac yn cyfoethogi hunaniaeth a neilltuedd lleol". Dylid cyfeirio at gymunedau cyfagos oherwydd nid oes amheuaeth y bydd Datblygiad Wylfa Newydd yn effeithio arnynt.

1.3.6 Mewn perthynas ag Amcanion y Prosiect, (Paragraff 2.10), rydym yn gofyn i chi alinio'r Amcanion hyn â'r rhai y mae CSYM wedi eu nodi yn y CCA h.y. er mwyn sicrhau y bydd Prosiect Wylfa Newydd yn:

1.3.6.1 Cyfrannu at gyflawni Rhaglen Ynys Ynni Ynys Môn, ac Ardal Fenter Ynys Môn, gan osod yr Ynys ar flaen y gad o ran ymchwil a datblygu, cynhyrchu a gwasanaethu ynni;

1.3.6.2 Ysgogi gweddnewid economïau Ynys Môn a Gogledd Cymru a gwneud y mwyaf o gyfleoedd cyflogaeth ac uwchraddio sgiliau pobl leol;

1.3.6.3 Darparu buddion seilwaith arwyddocaol a pharhaus i gymunedau'r Ynys;

1.3.6.4 Cefnogi gwelliannau i safon bywyd (yn cynnwys tai, iechyd, llesiant ac amwynder) trigolion yr Ynys, ymwelwyr a gweithwyr yn ystod y cyfnod adeiladu a gweithredu;

1.3.6.5 Cydnabod a chryfhau hunaniaeth unigryw'r Ynys a'i chymunedau;

1.3.6.6 Hyrwyddo symudiad pobl a deunyddiau mewn modd cynaliadwy a darparu seilwaith cludiant cydnerth sy'n gallu denu a chynnal twf economaidd a chreu cymunedau cynaliadwy;

1.3.6.7 Gwarchod a chyfoethogi amgylchedd ac adnoddau neilltuol yr Ynys, gan ystyried newid yn yr hinsawdd.

Mewn perthynas â'r ail is gwestiwn: ***"A oes gennych unrhyw sylwadau cyffredinol ynglŷn â chydrannau'r Prosiect a sut y'u dosberthir?"***

1.4 Tybir fod hyn yn gysylltiedig â'r gwahanol elfennau sy'n rhan o Brosiect Wylfa Newydd yn ei gyfanrwydd. Mae'r ymateb yn gynwysedig yn y llythyr eglurhaol i'r ymateb hwn ac yn yr Atodiadau.

**C2. A oes gennych unrhyw awgrymiadau penodol y gallwn eu hystyried Er mwyn sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o bobl leol yn manteisio ar y cyfleoedd yma mewn perthynas â swyddi a sgiliau?**

2.0 Ymdrinnir â'r pwnc yma yn ehangach yn yr adroddiad strategol lefel uwch[8] a gyflwynwyd fel rhan o ymateb CSYM yn adrannau 3 (Cyfleoedd Cyflogaeth Lleol), 4 (Addysg, Sgiliau a Hyfforddiant) a 6 (Dadleoli). Mae'r adran hon yn darparu atebion i'r cwestiwn penodol a ofynnwyd, ond dylid ei ddarllen law yn llaw â'r adroddiad strategol lefel uwch.

2.1 Cydnabyddir bod hwn yn ymgynghoriad cyn ymgeisio ac na fydd yr holl wybodaeth mewn perthynas â'r prosiect ar gael ar hyn o bryd ar ei ffurf derfynol, fodd bynnag byddai CSYM yn croesawu mwy o wybodaeth ac eglurder ar yr amseru, math a nifer y gweithwyr a'r sgiliau a amcanir ar hyn o bryd fydd eu hangen ar wahanol gamau yn ystod y cyfnod adeiladu er mwyn hysbysu trafodaeth ar y mater hwn. Mae'r dadansoddiad cychwynnol o ddisgyblaethau adeiladu yn nhabl 9.1 yn ddefnyddiol, a cheisir mwy o fanylion ynglŷn â hynny. Gofynnwyd am y wybodaeth hon yn ymateb CSYM i PAC1[9] ac i'r ymgynghoriad anffurfiol[10]. Mae CSYM yn credu bod angen y wybodaeth hon nawr fel mater o flaenoriaeth er mwyn hysbysu'r ymagwedd a'r drafodaeth ynglŷn â swyddi, sgiliau, addysg a dadleoli.

**Swyddi**

2.2 Mae'n ofynnol bod Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau Wylfa Newydd yn cydweithio â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru er mwyn sicrhau bod yr ymagwedd a ddefnyddir yn adlewyrchu'n briodol y cynllun Sgiliau a Chyflogaeth Rhanbarthol a fabwysiadwyd yn ddiweddar, a'i fod wedi'i alinio ag ef.

2.3 Mae'n hanfodol bod PNH yn ymrwymo i fecanweithiau clir ac ymarferol er mwyn sicrhau recriwtio llafur lleol ac y gwneir y mwyaf o hynny (yn cynnwys monitro drwy gadwyn gyflenwi'r prosiect). Yn ogystal â'r Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau, bydd ymrwymiad i hysbysebu swyddi yn lleol, cynnal/mynychu digwyddiadau recriwtio a gyrfaoedd yn sicrhau mwy o weledєdd a bod cyfleoedd yn cael eu hyrwyddo'n weithredol.

[8] Atodiad A o Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Dau (PAC2) Pŵer Niwclear PNH

[9] Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Cyntaf (PAC1) Pŵer Niwclear PNH, dyddiedig 04 Rhagfyr 2014, llythyr cyflwyno ar dudalen 6 eitem III.

[10] Ymateb i Ymgynghoriad Cyhoeddus anffurfiol Pŵer Niwclear PNH ar y Diweddariad ar y Prosiect (Ionawr 2016) dyddiedig 24 Mawrth 2016, Atodiad 1, eitem 3.3

2.4 Mae CSYM yn awgrymu bod PNH yn ystyried y canlynol i sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o bobl leol yn cael swyddi:

2.4.1 Cefnogi cynyddu adnoddau hyfforddiant mewn sectorau ehangach er mwyn cefnogi gwaith adeiladu e.e. diogelwch, clerigol, gweinyddol, arlwyo a lletygarwch er mwyn gwneud y mwyaf o lafur lleol

2.4.2 Ystyried mwy o fuddsoddiad er mwyn cynyddu'r canrannau targed mewn swyddi rheoli/arolygu a mwy o welliannau o ran swyddi mecanyddol/trydanol a pheirianneg sifil.

2.4.3 Cynorthwyo gyda datblygu consortia fel y gall cwmnïau lleol ddod at ei gilydd i gynnig am dendrau yn hyderus.

2.4.4 Asesu gallu Menter Newydd a'r gadwyn gyflenwi sy'n gysylltiedig ag AB a'r rhwydwaith hyfforddiant (yng Ngogledd Cymru) er mwyn penderfynu ar uchafswm y cyfranogiad llafur o ran adeiladu a gweithredu (Grŵp Llandrillo Menai) yn seiliedig ar amseroedd arwain ar gyfer hyfforddiant penodol, a hynny wedi ei alinio â gofynion swyddi/sgiliau.

2.4.5 Ymrwymiad i hysbysebu swyddi perthnasol yn y wasg leol a rhanbarthol a thrwy gyfryngwyr lleol yn cynnwys Canolfannau Byd Gwaith, colegau, darparwyr addysg uwch, darparwyr hyfforddiant a chyfryngwyr perthnasol eraill sy'n ymwneud â darparu hyfforddiant, paru swyddi, recriwtio a chyngor gyrfaoedd, ac ymrwymiad i ariannu hynny. Dylid defnyddio'r Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau mewn perthynas â hyn.

2.4.6 Ymrwymo i gydweithio â Chyngor Môn er mwyn denu gweithwyr sy'n dychwelyd.

2.4.7 Defnyddio GwerthwchiGymru pryd bynnag fo hynny'n bosibl mewn perthynas â chyfleoedd tendro.

**Addysg, Sgiliau a Hyfforddiant**

2.5 Mae CSYM yn awgrymu bod PNH yn ystyried y canlynol er mwyn helpu i fynd i'r afael â phryderon a fynegwyd ynglŷn ag addysg, sgiliau a hyfforddiant, a sicrhau bod y nifer mwyaf posibl o bobl leol yn derbyn y cyfleoedd:

2.5.1 Gweithio er mwyn pennu safbwynt mwy pendant ynglŷn ag anghenion hyfforddiant a gofynion sgiliau er mwyn cyrraedd targedau cyflogaeth lleol

a rhagori ar hynny - ar hyn o bryd nid oes gwybodaeth am y galw hwn yn y PEIR.

2.5.2 Creu prentisiaethau a lleoliadau gwaith fydd yn arwain at swyddi parhaol, a phennu targed ac ymrwymiad clir i nifer o brentisiaethau a lleoliadau gwaith mewn gwahanol feysydd a swyddi yn ystod gwahanol gamau'r datblygiad (adeiladu/ gweithredu/ dadgomisiynu) gan ddangos sut mae hynny'n cael ei ddadansoddi a pha adnoddau (ariannol a staff) fydd yn cael eu neilltuo ar gyfer cyflawni hynny.

2.5.3 Darparu hyfforddiant er mwyn darparu'r gofynion iechyd a diogelwch niwclear a sicrwydd ansawdd angenrheidiol i unigolion cyn iddynt weithio ar y safle e.e. pasbort Niwclear.

2.5.4 Twf/ehangu mewn perthynas â Rhaglen Parodrwydd Busnes (canlyniad i gydweithio llwyddiannus rhwng CSYM, PNH, Llywodraeth Cymru, BUEGC a NAMRC) sy'n helpu cwmnïau lleol i ddatblygu'r set sgiliau sydd ei angen i fod yn rhan o gadwyn gyflenwi'r diwydiant niwclear.

2.5.5 Ymchwilio i botensial trosglwyddo llafur hyfforddedig o'r cam adeiladu i'r cam gweithredol - edrych ar gyfleoedd mewn perthynas â swyddi proffesiynol/rheoli, peirianneg sifil/mecanyddol/trydanol, crefftwyr a chefnogaeth. Sefydlu pecyn cyflogaeth a hyfforddiant "oes" er mwyn dangos ymrwymiad hirdymor a hirhoedledd cyfleoedd economaidd a chymdeithasol.

2.5.6 Buddsoddi mewn darpariaeth hyfforddi a chyfleusterau hyfforddi newydd er mwyn sicrhau bod y gyfran fwyaf posibl o'r swyddi yn cael eu derbyn gan weithwyr sy'n byw yn y farchnad lafur / ardal deithio i'r gwaith yn ystod y camau adeiladu a gweithredu. Mae hynny'n cynnwys buddsoddiad cyfalaf mewn cyfleusterau ar gyfer crefftau adeiladu, mecanyddol a thrydanol, peirianneg sifil, rheoli a phroffesiynol a chefnogi galwedigaethau er mwyn gwneud y mwyaf o dalent a gweithwyr lleol a mynd i'r afael ag effeithiau dadleoli llafur.

2.5.7 Adnoddau a buddsoddiad ar gyfer hyfforddiant mewn sectorau ehangach fyddai'n dioddef o ganlyniad i effeithiau dadleoli e.e. sector bwyd, lletygarwch/arlwyo a meysydd eraill allai gefnogi cam adeiladu'r prosiect er mwyn lleihau effaith colli cyflogaeth/dadleoli mewn busnesau sy'n bodoli a sicrhau cyflenwad o weithwyr sgiliedig addas. Mae Llety a Bwyd wedi ei amlygu mewn dadansoddiad diweddar fel sector twf pwysig ar Ynys Môn ynghyd â thrafnidiaeth a dosbarthu. Gallai'r sectorau yma gael eu gorlwytho'n gyflym o ganlyniad i lefelau uchel o alw o Wylfa Newydd, a

chyfleoedd da hefyd yn cael eu cynnig ar lefel mynediad i rai sy'n ddi-waith yn hirdymor a grwpiau a dangyflogir.

2.5.8 Canolbwyntio ar elfennau o'r boblogaeth oedran gweithio a danddefnyddir neu a dangyflogir e.e. y di-waith, rhai â sgiliau isel, er mwyn gwneud y mwyaf o fuddion economaidd a chymdeithasol y buddsoddiad.

2.5.9 Darparu lleoliadau i raddedigion ac ôl-raddedigion yn y gweithluoedd adeiladu a gweithredu.

2.5.10 Monitro a chyhoeddi perfformiad mewn perthynas â recriwtio, cyflogi a hyfforddi a phrentisiaethau a gyflawnwyd gan y prosiect yn ystod y camau adeiladu, gweithredu a dadgomisiynu. Byddai hynny'n golygu goblygiadau o ran adnoddau staff a hyfforddi i'r awdurdod.

2.5.11 Darparu rhaglen o godi ymwybyddiaeth a hyrwyddo cyfleoedd i weithluoedd y presennol a'r dyfodol gan ddefnyddio darparwyr hyfforddiant ac addysg presennol a sianelau hyrwyddo ehangach drwy'r wasg.

2.5.12 CSYM a PNH i weithio mewn partneriaeth er mwyn cyflwyno mesurau perfformio ar gyfer recriwtio, cyflogaeth, hyfforddiant a phrentisiaethau, a dylid eu sefydlu, eu hyrwyddo a monitro eu cynnydd er mwyn sicrhau y cyflawnir amcanion a bod unrhyw ddiffyg o ran darpariaeth yn cael ei ganfod a'i ddatrys.

2.6 Mae CSYM yn gwahodd PNH i gydweithio er mwyn defnyddio platfformau digidol sefydledig er mwyn hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth a thargedu unigolion o Ynys Môn a Gogledd Cymru yn uniongyrchol (sy'n gweithio ar draws y byd), sydd â diddordeb mewn dychwelyd.

2.7 Mae'r holl weithgareddau uchod yn hanfodol er mwyn gwella cyflogaeth leol fyddai yn ei dro yn golygu cadw siaradwyr Cymraeg a phobl sydd eisoes yn rhan o'r gymuned a gwarchod yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymraeg.

2.8 Gweler adran berthnasol CCA Gorsaf Niwclear Newydd i gael mwy o gyngor ac arweiniad ynglŷn â sut mae CSYM yn disgwyl y bwrir ymlaen â'r materion sy'n gysylltiedig â'r maes thematig hwn.

**C3 Llety Gweithwyr Dros Dro yn ardal Amlwch (yn cynnwys Rhosgoch a thir sy’n ffinio â Fferm Madyn, i'r dwyrain a’r gorllewin o’r B5111).**
**Y cynnig a ffafrir gennym yw darparu llety ar gyfer hyd at 3,500 o weithwyr yng Nghaergybi (Cae Glas a Kingsland), 1,500 o weithwyr yn Rhosgoch, 500 o weithwyr ar y safle ar gyfer gwaith adeiladu critigol, 200 o weithwyr yn Fferm Madyn. Fodd bynnag, rydym yn ystyried llety arall ar gyfer hyd at 800 o weithwyr yn Amlwch ger y tai parhaol yn Fferm Madyn, i’r dwyrain a’r gorllewin o’r B5111.**

**Gan ein bod nawr wedi datblygu cynigion manylach ar gyfer Rhosgoch ac Amlwch (ger Fferm Madyn, i’r dwyrain a’r gorllewin o’r B5111) rydym yn croesawu eich safbwyntiau ynglŷn â’r safleoedd a ddewiswyd, a’r rhesymau dros ffafrio’r rhai a ffafrir gennych.**

3.0 Nid yw’r cynnig a ffafrir gan PNH yn amlinellu dilyniant defnyddio’r llety arfaethedig. Bydd eglurder yn allweddol er mwyn hysbysu a dylanwadu ar asesiadau effaith ychwanegol, trefniadau rheoli, lliniaru a iawndal.

3.1 Mae CSYM yn croesawu’r ffaith mai Tir a Llynnoedd yw’r opsiwn a ffafrir gan PNH ar gyfer hyd at 3,500 o weithwyr, ac mae’n gwbl gefnogol i hynny gan ei fod wedi sicrhau caniatâd cynllunio yn ddiweddar a'i fod yn cynnig budd Etifeddiaeth amlwg i’r Ynys.

3.2 Fodd bynnag, rydym yn deall nad oes cytundeb masnachol wedi ei sefydlu hyd yma gyda Thir a Llynnoedd ac ni chynigir dewis amgen credadwy yn yr ymgynghoriad hwn i letya’r nifer yma o weithwyr yn rhywle arall. O ystyried y diffyg capasiti yn y sectorau llety eraill (SRhP, llety a feddiannir gan berchnogion a llety thwristiaeth) a’r ffaith bod y safle arall ellid ei ehangu i gartrefu’r nifer yma o weithwyr (Rhosgoch) yn groes i bolisi cynllunio, ac nad yw CSYM felly’n ei gefnogi mewn egwyddor, mae hyn yn risg sylweddol i’r prosiect a’r gymuned leol. Mae PNH yn gwbl ymwybodol o safbwynt CSYM ynglŷn â Rhosgoch. Mae’r safle yn safle gwledig eang, sy’n rhannol yn dir llwyd â seilwaith ffyrdd a mynediad gwael, mae’n bell oddi wrth yr holl gyfleusterau a gwasanaethau, a bydd y cynnig hwn yn arwain at nifer fawr o symudiadau cerbyd i ac o’r safle yn ddyddiol. Mae defnyddio’r safle ar gyfer llety gweithwyr dros dro yn groes i bolisi cynllunio (fel yr amlinellir hynny yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd arfaethedig).

3.3 Mae CSYM wedi rhoi sylwadau cyffredinol ar fethodoleg dewis safle ar gyfer y datblygiad cysylltiedig yng nghwestiwn 8 isod ac nid yw’n derbyn bod PNH wedi dangos nad oes safle addas arall a ffafrir. Mae CSYM yn bryderus y dylanwadwyd yn amhriodol ar y broses o ddewis safle, a arweiniodd at y

penderfyniad i fwrw ymlaen â Rhosgoch fel y safle a ffafrir, gan y pwysau a roddwyd i'r ffaith bod PNH wedi sicrhau cytundeb tir ar gyfer y safle hwnnw a'u bod felly yn amharod i ystyried dewisiadau eraill yn briodol.

3.4 O ystyried eu statws polisi cynllunio gwahanol, ymdrinnir ag Amlwch A a B ar wahân isod:

***3.4.1 Amlwch A -*** Neilltuir y safle hwn yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd arfaethedig (Polisi TAI14: Tai mewn canolfan Isranbarthol a chanolfannau Gwasanaethau Trefol, safle T8) ar gyfer tai, mae'n gynaliadwy ac mae ganddo'r potensial ar gyfer cysylltedd da â'r anheddiad, yn arbennig ar hyd yr hawliau tramwyo presennol. Felly, mae defnyddio'r safle ar gyfer tai preswyl yn cael ei dderbyn mewn egwyddor, fodd bynnag, byddai dal angen ystyried materion dwysedd ac effeithiau niferoedd y preswylwyr yn ofalus. Byddai CSYM yn croesawu cynigion fyddai'n helpu i fwrw ymlaen â thai parhaol ar y safle hwn er mwyn boddloni anghenion y gweithwyr adeiladu a thrigolion lleol hefyd. Gallai gweithwyr adeiladu dros dro ddefnyddio tai parhaol i gychwyn ac yna gellid eu rhyddhau fel anheddau ar y farchnad agored (a 50% ohonynt yn fforddiadwy). Byddai hyn, ynghyd â'r cynnig ar gyfer Fferm Madyn yn cynnig gwell Etifeddiaeth hirdymor i bobl Amlwch na llety modiwlaidd dros dro. Pan all PNH ddangos nad yw tai parhaol yn ddichonadwy ar gyfer y safle hwn, byddai budd Etifeddiaeth darparu gwasanaeth i safle tai a neilltuwyd yn cael ei ystyried yn bositif a byddai'n cael ei gefnogi.

***3.4.2 Amlwch B -*** Mae'r safle hwn mewn cefn gwlad agored ac ar hyd o bryd nid yw wedi ei neilltuo nac wedi ei gynnig ar gyfer ei neilltuo yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd arfaethedig, fodd bynnag mae ei leoliad ger safle Amlwch A a neilltuwyd, a ffin yr anheddiad, yn golygu y'i ffafrir yn ddilyniannol yn hytrach na safle ynysig mewn cefn gwlad agored nad oes ganddo'r cymwyseddau hyn. Byddai safleoedd A a B gyda'i gilydd yn darparu'r más critigol y mae PNH wedi dweud sy'n angenrheidiol er mwyn sicrhau bod cynigion am lety modiwlaidd yn economaidd hyfyw. Mae'r safle ymhellach oddi wrth ffin yr anheddiad presennol ac mae hynny'n golygu y gellir cyfyngu ar yr effeithiau ar amwynder yr ardal breswyl.

***3.5*** Byddai angen i CSYM sicrhau y byddai Amlwch yn cadw cyflenwad tir ar gyfer tai am 5 mlynedd petai'r safle hwn yn cael ei ddefnyddio ar gyfer llety gweithwyr dros dro, a byddai angen ymdrin â hynny yn natganiad cynllunio unrhyw gais.

***3.6*** Petai PNH o blaid datblygu llety mwy parhaol yn Amlwch, byddai CSYM yn awgrymu y byddai safleoedd i'r gorllewin o Amlwch yn fwy ffafriol er mwyn lleihau nifer y symudiadau cerbyd ac effeithiau eraill ar y dref. Byddai CSYM yn awyddus i weithio gyda PNH a Llywodraeth Cymru er mwyn canfod yr ateb

mwyaf addas sy'n gweithio'n fasnachol i PNH ond sydd hefyd yn gweithio i'r gymuned yr effeithir arni yn Amlwch, sy'n darparu camau lliniaru'r effeithiau ar y sector tai ac sy'n darparu Etifeddiaeth.

***3.7*** Mae CSYM wedi gwneud gwaith i ddiweddaru'r arweiniad lleoliadol a roddir yn y CCA fel ymateb i'r cynnydd yn niferoedd y gweithwyr a nodir gan PNH sy'n golygu bod angen adolygu'r ymagwedd yn gyffredinol. Mae CSYM yn ategu ei safbwynt bod yn rhaid i leoliadau fod yn gynaliadwy, bod safleoedd sy'n ffinio ag anheddau yn fwy ffafriol na lleoliadau gwledig ar sail cynaliadwyedd a bod yr ardal chwilio am safleoedd yn rhy gyfyng a'i bod yn diystyru safleoedd yn ardal Llangefni er gwaethaf ei statws fel Canolfan. Mae'r gwaith o ddiweddaru ac ailasesu safbwynt CSYM yn mynd rhagddo ac mae'n gysylltiedig hefyd â'r gwaith o fwrw ymlaen â'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd y cynigiwyd is bolisi ar ei gyfer sy'n delio'n benodol â TCWA. Mae CSYM yn cynghori PNH i gynnal trafodaeth ar y pwynt hwn gyda'r awdurdod cynllunio cyn cyflwyno'r ceisiadau TCWA.

**C4 Rydym wedi gwella ein cynigion ar gyfer cludo gweithiwyr o gwmpas yr ynys er mwyn lleihau'r effaith ar ffyrdd lleol ac mae hynny nawr yn cynnwys manylion am ein llwybr bysiau arfaethedig a'r lleoliadau a ffafrir gennym ar gyfer arosfeydd bysiau.** ***A oes gennych unrhyw sylwadau ar y llwybrau a'r arosfeydd bysiau yr ydym wedi eu nodi?***

4.0 Ymdrinnir â'r pwnc yma yn ehangach yn yr adroddiad strategol lefel uwch a gyflwynwyd fel rhan o ymateb CSYM yn adran 3 (Priffyrdd a Thrafnidiaeth). Mae'r adran hon yn darparu atebion i'r cwestiwn penodol a ofynnwyd, ond dylid ei ddarllen law yn llaw â'r adroddiad strategol lefel uwch.

4.1 Mae gwasanaeth bws eisoes yn bodoli ar y llwybrau a nodir gan PNH. Fodd bynnag, yn gyffredinol mae'r rhain yn fân ffyrdd ac yn gul iawn, ac nid yw nifer o'r gwasanaethau yma yn rheolaidd, a dim ond nifer fechan o fysiau sydd ar y rhwydwaith ffyrdd. Bydd gwasanaeth bws wennol arfaethedig PNH o bosibl yn cynyddu cyfran y bysiau / cerbydau mawr ar y llwybrau yma, fydd yn arwain at wrthdaro a thagfeydd. Mae maint y camau lliniaru a gynigir yn ddibynnol ar gynnydd yn nifer y bysiau ar y rhwydwaith ffyrdd. Gallai hynny ddeillio o ledu'r ffordd a darparu mannau pasio, neu os penderfynir nad yw'r rhwydwaith ffyrdd yn addas oherwydd y cynnydd sylweddol yn nifer y bysiau, byddai angen cyfleusterau Parcio a Rhannu mewn lleoliadau strategol. Rhoddir rhagor o fanylion isod.

4.2 Mae CSYM yn gefnogol i lwybr bws wennol sy'n gwasanaethu Amlwch. Fodd bynnag, byddai angen gwelliannau ffordd ar yr A5025 rhwng Wylfa Newydd ac Amlwch er mwyn cynnal y cynnydd canrannol mewn cerbydau mawr. Lled ymylon / cliriad cyfyngedig sydd i'r ffordd mewn mannau. Felly, byddai angen uwchraddio'r ffordd/lled ymylon er mwyn lliniaru'r cynnydd mewn defnydd o gerbydau mawr. Camau lliniaru posibl eraill i PNH fyddai ddefnyddio bysiau llai sydd wedi eu dylunio'n fwy addas ar gyfer ffyrdd gwledig. Byddai CSYM yn croesawu trafodaethau pellach â PNH ar hyn er mwyn lliniaru'r effeithiau niweidiol yn ddigonol.

4.3 Efallai yr ystyrir bod rhan o'r rhwydwaith ffyrdd sydd wedi ei gynnwys yn ardal ganolog Ynys Môn yn anaddas ar gyfer bysiau wennol (Carmel drwy Elim). Nid yw'n eglur ar y map dangosol pa ffordd y bwriedir ei ddefnyddio, yn arbennig yng Ngharmel. Mae'r ffyrdd cefn yn yr ardal yma yn gul iawn ac yn anaddas ar gyfer cerbydau mawr. Bydd angen i PNH egluro'r ffordd arfaethedig a dangos bod ganddi gapasiti a lled digonol i gynnal bysiau wennol.

4.4 Mae'r llwybr bysiau wennol ar hyd yr A5025 a wellwyd hyd at gyfleuster Parcio a Theithio yn cael ei gefnogi mewn egwyddor, fodd bynnag mae'r llwybr a

ddangosir yn rhagdybio bod y cyfleuster wedi ei leoli yn Nalar Hir, ac mae CSYM yn parhau i wrthwynebu'r safle hwn ar hyn o bryd.

4.5 Mae'r llwybr ar hyd yr A5025 hyd at Bentraeth (Ardal Ogledd Ddwyreiniol) yn cael ei gefnogi, yn ddarostyngedig i ddarparu cyfleusterau parcio / parcio a theithio addas wedi eu lleoli'n strategol ar gyfer mynediad hawdd i leoliadau'r arosfeydd bws arfaethedig er mwyn osgoi cynnydd yn nhebygolrwydd parcio anghyfreithlon a thagfeydd traffig ger yr arhosfa bws oherwydd bydd cyfran uchel o'r gweithwyr mewn ardaloedd gwledig yn dibynnu ar geir preifat i gyrraedd yr arhosfa bws sydd agosaf at eu cartrefi. Mae'r un peth yn gymwys i'r llwybr o Fenllech drwy Lannerchymedd i Amlwch. Fodd bynnag, mae rhan o'r llwybr yma o Fenllech i Lannerchymedd yn gul a throellog. Er bod gwasanaeth bws yn bodoli ar hyn o bryd ar y ffordd, bydd gwasanaeth bws wennol arfaethedig PNH o bosibl yn cynyddu cyfran y bysiau / cerbydau mawr ar y rhan yma, fydd yn arwain at wrthdaro a thagfeydd.

4.6 Mae llwybr y Gogledd Orllewin yn cael ei gefnogi, yn ddarostyngedig i gyfleusterau parcio / parcio a theithio addas yn cael eu lleoli'n strategol er mwyn darparu mynediad hawdd i leoliadau'r arosfeydd bws arfaethedig.

**Llwybr Caergybi a'r tir mawr**

4.7 Mae'r cynigion presennol yn dangos un man codi yn 'Nherfynfa Caergybi'. Oherwydd y nifer fawr o weithwyr posibl yn ardal tref Caergybi, credir y dylid darparu lleoliadau codi ychwanegol o gwmpas y dref.

4.8 Er mwyn lliniaru'r effeithiau posibl a amlinellir uchod mae'n hanfodol bod PNH yn darparu nifer o gyfleusterau parcio / parcio a rhannu ar hyd llwybrau gwasanaeth bysiau'r Gogledd Ddwyrain a'r Gogledd Orllewin. Byddai hynny'n mynd i'r afael â phryderon ynglŷn â pharcio ac yn lliniaru parcio diwahân, yn darparu Etifeddiaeth parcio, yn cyfrannu at Gynllun Teithio Gweithredol PNH tra'n annog rhannu ceir ac yn lleihau nifer y bobl sy'n teithio mewn ceir ar eu pennau eu hunain pan fo gweithwyr yn dewis gyrru i'r mannau codi.

4.9 Mae CSYM yn gwahodd PNH i drafod y posibilrwydd o lesio meysydd parcio presennol CSYM sy'n cael eu tanddefnyddio yn Amlwch er mwyn mynd i'r afael â rhai o'r pwyntiau a godwyd.

4.10 Mae defnyddio bysiau o faint priodol, sy'n fwy addas ar gyfer ffyrdd gwledig a'r llwybrau arfaethedig, hefyd yn ystyriaeth liniaru hanfodol.

4.11 Gweler adran berthnasol CCA Gorsaf Niwclear Newydd i gael mwy o gyngor ac arweiniad ynglŷn â sut mae CSYM yn disgwyl y bwrir ymlaen â'r materion sy'n gysylltiedig â'r maes thematig hwn.

**C5 Mae Adroddiad Interim Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg yn nodi ein cynigion cychwynnol ar gyfer gwella buddion a lleihau effeithiau negyddol y Prosiect.**
**A oes gennych unrhyw awgrymiadau penodol ynglŷn â'r mesurau yr ydym wedi eu nodi er mwyn gwella buddion a lleihau effeithiau negyddol ar gymunedau Cymraeg, neu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymraeg?**

5.0 Ymdrinnir â'r pwnc yma yn ehangach yn yr adroddiad strategol lefel uwch[11] a gyflwynwyd fel rhan o ymateb CSYM yn adran 7 (Iaith Gymraeg a Diwylliant) Mae'r adran hon yn darparu atebion i'r cwestiwn penodol a ofynnwyd, ond dylid ei ddarllen law yn llaw â'r adroddiad strategol lefel uwch.

5.1 Mae'n anodd rhoi sylwadau ar y mesurau a nodwyd gan PNH er mwyn gwella'r buddion a lleihau'r effeithiau negyddol ar gymunedau Cymraeg, neu'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymraeg oherwydd bod yna ddiffyg eglurder yn y geiriad a diffyg ymrwymiad i fanylion penodol y mesurau lliniaru a gynigir. Mae'r AEIG interim yn cynnwys yr holl bynciau y byddai CSYM yn disgwyl iddynt gael eu cynnwys, fodd bynnag mae ynddo ddiffyg manylder ac mae'n anodd i CSYM wneud sylwadau arno oherwydd nad yw'r iaith Gymraeg yn gynwysedig yn y PEIR sy'n golygu nad yw'r wybodaeth honno ar gael.

5.2 Mae gan CSYM rai pryderon bod ardaloedd yr astudiaeth a ddangosir yn ffigwr 4.1 adroddiad interim AEIG yn cael eu diffinio'n rhy gyfyngedig, sef 1 km a 5km o'r safleoedd, ac y dylent fod yn ehangach er mwyn cwmpasu'r effeithiau ar draws cymunedau a'r Ynys gyfan.

5.3 Mae nifer disgwyliedig y dibynyddion fydd yn symud i'r Ynys (480) yn bryder oherwydd bydd hynny'n effeithio ar ysgolion, gwasanaethau a chymunedau, ac mae CSYM yn gofyn am fwy o eglurder a phendantrwydd o ran union niferoedd y dibynyddion a ddisgwylir, fel y gall hynny helpu i ddiffinio'r effaith ar ysgolion, gwasanaethau a chymunedau er mwyn gallu nodi camau lliniaru pendant.

5.4 Mae CSYM yn ddiweddar wedi mabwysiadu Strategaeth Iaith Gymraeg Ynys Môn 2016-2021, a dylai hwnnw fod yn ystyriaeth allweddol mewn perthynas ag unrhyw fesur a anelir at wella unrhyw fuddion a lleihau'r effeithiau negyddol ar yr Iaith Gymraeg. Mae CSYM yn credu bod angen mynd i'r afael â'r pwyntiau canlynol er mwyn sicrhau bod yr elfen hon yn cael ei hystyried a'i datrys yn briodol:

**Plant a Phobl Ifanc**

[11] Ymateb i Ymgynghoriad Cyhoeddus anffurfiol Pŵer Niwclear PNH ar y Diweddariad ar y Prosiect (Ionawr 2016) dyddiedig 24 Mawrth 2016, Atodiad 1, eitem 3.3

5.4.1 Cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc fydd yn eu galluogi i aros ar yr Ynys i weithio a byw

5.4.2 Cefnogi prosiectau sy'n sicrhau bod yr Iaith Gymraeg yn cael ei throsglwyddo o fewn teuluoedd, yn cynnwys teuluoedd o weithwyr (adeiladu a gweithredu) sy'n mewnfudo i'r ardal o ganlyniad i'r prosiect.

5.4.3 Cefnogi gwell adnoddau i ysgolion cynradd ac uwchradd a cholegau er mwyn hyrwyddo nifer y disgyblion sy'n dilyn pynciau STEM.

5.4.4 Ymrwymiad i gefnogi'r prosiect trwytho / dysgu iaith yn nalgylchoedd y 5 ysgol uwchradd (tîm teithiol o 6 / neu Ganolfan Iaith ym mhob un)

5.4.5 Adnoddau digonol er mwyn hyrwyddo a monitro'r Siarter Iaith.

5.4.6 Ymrwymiad i ariannu Cydlynwyr Gweithgareddau Cymdeithasol Cymraeg ar gyfer plant a phobl ifanc

**Y Gweithlu**

5.4.7 Sicrhau bod pob prentis yn gallu siarad Cymraeg neu eu bod yn cael cyfle i ddysgu Cymraeg fel rhan o'u hyfforddiant

5.4.8 Sicrhau bod PNH, Menter Newydd a'r gadwyn gyflenwi raeadrol yn ymrwymo i fesurau sy'n hyrwyddo cyflogi pobl leol drwy'r Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau drwy hysbysebu swyddi yn lleol ar y cychwyn a drwy ddarparu cyfleoedd i hyfforddi ac uwchraddio sgiliau pobl leol cyn ymestyn y rhwyd.

5.4.9 Datblygu pecynnau i bob gweithiwr yn Wylfa Newydd er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Iaith Gymraeg a'r diwylliant Cymraeg.

5.4.10 Hwyluso a/neu ariannu ymgyrchoedd marchnata er mwyn tracio gweithwyr mudol a'u denu'n ôl i Ynys Môn.

**Y Gymuned**

5.4.11 Creu proffiliau iaith ar gyfer pob ward ar Ynys Môn er mwyn hysbysu lleoli gweithwyr yn strategol.

5.5 Nodir bod yr Ardal Astudiaeth Economaidd Gymdeithasol Allweddol (AAEG) yn yr adroddiad interim AEIG wedi ei his rannu i'r is ardaloedd canlynol:

- Gogledd Ynys Môn;
- Gorllewin Ynys Môn;
- De Ynys Môn; a
- Thir Mawr Menai

Nid yw hyn wedi'i alinio â'r strategaeth sy'n rhannu'r ardaloedd yma ymhellach yn wardiau, na gyda'r ardaloedd lleol dylanwadol a nodir yn nhabl 4.1. Gofynnir i PNH ystyried mireinio'r ardaloedd yma cyn yr AEIG terfynol.

5.6 Mae'r ymrwymiad cychwynnol a ddangoswyd gan PNH yn y gweithdai cynnar gyda'r bwriad o ddatblygu cynllun gweithredu a strategaeth liniaru yn cael ei groesawu ac mae CSYM yn parhau i fod yn ymrwymedig i barhau â'r ddeialog hon.

**C6 Mae Adroddiad Interim Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn nodi ein cynigion cychwynnol ar gyfer gwella'r buddion a lleihau effeithiau negyddol y Prosiect ar iechyd a llesiant.**
**Os gwelwch yn dda allwch chi ddarparu eich sylwadau ar fuddion posibl a risgiau posibl i'ch llesiant y buasech yn disgwyl iddynt ddeillio o'r Orsaf Niwclear? Os gallwch, dywedwch wrthym sut all y rhain effeithio ar safbwyntiau cyffredinol ynglŷn â'r Prosiect**

## Fframwaith Deddfwriaethol Cymru

6.0 Yn yr un modd ag yn achos yr Iaith Gymraeg a Diwylliant, mae'n rhaid trin Llesiant, yn cynnwys iechyd, fel thema holl gynhwysfawr sy'n tanategu ein hystyriaeth o effeithiau a chamau lliniaru mewn perthynas â Wylfa Newydd. Mae gan lesiant statws statudol yng Nghymru[12] a dylid rhoi mwy o bwys arno yn yr asesiad hwn.

## Cwmpas a Chyfyngiadau'r Asesiad

6.1 Mae cwmpas presennol y HIAIR yn canolbwyntio ar asesiad cyfyng a dwfn o iechyd cyhoeddus a materion iechyd amgylcheddol ac nid yw'n ystyried effeithiau ehangach Wylfa Newydd ar iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant. Mae CSYM wedi codi'r mater hwn eisoes[13]. Mae'r HIAIR yn trafod y galw am wasanaethau meddygol a gofal iechyd ond nid yw'n cyfeirio o gwbl at wasanaethau gofal cymdeithasol a llesiant. Mae hyn yn hepgoriad arwyddocaol. Mae yna fylchau data arwyddocaol yn yr asesiad. Mae CSYM yn credu y dylai'r awdurdod a PNH weithio ar frys tuag at sefydlu gwaelodlin gyffredin y cytunir arni gan bartneriaid allweddol[14], er mwyn sicrhau bod risgiau ac effeithiau yn cael eu canfod ac y cytunir ar gamau lliniaru.

## Buddion posibl a'r risgiau posibl i lesiant

6.2 Mae'r cyfleoedd a'r effeithiau posibl fydd yn deillio o Wylfa Newydd ar gymunedau, iechyd a llesiant yn debygol o fod yn sylweddol. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Iechyd yn ymdrin yn rhannol â materion llesiant, ond hefyd mae angen eu hadlewyrchu'n llawn yn yr Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb, yr Iaith Gymraeg a'r Amgylchedd, a hefyd y bennod ar effeithiau cymunedol yn y Brif Ddogfen Ymgynghori.

[12] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 / Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
[13] Ymateb i Ymgynghoriad Cyhoeddus anffurfiol Pŵer Niwclear PNH ar y Diweddariad ar y Prosiect (Ionawr 2016) dyddiedig 24 Mawrth 2016
[14] Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, sefydliadau Golau Glas, Cyfoeth Naturiol Cymru, 3$^{ydd}$ Sector

6.3 Mae CSYM wedi paratoi sylwadau manwl ar y buddion a'r effeithiau negyddol yma; rhoddir crynodeb o'r prif themâu Llesiant yma a dylid eu darllen law yn llaw â'r ymateb thematig yn Atodiad A:

6.3.1 **Diogelu a cydlyniant cymunedol** - mae nifer o risgiau wedi cael eu hamlygu mewn perthynas â gwarchod plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed o ganlyniad uniongyrchol i ymddygiad sy'n ymwneud â chymryd risgiau, masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern. Mae'r ymddygiadau hyn yn effeithio'n niweidiol ar natur a chydlyniant cymunedau lleol. Mae diogelu yn fater i bawb a bydd angen sefydlu camau lliniaru er mwyn lleihau unrhyw risgiau posibl i ddiogelwch. Deellir fod PNH yn bwriadu llunio polisïau mewn perthynas ag ymddygiad gweithlu fydd yn pennu safon ymddygiad disgwyliedig clir. Mae CSYM yn credu yn credu y dylai PNH gymhwyso disgwyliadau ymddygiad cydnerth tebyg i'w gontractwyr. Mae Pennod 15.7 Atodiad A yn darparu rhestr gynhwysfawr, er nad yw'n gyflawn, o awgrymiadau ynglŷn â ffyrdd o wneud trefniadau er mwyn lleihau unrhyw risgiau posibl i ddiogelwch.

6.3.2 **Dadleoli gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol** - ni fydd dadleoli sgiliau/swyddi yn gyfyngedig i'r sector adeiladu. Bydd pobl a gyflogir mewn swyddi â chyflog isel a swyddi tymhorol yn cael eu denu at gyflogau uwch fydd yn cael eu cynnig yn Wylfa Newydd - yn arbennig y sector iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gritigol i economi'r Ynys. Mae'r sector iechyd a gofal cymdeithasol[15] mewn perygl o golli staff. Mae rhai o'r swyddi yma eisoes yn anodd eu llenwi. Gallai'r effeithiau ar wasanaethau critigol iawn i bobl hŷn ac sy'n agored i niwed fod yn bellgyrhaeddol iawn. Awgrymir y dylai lliniaru dadleoli swyddi iechyd a gofal cymdeithasol fod yn flaenoriaeth fel rhan o fater ehangach dadleoli llafur fel y trafodir hyn ym Mhennod 6 Atodiad A.

6.3.3 **Mynediad i wasanaethau: traffig a thrafnidiaeth** - mae'r gydnabyddiaeth yn yr HIAIR o'r effaith ar seilwaith trafnidiaeth leol yn parhau i fod yn annigonol, ac nid yw'r asesiad yn ystyried cydnerthedd y pontydd rhwng yr Ynys a'r tir mawr yn ddigonol. Bydd hyn yn effeithio'n sylweddol negyddol ar ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant a hefyd ar y bobl broffesiynol sy'n cefnogi eu hanghenion iechyd a gofal wrth iddynt deithio'n helaeth naill ai i gael mynediad i wasanaethau neu i ddarparu gwasanaethau. Mae dynodi effeithiau niweidiol cymedrol ar amseroedd teithio yn dilyn camau lliniaru[16] yn amlwg yn destun pryder a byddai CSYM yn croesawu trafodaeth ynglŷn â sut y gellir mynd i'r afael â hynny. Mae CSYM

[15] Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd, darparwyr gwasanaeth yn y sector preifat a'r sector gwirfoddol
[16] HIAIR, tabl 8.1

yn argymell bod angen rhoi mwy o ystyriaeth i'r mater hwn wrth drafod cydnerthedd y rhwydwaith priffyrdd er mwyn cytuno ar gamau lliniaru addas.

6.3.4 **Llesiant** - nid yw statws statudol llesiant yng Nghymru wedi cael ei adlewyrchu yn y HIAIR. Dylai PNH adlewyrchu llesiant ym mhob agwedd o Wylfa Newydd a'r datblygiadau cysylltiedig, ac fel yn achos yr Iaith Gymraeg dylid ei drin fel thema holl gynhwysfawr sy'n tanategu'r ystyriaeth a roddir i;r effeithiau a'r camau lliniaru.

6.3.5 **Asesiad o'r effaith ar iechyd yn seiliedig ar ofynion cyfyng** - Mae Wylfa Newydd yn brosiect cymhleth ac yn un sy'n esblygu. Bu i'r llif gwaith yma gychwyn nifer o flynyddoedd yn ôl oherwydd ei bod yn ofynnol i PNH baratoi Asesiad o'r Effaith ar Iechyd, fodd bynnag, yn y cyfamser, mae deddfwriaeth Gymreig newydd wedi dod i rym mewn perthynas ag iechyd a llesiant[17] sy'n cwmpasu effeithiau ar iechyd ond sy'n llawer ehangach o ran ei gynnwys fel y nodir hynny yn y 7 amcan llesiant cenedlaethol. Mae PAC2 yn seiliedig ar ofynion yr asesiad effaith ar iechyd gwreiddiol oedd yn fwy cyfyng, er gwaethaf nifer o drafodaethau ar y mater rhwng CSYM a'i bartneriaid Llesiant gyda PNH Mae'n rhaid ystyried deddfwriaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru fel yn achos unrhyw ddeddfwriaeth, ac mae'n rhaid i'r cwmpas ehangach yma gael ei adlewyrchu mewn unrhyw gais a gyflwynir.

6.3.6 **Ansawdd aer a sŵn** -mae angen cynllun i fonitro Nitrogen Deuocsid yn y datblygiad ac o'i gwmpas a lleoliadau eraill ar yr Ynys, ac o ystyried yr effeithiau posibl ar iechyd, dylid sefydlu dull o rybuddio pobl pan fo'r lefelau yn uchel. Disgwylir y bydd sŵn yn creu effaith sylweddol a disgwylir y bydd PNH yn cymryd camau lliniaru cydnerth er mwyn cyfyngu ar lefelau sŵn. Mae hyn yn arbennig o bwysig i gymunedau cyfagos. Mae'r mesurau lliniaru a gynigir yn yr HIAIR yn rhai cychwynnol ac nid ydynt yn fanwl ar hyn o bryd sy'n golygu ei bod yn anodd rhoi sylwadau adeiladol, er enghraifft "rydym yn ystyried sut y gellid darparu cymorth...er mwyn sicrhau bod mecanweithiau cwyno a riportio sŵn cydnerth yn cael eu sefydlu"[18]. Anogir PNH i drafod y cynigion yma gyda'r awdurdod cyn cyflwyno dim. Mae angen i gamau lliniaru a monitro sŵn gael eu nodi'n fanwl mewn unrhyw gais ac rydym yn awgrymu y bydd angen cynlluniau rheoli sŵn.

Gallai defnyddio Dalar Hir fel cyfleuster parcio a theithio hefyd arwain at effeithiau arwyddocaol ar ansawdd aer. Mae'r dudalen a hanner o wybodaeth sylfaenol yn gwbl annigonol er mwyn galluogi CSYM i ddeall y sefyllfa sylfaenol ac oherwydd hynny ni all ddeall maint y newid o ganlyniad i'r datblygiad arfaethedig. Er bydd yr arolwg tiwb

---

[17] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 / Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

[18] HIAIR, para 6.13

taeniad NO2, sy'n benodol ar gyfer y prosiect, yn ddefnyddiol ac yn helpu i sefydlu'r ansawdd aer sylfaenol, ni ystyrir bod y dull hwn yn ddigonol ar gyfer prosiect o'r maint yma. Nid yw'n eglur a oes unrhyw diwbiau taeniad wedi cael eu lleoli drwy ddefnyddio dull cyfeirio dadansoddwr cemegol ymoleuol fel y gellir datblygu ffactor addasu tuedd sy'n benodol ar gyfer y prosiect. O ystyried yr effeithiau adeiladu sylweddol, gobeithir hefyd y byddai arolwg llwch a gronynnau yn cael ei sefydlu fel y gellir mesur crynodiadau sylfaenol a chyfraddau dyddodi a'u cymharu â chrynodiadau a chyfraddau dyddodi yn ystod y cyfnod adeiladu.

6.3.7 **Ymgysylltu ac ymgynghori -** mae yna risgiau yn gysylltiedig â methu ag ymgysylltu ac ymgynghori â chymunedau lleol a grwpiau yr effeithir arnynt, ac mae hynny'n cynnwys pobl sy'n agored i niwed a grwpiau anodd eu cyrraedd ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant. Felly dylai PNH fabwysiadu fframwaith Egwyddorion Ymgysylltu Cyhoeddus Cenedlaethol Cyfranogaeth Cymru fel sylfaen i raglen ymgysylltu ac ymgynghori gydnerth â chymunedau lleol a grwpiau sy'n agored i niwed.

6.4 Mae cynnwys effeithiau tai yn yr asesiad hwn yn cael ei groesawu ond mae'r camau lliniaru a gynigir yn rhy amwys ac ar lefel rhy uchel i'n galluogi i roi sylwadau ystyrlon ar hyn o bryd.

6.5 Gweler adran berthnasol CCA Gorsaf Niwclear Newydd i gael mwy o gyngor ac arweiniad ynglŷn â sut mae CSYM yn disgwyl y bwrir ymlaen â'r materion sy'n gysylltiedig â'r maes thematig hwn.

**C7 Rydym eisiau lleihau'r effeithiau posibl ar faterion cymdeithasol a materioncydraddoldeb ar Ynys Môn. Mae ein gwaith cychwynnol i'w gael yn Adroddiad Interim Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb.**
**A oes gennych unrhyw wybodaeth ar faterion cydraddoldeb ar Ynys Môn, neu awgrymiadau ynglŷn â mesurau i helpu i leihau'r effeithiau, allai ein helpu wrth i ni weithio mwy ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb?**

## Fframwaith Deddfwriaethol Cymru

7.0 Mae *Cymru fwy cydradd* yn un o'r 7 Amcan Llesiant Cenedlaethol. Mae'n rhaid trin Llesiant fel thema holl gynhwysfawr sy'n tanategu ein hystyriaeth o effeithiau a chamau lliniaru mewn perthynas â Wylfa Newydd. Mae gan Lesiant[19] statws statudol yng Nghymru, nid yw'r Adroddiad Interim ar Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIAIR) yn adlewyrchu'r cyd-destun deddfwriaethol Cymreig yma.

## Cwmpas a Chyfyngiadau'r Asesiad

7.1 Mae cwmpas presennol EqIAIR wedi cael ei ddatblygu o fewn fframwaith gofynion deddfwriaethol Lloegr mewn perthynas â chydraddoldeb, ond mae angen iddo fod yn seiliedig ar ddyletswyddau penodol Gymreig[20]. Nid yw'r ystyriaeth a roddir i faterion cydlyniant yn yr EqIAIR yn adlewyrchu polisi cenedlaethol Cymru; dylid cynnal yr asesiad yn y cyd-destun hwn[21]. Mae'r EqIAIR yn trafod dehongliad cyfyng iawn o wasanaethau cyhoeddus, ac nid yw'n cyfeirio'n benodol o gwbl at wasanaethau a gomisiynir i fodloni anghenion iechyd, gofal a llesiant plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed. Hefyd, mae materion iechyd/salwch meddwl yn hepgoriad arwyddocaol oherwydd eu bod yn effeithio ac yn dylanwadu'n uniongyrchol ar grwpiau â nodweddion gwarchodedig. Mae yna fylchau data arwyddocaol yn yr asesiad. Mae CSYM yn credu y dylem weithio ar frys tuag at sefydlu gwaelodlin gyffredin y cytunir arni gan bartneriaid allweddol[22], er mwyn sicrhau bod risgiau ac effeithiau yn cael eu canfod ac y cytunir ar gamau lliniaru. Hefyd, fel yn achos yr asesiadau effaith eraill, ni ellir datblygu'r EqIAIR ac unrhyw gamau lliniaru ar eu pennau eu hunain heb roi ystyriaeth lawn i'r prosiect cyfan, ond mae cynigion Wylfa Newydd yn parhau i fod yn brin o fanylion, ac mae eglurder ynglŷn â'r materion hyn yn allweddol.

[19] Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 / Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
[20] Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 / Amcanion Cydraddoldeb 2016-2020 (Dyletswyddau Penodol i Gymru)
[21] Cynllun Cyflawni Cenedlaethol Cydlyniant Cymunedol 2016/17 (Llywodraeth Cymru) a'r Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Cymru Gyfan
[22] Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd, Iechyd Cyhoeddus Cymru, Sefydliadau Golau Glas, Cyfoeth Naturiol Cymru, 3$^{ydd}$ Sector

**Gwybodaeth am faterion cydraddoldeb a mesurau i helpu i leihau'r effeithiau**

7.2 Mae'r cyfleoedd a'r effeithiau posibl fydd yn deillio o Wylfa Newydd ar gymunedau, iechyd a llesiant yn sylweddol. Mae'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb yn ymdrin yn rhannol â materion cydraddoldeb, ond hefyd mae angen eu hadlewyrchu'n llawn yn yr Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd, yr Iaith Gymraeg a'r Amgylchedd, a hefyd y bennod ar effeithiau cymunedol yn y Brif Ddogfen Ymgynghori.

7.3 Er mwyn ateb y cwestiwn a ofynnwyd yn uniongyrchol, mae CSYM wedi darparu sylwadau manwl ar y buddion posibl a'r effeithiau negyddol, ac mae'r rhain i'w gweld yn y llythyr eglurhaol a'r atodiadau ategol, sy'n rhan o ymateb ffurfiol CSYM i PAC2. Isod ceir manylion am y themâu allweddol sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb y dylid eu darllen law yn llaw ag ymateb manwl CSYM i PAC2.

**7.3.1 Diogelu a chydlyniant cymunedol** - mae nifer o risgiau wedi cael eu hamlygu mewn perthynas â gwarchod plant, pobl ifanc ac oedolion sy'n agored i niwed (grwpiau â nodweddion gwarchodedig) o ganlyniad uniongyrchol i ymddygiad sy'n ymwneud â chymryd risgiau, masnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern. Mae'r ymddygiadau hyn yn effeithio'n niweidiol ar natur a chydlyniant cymunedau lleol. Mae diogelu yn fater i bawb a bydd angen sefydlu camau lliniaru er mwyn lleihau unrhyw risgiau posibl i ddiogelwch. Cyfeirir yn aml at gydlyniant cymunedol yn yr EqIAIR. Mae'r asesiad arfaethedig o gydlyniant cymunedol yn rhan sylfaenol o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb, ac oherwydd hynny mae angen ei gwblhau ar frys. Mae'n rhaid i'r asesiad cydlyniant yma nodi effeithiau posibl a darparu platfform ar gyfer ystyried camau lliniaru. Gallai'r effeithiau hyn fod yn bellgyrhaeddol. Byddai CSYM yn croesawu trafodaethau ynglŷn â'r asesiad o'r effaith ar gydlyniant a dylid ei gynnal â sefydliadau sy'n bartneriaid allweddol. Mae camau lliniaru posibl wedi eu nodi ym Mhennod 15.7 Atodiad A. Gellid ystyried y rhain eto ar ôl cwblhau'r asesiad.

**7.3.2 Mynediad i wasanaethau: traffig a thrafnidiaeth** - mae'r gydnabyddiaeth yn yr EqIAIR o'r effaith ar seilwaith trafnidiaeth leol yn parhau i fod yn annigonol, ac nid yw'r asesiad yn ystyried cydnerthedd y pontydd rhwng yr Ynys a'r tir mawr yn ddigonol. Bydd hyn yn arwain at effeithiau negyddol sylweddol ar ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant, ac mae nifer ohonynt yn grwpiau

â nodweddion gwarchodedig yn yr EqIAIR. Bydd yna hefyd effeithiau negyddol sylweddol ar y bobl broffesiynol sy’n cefnogi anghenion iechyd a gofal unigolion wrth iddynt deithio’n helaeth i ddarparu gwasanaethau. Mae CSYM yn argymell bod clinigau a chyfleusterau ychwanegol yn cael eu darparu ar draws yr Ynys er mwyn delio ag unrhyw effeithiau ar ddefnyddwyr gwasanaethau iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant.

**7.3.4 Llesiant** - nid yw sefyllfa statudol llesiant yng Nghymru wedi cael ei adlewyrchu yn y EqIAIR. Dylai PNH adlewyrchu llesiant ym mhob agwedd o Wylfa Newydd a’r datblygiadau cysylltiedig, ac fel yn achos yr Iaith Gymraeg dylid ei drin fel thema holl gynhwysfawr sy’n tanategu ein hystyriaeth a roddir i’r effeithiau a’r camau lliniaru.

**7.3.5 Dehongliad cyfyng** - Mae Wylfa Newydd yn brosiect cymhleth ac yn un sy’n esblygu. Mae’r EqIAIR presennol wedi cael ei ysgrifennu yn seiliedig ar friff/dehongliad cyfyng o gydraddoldeb ac mae ynddo ddiffyg sylwedd a gwerthfawrogiad o nodweddion yr Ynys. Hyd yma nid yw CSYM wedi gweld rhai o’r 5 strategaeth[23] a nodir yn yr asesiad fel camau lliniaru. Hefyd, dylai’r ddogfen gynnwys ystyriaeth i lety gweithwyr dros dro ar y safleoedd yng Nghaergybi. Nid yw’r EqIAIR yn cynnwys unrhyw gamau lliniaru er bod yr asesiad yn cyfeirio at adran E y ddogfen fel crynodeb o gamau lliniaru. Mae CSYM yn disgwyl i PNH sefydlu camau lliniaru cydnerth a chynaliadwy fel ymateb i effeithiau Wylfa Newydd.

**7.3.5 Ymgysylltu ac ymgynghori -** mae yna risgiau yn gysylltiedig â methu ag ymgysylltu ac ymgynghori â grwpiau â nodweddion gwarchodedig, cymunedau lleol a grwpiau eraill yr effeithir arnynt, ac mae hynny'n cynnwys pobl sy’n agored i niwed a grwpiau anodd eu cyrraedd ym maes iechyd, gofal cymdeithasol a llesiant. Felly dylai PNH fabwysiadu fframwaith Egwyddorion Ymgysylltu Cyhoeddus Cenedlaethol Cyfranogaeth Cymru fel sylfaen i raglen ymgysylltu ac ymgynghori gydnerth â chymunedau lleol a grwpiau sy’n agored i niwed. Dylai ymgysylltu â grwpiau o randdeiliaid sy’n uniongyrchol yn cynrychioli buddiannau grwpiau â nodweddion gwarchodedig fod yn rhan annatod o’r gweithgaredd hwn. Mae CSYM wedi codi’r mater hwn eisoes[24]. Mae CSYM a sefydliadau sy’n bartneriaid yn awyddus i gydweithio â PNH i sicrhau cydymffurfiaeth ag Egwyddorion Ymgysylltu Cyhoeddus Cenedlaethol Cyfranogaeth Cymru.

[23] Swyddi a Sgiliau, Mynediad Cyhoeddus a Hamdden, Ymgysylltu ag Addysg, Llety Gweithwyr Adeiladu a Thraffig a Thrafnidiaeth Integredig

[24] Diweddariad ar y Prosiect (Ionawr, 2016) a’r Adroddiad Cynnydd HIA (Chwefror, 2016)

**7.4** Gweler adran berthnasol CCA Gorsaf Niwclear Newydd i gael mwy o gyngor ac arweiniad ynglŷn â sut yr ydym yn disgwyl y bwrir ymlaen â’r materion sy’n gysylltiedig â’r maes thematig hwn.

**C8 Ar ôl derbyn y wybodaeth a ddarparwyd am ein Datblygiad Cysylltiedig, Cyfleusterau Gorsaf Bŵer Oddi Ar y Safle a Llety Gweithwyr Dros Dro Ar y Safle. A oes gennych unrhyw sylwadau ar:**

1. **Sut allwn wella'r cynllun a ffafrir, yn cynnwys materion megis gosodiad yr adeiladau ac ardaloedd parcio.**
2. **Sut allwn wella edrychiad allanol yr adeiladau, tirlunio a thrin ffiniau.**
3. **Y Etifeddiaeth arfaethedig ar gyfer pob safle.**

***(i)*** ***Rhosgoch***
***(ii)*** ***Llety Gweithwyr Dros Dro Ar y Safle***
***(iii)*** ***Garej Offer Brys Symudol (MEEG)***
***(iv)*** ***Canolfan Reoli Argyfwng Amgen/Labordy Arolwg Amgylcheddol (AECC/ESL)***
***(v)*** ***Kingsland / Cae Glas***
***(vi)*** ***Amlwch, ger Fferm Madyn i'r dwyrain a'r gorllewin o'r B5111***
***(vii)*** ***Fferm Madyn (tai parhaol)***
***(viii)*** ***Dalar Hir***
***(ix)*** ***Parc Cybi***

**Llenwch y bocsys ar ein ffurflen adborth ar gyfer pob safle yr ydych yn rhoi sylwadau arnynt:**

**8.0** Mae CSYM yn nodi y ceisir y manylion arfaethedig ar gyfer y Datblygiad Cysylltiedig, Cyfleusterau Gorsaf Bŵer Oddi Ar y Safle a Llety Gweithwyr Dros Dro Ar y Safle ar gyfer y safleoedd a restrir yn y cwestiwn. Mae CSYM, fel yr Awdurdod Lleol, wedi darparu sylwadau ar y safleoedd hyn fel ymateb i'r manylion a roddwyd heb ragfarn tuag at unrhyw benderfyniad yn y dyfodol gan unrhyw ran neu swyddogaeth sy'n perthyn i CSYM, ac at ddibenion yr ymgynghoriad hwn yn unig. Ni ellir ystyried bod unrhyw beth yn y sylwadau hyn yn cynrychioli safbwynt CSYM, fel yr Awdurdod Cynllunio, ar unrhyw un o'r materion a restrir petaent yn cael eu cynnwys mewn unrhyw gais, a byddir yn penderfynu ar ac yn ymateb i unrhyw gais o'r fath ar ei rinweddau. Hefyd, er bod CSYM wedi ymateb ar y materion a nodwyd sy'n benodol gysylltiedig â safleoedd, nid yw'r ymateb hwn yn gyfystyr â derbyn bod y safleoedd a ffafrir yn lleoliadau addas ar gyfer unrhyw un o'r datblygiadau a ystyrir.

**8.0 Sylwadau ar safleoedd penodol:**

**(i) Rhosgoch**

Mae CSYM yn credu nad yw'r llety gweithwyr dros dro yn Rhosgoch yn cydymffurfio â hierarchaeth ofodol y cynllun datblygu fel yr ymhelaethir ar hynny yn y CCA, a'i fod mewn lleoliad amhriodol oherwydd ei fod yn anghysbell, diffyg cysylltiadau trafnidiaeth cynaliadwy ac anallu i gyfrannu at strategaethau trafnidiaeth cynaliadwy presennol. Byddai'r cynnig i bob pwrpas yn arwain at greu anheddiad dros dro mewn lleoliad cefn gwlad agored sydd ymhell oddi wrth yr holl gyfleusterau y mae 'anheddiad' ei angen. Mae gan CSYM fwy o bryderon mewn perthynas â dibyniaeth gweithwyr adeiladu ar geir preifat i gael mynediad i'r safle a'r 1160 o ofodau parcio a ddarperir fel rhan o'r cynnig hwn yn ogystal â'r symudiad cerbydau o ganlyniad i hynny i ac o'r lleoliad anghysbell hwn.

Hefyd mae angen ystyried yr effeithiau ecolegol sy'n gysylltiedig â'r cynllun. Nid yw'r wybodaeth a geir yn y PEIR yn ddigonol er mwyn dilysu'r casgliadau a nodir. Nid yw'r adroddiad sylfaenol yn cynnwys dim gwybodaeth arolwg, yn cynnwys yr arolwg botanegol manwl y cyfeirir ato fel arolwg priodol.

Mae CSYM yn nodi bod y CWAS yn 5.8 yn dweud bod y llety o fath campws wedi cael ei symud er mwyn ei grynhoi y tu allan i anheddau yn dilyn ymgynghoriadau blaenorol. Nid yw'r awdurdod yn cytuno â'r datganiad hwn. Mae cynigion TCWA bob tro wedi cael eu crynhoi y tu allan i anheddau, ac yn benodol maent wedi eu cyfeirio tuag at Rosgoch ble mae gan PNH fuddiant mewn tir.

**(ii) MEEG**

Mae CSYM yn cefnogi'r safle hwn mewn egwyddor. Fel mae'r safle ar hyn o bryd, mae yna ddigon o gyfle i wella ei amwynder gweledol a gwella ei edrychiad cyffredinol tra'n sicrhau ei fod wedi ei sgrinio'n ddigonol ac wedi ei dirlunio oddi wrth gefn gwlad agored yng nghefn y safle ac eiddo preswyl cyfagos. Byddai CSYM yn annog deialog barhaus mewn perthynas â drafftio a mireinio'r cynigion ar gyfer y safle hwn. Er y cydnabyddir bod cyfleoedd yn bodoli, mae'r cyfleoedd hyn yn ddibynnol ar gyflwyno dyluniad sy'n ymarferol ac ar yr un pryd sy'n esiampl o safon bensaernïol uchel fel y trafodwyd hynny eisoes gyda Chomisiwn Dylunio Cymru. Mae'n bwysig bod y cynigion ar gyfer y safle nid yn unig yn cyflawni swyddogaeth strategol o ran gofynion cyffredinol y prosiect, ond dylent hefyd ddangos gwerthoedd ac ymrwymiad PNH i'r gymuned leol a thrigolion yr Ynys.

**(iii) AECC/ESL**

Mewn perthynas â'r cynigion ar gyfer cyfleuster AECC/ESL yng Nghefn Coch, mae CSYM yn deall ac yn derbyn bod lleoliad y cyfleuster hwn yn cael ei reoli'n rhannol gan feini prawf a bennir gan y Rheoleiddwyr. Ychydig o fanylion o sylwedd sydd wedi'u cyflwyno i CSYM sy'n egluro'r union fanylion a nodwyd gan y Swyddfa Dros Reoli Niwclear (ONR) o ran ei ofynion ei hun yn yr achos penodol hwn, sy'n dangos yn amlwg y byddai'n rhaid i'r cynnig a ystyrir ar hyn o bryd fod yn ddatblygiad adeiladu newydd fyddai'n cael ei godi yn y lleoliad penodol yma. Yn benodol, mae CSYM angen mwy o gyfiawnhad ynglŷn â pham

ac a yw'r safle tir gwyrdd yng nghefn gwlad yn cael ei ffafrio neu beidio yn hytrach na'r safle a ddatblygwyd eisoes yn ysgol Cylch-y-Garn allai fod yn ddewis amgen.

**(iv) Llety Gweithwyr Dros Dro Ar y Safle**

Ni chyflwynwyd unrhyw fanylion sy'n darparu dadansoddiad o'r personél adeiladu a diogelwch allweddol yr ystyrir eu bod yn gritigol drwy gydol y prif gyfnod adeiladu fel bod angen iddynt gael llety ar y lleoliad penodol yma. Petawn wedi derbyn y manylion hyn, efallai y byddai'n amlwg bod yna leoliadau eraill mwy priodol yn Ardal Datblygu Wylfa Newydd ble gellid lleoli llety'r gweithwyr allweddol. Mae'r rhesymeg PNH o leoli Llety Gweithwyr Dros Dro Ar y Safle yn y lleoliad arfordirol hwn ger SDdGA Tre'r Gof yn cael ei gwestiynu. Mae'n hanfodol bod dyluniad ac esblygiad y datblygiad yn rhoi sylw dyledus i natur amgylcheddol sensitif y safle er gwaetha'r ffaith y dylai gael ei ddylunio i'w ddefnyddio am gyfnod byr. Yn unol ag ysbryd Deddf Llesiant a Chenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) dylai unrhyw ddefnydd Etifeddiaeth, o leiaf, barhau i hwyluso mynediad cyhoeddus fel y gall pawb o bob lefel allu fwynhau'r lleoliad arfordirol deniadol hwn.

**v) Kingsland a Chae Glas**

Mae CSYM yn bendant yn cefnogi defnyddio Cae Glas a Kingsland fel llety gweithwyr dros dro. Yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd bydd y cais Mater a Gadwyd yn Ôl a gyflwynir yn golygu y bydd yn ofynnol i'r datblygiad gyrraedd safon Enghreifftiol oherwydd bod y ddau safle mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol "AHNE". O dan delerau'r caniatâd cynllunio mae hynny'n golygu safon eithriadol o uchel, datblygiad sympathetig a chynaliadwy sy'n briodol i gyd-destun y tirlun yn yr AHNE.

Mae CSYM yn cefnogi defnyddio Cae Glas yn llawn fel Etifeddiaeth, a hynny fel estyniad i bentref hamdden Penrhos, fydd yn darparu hyd at 315 o unedau gwyliau, a'r defnydd preswyl yn Kingsland ar gyfer hyd at 320 o unedau preswyl y bydd 50% ohonynt yn dai fforddiadwy.

**(vi) Amlwch A a B**

Er bod yr ymgynghoriad yn cael ei gynnal ar y safleoedd yma gyda'i gilydd, mae angen eu hystyried ar wahân oherwydd eu bod yn ddau safle ar wahân a bod rhinweddau cynllunio gwahanol yn perthyn i'r ddau.

Byddai'n llawer gwell gan CSYM weld o leiaf ychydig o dai parhaol yn cael eu cyflwyno ar safle Amlwch A o ystyried ei fod wedi ei neilltuo ar gyfer tai yn y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd arfaethedig. Nid yw dyluniad tri llawr y blociau llety dros dro a'u ffurf gromennog yn gydnaws â phatrwm yr anheddiad cyfagos, ac ystyrir y gallai'r blociau llety effeithio'n annerbyniol ar gymeriad ac edrychiad yr ardal.

Mae Amlwch B yn amlwg iawn o ran tirwedd ac effaith weledol oherwydd bod y safle yn amlwg mewn ardal sy'n rhan o'r Ardal Tirwedd Arbennig ac yn weledol o Fynydd Parys sydd ar Gofrestr Tirluniau o Bwysigrwydd Hanesyddol Eithriadol yng Nghymru. Nid yw dyluniad tri llawr y blociau llety dros dro a'u ffurf

cromennog yn gydnaws â phatrwm yr anheddiad cyfagos. Byddai effaith y cynnig yn cael ei waethygu gan leoli'r prif faes parcio ger yr A5025 yn hytrach na'i fod yn cael ei sgrinio gan adeilad. Er mwyn deall y posibilrwydd o effeithio ar ddynodiadau tirwedd, a'r effeithiau gweledol agosach ar yr anheddiad presennol, bydd CSYM angen casgliad o luniau o olygfannau allweddol y dylid cytuno arnynt yn gyntaf gyda Chyngor Môn er mwyn sefydlu potensial effeithiau arwyddocaol.

**(vii) Fferm Madyn**

Mae CSYM mewn egwyddor yn cefnogi lleoli llety gweithwyr parhaol yn Fferm Madyn. Dylid cadw'r anheddau arfaethedig oddi wrth y ffin ag eiddo masnachol sy'n ymylu â gogledd orllewin a gogledd ddwyrain y safle, a'u gosod a'u cyfeirio fel nad oes gan y prif ddrychiadau olygfeydd o'r adeiladau masnachol. Mae'r gosodiad a'r deunydd dangosol yn y dogfennau ymgynghori yn dangos anheddau sy'n agos iawn i'r ffin â'r adeiladau masnachol yma a bod eu drychiadau cefn yn wynebu'r adeiladau masnachol. Mae gan y trefniadau yma'r potensial i effeithio'n niweidiol ar amwynderau'r rhai sy'n byw yn yr anheddau hyn. Hefyd, mae gan y trefniadau hyn y potensial i lesteirio ac achosi cwynion mewn perthynas â gweithgareddau masnachol cyfreithiol yn y lleoliadau masnachol yma. Awgrymir y gallai cyfeirio'r anheddau arfaethedig yn briodol a chodi byffer wedi'i dirlunio ar hyd y ffin liniaru'r effeithiau hyn.

**(viii) Dalar Hir**

Nid yw pennu uchafswm o 30 munud ar gyfer cymudo rhwng y cyfleuster parcio a theithio a safle Wylfa wedi'i gyfiawnhau'n briodol. Y cyfiawnhad a roddir yw mai dyma'r uchafswm amser rhesymol pan fo gan weithwyr daith arall o'u blaenau, fodd bynnag nid yw hynny'n rhesymegol yn ardal chwilio ehangach TCWA sy'n darparu ar gyfer uchafswm cymudo o 30 munud yn hytrach na'r parth cymudo dyddiol i adeiladwyr o 90 munud o'r safle, neu'r "ardal teithio i'r gwaith safonol" a nodir yn y CWAS fel taith car o 60 munud. Byddai cymudo hirach i gyfleuster parcio a theithio yn Llangefni yn gydnaws â'r CWAS sy'n rhagdybio y bydd gweithwyr yn cael llety yn y dref oherwydd ei bod yn brif ganolfan gwasanaethau ac y byddai'n byrhau'r daith ymlaen i weithwyr fyddai'n teithio i'r dwyrain o fewn yr ardal teithio i'r gwaith safonol. Derbynnir y byddai Llangefni i'r dwyrain o anheddiad Caergybi, fodd bynnag cynigiwyd eisoes y byddai gweithwyr yn cael eu cludo mewn bysiau ar wahân o'r safleoedd yn ardal Caergybi, felly gellid archwilio dewisiadau eraill. Ni chredir y byddai teithio i Dalar Hir yn ddeniadol i weithwyr fyddai'n byw yn Llangefni oherwydd byddai'n golygu teithio i gyfeiriad sy'n groes i gyfeiriad safle Wylfa er mwyn cyrraedd y cyfleuster parcio a theithio. Mae "ffafriaeth gref" PNH tuag at un safle parcio a theithio ar ddwyrain yr Ynys[25] a pheidio cynnwys Llangefni wedi creu datrysiad is na'r safon sy'n diystyru un o brif anheddau'r Ynys. Mae'r broses o ddewis safleoedd yn ddiffygiol ac mae'n

[25] Tud. 19, 4.9

seiliedig ar ardal chwilio fympwyol na ellir ei chyfiawnhau sy'n diystyru un o brif anheddau'r Ynys ger yr A55.

Mae dewis Dalar Hir yn gwrthdaro'n amlwg â pholisi datblygu mewn cefn gwlad agored ac nid yw'n darparu unrhyw gyfle am gynigion Etifeddiaeth.

**Canolfan ymwelwyr**

**8.1** Mewn egwyddor mae CSYM yn cefnogi creu canolfan Ymwelwyr a Chyfryngau mewn perthynas ag anghenion datblygu Wylfa Newydd. Buasem yn croesawu mwy o ddeialog gyda PNH o ran creu a dylunio'r ganolfan hon, yr union leoliad a'r cyfnod adeiladu arfaethedig. Credir y dylai'r ganolfan gael ei datblygu yn gynt nag a gynlluniwyd er mwyn gwneud y mwyaf o botensial twristiaid a thrigolion sy'n dymuno gweld gwaith adeiladu'r Orsaf Niwclear Newydd. Mae'r safle a ffafrir gan PNH ar gyfer ei Ganolfan Ymwelwyr a Chyfryngau yn safle tir gwyrdd i bob pwrpas mewn lleoliad cefn gwlad agored deniadol annatblygedig sy'n ffinio â SDdGA Cae Gwyn ac sy'n cynnwys system tomen a ffos gynhanesyddol. Bydd angen i PNH roi sicrwydd a chyflwyno tystiolaeth ategol er mwyn profi y bydd unrhyw effeithiau amgylcheddol ac ecolegol niweidiol yn cael eu datrys. Mae CSYM yn gwerthfawrogi bod y cynllun hwn mewn cam cynnar yn y broses ddatblygu ac mai dim ond ychydig o wybodaeth sydd ar gael ar hyn o bryd. Wrth fwrw ymlaen, byddai CSYM yn croesawu mwy o ymgysylltu a thrafodaeth ar y Ganolfan Ymwelwyr a'i lleoliad arfaethedig.

**Canolfan logisteg**

**8.2** Mewn egwyddor byddai'r Ganolfan Logisteg wedi'i lleoli'n briodol ym Mharc Cybi mewn dyraniad diwydiannol ac yn gyffredinol byddai'n cydymffurfio â pholisïau'r Cynllun Datblygu fel y cyfeirir atynt yn y CCA. Mae hanes cynllunio'r safle hefyd yn dangos y byddai egwyddor y datblygiad yn dderbyniol, a rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer warws diwydiannol ar y safle. Byddai angen i PNH ddatrys pryderon ynglŷn â chapasiti Cyffordd 2 yr A55 er mwyn sicrhau y byddai'r gyffordd yn gallu ymdopi â'r senario traffig gwaethaf. Bydd angen modelu traffig ar gyffordd 2 a'r seilwaith cysylltiedig er mwyn deall a allai gwelliannau i'r gyffordd ymdopi â'r swm posibl y symudiadau cerbyd. Rydym yn argymell bod angen i'r modelu traffig gynnwys yr holl draffig cronnol a swm y traffig a ragamcanir ar gyfer y dyfodol megis o ganlyniad i Ddatblygiad Tir a Llynnoedd, Orthios, ehangu Parc Cybi a Pharc manwerthu Penrhos.

**8.3** Cefnogir hefyd y defnydd Etifeddiaeth a gynigir mewn perthynas â'r Cyfleuster Logisteg ar gyfer B8 (Storio a Dosbarthu) naill ai mewn cysylltiad â'r prosiect neu at ddiben cyflogaeth arall. Argymhellir bod cadarnhad yn cael ei roi ynghylch a fydd y defnydd Etifeddiaeth hwn yn angenrheidiol mewn cysylltiad â gweithredu Wylfa Newydd.

**Mae CSYM hefyd yn manteisio ar y cyfle hwn i ymateb i fethodoleg dewis safleoedd ac adroddiadau.**

## 8.4 Datblygiad cysylltiedig

**8.4.1** Mae CSYM yn credu bod yr adroddiadau ar ddewis safleoedd yn anghyson, nad ydynt yn cyfiawnhau'n briodol y meini prawf a ddefnyddir ac y dylanwadwyd yn gryf arnynt gan opsiynau tir a phryniannau presennol PNH yn hytrach na rhoi ystyriaeth deilwng i bolisi cynllunio a'r canllawiau lleoliadol a ddarperir gan CSYM mewn polisi cynllunio ac yn y CCA yn arbennig.

**8.4.2** Yn gyffredinol nid yw'r ymatebion i'r ymgynghoriad blaenorol wedi cael eu hystyried yn briodol wrth ddewis safleoedd. Cyfeirir atynt yn gryno iawn cyn eu diystyru ag ychydig iawn o dystiolaeth. Rhoddwyd ystyriaeth i rai ymatebion yn yr adran llety gweithwyr dros dro, ond ni newidiwyd dim ar y casgliadau.

**8.4.3** Nid yw'r rhagofynion gweithredol ar gyfer Datblygiad Cysylltiedig yr un fath ag yn achos y cyfleusterau niwclear oddi ar y safle, ac mae CSYM yn derbyn eu bod yn ddarostyngedig i rai gofynion lleoliadol a gofodol o dan y cyfundrefnau caniatáu perthnasol. Fodd bynnag, nid yw'r gofynion hyn a sut y'u cymhwyswyd fel hidlydd wedi cael eu nodi'n ddigon clir yn yr adroddiad ac nid yw CSYM yn derbyn bod achos addas wedi cael ei gyflwyno a bod yr holl safleoedd cymwys wedi cael eu hystyried yn briodol. Yn achos y DC, yr hyn a ffafrir gan PNH yw'r gofynion gweithredol, ac ni ellir rhoi iddynt yr un pwysigrwydd. Mae'r hyn a ffafrir gan PNH wedi cael ei ymgorffori mewn nifer o dybiaethau sy'n tanategu'r dull o ddewis safle, ac nid ydynt yn cael eu hegluro na'u cyfiawnhau yn llawn. Yr hyn sy'n destun pryder arbennig yw anwybyddu Llangefni yn llwyr er ei bod yn brif anheddiad ac yn ganolfan gwasanaethau ar yr Ynys.

**8.4.4** Mae peidio â chynnwys Llangefni yn y broses asesu 4 cam yn gogwyddo'r broses drwy ddiystyru nifer o safleoedd mawr. Mae'r ardal chwilio eang a nodir ym Mharagraff 3.22 yn gymudiad 30 munud i ganol Safle Wylfa ac yn 10 munud i'r A55 neu'r A5025. Y rhesymeg y tu ôl i hyn yw na fydd gweithwyr adeiladu sy'n gweithio shifftiau ac sy'n byw mewn llety pwrpasol eisiau teithio am fwy na 30 munud bob ffordd. Nid yw hynny'n gydnaws â'r ardaloedd chwilio ar gyfer pob math arall o lety yn y CWAS ble pennwyd 90 munud ar gyfer y parth cymudo dyddiol i weithwyr o'r safle, ac mae hynny'n ymestyn i Fangor. Mae'r "ardal teithio i'r gwaith safonol" a nodir yn y CWAS yn daith car o 60 munud, ac mae'n cynnwys Caergybi a Bangor, a byddai cyrraedd Bangor yn golygu mynd heibio Llangefni. Hefyd, mae'r ystyriaethau ar gyfer y cyfleuster parcio a theithio yn darparu ar gyfer uchafswm parth teithio o 30 munud oherwydd bod gan weithwyr daith arall i'w gwneud yn dilyn hynny. Nid yw'n eglur pam y disgwylir i amser cymudo hirach fod yn dderbyniol i'r holl weithwyr eraill tra byddai'n annerbyniol i weithwyr fyddai'n byw mewn llety

pwrpasol orfod cymudo am tua 40 i 45 munud i'r rhan fwyaf o'r safleoedd yn Llangefni. O ystyried bod yr adroddiad ar ddewis safle DC yn nodi bod Llangefni yn "agos iawn" i ymyl y parth cymudo 30 munud a ffafrir, nid yw'r eithrio hwn yn dderbyniol.

**8.4.5** Mae'r ystyriaeth ar wahân a roddir i safleoedd yn Llangefni yn annigonol ac nid yw'n gydnaws â chanllawiau'r CCA. Mae'r safleoedd yn Llangefni a nodwyd eu bod o bosibl yn addas, er y nodir bod ganddynt yr un cyfyngiadau â'r safleoedd yn Amlwch, yn cael eu diystyru ar sail amser teithio. Mae'r asesiad o'r safleoedd yma yn arwynebol ac mae'n ymddangos iddynt gael eu cynnwys dim ond er mwyn bodloni cais blaenorol gan CSYM iddynt gael eu hystyried ac i beidio â'u diystyru. Nid yw'r safleoedd a'r effeithiau yn cael eu sgorio'n briodol, ni roddir ystyriaeth i waddol bosibl ac ni asesir y cyfyngiadau amgylcheddol. Yn hytrach, disgrifiad cryno a'r amser teithio yw'r unig fanylion a roddir. Nid yw CSYM yn derbyn bod gwahaniaeth o 10 munud mewn amser teithio, fyddai'n dal o fewn yr ardal deithio i'r gwaith safonol, yn sail ddigonol i eithrio'r holl safleoedd. Ni ystyrir bod yr asesiad yn cydymffurfio â pholisi.

**8.4.6** Mae'r ymrwymiad i ddefnydd Etifeddiaeth yn is na'r safon ac nid yw'n cydymffurfio â'r CCA sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r rhain gael eu hystyried fel ffactorau wrth ddewis safleoedd.

## 8.5 Adroddiad ar Ddewis Safle Cyfleusterau Gorsaf Bŵer Oddi ar y Safle

**8.5.1** Nid yw'n glir pa safleoedd amgen eraill oedd yn rhan o'r ymgynghoriad.

**8.5.2** Nid yw cyfyngiad lleoliadol a gofynion gweithredol y gwahanol gyfleusterau yn cael eu nodi mewn unrhyw fanylder. Er enghraifft, gwyddys bod angen i rai cyfleusterau fod o fewn nifer penodol o gilomedrau i'r prif safle a bod y gofyniad hwn yn amlwg yn cyfyngu ar y safleoedd a ellir eu hystyried, ond nid yw hynny'n cael ei egluro'n llawn. Yn hytrach, nodir yn 6.10 bod pellter o 5km wedi cael ei "ddyrannu" i'r AECC a'r ESL er mwy sicrhau amseroedd ymateb priodol, ond effeithir ar amseroedd teithio i wahanol gyfeiriadau o'r prif safle gan y rhwydwaith ffyrdd yn ogystal â phellter pur, ac nid yw hynny wedi cael ei nodi.

**8.5.3** Mae Para 3.8 yn nodi bod PNH yn ffafrio cydleoli'r AECC a'r ESL ond nid yw'n egluro gofynion gweithredol y cyfleusterau yma na sut y byddent yn ategu ei gilydd mewn argyfwng, a hynny yw'r cyfiawnhad dros gydleoli'r ddau adeilad.

**8.5.4** Ni ddangosir bod ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried yn unrhyw le yn y fethodoleg. Er ei bod yn ymddangos bod Paragraff 5.2 yn awgrymu

bod safleoedd ychwanegol a nodwyd drwy ymgynghori cyhoeddus wedi cael eu hystyried, nid yw hynny'n cael ei egluro'n llawn.

**8.5.5** Pan fo ystyriaethau cynllunio ac amgylcheddol yn debyg rhwng y gwahanol safleoedd mae Paragraff 6.29 yn nodi bod ffactorau masnachol wedi cael eu hystyried wrth benderfynu ar safleoedd a ffafrir - nodir ym mharagraff 6.33 bod y safle a ffafrir ar gael ar delerau masnachol rhesymol, a bod hynny wedi rhoi mwy o bwys ar ddewis y safle hwnnw.

**9 C9 A oes gennych sylwadau ar ein cynigion ar gyfer gwella'r buddion neu leihau unrhyw effeithiau negyddol fydd yn deillio o'r Prosiect, neu unrhyw awgrymiadau y dylem eu hystyried er mwyn datblygu mwy ar ein cynigion?**

**9.0** Dylid darllen yr ateb hwn law yn llaw â Thema 11 (Etifeddiaeth) yr adroddiad strategol lefel uwch a gyflwynwyd fel rhan o ymateb CSYM.

**9.1** Ar hyn o bryd, mae nifer o'r cynigion i wella'r buddion ac i leihau a lliniaru'r effeithiau negyddol mewn perthynas ag agweddau datblygiad economaidd a chymdeithasol allweddol yn y tymor byr a'r hirdymor, sef cyflogaeth, cadwyn gyflenwi, datblygu sgiliau a hyfforddiant, twristiaeth, tai, iechyd a llesiant, cydlyniant cymunedol a darparu gwasanaethau, yn amwys eu disgrifiadau ac yn brin o fanylder o ran meintoli, amseru, hyd y cyfnod a chyflawni. Hefyd ceir amryw o gyfeiriadau at waith ar y gweill ac addewidion am fwy o wybodaeth ar fesurau i wella buddion a lleihau effeithiau negyddol, ond heb y cynigion yma mae'n anodd rhoi sylwadau arnynt.

**9.2** Mewn nifer o enghreifftiau, bydd yn anodd rhagamcanu pa effeithiau fydd yn deillio o ddatblygiad Wylfa Newydd yn y dyfodol. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys yr effaith ar y farchnad lafur a chyflogwyr presennol o ran dadleoli a chwyddiant cyflog, ac yn gysylltiedig â hynny ceir yr effeithiau ar sectorau allweddol yr economi yn cynnwys twristiaeth, adeiladu a gwasanaethau ategol a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.

**9.3** Mae CSYM yn awgrymu y dylai PNH roi mwy o ystyriaeth i gefnogi codi mwy o dai parhaol wedi eu gwasgaru ar draws yr Ynys yn ychwanegol at yr hanner cant o unedau a gynigir ar gyfer Fferm Madyn. Byddai hynny nid yn unig yn helpu i fynd i'r afael â'r effeithiau ar y farchnad dai o ganlyniad i weithwyr PNH yn prynu tai yn ystod y cyfnod adeiladu a'r galw fydd yn cael ei greu gan y swyddi gweithredol parhaus fydd yn parhau am sawl cenhedlaeth fydd yn golygu y bydd angen mwy nag un tŷ am bob swydd wrth i bobl ymddeol, ond bydd hefyd yn mynd i'r afael â nifer o'r effeithiau eraill fydd yn deillio o'r prosiect sy'n anoddach i'w mesur yn cynnwys cydlyniant cymunedol a'r Iaith Gymraeg.

**Gwella buddion**

**9.4** Ychydig o eglurder a geir mewn perthynas â sut fydd buddion y prosiect yn cael eu gwireddu mewn gwirionedd mewn amryw o enghreifftiau (sgiliau a chyfleoedd hyfforddi, cyfleoedd cyflogaeth, gwerth busnes i gwmnïau lleol) oherwydd ni cheir cyfeirio penodol at dargedau y gellir eu mesur, cwmpas, gwerth, amseru a hyd y cyfnod na'r mecanwaith fydd yn cael ei ddefnyddio i sicrhau y bydd y buddion hynny yn cael eu gwireddu. Dylid darparu cynlluniau buddsoddi drafft neu gynlluniau wedi'u cymeradwyo.

**9.5** Beth yw'r cyllid sy'n cael ei rhoi i Grŵp Llandrillo Menai? Maint a natur yr allbynnau? Trwybwn pobl - a oes ganddo'r capasiti i ddarparu'r niferoedd yma? Sut mae'r hyfforddiant cysylltiedig â'r cyfnod adeiladu a'r hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r cyfnod gweithredu yn cael ei ddadansoddi? Am ba hyd mae darpariaeth y rhaglen ymgysylltu addysg yn para? A ellir ymestyn hynny os bydd angen ? Mewn termau ehangach, am ba hyd fydd y strategaeth swyddi a sgiliau yn bodoli? Am ba hyd mae darpariaeth rhaglen ymgysylltu â chyflenwyr a hyrwyddo cyfleoedd contractau yn para?

**9.6** Asesiad o ddadleoli ac anghenion dilynol - mae yna angen i ddeall yr effeithiau ar sectorau heblaw'r sector adeiladu e.e. cyfleoedd o lefel rheoli uwch a phroffesiynol i swyddogaethau ategol megis bwyd, arlwyo, diogelwch, gweinyddu, iechyd a gofal cymdeithasol etc. - nid oes manylion yma ac mae hynny'n effeithio ar y gallu i adnabod y potensial i wneud y mwyaf o lafur lleol. Mae hyn yn gritigol. Pan fo hyn yn cael ei ddeall yn well bydd yn hysbysu natur yr hyfforddiant a'r adnoddau ariannol cysylltiedig fydd yn cael eu darparu er mwyn lliniaru'r effeithiau ar gyflogaeth, darpariaeth sgiliau a dadleoli llafur.

**9.7** Mae yna ffocws ar godi ymwybyddiaeth a gwaith allgymorth gydag ysgolion, ond ychydig iawn ar fuddsoddiad. Beth yw'r cynigion a gyflwynir ar gyfer buddsoddi? Mae'r strategaeth ymgysylltu Addysg yn canolbwyntio'n helaeth ar y sector ôl 16 oed a thu hwnt "codi ymwybyddiaeth ymysg y grŵp ôl 16 oed", ond ychydig iawn o fanylion neu gynigion mewn perthynas â buddsoddi a geir. Bydd y buddsoddiad yma yn gritigol er mwyn i fuddion hirdymor a chyflenwad llafur gael eu gwireddu. Cynigir cronfa fuddsoddi ar gyfer uwchraddio cyfleusterau dysgu gwyddoniaeth a thechnoleg ar draws y pum ysgol uwchradd er mwyn helpu i fynd i'r afael â hynny yn ogystal ag uwchraddio sgiliau dysgu pynciau STEM athrawon cynradd lleol ac athrawon technoleg a gwyddoniaeth arbenigol mewn ysgolion uwchradd.

### Lleihau effeithiau negyddol

**9.8** Mae angen meddwl am sut mae'r Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau yn monitro'r effeithiau negyddol yn gyffredinol, ac yn benodol materion mewn perthynas â dadleoli llafur ym myd busnes ac effeithiau negyddol eraill mewn perthynas â'r sector ymwelwyr e.e. nifer yr ymwelwyr ac effeithiau ar wariant?

**9.9** Pa ddarpariaeth a gynigir er mwyn caniatáu derbyn gwybodaeth gan PNH/Menter Newydd a chyflenwyr dilynol er mwyn deall cynnydd o ran a) Nifer y bobl leol mewn swyddi b) gwerth a nifer y contractau a ddyfarnwyd c) Nifer y prentisiaethau/lleoliadau hyfforddi a ddarparwyd.

**9.10** Pa reolaeth fydd gennych er mwyn cymell gweithwyr i ddefnyddio llety dros dro? Pa gynlluniau wrth gefn a sefydlwyd os na fydd cyflenwad addas o lety dros dro ar gael? Sut y telir am y llety - o gyflogau (cyn neu ar ôl iddynt gael eu talu)/fel budd-dal?

**9.11** Ar hyn o bryd nid oes yna lawer o fanylion ynglŷn â dadleoli a pha hyfforddiant sydd ar gael ar gyfer crefftwyr a “swyddi eraill sy’n ategu’r gwaith adeiladu” er mwyn lliniaru hyn. (8.44 Prif ddogfen ymgynghori) A ddylid datblygu cynnig penodol er mwyn ymateb i hyn?

**9.12** Dylid buddsoddi mwy er mwyn hyfforddi a darparu llafur er mwyn “ôl lenwi” swyddi gwag a adewir gan y rhai fydd yn symud i weithio yn ystod gwahanol gyfnodau datblygu Wylfa Newydd a’r datblygiad cysylltiedig.

**Unrhyw awgrymiadau eraill**

**9.13** Beth yw’r posibiliadau o ddefnyddio arbenigedd presennol/cyfredol Wylfa yn ystod gwahanol gyfnodau prosiect Wylfa Newydd, mae hynny’n cael ei archwilio, ond a allwn gael awgrym o’r niferoedd a ellid eu trosglwyddo?

**9.14** Mae angen adnoddau ar gyfer hyfforddiant mewn sectorau ehangach fyddai’n dioddef o ganlyniad i effeithiau dadleoli e.e. sector bwyd, lletygarwch/arlwyo, iechyd a gofal cymdeithasol a meysydd eraill allai gefnogi cam adeiladu’r prosiect er mwyn lleihau effaith colli cyflogaeth mewn busnesau sy’n bodoli a sicrhau cyflenwad o weithwyr medrus addas.

**9.15** Ymchwilio i botensial trosglwyddo llafur hyfforddedig o’r cam adeiladu i’r cam gweithredol - edrych ar gyfleoedd mewn perthynas â swyddi proffesiynol/rheoli, peirianneg sifil/mecanyddol/trydanol, crefftwyr a chefnogaeth. Sefydlu pecyn cyflogaeth a hyfforddiant “oes” er mwyn dangos ymrwymiad hirdymor a hirhoedledd cyfleoedd economaidd a chymdeithasol.

**9.16** Mewn nifer o enghreifftiau (e.e. Strategaeth swyddi a sgiliau/Strategaeth ymgysylltu addysg/Strategaeth Iechyd a Llesiant) ni ddarparwyd gwybodaeth. Mae Adran Addysg CSYM yn awyddus i ymgysylltu a chydweithio’n fwy effeithiol wrth symud ymlaen.

**9.17** Mae diogelwch, ffordd o fyw ac ymddygiad yn faterion sy’n achosi pryder sylweddol a byddant yn effeithio ar gydlyniant cymunedol mewn cymunedau lleol. Mae angen mwy o fanylion er mwyn sefydlu trefniadau diogelu cydnerth. Ynghyd â sefydliadau sy’n bartneriaid rydym yn awyddus i ymgysylltu a chydweithio er mwyn sicrhau monitro a threfniadau diogelu cydnerth ac integredig er mwyn lleihau unrhyw rigiau posibl i ddiogelwch yn ystod y cyfnod adeiladu a thu hwnt.

**9.18** Dylid rhoi mwy o amlygrwydd / cydnabyddiaeth yn y ddogfen i bobl sy'n byw mewn cymunedau cyfagos.

## 10 Cwestiwn 10 Dogfen Trosolwg o'r Ymgynghoriad - Uwchgynllun Tirlunio ac Amgylcheddol (LEMP)

**A oes gennych unrhyw sylwadau ar y gwelliannau canlynol yr ydym ni (PNH) wedi eu gwneud i'r LEMP, neu'r cynigion yma yn gyffredinol?**

**Lefel tir adeiladau'r Orsaf Niwclear, er mwyn lleihau effeithiau gweledol ar yr ardaloedd i'r de o Safle'r Orsaf Bŵer**

**Siâp ac uchder y twmpathau o gwmpas yr adeilad hyfforddi a'r efelychwr, er mwyn lleihau'r effeithiau gweledol ar yr ardal i'r De o safle'r Orsaf Bŵer**

**Y Llety Gweithwyr Dros Dro Ar y Safle i adlewyrchu'r dyluniad tai diweddaraf a'r gwaith adeiladu yn yr ardal**

**Proffil ac uchder y twmpathau sydd agosaf i gymunedau presennol.**

**10.0** Mae CSYM yn parhau i fod yn bryderus ynglŷn â chadw 10 miliwn tunnell giwbig o ddeunydd ar y safle, fydd yn cael ei waethygu gan y ffaith bod PNH yn dal i fynnu y bydd yr holl ddeunydd a gloddir yn aros ar y safle ac nad oes dim darpariaeth amgen wedi cael ei ystyried fel ffactor yn y cyfrifiadau er gwaethaf y cyngor yr ydym wedi ei roi dro ar ôl tro[26].

### Lefel tir adeiladau'r Orsaf Niwclear, er mwyn lleihau effeithiau gweledol ar yr ardaloedd i'r de o Safle'r Orsaf Bŵer

**10.1** Mae CSYM yn deall nad yw lefelau tir terfynol ar gyfer safle'r Orsaf Bŵer ei hun heb gael eu cadarnhau eto oherwydd bod gwahanol senarios wedi'u cyflwyno gan PNH. Mae hyn yn arwain at wahanol ddyfnderoedd o gloddio ac ar y swm o ddeunydd fydd yn cael ei dynnu o ganlyniad i hynny, a bydd hynny yn ei dro yn effeithio'n uniongyrchol ar faint o ddeunydd fydd y cael ei ailgylchu ar y safle a'i ddefnyddio fel rhan o waith ailbroffilio'r tir gan PNH a'r tir sy'n amgylchynu'r Orsaf Bŵer a'i hadeiladau cysylltiedig. Mae angen trafod yr opsiwn a ffafrir er mwyn deall beth yw'r ffordd orau o leihau effeithiau gweledol niweidiol ar ardaloedd i'r de o Safle'r Orsaf Bŵer.

### Siâp ac uchder y twmpathau o gwmpas yr adeilad hyfforddi a'r efelychwr, er mwyn lleihau'r effeithiau gweledol ar yr ardal i'r De o safle'r Orsaf Bŵer

**10.2** Mae'n ymddangos bod siâp ac uchder y twmpathau o gwmpas yr adeiladu hyfforddi a'r efelychwr yn addasiadau diweddar, ac ni chytunwyd hyd yma ar ddyluniad terfynol yr adeilad nac ar broffilio'r deunydd fydd yn amgylchynu'r strwythur hwn.

[26] Ymateb Cyngor Sir Ynys Môn i'r Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio Cam Cyntaf (PAC1) Pŵer Niwclear PNH dyddiedig 04 Rhagfyr 2014 Atodiad 2; Ymateb i Ymgynghoriad Cyhoeddus anffurfiol Pŵer Niwclear PNH ar y Diweddariad ar y Prosiect (Ionawr 2016) dyddiedig 24 Mawrth 2016, atodiad 1 eitem 13

**10.3** Mae CSYM yn awgrymu'n gryf eich bod yn parhau i weithio ac i fireinio'r ddwy elfen yma o'r prosiect (dyluniad yr adeilad a thirlunio) gyda'i gilydd yn hytrach na'u hystyried fel dau becyn gwaith ar wahân os ydych am lwyddo i gael datrysiad effeithiol yn y lleoliad critigol hwn sy'n weledol iawn o leoliadau sy'n hygyrch i'r cyhoedd.

**10.4** Gan fod PNH yn parhau i fynnu y bydd yr holl ddeunydd a gloddir yn cael ei gadw ar y safle, mae'n hanfodol bod yr ymagwedd uchod yn cael ei fabwysiadu os ydych am lwyddo i gael datrysiad effeithiol a bod y risg o lif gwaddod yn cael ei leihau. Gallai unrhyw ymagwedd amgen arwain at lethrau artiffisial ac annymunol a/neu ryngweithio niweidiol rhwng y ffurf adeiledig â'r topograffi o'i gwmpas.

**Y Llety Gweithwyr Dros Dro Ar y Safle i adlewyrchu'r dyluniad tai diweddaraf a'r gwaith adeiladu yn yr ardal**

**10.5** Mae CSYM eisoes wedi mynegi pryderon mewn perthynas ag addasrwydd y lleoliad yn ogystal â niferoedd y 'gweithwyr allweddol' y mae PNH yn nodi sydd ei angen arnynt ar y safle yn ogystal â hyd y cyfnod.

**10.6** Ar hyn o bryd byddai'r hyn a gynigir, o'i weld o ardaloedd sy'n hygyrch i'r cyhoedd, yn cael ei fframio yn erbyn cefndir yr Orsaf Bŵer Magnox bresennol a'r strwythurau o'i chwmpas. O ystyried sensitifrwydd amgylcheddol y lleoliad hwn mewn lleoliad arfordirol agored, mae'n hanfodol bod y dyluniad terfynol yn rhoi ystyriaeth i'r materion hynny.

**10.7** Byddai CSYM yn croesawu mwy o ddeialog a thrafodaethau mewn perthynas â hyn er mwyn lleihau unrhyw effeithiau gweledol ac amgylcheddol hirdymor niweidiol ar y lleoliad arfordirol deniadol yma sydd wedi ei leoli rhwng Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig i'r dwyrain a Gwarchodfa Natur Leol i'r gogledd a thomen Y Fonesig Sylvia i'r de.

**Proffil ac uchder y twmpathau sydd agosaf i gymunedau presennol.**

**10.8** Ni fyddir yn gallu mesur effaith y LEMP yn llawn ar ddefnyddwyr tir cyfagos nes y rhoddir sicrwydd ynglŷn â'r dyluniad terfynol a beth fydd y lefelau tir cytunedig terfynol. Bydd yr effaith ar dirfeddianwyr cyfagos ar ei waethaf yn ystod y cyfnod adeiladu, a bydd yr effeithiau hynny yn arwyddocaol. Felly mae'n hanfodol bod datrysiadau lliniaru helaeth yn cael eu rhaglennu i'r amserlen adeiladu ac yn cael eu defnyddio ddigon ymlaen llaw er mwyn ymdrechu i gyfyngu ar yr effeithiau ar y cymunedau cyfagos a'u trigolion.

**10.9** Nid yw uchder, màs na siâp y twmpathau wedi cael eu cadarnhau eto, er mai'r opsiwn a ffafrir yw tirlun o borfa siâp drymlin â llethr graddol fel lleoliad ar gyfer yr orsaf bŵer newydd, ac eto mae angen amlygu'r risg o lif gwaddod.

**10.10** Mae hyn yn cyferbynnu â lleoliad presennol 'Wylfa A' sy'n gyfuniad o dwmpathau serth a choetir wedi ei blannu. Mae'r ymagwedd hon yn golygu bod y prif sgrinio yn agos at y prif adweithydd gyda thirwedd amaethyddol traddodiadol ar ymylon y safle. Mae angen mwy o ystyriaeth wrth ddatblygu'r LEMP er mwyn cynnwys plannu mwy o goetir strategol fel rhan o'r camau lliniaru cyffredinol, ac esmwytho'r ffurf adeiledig.

**10.11** Mae CSYM eto'n pwysleisio pwysigrwydd plannu ymlaen llaw oddi ar y safle a chymryd camau lliniaru mewn ardaloedd strategol, megis y camau digolledu bioamrywiaeth a gymerodd PNH er mwyn ymdrechu i liniaru effeithiau gweledol yr adeiladau a helpu iddynt gydweddu â'r dirwedd ehangach.

**10.12** Drwy gyfrwng sylwadau cyffredinol ac adborth ar ymdrechion PNH i fireinio eu LEMP, cydnabyddir bod y broses hon yn parhau i esblygu ac nad yw wedi ei chwblhau eto. Gobeithir y bydd CSYM yn parhau i fod yn barti i'r broses wrth i'r cynigion hyn gael eu mireinio ar gyfer eu cyflwyno. Fodd bynnag, safbwynt CSYM o hyd yw y bydd y dyluniad terfynol yn cael ei arwain yn sylfaenol gan y ffaith nad yw PNH yn dymuno symud deunydd oddi ar y safle er gwaethaf unrhyw effaith negyddol allai hynny ei greu ar y cynigion tirlunio terfynol, a bod hyn, yn unol â hynny, yn cyfyngu'r cynigion sy'n debygol o gael eu cyflwyno ac nad yw'n blaenoriaethu dylunio da ac ystyriaethau gweledol a thirlunio hirdymor ar draul yr hyn a ffafrir o ran symud deunyddiau.

**11 C11 A oes gennych unrhyw sylwadau ar yr Adroddiad ar y Wybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol?**

**11.0** Rydym yn croesawu derbyn y PEIR ac yn ei adolygiad mae wedi nodi nifer o themâu cyffredin. Rydym yn derbyn bod y ddogfen yn cynnwys gwybodaeth gychwynnol, ond credwn nad oes digon o wybodaeth mewn nifer o benodau er mwyn ein galluogi i lunio ein casgliadau ein hunain mewn perthynas ag effeithiau amgylcheddol tebygol y prosiect. Yn ei hanfod, mae'r casgliadau a gofnodwyd yn y gwahanol benodau yn golygu bod rhaid i CSYM eu derbyn fel ag y maent heb ddigon o ddata sylfaenol. Felly rydym yn awyddus i barhau i weithio gyda PNH wrth i'r penodau asesu esblygu ac wrth i'r wybodaeth sylfaenol gael ei chasglu er mwyn sicrhau bod digon o wybodaeth yn y datganiad amgylcheddol.

**11.1** Mae Cyngor Technegol 6 yr Arolygiaeth Cynllunio 'Paratoi a chyflwyno dogfennau cais' yn rhoi cyngor ar gyflwyno'r wybodaeth a geir mewn datganiad amgylcheddol yn cynnwys gwybodaeth am ffigyrau a lluniadau, a gofyniad i ddarparu'r holl arolygon sylfaenol y dibynnir arnynt yn yr asesiad. Rydym yn cynghori PNH i ddilyn y canllawiau a geir yn y ddogfen wrth baratoi'r dogfennau cyflwyno. Hefyd, dylai ystyried trafod y ffordd fwyaf priodol o gyflwyno'r datganiad amgylcheddol gyda'r Arolygiaeth Cynllunio o ystyried y gwersi fydd wedi eu dysgu o geisiadau eraill. Buasem yn croesawu'r cyfle i fod yn rhan o drafodaeth o'r fath gyda'r nod cyffredin o gynhyrchu casgliad o ddogfennau amgylcheddol y gellir llywio drwyddynt yn hawdd.

**11.2** Darperir ymateb manwl i'r PEIR yn Nogfen ymateb CSYM i PEIR PAC2.

# ATODIAD C

# YMATEB I'R YMGYNGHORIAD AR GAM 2 YR ADRODDIAD PEI

## 1 Cyflwyniad

### 1.1 Cefndir

1.1.1 Ar 31 Awst 2016 cychwynnodd Pŵer Niwclear PNH Wylfa Limited (PNH) ar ymgynghoriad cam 2 cyn ymgeisio ar ei gynigion ar gyfer gorsaf bŵer niwclear newydd Wylfa, a'r datblygiadau a'r cyfleusterau cysylltiedig.

1.1.2 Mae'r ymgynghoriad yn cynnwys nifer o ddogfennau sydd gyda'i gilydd yn rhoi gwybodaeth am y prosiect, ei esblygiad hyd yma a'r effeithiau posib ar yr amgylchedd (cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol) a allai godi.

1.1.3 Mae'r ddogfen hon yn cynnwys ymateb Cyngor Sir Ynys Môn (CSYM) i un o'r dogfennau ymgynghori, sef Cam 2 yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol (PEIR) a'i atodiadau cysylltiedig.

### 1.2 Rôl Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol

1.2.1 Mae Nodyn Cyngor 17 yr Arolygiaeth Gynllunio yn crynhoi rôl y PEIR. Wrth gyfeirio at Reoliadau Cynllunio Seilwaith (Asesu Effeithiau Amgylcheddol) 2009 ('Rheoliadau EIA') dywed y dylai gynnwys gwybodaeth, a fyddai'n rhesymol i'w disgwyl i asesu effeithiau amgylcheddol datblygiad (ac unrhyw ddatblygiad cysylltiedig).

1.2.2 Noda nad oes yn rhaid i'r PEI efelychu Datganiad Amgylcheddol drafft na gweithredu fel un ond y dylai alluogi ymgyngoreion (fel CSYM) i ddeall effeithiau amgylcheddol tebygol y datblygiad arfaethedig a'u helpu i lunio eu hymateb i'r ymgynghoriad ar y datblygiad arfaethedig.

1.2.3 Mae'r Nodiadau Cyngor yn annog ymgeiswyr i baratoi PEI wrth ymgymryd â'u hymgynghoriad ffurfiol i alluogi'r ymgyngoreion statudol i ddeall effeithiau amgylcheddol y datblygiad ac i roi sail i gyd-destun yr ymgynghoriad ac er nad oes yn rhaid i'r PEI weithredu fel y Datganiad Amgylcheddol (ES) drafft, gallai defnyddio ES drafft fod yn briodol wrth ymgynghori yng nghamau diweddarach y broses cyn ymgeisio.

1.2.4 Yn y diwedd, y cyngor a roddir yw y dylai ymgeiswyr benderfynu ar ba adeg o'r broses cyn ymgeisio maent yn dymuno cychwyn ymgynghoriad statudol cyn ymgeisio ac ar ba adeg maent yn tybio y byddai ymgynghori ar PEI fwyaf effeithiol.

### 1.3 Strwythur y ddogfen hon

1.3.1 Mae gweddill y bennod hon yn cynnwys sylwadau cyffredinol ar y ffordd y cafodd y PEIR ei gyflwyno a lefel yr wybodaeth a geir ynddo.

1.3.2 Mae Pennod 2 yn crynhoi'r sylwadau allweddol a wnaethpwyd gan CSYM o safbwynt y penodau pwnc amrywiol sy'n gysylltiedig â'r prif safle (yr orsaf bŵer). Mae Pennod 3 yn cynnwys sylwadau a chyngor gan y Cyngor o ran yr asesiad cronnus. Ceir sylwadau ar asesiadau safleoedd unigol yn ymateb trosfwaol y Cyngor i'r ymgynghoriad ar PAC2.

1.3.3 Mae sylwadau CSYM yn seiliedig ar yr wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Gwybodaeth Amgylcheddol Ragarweiniol a'r Atodiadau ynghyd â dogfennau ymgynghori eraill (ee yr Adroddiad Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg) fel sy'n briodol.

## 1.4 Strwythur a chyflwyniad y PEIR

1.4.1 Mae asesiadau pwnc wedi'u cynnwys yn y prif PEIR gyda methodolegau a gwaelodlinau'r asesiad ar ffurf atodiadau. Gellid gwella'r ddwy ddogfen (y PEIR a'r Atodiadau) trwy wneud defnydd cyson o dudalennau cynnwys i'w gwneud yn haws i ddilyn y dogfennau.

1.4.2 Deallir y rheswm dros wahanu gwaelodlinau pwnc mewn atodiad. Fodd bynnag, byddai CSYM wedi disgwyl y byddai atodiadau'n cael eu defnyddio i gyflwyno adroddiadau gwaelodlin manwl, er enghraifft, canlyniadau arolygon ecolegol, ymchwiliadau o'r safle er enghraifft, yn hytrach na'r waelodlin gyfan. Bydd CSYM yn disgwyl gweld crynodebau gwaelodlin cynhwysfawr wedi'u cynnwys ym mhrif benodau asesu datganiad amgylcheddol yn y dyfodol.

1.4.3 Mae'r broses ymgynghori wedi elwa trwy wahanu'r disgrifiad o'r prosiect yn y Brif Ddogfen Ymgynghori, gyda'r asesiad amgylcheddol rhagarweiniol wedi'i gyflwyno yn y PEIR. Bydd yn bwysig bod y disgrifiad o'r datblygiad a sut y bydd yn cael ei adeiladu, ei weithredu a'i ddatgomisiynu'n cael ei gynnwys yn y datganiad amgylcheddol. Yn yr un modd, dylai crynodeb o'r mesurau lliniaru a gwella a gynigir yn y datganiad amgylcheddol, a sut y bydd pob eitem yn cael eu sicrhau gael eu hymgorffori yn y ddogfen.

## 1.5 Gwybodaeth a geir yn y PEIR

1.5.1 Yn yr adolygiad o'r PEIR mae nifer o themâu cyffredin wedi dod i'r amlwg. Mae CSYM yn derbyn mai gwybodaeth ragarweiniol sydd wedi'i chynnwys yn y ddogfen ond mae'n bryderus nad oes digon o wybodaeth mewn llawer o'r penodau i'w alluogi i ddod i gasgliadau ynglŷn ag effeithiau amgylcheddol tebygol y prosiect. Yn syml, mae'r casgliadau a geir yn yr amrywiol benodau yn golygu bod yn rhaid eu derbyn fel y maent oherwydd diffyg data gwaelodlin digonol. Mae CSYM wedi ymrwymo o hyd i barhau i gydweithredu â PNH wrth i benodau'r asesiad esblygu ac wrth i'r wybodaeth

waelodlin gael ei choladu i sicrhau bod digon o wybodaeth wedi'i chynnwys yn yr asesiad amgylcheddol.

1.5.2 Mae angen modelu ychwanegol ar rai o'r asesiadau rhagarweiniol a geir yn y ddogfen cyn y gellir cadarnhau'r effaith. Byddai'r Cyngor o blaid parhau i gysylltu â PNH wrth i'r gwaith modelu gael ei gwblhau fel y gall gynnig sylwadau ar y methodolegau, y canlyniadau a'r gofynion lliniaru posib cyn ei chyflwyno.

1.5.3 Mae penodau'r PEIR yn cynnwys ffigurau i ddangos amodau amgylcheddol ac ardaloedd astudiaeth. Fodd bynnag, mae'r raddfa a ddefnyddiwyd i gyflwyno'r ffigurau a'u lliw yn golygu bod rhai agweddau'n anodd ei deall. Byddai CSYM yn disgwyl bod set lawn o ffigurau ar raddfa briodol yn cael ei chynnwys ym mhob pennod o ddatganiad amgylcheddol.

1.5.4 Nodyn Cyngor 6 yr Arolygiaeth Gynllunio: Mae paratoi a chyflwyno dogfennau cais yn cynnwys cyngor ar gyflwyno gwybodaeth sydd wedi'i chynnwys mewn datganiad amgylcheddol gan gynnwys gwybodaeth ar ffigurau a lluniadau, cyfeiriadau a defnydd o atodiadau, gan gynnwys gofyniad i gynnwys yr holl arolygon gwaelodlin a ddefnyddiwyd yn yr asesiad. Mae CSYM yn cynnig yr ymgynghori â hwy'n anffurfiol ar ddiwyg y ddogfen, i drafod y ffordd fwyaf priodol o gyflwyno'r datganiad (gan gynnwys mewnbwn yr Arolygiaeth Gynllunio), yng ngoleuni'r gwersi a ddysgwyd yn sgil cais Hinkley Point C.

## 2. Sylwadau ar Benodau Technegol

### 2.1 Cyflwyniad

2.1.1 Mae'r bennod hon yn crynhoi ymateb CSYM i'r wybodaeth a gyflwynwyd ym mhenodau ac atodiadau'r PEIR. Maent wedi'u hategu gan sylwadau manwl sydd wedi'u cyflwyno ar wahân.

### 2.2 Penodau Rhagarweiniol A1-A4

2.2.1 Mae CSYM yn croesawu'r wybodaeth a geir yn y penodau ac nid oes ganddo lawer o sylwadau i'w gwneud.

2.2.2 Mae nifer o ymrwymiadau wedi'u hamlinellu ym Mhennod 2 gan gynnwys yr ymrwymiad y bydd y datganiad amgylcheddol yn rhoi sylw i Gyfarwyddeb newydd yr UE ar EIA (2014) e.e. risgiau sy'n deillio o ddamweiniau neu drychinebau mawr. Mae CSYM yn croesawu'r ymrwymiad hwn, gan gydnabod ei fod yn ofyniad ym Marn Gwmpasu'r Ysgrifennydd Gwladol.

2.2.3 Mae Pennod 3 yn cynnwys y diffiniad o effeithiau sylweddol o safbwynt EIA a'r canlyniadau sy'n deillio o ddiffiniadau o'r fath yn yr asesiad. Mae CSYM yn awgrymu y dylid cael cyfeiriad hefyd at iawndal a gwrthbwyso mewn amgylchiadau os nad yw lliniaru'n bosib neu'n anymarferol.

2.2.4 Mae Pennod 3 paragraff 3.19 yn amlinellu'r lefelau sy'n cael eu diffinio fel rhai sylweddol gan PNH yng nghyd-destun EIA. Mae CSYM yn croesawu'r eglurhad hwn a oedd yn gais gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn ei Farn Gwmpasu. Mae'r diffiniad yn cynnwys mân effeithiau 'fel dull rhagofalus'. Mae gosod lefel 'arwyddocâd EIA' ar y lefel hon yn golygu bod angen nodi mesurau lliniaru / iawndal ar gyfer nifer fawr o effeithiau ac yn ôl yr adolygiad o'r penodau pwnc amgylcheddol mae'n amlwg nad yw mesurau lliniaru, ym mhob achos, wedi cael eu nodi ar gyfer lefelau arwyddocâd isel ac uwch. Mae CSYM yn croesawu'r dull rhagofalus a fabwysiadwyd ond awgrymir edrych ar hyn eto wrth i'r asesiad fynd yn ei flaen. Yn y diwedd, fodd bynnag, dylid defnyddio diffiniad cyffredin o arwyddocâd EIA mewn modd cyson ym mhob pennod pwnc.

2.2.5 Dywed PNH ei fod yn datblygu strategaeth ar gyfer datgomisiynu'r Orsaf Bŵer sy'n cynnwys dechrau datgomisiynu'n brydlon gydag amserlen darged o 20 mlynedd ar gyfer cwblhau'r prif weithgareddau datgomisiynu ar ôl rhoi'r gorau i gynhyrchu trydan. Mae CSYM yn croesawu'r ymrwymiad hwn sy'n gydnaws â Barn Gwmpasu'r Ysgrifennydd Gwladol a CCA Wylfa Newydd. Ceir sylwadau penodol yn ddiweddarach yn y ddogfen hon sy'n cyfeirio at rai o'r ystyriaethau y dylid eu cynnwys wrth asesu effeithiau datgomisiynu.

2.3 **Cymdeithasol-economaidd**

2.3.1 Mae CSYM wedi adolygu'r wybodaeth a geir ym Mhennod B1 ac mae ganddo gyfres o sylwadau i'w gwneud.

2.3.2 Yn PAC1 roedd CSYM o'r farn na roddwyd digon o sylw i fater dadleoli. Mae CSYM o'r farn y gallai effeithiau dadleoli llafur o ganlyniad i'r prosiect fod yn sylweddol. Er enghraifft, gallai llafur crefftus symud i fanteisio ar y cyflogau uwch sydd ar gael yn natblygiad yr orsaf bŵer (a'r datblygiad cysylltiedig). Gallai hyn wedyn gael effaith andwyol ar y cwmni neu'r contract y byddai'r gweithwyr hynny yn ei adael fel y byddai unrhyw effaith amgylcheddol e.e. Gwerth Ychwanegol Gros yn cael ei leihau neu oedi.

2.3.3 Byddai galw ychwanegol yn cael sgil effaith ar brosiectau adeiladu eraill e.e. adeiladu tai, rhaglen gwella ysgolion ac amryw o brosiectau eraill sydd yn yr arfaeth yn yr un cyfnod â Wylfa Newydd. Ar y pwynt hwn mae mater dadleoli llafur o effeithiau cronnus gwahanol brosiectau yn debygol o ddwysau effeithiau dadleoli a dychwelir at y pwynt hwn yn ddiweddarach yn y ddogfen.

2.3.4 Mae paragraffau B1.132 – 137 yn cyfeirio at lefel dadleoli cyfredol a gyfrifwyd ar lefel o 9%. Mae CSYM o'r farn bod yr effaith yn uwch na'r hun a nodwyd ac mae'n holi sut y cafwyd lefel dadleoli o 9%. Dylai'r adroddiad gwaelodlin a geir yn atodiadau'r PEIR gynnwys gwybodaeth am lefel cyflogau a'r waelodlin gyfredol.

2.3.5 Gan gyfeirio at liniaru effeithiau dadleoli byddai CSYM yn gofyn am gymorth yn ychwanegol at y cyfeiriad at ymgysylltu. Byddai hyn yn cynnwys cymorth ychwanegol ar gyfer hyfforddiant yn yr ardaloedd sy'n debygol o brofi dadleoli mewn perthynas â'r gweithlu lleol h.y. ardaloedd lle bydd llafur lleol yn manteisio ar gyfleoedd gwaith yn ystod camau adeiladu a gweithredu'r orsaf bŵer a mesurau i ddarparu hyfforddiant i helpu i lenwi swyddi gwag o ganlyniad i brosiect Wylfa Newydd. Mae ymrwymiad pellach i sicrhau bod y siarter cadwyn gyflenwi a'r Gwasanaeth Cyflogaeth a Sgiliau'n effeithiol wrth ymgysylltu ac annog busnesau presennol i gystadlu ac ennill contractau yng nghadwyn gyflenwi Wylfa Newydd trwy bolisïau rhagweithiol a thargedau cytunedig yn ôl gwerth a nifer yn helpu twf y sylfaen busnes presennol ac i gadw staff.

2.3.6 Mae'r PEIR yn cyfeirio at nifer y staff sy'n byw gartref y tybir a fyddai'n debygol o fanteisio ar gyfleoedd gwaith sy'n gysylltiedig ag adeiladu prosiect Wylfa Newydd. Croesewir yr ymrwymiad i ddefnyddio'r gweithlu a busnesau lleol presennol i adeiladu a gweithredu Wylfa Newydd a bydd yn ffactor allweddol yng ngallu'r prosiect i sicrhau twf economaidd ychwanegol yn Ynys

Môn a Gogledd Cymru. Mae cyfradd cyfranogiad llafur yn ystyriaeth bwysig i hybu gweithgarwch i gynyddu buddiannau ac i liniaru effeithiau negyddol. Mae hefyd yn penderfynu maint a graddfa ystod o effeithiau eraill. Po fwyaf yw cyfran gweithlu'r prosiect a geir o blith y gweithlu sydd eisoes yn byw yn y dalgylch neu'r parth cymudo po leiaf fydd effaith gyffredinol y gweithwyr sy'n symud neu'n cymudo i'r prosiect o'r tu allan i'r ardal. Mae profiad prosiectau tebyg yn awgrymu y gellid profi lefelau cyfleoedd uwch yn y cam adeiladu na'r 25% y cyfeiriwyd ato er y gallai cyfran y gweithwyr lleol a gyflogid amrywio o ran y math o swyddi a natur raddol y prosiect. Mae angen mwy o eglurder o ran nifer y gweithwyr lleol sy'n debygol o gael eu cyflogi yn y mathau gwahanol o swyddi sydd eu hangen.

2.3.7 Mae'r PEIR yn cyfeirio at y strategaethau Ymgysylltu ag Addysg a Swyddi a Sgiliau sy'n elfennau hanfodol o unrhyw ddull i gyflogi mwy o weithwyr lleol. Ni chafwyd ymgynghoriad eang ar y rhain, ni chawsant eu dosbarthu i'r holl randdeiliaid perthnasol na'u datblygu mewn cydweithrediad ag adran addysg CSYM. Dylid ehangu'r pwyslais y tu hwnt i 16+ oed i 'godi ymwybyddiaeth o bynciau STEM' ar y lefel cyn 16 oed. Mae hwn yn hepgoriad pwysig yn y dull o sicrhau etifeddiaeth dymor hir a chyflenwi llafur ar gyfer y datblygiad a chyfeirir at hyn mewn rhan arall o'r ddogfen.

2.3.8 Dylai'r strategaeth sgiliau hefyd gynnwys mesurau sydd wedi'u cynllunio i gadw a defnyddio'r sgiliau a'r wybodaeth sydd gan weithlu presennol Wylfa A. Byddai hyn yn sicrhau bod buddiannau positif prosiect Wylfa Newydd yn cynyddu.

2.3.9 Yn ogystal â'r gweithlu posib sydd eisoes yn meddu ar lawer o'r gofynion iechyd, diogelwch a sicrhau ansawdd i weithredu yn yr amgylchedd a'r gweithlu niwclear mae angen adnoddau i roi sylw i ofynion amrywiol y gweithlu lleol nad yw hyd yma'n cyrraedd y safonau sydd eu hangen ar gyfer gwahanol broffiliau galwedigaethol, mathau o swyddi a lleoliadau gweithleoedd. Mae hwn yn fesur hanfodol o allu'r gweithlu lleol i gyfranogi ac i feddu ar yr ethos a'r ymagwedd gywir tuag at brosiect Wylfa Newydd.

2.3.10 Dylai PNH weithio i benderfynu ar ofynion hyfforddi a sgiliau mwy manwl i gyrraedd ac i ragori ar y targedau cyflogaeth lleol – nid oes dim gwybodaeth ar hyn o bryd am y galw hwn. Dylid manteisio ar gyfleoedd i helpu hyfforddiant 'cylch bywyd' i alluogi gweithwyr sy'n gwneud gwaith adeiladu i symud ymlaen wedyn i'r cam gweithredu. Gallai hyn gynnwys hyfforddiant i gael unigolion â'r gofynion iechyd a diogelwch a sicrhau ansawdd niwclear sydd eu hangen cyn y gellir gweithio ar y safle e.e. basbort niwclear.

2.3.11 Ym mharagraff B1.125 ceir cyfeiriad at gyfraniad lleol o 2% - 4% tuag at ddatblygiad yr orsaf bŵer. Rhaid i PNH ddatgan sut mae'n bwriadu cyflawni'r

ffigur uwch ac mae CSYM yn awgrymu y dylid ystyried ariannu Canolfan Fenter i gynnal a darparu cymorth uniongyrchol i fusnesau lleol a rhai sy'n cychwyn. Hefyd dylai PNH gyflwyno dull o fonitro nifer y cwmnïau lleol sy'n manteisio ar gyfleoedd trwy ddefnyddio'r systemau caffael presennol fel GwerthwchiGymru. Dylid rhoi ystyriaeth, o fewn rheolau caffael i lefel gwerth contractau (ee llai na £250,000) a fydd yn cael eu cynnig i gwmnïau'n lleol trwy ymgysylltu â'r Awdurdod Lleol / NWEAB cyn mynd ati i gaffael ar lefel fwy cenedlaethol.

2.3.12 Mae CSYM o'r farn na roddwyd digon o sylw yn y PEIR i dwristiaeth (na'r effeithiau ar y sector). Yn PAC1 gofynnodd CSYM am bapur pwnc penodol ar dwristiaeth a modd i ddeall a monitro effeithiau. Mae CSYM yn bryderus o hyd am yr effeithiau sylweddol, andwyol posib ar ddelwedd a chanfyddiadau o'r Ynys, argaeledd llety, llai o ymwelwyr yn ystod y cyfnod adeiladu ac aflonyddwch i ymwelwyr o ganlyniad i fwy o dagfeydd ar y ffyrdd / teithiau a fyddai'n cael eu cynhyrchu gan y datblygiad.

2.3.13 Mae'r dull cyffredinol o asesu effeithiau ar bob math o lety'n seiliedig ar argaeledd llofftydd ac nid yw'n ystyried sut y byddai llety'n cael ei osod. Mewn llawer o achosion ni fyddai hyn ar sail llofftydd ond ar sail eiddo cyfan. Mae CSYM o'r farn bod defnyddio nifer y lloftydd yn rhoi amcangyfrif rhy isel o'r galw ac mae'n dibynnu hefyd ar gael y gallu i reoli galw ar draws daliadaethau a mathau o lety yn ogystal â rheoli penderfyniadau llety gweithlu sylweddol a fyddai'n dod i mewn. Dylai PNH ystyried ymrwymo i fonitro'r cyflenwad llety, yn enwedig yn y sectorau twristiaeth a rhentu preifat.

2.3.14 Mae'r asesiad o'r effaith ar dwristiaeth a'r cynigion ar gyfer lliniaru'n gyfyngedig., Yn ôl yr wybodaeth a geir yn y PEIR nid yw'n amlwg beth fyddai'r effeithiau ar y sector twristiaeth o safbwynt gweithgarwch ymwelwyr, effeithiau ar lety a'r effeithiau ehangach ar weithgarwch o fewn y sector gan gynnwys dadleoli gweithwyr o fusnesau mewn sectorau gan gynnwys lletygarwch, bwyd, arlwyo a sectorau sydd o bwys mawr i'r sector twristiaeth a'r economi ehangach. Ceir cyfeiriad at strategaeth twristiaeth sy'n disgrifio mesurau lliniaru yn y PEIR ond nid oes manylion wedi'u rhoi. Byddai CSYM yn croesawu trafodaeth â PNH ar fesurau lliniaru ac iawndal o ganlyniad i effeithiau ar dwristiaeth i oleuo'r strategaeth y cyfeirir ati.

2.3.15 Gyda golwg ar y sylwadau a wnaethpwyd mae CSYM o'r farn y byddai'n briodol i PNH ystyried datblygu Cronfa Cydnerthu Cymunedol. Byddai cronfa o'r fath yn cael ei hategu trwy drefniadau monitro cadarn ar lawer o'r gweithgareddau a allai gyfuno i effeithio ar gymunedau lleol (cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol. Byddai'r Gronfa Cydnerthu Cymunedol yn:

a) rhoi sylw i ganlyniadau'r datblygiad;
b) targedu a grymuso pobl leol yn benodol i ymateb i effeithiau'r datblygiad; a
c) bod yn fwriadol hyblyg er mwyn gallu rhoi sylw i effeithiau wrth iddynt ddigwydd a mynd i'r afael â phroblem cronfeydd na ellir eu defnyddio o ganlyniad i feini prawf dosbarthu rhy gyfyngedig.

**2.4 Mynediad y Cyhoedd a Hamdden, Traffig a Thrafnidiaeth**

2.4.1 Mae'r Bennod yn cyfeirio at y gofyniad i ddargyfeirio Llwybr Arfordir Cymru gan awgrymu dau lwybr amgen. Byddai CSYM yn ffafrio opsiwn i gyfeiriad y môr gan gydnabod mai dyma'r byrraf o'r ddau ddewis ac mae ganddo fanteision o'i gymharu â'r llall. Byddai CSYM yn awgrymu bod Pecyn Cymorth Asesu Iechyd Economaidd (HEAT) yn cael ei ddefnyddio i asesu effaith y dargyfeiriad ar gymunedau lleol.

2.4.2 Disgwylir y bydd y Clwb Chwaraeon a Chymdeithasol, sy'n eiddo i Magnox, yn cau pan fydd y gwaith o wagio tanwydd yr Orsaf Bŵer bresennol wedi'i gwblhau. Fodd bynnag, oherwydd y gofyniad i glirio'r safle ar gyfer Wylfa Newydd mae PNH yn cynnig ei fod yn cael ei gau'n gynnar. Mae'r Cyngor o'r farn bod y clwb yn ased gwerthfawr i'r gymuned leol ac mae'n gofyn iddo ystyried effaith ei gau. Gellir cynnig mesur lliniaru ar ffurf lleoliadau amgen yn yr ardal a allai gynnal defnyddwyr presennol y clwb a / neu lefelau cymorth y gellid eu rhoi i'r defnyddwyr yn y cyfnod pontio gan gynnwys iawndal i'w fuddsoddi mewn neuaddau cymunedol lleol, canolfannau hamdden, caeau chwarae a chwaraeon a chlybiau chwaraeon a fyddai'n cynnig etifeddiaeth i'r gymuned.

2.4.3 Cafwyd cyfeiriad at weithwyr adeiladu'n byw mewn llety gweithwyr dros dro gan ddefnyddio Canolfan Hamdden Amlwch, a fyddai'n arwain at effaith andwyol fân i gymedrol ar ddefnyddwyr presennol Canolfan Hamdden Amlwch. Mae CSYM wedi ymrwymo i gydweithredu i sicrhau bod mesurau lliniaru priodol yn cael eu datblygu a bod cyfle i adael etifeddiaeth hirhoedlog i bobl Amlwch a'r cymunedau cyfagos yn cael ei gofnodi. Mae CSYM yn croesawu amcan PNH i gynyddu'r defnydd a wneir o drafnidiaeth gyhoeddus, cerdded a beicio; fodd bynnag, mae'n bryderus o hyd am yr effeithiau posib ar ddiogelwch ar y priffyrdd o ganlyniad i symudiadau traffig adeiladu o safleoedd yn Amlwch a'r cyffiniau i'r orsaf bŵer. Mae'r pryder hwn yn ymwneud yn bennaf â Bysys Gwennol arfaethedig PNH ac mae CSYM yn credu y bydd eu defnydd o'r A5025 yn arwain at gynnydd yn y peryglon i feicwyr o ganlyniad i lonydd culach a dim lleiniau ar fin y ffordd.

2.4.4 Mae CSYM yn awgrymu nad yw'r PEIR yn rhoi hanner digon o bwyslais ar nifer y teithiau bws o'r safle parcio a theithio arfaethedig ac felly effaith y bysiau. Ymddengys fod y ffigurau a gyflwynir yn y PIER yn awgrymu y bydd pob bws a fydd yn teithio o'r safle Parcio a Theithio'n llawn. Mae'n bosib y

byddant yn llawn ar ddechrau a diwedd pob shifft; fodd bynnag mae profiadau Hinkley Point C yn dangos y bydd pobl yn teithio'n ôl a blaen o'r safle trwy gydol y dydd. Hefyd, bydd yn rhaid i fysiau deithio'n rheolaidd iawn er mwyn atal ceir preifat rhag teithio i'r safle.

2.5 **Sŵn a Dirgryniad, Ansawdd yr Aer**

2.5.1 Mae'r bennod ar sŵn a dirgryniad yn nodi amryw o fesurau lliniaru fel elfen gyffredin o Arferion Gorau; er enghraifft, o fewn y CEMP (Cynllun Rheoli Adeiladu ac Amgylcheddol). Mae'r mesur lliniaru'n seiliedig ar asesiad o effeithiau amgylcheddol tebygol sydd heb ei ategu yn y ddogfen gan unrhyw dystiolaeth i gadarnhau ei dilysrwydd. Byddai CSYM felly'n hoffi gweld canlyniadau'r gwaith modelu sŵn er mwyn deall yn well y potensial ar gyfer effeithiau sylweddol. Dylai model sŵn hefyd gynnwys ystyriaeth o sŵn o dan y dŵr a bydd angen mwy o wybodaeth ar CSYM am y dulliau a ddefnyddir i gloddio creigiau gan gynnwys faint o weithiau y bydd creigiau'n cael eu chwythu a pha mor aml.

2.5.2 Mae gan CSYM bryderon ynghylch nifer uchel yr eiddo preswyl a fydd yn profi effeithiau andwyol sylweddol yn ystod y cam adeiladu. Mae asesiad y PEIR wedi ystyried gwahanol senarios adeiladu ac mae'r pryderon yn gysylltiedig â Senario B yn ystod y dydd (60 eiddo) ac yn fwy penodol Senario C yn ystod y nos. Nid yw'n ymddangos bod mesurau lliniaru'n lleihau lefelau'r arwyddocâd a nodir yn y PEIR ac mae CSYM yn teimlo nad oes digon o wybodaeth wedi'i rhoi i'w alluogi i ddeall maint yr effeithiau, yn benodol am ba hyd a pha mor aml fydd yr effeithiau'n cael eu profi.

2.5.3 Mae'r waelodlin a gyflwynir yn yr Atodiadau'n cyfeirio yn Nhabl 4.4 at y defnydd o farn broffesiynol i ddiffinio a dethol gwerth nodweddiadol addas. Dylid cynnwys cadarnhad bod dulliau dadansoddi addas wedi cael eu defnyddio (ee BS4142:2014 ar gyfer LA90s) i benderfynu ar y lefelau sŵn cefndir cymedrig a moddol.

2.5.4 Mae llawer o'r agweddau amgylcheddol a drafodir yn y bennod wedi'u hymgorffori mewn amrywiaeth o Gynlluniau Rheoli Amgylcheddol eraill; fel y CNVMP (Cynllun Rheoli Sŵn a Dirgryniadau Adeiladu), MMP (Cynllun Rheoli Deunyddiau) a'r EMP (Cynllun Rheoli Amgylcheddol). Byddai'r Cyngor yn cadarnhau y bydd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiad â'r mesurau a geir yn y dogfennau hyn ac felly dylai eu cynnwys ffurfio gofynion unigol yn y Gorchymyn Cydsyniad Datblygu (DCO). Hefyd, bydd y Cyngor yn rhoi gofyniad ar PNH i wneud cais am hysbysiad Cydsynio Adran Deddf Rheoli Llygredd 1974 cyn cychwyn ar weithgarwch adeiladu i sicrhau y cydymffurfir ag Arferion Gorau.

2.5.5 Oherwydd maint enfawr ac amrywiaeth y gwaith adeiladu sy'n cael ei gynnig bydd y gallu i fonitro effeithiau o'r fath mewn 'amser real' wrth iddynt ddigwydd yn hanfodol i'w lliniaru. Yn yr un modd, mae ymgysylltu â'r Gymuned Leol mewn amrywiaeth o grwpiau cyswllt yn holl bwysig wrth ystyried Arferion Gorau o ran mesurau lliniaru oherwydd yr agweddau amgylcheddol niferus sy'n gysylltiedig â'r datblygiad hwn.

2.5.6 Gyda'r uchod mewn golwg, dylai'r gallu i hysbysu cymunedau lleol, trwy gynnig data monitro 'amser real' ar y we fod yn rhan sylfaenol o unrhyw Gynllun Rheoli Amgylcheddol a gynigir gan Bŵer Niwclear PNH.

2.5.7 O ran ansawdd yr aer nid yw'n amlwg pa feini prawf ar gyfer effeithiau sylweddol a ddefnyddiwyd i ddod i'r casgliad nad yw effaith traffig ffyrdd yn ystod gwaith adeiladu'n sylweddol. Er bod crynodiadau o fewn Amcanion Ansawdd Aer, mae'r casgliad na fydd yr effaith yn sylweddol yn gofyn am eglurhad pellach o gofio y bydd cynnydd o 2,600 yn y traffig adeiladu ar yr A5025 Gorllewin, lle mae eiddo wedi'i leoli'n agos at y ffordd.

2.5.8 Yn yr un modd, er y gallai effaith traffig gweithredol fod yn llai nag effaith traffig adeiladu, dylai PNH ystyried effaith gyfunol offer hylosg (a ystyrir yn effaith andwyol sylweddol o ran derbynyddion ecolegol), allyriadau llongau a thraffig gweithredol. Ni all CSYM ystyried effaith dymor hir debygol y prosiect ar dderbynyddion dynol ac ecolegol heb wneud hyn.

2.5.9 Ar hyn o bryd, nid oes dim mesurau lliniaru'n cael eu cynnig yn y PEIR ar gyfer traffig gweithredol ac adeiladu. O gofio maint y prosiect a lefelau'r traffig a gynhyrchir, tybir y dylai mesurau lliniaru i leihau llif a neu allyriadau traffig adeiladu a gweithredol gael eu cynnwys. Er enghraifft, gellid pennu safonau dosbarth allyriadau.

## 2.6 Priddoedd a Daeareg, Dŵr Daear a Dŵr Wyneb

2.6.1 Mae pennod ac atodiadau Priddoedd a Daeareg yn crynhoi canfyddiadau'r ymchwiliad i'r safle. Bydd angen i'r datganiad amgylcheddol gynnwys manylion llawn yr ymchwiliadau safle er mwyn galluogi CSYM ac ymgyngoreion i gynnal asesiad annibynnol o'r waelodlin a'r effeithiau posib.

2.6.2 Ceir cyfeiriad at baratoi strategaeth adfer sy'n nodi nifer o weithgareddau a ddylai ddigwydd i leihau'r perygl o niwed i iechyd pobl, neu i'r amgylchedd, o ffynonellau halogiad a ganfuwyd ar y safle. Mae CSYM yn gofyn am eglurhad ar y strategaeth adfer arfaethedig er mwyn sicrhau bod mesurau priodol ar waith i ddiogelu iechyd a'r amgylchedd.

2.6.3 Mae'r bennod ar asesu'n cydnabod y posibilrwydd y gallai preswylwyr cyfagos gael eu heffeithio (effeithiau rhwng prosiectau) gan gyfuniad o lwch a fyddai'n deillio o briddoedd halogedig, sŵn ac allyriadau llygrwyr aer o offer a pheiriannau ac y gallai hyn gynyddu difrifoldeb yr effaith ar y derbynyddion hyn yn ystod gwaith adeiladu. Mae'n cyfeirio at benodau B4 a B5 am asesiadau manwl; fodd bynnag nid yw'r perygl o bridd halogedig yn cael sylw llawn. Er yn derbyn mai gwybodaeth amgylcheddol ragarweiniol sydd yn y ddogfen, byddai CSYM yn disgwyl gweld sylw i gyfuniad effeithiau ar dderbynyddion.

2.6.4 Daw adolygiad CSYM o'r bennod ar Ddŵr Daear a Dŵr Wyneb i'r casgliad nad oes digon o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y waelodlin i gyfiawnhau'r disgrifiadau o'r amodau gwaelodlin a gwerth y derbynyddion. Er enghraifft, ni roddir dim ffigurau o fewn y waelodlin ac eithrio un plot glawiad. Ni roddir dim plotiau gofodol yn dilyn monitro lleoliadau ac o ganlyniad nid oes dim tystiolaeth ar hyn o bryd i gadarnhau'r datganiadau ar yr amgylcheddau hydrolegol a hydroddaearegol.

2.6.5 Er bod y bennod yn cynnwys rhestr gynhwysfawr o dderbynyddion ynghyd ag effeithiau amgylcheddol posib a mesurau lliniaru, mae lefel y manylion sy'n benodol i'r safle'n annigonol ar hyn o bryd i alluogi CSYM i benderfynu a yw'r asesiad o arwyddocâd yn ddigonol.

2.6.6 Derbynnydd allweddol yng nghyd-destun y bennod yw Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGAoedd) Tre'r Gof a Chae Gwyn. Mae'r asesiad PEIR o'r ddau safle'n dod i'r casgliad na fyddant yn cael eu heffeithio'n sylweddol o ganlyniad i drefniadau monitro cadarn a gweithredu mesurau adfer, 'os canfyddir effaith sylweddol'. Bydd y Cyngor am weld rhagor o wybodaeth yn cael ei chynnwys yn y datganiad amgylcheddol er mwyn deall i ba raddau y mae cysylltiad rhwng y ffynonellau dŵr wyneb a daear presennol a'r SoDdGAoedd ac i ba raddau y mae eu nodweddion yn ddibynnol ar yr amodau hydrolegol a hydroddaearegol presennol. Bydd angen hefyd cytuno â chyfres o fesurau adfer ac iawndal priodol.

## 2.7 Ecoleg Ddaearol a Dŵr Croyw

2.7.1 Mae'r bennod yn nodi'r derbynyddion ecolegol allweddol a allai gael eu heffeithio. Er yn cydnabod natur ragarweiniol y ddogfen, nid oes digon o wybodaeth waelodlin (e.e. mapio rhywogaethau a ddarganfuwyd / cofnodion/ data arolygon) ac nid oes manylion am y strategaeth liniaru arfaethedig a sut y bydd hon yn integreiddio â'r gwaith i baratoi a chlirio'r safle.

2.7.2 Er enghraifft, nid oes fawr ddim data ar boblogaethau ymlusgiaid y safle heblaw am leoliadau bras. Mae diffyg mapiau a disgrifiadau o'r lleoliadau a nodweddion safle'r derbynnydd yn golygu na all CSYM ystyried

tebygolrwydd effeithiau. Mae problem debyg yn codi yn achos llygod y dŵr a derbynyddion eraill.

2.7.3 Mae CSYM yn deall bod gwaith arolygu'n dal i gael ei wneud ar fôr-wenoliaid a data a gasglwyd ar SoDdGA Tre'r Gof. O'r herwydd ni ellir dod i gasgliadau pendant eto o ran asesiadau o arwyddocâd.

2.7.4 Mae CSYM o'r farn bod seilio'r tebygolrwydd o effeithiau sylweddol ar yr Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) gan ddefnyddio Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd yn rhesymol. Gofynnir am eglurder ynglŷn â'r defnydd o dermau yn y gwahanol brosesau asesu hyn gan nad oes modd eu trosglwyddo'n uniongyrchol bob tro.

2.7.5 Mae PNH yn cydnabod y bydd yr asesiad o effeithiau ar dderbynyddion ecolegol penodol yn cael ei ategu gan y casgliadau a wneir mewn penodau fel sŵn a dirgryniad (pennod B4), ansawdd yr aer (pennod B5), priddoedd a daeareg (pennod B6), dŵr daear a dŵr wyneb (pennod B7), yr amgylchedd morol (pennod B10) a thirwedd ac amwynder gweledol (pennod B11). Ar hyn o bryd nid oes cyfeiriad ym mhob un o'r penodau hyn at effeithiau ecolegol. Bydd angen i asesiadau yn y dyfodol gynnwys yr effeithiau posib o ganlyniad i newidiadau mewn prosesau arfordirol (e.e. effeithiau ar far graean bras sy'n gysylltiedig ag AGA).

## 2.8 Prosesau arfordirol a'r Amgylchedd Morol

2.8.1 Mae'r Bennod ar Brosesau Arfordirol yn nodi'r effeithiau posib a all godi yn sgil gweithgarwch yn y môr. Mae CSYM o'r farn nad yw'r wybodaeth ragarweiniol a roddwyd yn cynnwys digon o wybodaeth am ddyluniad strwythur a lleoliad y MOLF (y cei swmp a'r cei ro-ro) a byddai'n disgwyl i'r datganiad amgylcheddol gynnwys lluniadau manwl o'r cynnig a disgrifiad o'r dulliau adeiladu a'r amserlenni. Hefyd, mae angen gwybodaeth debyg am y morgloddiau a lefel y carthu a'r chwythu a fydd ei angen, ynghyd â manylion am y traffig llongau yn ystod adeiladu a gweithredu.

2.8.2 Nid oes modelau cludo gwaddodion, hydrolegol a mwg thermol o'r cynigion wedi'u cwblhau eto ac mae lefel y nodweddion gwaelodlin yn uchel iawn, ac felly ni ellir cadarnhau'r casgliadau yn y PEIR ynglŷn â'u harwyddocâd ( a chanfod mesurau lliniaru ar sail hynny).

2.8.3 O ran y bennod ar yr Amgylchedd Morol mae prinder data i ategu'r datganiadau ar nodweddion gwaelodlin, a byddai CSYM yn argymell cynnwys atodiadau technegol gyda chanlyniadau'r arolwg gwaelodlin, yn enwedig poblogaethau pysgod. Hefyd, credir y byddai'r adran ar bysgod yn elwa trwy gynnwys data hanesyddol / trydydd data ar gyfer yr ardal astudio.

2.8.4 Mae angen rhagor o wybodaeth am fethodoleg yr arolwg a noda CSYM fod y modelu sŵn o dan y dŵr a hydrodynamig yn eisiau (cyfeirir at sŵn o dan y dŵr hefyd yn sylwadau'r Cyngor ar y bennod ar Sŵn a Dirgryniad, gweler uchod).

**2.9 Tirwedd a Gweledol, Archeoleg a Threftadaeth Ddiwylliannol**

2.9.1 Mae'r asesiad Tirwedd a Gweledol a gyflwynir yn y PEIR, ac sy'n cael ei ategu gan wybodaeth waelodlin yn yr atodiadau yn galluogi CSYM i ddeall ehangder yr effeithiau tebygol. Fodd bynnag, mae'r waelodlin, gan gynnwys y ffigurau, yn annigonol i alluogi CSYM i gyrraedd ei gasgliadau ei hun ar arwyddocâd cymharol yr effeithiau ar dderbynyddion penodol.

2.9.2 Mae'r bennod ar yr asesiad yn gywir i nodi'r AHNE fel derbynnydd allweddol o safbwynt y dirwedd ac amwynderau gweledol. Mae pwysigrwydd AHNEoedd yn cael ei adlewyrchi yn Natganiad Polisi Cenedlaethol EN-1 sy'n cydnabod bod ardaloedd o'r fath, ynghyd â Pharciau Cenedlaethol a'r Broads wedi cael eu cadarnhau gan y Llywodraeth â'r statws gwarchod uchaf o ran harddwch y dirwedd a golygfeydd (paragraff 125). Â'r Datganiad Polisi ymlaen i ddatgan y dylid rhoi pwyslais sylweddol ar warchod yr ardaloedd hyn wrth wneud penderfyniad ar gais ac er bod modd rhoi caniatâd mewn amgylchiadau eithriadol dylid ystyried unrhyw effaith niweidiol i'r amgylchedd, y dirwedd a chyfleoedd hamdden, ac i ba raddau y gellid lleihau hynny.

2.9.3 Gyda golwg ar yr uchod, mae angen rhagor o wybodaeth ar CSYM am y mesurau lliniaru sy'n cael eu cynnig i leihau arwyddocâd effeithiau ar yr AHNE. Yn benodol, byddai'n cytuno y byddai adeiladu'r MOLF, y morglawdd a'r strwythurau sugno a gollwng dŵr oeri yn arwain at effaith andwyol sylweddol ar gymeriad morwedd leol bae Porth-y-pistyll ond daeth i'r casgliad y byddai effaith andwyol sylweddol ar yr AHNE a'r Arfordir Dreftadaeth o ganlyniad i faint, lleoliad ac amlygrwydd y strwythurau o leiaf nes bydd dyluniadau penodol ar gyfer y morglawdd a'r mesurau lliniaru (yn benodol sut y gall lliniaru adferol greu 'ymddangosiad naturiol' ar gyfer y rhan a effeithir ar ôl cael gwared ar y strwythur dros dro).

2.9.4 Mae CSYM yn croesawu'r gydnabyddiaeth er y byddai adeiladau a strwythurau'r Orsaf Bŵer newydd y tu allan i'r AHNE a'r Arfordir Dreftadaeth y byddant yn amharu ar nodweddion arbennig yr AHNE a'i lleoliad, gan gynnwys heddwch a thawelwch, golygfeydd eang, y dirwedd amaethyddol wledig a nodweddion y dirwedd arfordirol. Mae CSYM yn argymell paratoi strategaeth liniaru a rheoli drosfwaol a chynhwysfawr ar gyfer y dirwedd / morwedd (fel y cyfeiriad yn PAC1) ar gyfer y dynodiadau hyn a fyddai'n

cynnwys mesurau lliniaru wedi'u teilwra ar gyfer lleoliadau unigol. Byddai trafodaethau cynnar â Chyngor Môn a CNC ar fesurau lliniaru ac iawndal yn cael eu croesawu.

2.9.5 Mae'r PEIR yn cydnabod bod Ynys Môn yn amgylchedd tywyll ar y cyfan yn y nos ac mae'n briodol i dynnu sylw at fwriad y Cyngor i geisio sicrhau Statws Awyr Dywyll (er y byddai hyn ar y lefel Gymunedol yn hytrach na Statws Gwarchodfa). Dywed PNH y byddai goleuadau'n cael eu dylunio gyda golwg ar statws Awyr Dywyll gyda phrif nod o gyfyngu ar y golau sy'n gorlifo i fannau cyfagos. Mae CSYM yn awyddus i adolygu'r strategaeth oleuo y cyfeirir ati, ond nad yw wedi ei chynnwys yn y PEIR. Mae effaith andwyol bosib goleuo'n debygol o fod yn sylweddol ac rydym yn awgrymu bod yr ardal astudiaeth o 6km yn cael ei hymestyn. Yn gydnaws â sylwadau CSYM ar PAC 1 a chwmpasu argymhellir fod asesiad o oleuo ar gyfer pob cam o'r gweithrediadau'n cael ei roi fel pennod ar wahân ond gyda chysylltiadau ag ecoleg, tirwedd a gweledol a chymdeithasol-economaidd. Cafwyd cyfeiriad penodol at y cysylltiad rhwng goleuo a derbynyddion ecolegol gan yr Ysgrifennydd Gwladol ym Marn Gwmpasu Ebrill 2016.

2.9.6 Mae CSYM yn croesawu cynnwys y ffotogyfosodiadau yn atodiadau'r PEIR. Mae'n bryderus, fodd bynnag, am gywirdeb y cyfosodiadau a'r ddibyniaeth ar y canllaw cyfyngedig a geir yn Nodyn Cyngor 01/11 y Sefydliad Tirwedd. Noda CSYM fod y graddfeydd wedi cael eu haddasu mewn rhai os nad ym mhob un o'r cyfosodiadau i ffitio templed y dudalen ac felly nid yw'n gyson â'r wybodaeth ar y pellteroedd gwylio a roddwyd. Dylai PNH sicrhau bod modd atgynhyrchu ffotogyfosodiadau mewn ffordd sy'n parchu'r paramedrau a nodwyd gan ei ymgynghorwyr (SLR yn yr achos hwn). Dylid gwneud trefniadau i gyflwyno ffigurau mewn fformat mwy (hy mwy nag A3) os bydd angen.

2.9.7 Er eu bod wedi cael eu datblygu ar gyfer math penodol o ddatblygiad, mae llawer o'r canllawiau a geir yn Visual Representation of Wind Farms a gyhoeddwyd gan Scottish Natural Heritage yn ddigon perthnasol i ddatblygiadau mawr eraill, gan gynnwys Wylfa Newydd. Er na fyddai rhai elfennau o'r canllaw hwn o bosib yn briodol i'r asesiad o Wylfa Newydd ac y gallai elfennau eraill fod yn anymarferol i'w mabwysiadu yn ystod y cam hwn yn natblygiad y cynllun o gofio bod y ffordd y mae'r ffotogyfosodiadau yn y PEIR wedi cael eu cyflwyno'n annigonol, mae CSYM yn credu y dylai elfennau o ganllaw SNH gael eu mabwysiadu ar gyfer yr holl ddelweddau yn y dyfodol. Byddai CSYM yn croesawu'r cyfle i drafod y mater hwn ymhellach.

2.9.8 Yn ogystal â'r cyfosodiadau sy'n dangos yr amodau mewn golau dydd dylai delweddau gael eu cynhyrchu hefyd i ddangos effeithiau yn y nos, a dylent gynnwys golygfeydd cronnus gyda Chysylltiad Gogledd Cymru'r Grid Cenedlaethol.

2.9.9 Mae adolygiad o'r cyfosodiadau a gyflwynwyd yn awgrymu y byddai rhannau o safle'r datblygiad yn cynnwys blociau mawr o goetiroedd. Fodd bynnag, nid yw'r Cynllun Meistr Tirwedd ac Amgylcheddol ar hyn bryd yn cynnwys plannu coetir dros ardaloedd eang ond yn hytrach tirwedd pori fwy agored gyda gwrychoedd yn gweithredu fel y prif fesur lliniaru. Wedi dweud hynny, mae 'Allwedd' y lluniad sy'n egluro'r gwaith arfaethedig a geir yn y Cynllun Meistr yn anodd ei ddehongli ac nid yw'n ymddangos bod rhai o'r nodiadau ar y cynllun yn cyfateb. Felly mae angen eglurhad os bydd newid yn y modd y mae'r Cynllun Meistr yn awr yn cynnig blociau mawr o goetiroedd wedi'u plannu ar dwmpathau.

2.9.10 Mae Pennod B12 o'r PEIR yn cyflwyno asesiad archeolegol a threftadaeth ddiwylliannol ragarweiniol. Mae sylwadau archeolegol CSYM a ddarperir gan GAPiau yn croesawu'r holl waith arolygu a wnaethpwyd gan PNH gan gydnabod bod peth heb ei gynnwys yn y PEIR i'r graddau nad oes llawer o ddata rhagarweiniol wedi'i gyflwyno yn y waelodlin amgylcheddol i ganiatáu craffu priodol ar ffordd y cafodd casgliadau eu gwneud. Bydd angen i'r data rhagarweiniol gael ei gyflwyno gyda'r datganiad amgylcheddol er mwyn galluogi CSYM i ddod i'w gasgliadau ei hun o ran arwyddocâd effeithiau.

2.9.11 Mae CSYM yn croesawu'r ymrwymiad i gynnwys archeoleg fel un o'r arddangosiadau yn y Ganolfan Ymwelwyr arfaethedig. Fodd bynnag, er y bydd y mesurau lliniaru yn cynyddu dealltwriaeth o ddiwylliant Cymreig dim ond trwy ledaenu'r wybodaeth hon i'r gynulleidfa ehangaf posib a thrwy ymgysylltu â'r gymuned y ceir gwerth gwirioneddol o'r data. Felly, mae sicrhau bod y rhaglen o waith archeolegol yn creu cyfleoedd i'r cyhoedd ymgysylltu â'u diwylliant trwy sicrhau mynediad i'r cyhoedd i'r gwaith cloddio a chymryd rhan ynddo hyd yn oed yn hanfodol. Byddai sicrhau etifeddiaeth yn y tymor hir hefyd yn rhoi gwerth da, yn cynyddu buddiannau i'r cyhoedd, ac o ystyried y diddordeb yn y darganfyddiadau mae cyfle i fod yn fwy uchelgeisiol.

2.9.12 O ganlyniad i Ddeddf yr Amgylchedd Hanesyddol (Cymru) 2016 mae'r Gofrestr o Barciau a Gerddi Hanesyddol bellach yn ddynodiad statudol ac o bwys cenedlaethol.

2.9.13 Mae'r effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar Erddi Cestyll yn achos pryder mawr i CSYM. Mae angen cwblhau asesiad o arwyddocâd ar Erddi Cestyll a'i ddosbarthu i bob parti perthnasol fel y bydd modd deall yr

effeithiau posib. Dylai'r asesiad nodi'r priodoleddau unigol sydd gyda'i gilydd yn cyfrannu at arwyddocâd yr ased ac i ba raddau yr effeithid arnynt. Felly mae angen i effeithiau gael eu deall yn iawn a bydd angen gwarantu mesurau iawndal cadarn a chynhwysfawr os nad yw mesurau lliniaru eraill yn bosib. O ystyried yr effeithiau mân i fawr uniongyrchol ac anuniongyrchol ar yr ased hwn sydd â dynodiad cenedlaethol mae CSYM o'r farn bod angen datganiad cadwraeth ar gyfer yr Ardd. Dylai datganiad o'r fath ystyried mesurau lliniaru a / neu wneud iawn am effeithiau ac amlinellu cynlluniau rheoli a dylai fod yn amod wrth ganiatáu'r DCO.

2.9.14 Mae CSYM yn bryderus hefyd am yr effeithiau ar leoliad Melin Ŷd Gafan. Mae hwn yn adeilad rhestredig gradd II* a fyddai, yn ôl Tablau B12.1 a 12.2, yn profi effaith gymedrol ar ei leoliad yn ystod adeiladu a gweithredu. Yn ôl methodoleg EIA y PEIR mae'r effeithiau a nodir fel mân effeithiau neu uwch yn sylweddol yn nhermau EIA.

**2.10 Materion Radiolegol a Rheoli Gwastraff Radiolegol**

2.10.1 Mae CSYM yn croesawu cynnwys pennod ar faterion radiolegol. Roedd diffyg pennod yn PAC1 yn achos pryder a nodir fod yr Ysgrifennydd Gwladol wedi gofyn bod effeithiau o'r fath yn cael eu hystyried yn y Farn Gwmpasu. Mae CSYM yn cydnabod mai sefydliadau eraill sy'n gyfrifol am reoleiddio allyriadau radiolegol, ond mae'n awyddus i ddeall y posibilrwydd o effeithiau cronnus rhwng gweithredu Wylfa Newydd a datgomisiynu Wylfa A. Byddai CSYM yn disgwyl i'r datganiad amgylcheddol gynnwys dadansoddiad meintiol i ategu'r haeriadau a'r casgliadau sydd wedi'u cynnwys yn y PEIR. Ar fater effeithiau cronnus mi hoffai weld gwybodaeth yn cael ei chynnwys ar fath, nifer ac amledd symudiadau cerbydau sy'n gysylltiedig â symud deunydd radiolegol trwy'r cymunedau ar hyd yr A5025. Bydd PNH yn ymwybodol bod canfyddiadau ynglŷn ag iechyd yn bryder mawr i gymunedau lleol a dylid ystyried gweithredu mesurau lliniaru a / neu iawndal y cytunwyd arnynt â Chyngor Môn, os canfyddir y posibilrwydd o effeithiau andwyol ar gymunedau lleol, yr economi neu'r amgylchedd.

2.10.2 Noda CSYM fod y PEIR yn cadarnhau'r posibilrwydd y byddai tanwydd wedi'i ddefnyddio'n parhau i gael ei storio am hyd at 140 o flynyddol ar ôl i'r orsaf orffen gweithredu (gyda gwastraff lefel uchel hefyd, o bosib yn cael ei storio tan ar ôl datgomisiynu). Dylai'r datganiad amgylcheddol ystyried effeithiau cadw cyfleuster o'r fath dros gyfnod mor hir sy'n cyfateb i oes cenedlaethau o drigolion Ynys Môn. Bydd yn anodd dadansoddi'n fanwl beth fydd effeithiau newid yn yr hinsawdd mor bell yn y dyfodol ond mae CSYM yn disgwyl y bydd PNH yn gallu dangos y gall storio tanwydd wedi'i ddefnyddio'n ddiogel yn ystod oes y cyfleuster.

## 2.11 Rheoli Gwastraff a Deunyddiau Confensiynol

2.11.1 Mae'r wybodaeth a gwir yn y PEIR yn ddefnyddiol ac mae CSYM yn cydnabod mai amcangyfrifon rhagarweiniol yw'r rhai a roddir ar gyfer maint y gwastraff, gan gynnwys carthu a bod ansicrwydd o hyd o ran maint a defnydd terfynol deunyddiau. I ddeall yr effeithiau amgylcheddol a seilwaith bydd angen rhagor o wybodaeth ar faint o wastraff a deunyddiau fydd yn cael eu cynhyrchu a sut y byddant yn cael eu rheoli. Mae hyn yn bwysig am ddau reswm:

- Sicrhau bod holl effeithiau amgylcheddol y cynllun arfaethedig yn cael eu hasesu e.e. os bydd meintiau mawr o ddeunydd / gwastraff yn cael eu sgrinio a'u malu ar y safle, yna bydd hyn yn cael effeithiau ar sŵn / ansawdd yr aer. Neu, os byddai meintiau mawr yn cael eu hallforio, yna byddai hyn yn cael effaith ar draffig - mae'r rhain i gyd yn effeithiau y byddai angen eu hasesu.
- Sicrhau bod gwybodaeth mor gywir â phosib yn cael ei chynnwys mewn asesiad o angen cyffredinol o wastraff, a fydd yn dangos a ellir cynnal y cynllun arfaethedig yn ddigonol ai peidio gan y rhwydwaith rheoli gwastraff presennol.

2.11.2 Bydd yn rhaid i PNH ddangos bod digon o gapasiti dros ben o fewn y rhwydwaith o gyfleusterau rheoli gwastraff y dibynnir arnynt i waredu oddi ar y safle'r gwastraff a gynhyrchir gan weithgarwch galluogi untro ac adeiladu a gofynion rheoli gwastraff gweithredol parhaus y safle. Gan fod yr egwyddor agosatrwydd yn rhan allweddol o ddeddfwriaeth a pholisi rheoli gwastraff Cymru, dylid dangos pan fo hynny'n bosib, y bydd cyfleusterau lleol yn gallu rheoli unrhyw wastraff sydd angen ei drin oddi ar y safle. I'r perwyl hwn, tybir y dylid cynnwys rhyw fath o asesiad o angen yn yr adran ar wastraff.

2.11.3 Mae'r asesiad rhagarweiniol yn ystyried y gwastraff sy'n cael ei gynhyrchu wrth ddatgomisiynu'r Orsaf Bŵer ond nid oes sôn am ddatgomisiynu datblygiadau dros dro sy'n gysylltiedig ag adeiladu'r safle. Nid oes digon o wybodaeth yn y penodau perthnasol am eu datgomisiynu i egluro sut y byddant yn cael eu clirio a'u hadfer, yn enwedig sut y bydd gwastraff / deunydd anadweithiol yn cael ei brosesu a'i reoli a'i ddefnyddio.

## 2.12 Newid yn yr Hinsawdd

2.12.1 Mae cynnwys ystyriaeth o effeithiau newid yn yr hinsawdd ar y prosiect i'w groesawu ac mae'n dilyn ymateb CSYM a'r Ysgrifennydd Gwladol i gwmpasu. Mae'r PEIR yn cynnwys gwybodaeth ragarweiniol ar sut y cafodd yr orsaf bŵer ei dylunio gyda golwg ar newid yn yr hinsawdd (Tabl 6.3) a dylid cynnwys rhagor o fanylion ar y mesurau addasu hyn yn y datganiad

amgylcheddol. Yn benodol, dylai gwybodaeth gynnwys sut y cafodd agweddau ar y dyluniad eu hadolygu i roi sylw i effeithiau newid yn yr hinsawdd ac a oes mesurau lliniaru ar gyfer yr agweddau hyn ar y dyluniad wedi eu nodi mewn cysylltiad â'r effeithiau posib.

2.12.2 Nododd CSYM yn ei ymateb cwmpasu bod newid yn yr hinsawdd yn debygol o newid amodau gwaelodlin yn ystod oes y prosiect ac y dylai asesiad o sut y gallai'r waelodlin esblygu, mewn perthynas â phob pennod pwnc amgylcheddol gael ei gynnwys hyd yn oed os daethpwyd i'r casgliad y gellir ei gwmpasu o'r asesiad. Mewn ymateb mae'r PEIR yn cydnabod y ffaith y bydd yr orsaf bŵer yn weithredol am 60 o flynyddoedd a'i bod yn debygol y byddai'r amgylchedd lleol wedi cael ei effeithio gan newid yn yr hinsawdd dros amser ac y gallai hynny gynyddu sensitifrwydd yr amgylchedd. Mae Tabl 16.2 felly'n nodi'r pynciau amgylcheddol hynny a allai gael eu heffeithio.

2.12.3 Yn ychwanegol at y pynciau a nodwyd mae CSYM o'r farn y dylid rhoi sylw i'r newidiadau i'r dirwedd o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd yn ogystal â'r posibilrwydd o bwysau cynyddol ar rai rhywogaethau daearol a dŵr croyw.

2.12.4 Er bod yr ymrwymiad i roi sylw i effeithiau newid yn yr hinsawdd yn ystod y cam gweithredu i'w groesawu yn unol â sylwadau cynharach, hoffai CSYM hefyd gael sicrwydd o ddiogelwch y storfa tanwydd wedi'i ddefnyddio yn ystod y cyfnod o 140 o flynyddoedd ar ôl i'r orsaf bŵer roi'r gorau i weithredu.

2.13 **B-17 i H-01**

2.13.1 Mae sylwadau CSYM ar y safleoedd unigol wedi'u cynnwys yn ei ymateb cyffredinol i'r brif ddogfen Ymgynghori, ac eithrio unrhyw sylwadau cronnus sydd wedi'u cynnwys isod.

2.13.2 Beth bynnag fo cydymffurfiad y safle â pholisi a'r defnyddiau a gynigir y casgliad cyffredinol yw nad oes digon o wybodaeth wedi'i chyflwyno yn y brif ddogfen nac yn yr atodiadau gwaelodlin i alluogi CSYM i ddod i gasgliad ar y tebygolrwydd o effeithiau sylweddol posib.

## 3. Effeithiau Cronnus

3.1.1 Mae'r asesiad cronnus yn diffinio nifer o ardaloedd astudio. Mae'r ffigurau a'r lliwiau a ddewiswyd yn anodd ei dehongli, yn enwedig yr ardaloedd astudio ansawdd yr aer / sŵn a dirgryniad.

3.1.2 Mae'r PEIR yn cynnwys rhestr hir a rhestr fer o brosiectau a ystyriwyd ar gyfer effeithiau cronnus. Mae'n nodi nad yw'r rhestr o eiddo wedi cael ei rhewi eto cyn gwneud y cais am DCO a'i fod yn holi barn am eiddo a ddylai gael ei ychwanegu ar y rhestr hir.

3.1.3 Mae'r awgrym a geir yn y PEIR y dylai'r rhestr gronnus gael ei rhewi bedwar mis ar ôl cyflwyno'n ymddangos yn rhesymol ond dylai PNH bob amser gadw rhyw gymaint o hyblygrwydd i asesu effeithiau cronnus prosiectau mwy diweddar pe bai ganddynt y potensial i effeithio ar y casgliadau a gyrhaeddwyd mewn unrhyw rai o asesiadau PNH. Mae CSYM yn credu bod sicrhau cytundeb cynnar ar y rhestr (yn amodol ar newid) yn hanfodol.

3.1.4 Mae'r asesiad cronnus arfaethedig yn cydnabod cyngor a geir yn Nodyn Cyngor 17 yr Arolygiaeth Gynllunio. Mae hyn yn ymdrin â haenau 1-3 gyda phrosiectau haen 3 gan gynnwys prosiectau nad ydynt eto wedi cyrraedd y cam cwmpasu neu ddyraniadau cynlluniau datblygu. Mae CSYM yn cynghori y dylid rhoi sylw i ddyraniadau cynlluniau datblygu, yn enwedig yn ac yng nghyffiniau Amlwch.

3.1.5 Mae'r adran ar effeithiau cronnus o fewn prosiectau yn dwyn at ei gilydd rai o'r asesiadau unigol a nodwyd yn y penodau pwnc ar elfennau prosiectau unigol i ddeall y potensial ar gyfer effeithiau cronnus. Mae'r ffordd y mae'r wybodaeth wedi'i chyflwyno'n ddealladwy iawn ac mae CSYM yn cydnabod bod nifer o asesiadau ac astudiaethau o hyd sydd angen eu cwblhau cyn y gellir cynnal asesiad llawn. Dylai'r asesiad llawn a fydd yn cael ei gyflwyno yn y datganiad amgylcheddol gynnwys sylw llawn i sensitifrwydd derbynyddion, maint yr effaith gronnus a dylai gynnig casgliad rhesymol o'u harwyddocâd. Bydd CSYM yn disgwyl gweld mesurau lliniaru'n cael eu cynnig ar gyfer effeithiau cronnus sylweddol.

3.1.6 Ceir cydnabyddiaeth yn yr effeithiau cronnus o fewn prosiectau y gallai rhai derbynyddion gael eu heffeithio yn eu tro gan un neu fwy o wahanol weithgareddau. Mae'r Cyngor yn croesawu'r gydnabyddiaeth hon. Gan y bydd yr orsaf bŵer yn cael ei hadeiladu dros gyfnod o nifer o flynyddoedd mae'n bwysig deall effaith gronnus effeithiau a allai ailddigwydd ac a fyddai hynny'n arwyddocaol hyd yn oed os nad yw gweithgareddau unigol o reidrwydd yn arwyddocaol ynddynt eu hunain.

3.1.7 Mae CSYM yn ymwybodol bod PNH yn edrych ar y sgiliau sydd eu hangen yn lleol gyda golwg ar gynyddu hyfforddiant i gau unrhyw fylchau mewn sgiliau a ganfyddir. Bydd CSYM hefyd yn disgwyl y bydd PNH yn cefnogi gwyddoniaeth a hyfforddiant sgiliau mewn ysgolion yn ychwanegol at addysg ôl-uwchradd i sicrhau bod preswylwyr iau’n gallu canfod a manteisio ar gyfleoedd gwaith yn y dyfodol.

3.1.8 Bydd cefnogaeth i wella cyrhaeddiad addysgol a chynyddu dyheadau hefyd yn bwysig i roi sylw i’r effeithiau cronnus sylweddol posib ar fusnesau a’r gadwyn gyflenwo yn sgil holl ddatblygiadau Wylfa Newydd. Mae’r PEIR yn awgrymu bod effeithiau o’r fath yn cael eu gweld fel rhai buddiol ar y cyfan oherwydd cynnydd mewn galw. Fodd bynnag, am y rheswm a roddwyd gan PNH ym mharagraff 13.2 gall busnesau lleol brofi anhawster wrth recriwtio a chadw staff yn wyneb cystadleuaeth o gyfeiriad y prosiect a bydd angen gofyniad i gefnogi busnesau presennol trwy gymorth i hyfforddi a datblygu sgiliau.

3.1.9 Nodwyd effeithiau o fewn prosiectau hefyd ar y diwydiant twristiaeth. Crybwyllwyd mesurau lliniaru fel marchnata a chymorth i Frandiau ar gyfer y sector twristiaeth yn Ynys Môn fel ffordd o leihau effeithiau. Mae CSYM yn cefnogi’r ymrwymiad hwn ond byddai hefyd yn awgrymu mesurau lliniaru ar ffurf atyniadau twristiaeth amgen posib i gynnal niferoedd yr ymwelwyr yn ystod y gwaith adeiladu (e.e. gwelliannau mewn rhannau eraill i’r rhwydwaith llwybrau cerdded hir, rhwydwaith beicio, cyflwyno’r ganolfan ymwelwyr a’r cyfryngau’n gynnar). Dylai’r gwaith hyrwyddo gychwyn cyn y prif gyfnod adeiladu i sicrhau nad yw ymwelwyr yn dewis peidio ag ymweld ag Ynys Môn.

3.1.10 Mae CSYM yn credu nad oes llawer o gyfeiriadau at gyd-destun rhwng ac o fewn prosiectau o ran ffactorau cymdeithasol-economaidd. Hyd yma mae’r asesiad o effeithiau tebygol a rhyngweithio’n gyfyngedig iawn ac o ystyried maint datblygiad Wylfa Newydd gan gynnwys y prif ddatblygiad a’r datblygiadau cysylltiedig ochr yn ochr â’r hyn sy’n nifer fawr o brosiectau sy’n defnyddio adnoddau ardal cymharol denau ei phoblogaeth mae hyn yn achos pryder mawr. Mae’r pryderon mwyaf o safbwynt ffactorau cymdeithasol-economaidd yn adlewyrchu’r rhai a nodwyd yn yr adran cymdeithasol-economaidd uchod ac maent yn cynnwys y galw cronnus ar lafur, tai, seilwaith a gwasanaethau cymdeithasol a chymunedol ehangach, sectorau allweddol yr economi gan gynnwys twristiaeth, llety, adeiladu, y sector gwasanaethu ac ystyriaethau ehangach dadleoli sy’n gysylltiedig â’r holl feysydd uchod.

3.1.11 Mae'r PEIR yn cydnabod y posibilrwydd y gallai cymunedau'n agos at yr Orsaf Bŵer gael eu heffeithio gan ddirywiad yn ansawdd yr aer o ganlyniad i brosiect Wylfa Newydd ond bod yr holl effeithiau posib yn gysylltiedig ag adeiladu'r Orsaf Bŵer, felly nid oes dim effeithiau cronnus o fewn prosiectau wedi eu canfod. Yn yr un modd, dywed na ragwelir dim effeithiau cronnus sylweddol posib (yn ychwanegol at yr effeithiau sylweddol a nodwyd yn y bennod pwnc berthnasol) mewn cymunedau sy'n agos at yr A5025 neu'r A55. Mae CSYM yn cwestiynu'r diffyg asesiad o ansawdd aer gweithredol ar gyfer yr orsaf bŵer ei hun ac felly'r casgliadau o ran asesiad cronnus. Hefyd, ac yn gydnaws â phynciau eraill a ystyriwyd yn yr adran hon o'r PEIR byddai CSYM yn disgwyl y byddai'r posibilrwydd o effeithiau olynol (heb fod yn arwyddocaol o bosib) a allai gyda'i gilydd gael effaith sylweddol gronnus gael sylw, hy effeithiau ar ansawdd yr aer o ganlyniad i waith adeiladu'r A5025, MEEG, AECC a'r orsaf bŵer ar yr un derbynnydd.

3.1.12 Bydd ystyried effeithiau gweledol cronnus yn bwysig. Y cymunedau sy'n debygol o brofi effeithiau gweledol cronnus sylweddol yw Tregele a Chemaes, lle gall yr orsaf bŵer a chysylltiad y Grid Cenedlaethol fod yn weladwy. Gall rhai preswylwyr mewn rhannau o Dregele er enghraifft fod â golygfeydd o Welliannau Priffordd yr A5025, y Ganolfan Ymwelwyr a'r Cyfryngau a AECC/DSL Magnox. Mae'n bosib y bydd preswylwyr Cemaes hefyd yn gallu gweld i gyfeiriad gwaith adeiladu'r A5025, yr orsaf bŵer, datgomisiynu Wylfa A a fferm wynt Rhyd y Groes. Yn achos derbynyddion o'r fath mi hoffai'r Cyngor weld ffotogyfosodiadau cronnus a ZTV yn cael eu defnyddio i ddeall y potensial ar gyfer effeithiau cyn cytuno â'r datganiad o ddim arwyddocâd a geir yn y PEIR.

3.1.13 Mae CSYM yn cytuno bod yr effeithiau sylweddol posib ar dderbynyddion prosesau arfordirol, geomorffoleg arfordirol a'r amgylchedd morol i gyd yn gysylltiedig ag adeiladu neu weithredu'r Orsaf Bŵer. Mae'n argymell bod angen rhoi sylw hefyd i'r posibilrwydd o effeithiau olynol a fyddai'n arwain at effeithiau sylweddol o ganlyniad i waith clirio'r safle a fyddai'n cael ei ddilyn gan waith adeiladu'r orsaf bŵer gyda sylw penodol yn cael ei roi i hyd yr amser pan fyddai effeithiau o'r fath yn cael eu profi.

3.1.14 Yn sgil mabwysiadu Cynllun Rheoli Amgylcheddol y Gwaith Adeiladu i reoli achosion o lygredd damweiniol, ni chanfuwyd dim effeithiau cronnus o fewn prosiect ar gyfer derbynyddion dŵr wyneb. Mae CSYM yn tybio y bydd Cynllun Rheoli Amgylcheddol y Gwaith Adeiladu felly'n cynnwys yr orsaf bŵer a phob prosiect arall o fewn y datblygiad.

3.1.15 O ran archeoleg a threftadaeth ddiwylliannol mi hoffai CSYM weld canlyniad pob EIA unigol a'r asesiad o effeithiau cronnus terfynol a fyddai'n nodi

lleoliad yr asedau ac i ba raddau y byddai datblygiadau unigol amrywiol yn amharu neu beidio arnynt cyn cytuno ar gasgliad bod y posibilrwydd o effeithiau cronnus yn gyfyngedig.

3.1.16 Mae CSYM yn bryderus o hyd ynglŷn â'r diffyg ystyriaeth i'r Iaith Gymraeg fel derbynnydd yn y PEIR ac o bosib yn y datganiad amgylcheddol. Bernir y dylai effeithiau cronnus ar yr iaith Gymraeg gael eu hystyried. Yn amodol ar asesiad pellach gellid defnyddio canfyddiadau'r Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg fel sail i gasgliadau'r datganiad amgylcheddol pe byddai hefyd yn cynnwys asesiad cronnus.

3.1.17 Mae'r PEIR yn cydnabod bod deiliaid sawl eiddo'n debygol o brofi colled, neu leihad mewn amwynder o ganlyniad i brosiect Wylfa Newydd mewn cyfuniad â datgomisiynu'r Orsaf Bŵer Bresennol, dargyfeirio cyfleustodau, a Phrosiect Cysylltiad Gogledd Cymru. Mae'r gydnabyddiaeth hon i'w chroesawu gan fod CSYM yn cytuno y gallai effeithiau adeiladu a gweithredu a fyddai'n deillio o'r cyfuniad o brosiectau arwain at effeithiau cronnus. O ystyried y cysylltiad rhwng yr orsaf bŵer a'r cysylltiad grid, dylai PNH ystyried cyfleoedd i ddatblygu mesurau lliniaru ar y cyd, neu liniaru effeithiau un prosiect i leihau'r effeithiau sylweddol cyfun yn gronnus gyda'r llall. Nid oes yn rhaid edrych arnynt ar eu pen eu hunain. Mewn sefyllfaoedd lle na ellir newid y dyluniad i leihau effeithiau i rai 'nad ydynt yn arwyddocaol', neu os nad oes mesurau lliniaru'n bosib dylai hyrwyddwyr y prosiect ymgynghori â'i gilydd ac â Chyngor Môn ar fesurau iawndal posib. Yn yr un modd dylai iawndal am effeithiau ar archeoleg a threftadaeth gael ei gynnig os nad yw mesurau lliniaru'n bosib.

## 4. Casgliad

4.1.1 Mae'r Adroddiad Amgylcheddol Rhagarweiniol a'r dogfennau ategol yn cynnwys llawer o wybodaeth am yr effeithiau sylweddol tebygol sy'n bosib. Mae adolygiad CSYM o'r dogfennau'n awgrymu bod ystod y derbynyddion a nodwyd ac achos yr effeithiau'n briodol. Nid yw CSYM mor sicr ynglŷn â'r casgliadau y daethpwyd iddynt o ran maint ac arwyddocâd yr effeithiau. Y rheswm am hyn yw prinder gwybodaeth waelodlin ac asesiadau sydd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad a'i atodiadau.

4.1.2 Mae'r penodau blaenorol yn nodi'r prif faterion sydd wedi deillio o adolygiad CSYM o'r PEIR. Gwneir yr argymhellion canlynol:

a) Dylai PNH drafod â Chyngor Môn a'r Arolygiaeth Gynllunio pa ddull y dylid ei fabwysiadu i gyflwyno gwybodaeth a fydd yn cynnwys y Datganiad Amgylcheddol i sicrhau ei bod yn hygyrch a hwylus i'w defnyddio.
b) Dylid cynnwys cadarnhad o ba lefel o arwyddocâd sy'n cyfrif fel 'arwyddocâd EIA', dylai iawndal, gwella a gwrthbwyso gyd-fynd â mesurau lliniaru pan fo hynny'n briodol;
c) Pan fydd newidiadau i'r dyluniad yn cael eu cyflwyno yn y PEIR, neu os nad yw dyluniadau wedi'u cadarnhau eto, dylai PNH ystyried ymgynghoriad ychwanegol, penodol cyn cyflwyno;
d) Dylid cynnal a nodi asesiad a mesurau lliniaru pellach i roi sylw i ddadleoliad yn y farchnad waith;
e) Mae angen ymgynghori â rhanddeiliaid i gytuno ar gynlluniau a strategaethau y cyfeirir atynt yn y ddogfen cyn cyflwyno;
f) Dylid cynnal asesiad pellach i ganfod y posibilrwydd o effeithiau ar dwristiaeth gydag ymrwymiad i fonitro effeithiau a chanfod mesurau lliniaru angenrheidiol;
g) Dylai monitro amser real o effeithiau ar amwynderau fod yn ymrwymiad yn y datganiad amgylcheddol;
h) Dylai'r Datganiad Amgylcheddol gynnwys manylion yr holl arolygon amgylcheddol, archwiliadau i safleoedd a modelu i alluogi'r Cyngor i ddod i'w gasgliadau ei hun o ran amodau gwaelodlin a'r posibilrwydd o effeithiau sylweddol;
i) Mae angen rhagor o wybodaeth gwaelodlin ac asesiad pellach i alluogi'r Cyngor i ddeall y potensial ar gyfer effeithiau sylweddol ar SoDdGAoedd Tre'r Gof a Chae Gwyn;
j) Mae angen mwy o eglurder ar y potensial ar gyfer effeithiau ar yr AHNE, gan gynnwys ei phriodoleddau unigol ac effeithiau cronnus ynghyd ag ymrwymiad i liniaru effeithiau a gwella rhannau eraill o'r dynodiad trwy baratoi strategaeth reoli tirwedd / morwedd gynhwysfawr;

k) Yn yr un modd, mae angen ystyriaeth fanwl i'r effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol posib ar Ardd Cestyll Garden, ac mae angen ymgynghoriad ar gynnwys y strategaeth gadwraeth;
l) dylid paratoi asesiad pellach o effeithiau radiolegol sy'n deillio o gludo gwastraff, gan gynnwys effeithiau cronnus gyda datgomisiynu Wylfa A;
m) Dylai'r Datganiad Amgylcheddol gynnwys asesiad o'r safle ar ôl datgomisiynu'r prif waith a'r adeiladau a chynnwys y potensial ar gyfer effeithiau newid yn yr hinsawdd a fyddai'n codi yn sgil cadw'r storfa tanwydd wedi'i ddefnyddio am gyfnod o hyd at 140 o flynyddoedd;
n) Dylid cynnwys ystyriaeth yn y Datganiad Amgylcheddol o'r potensial ar gyfer effeithiau amgylcheddol cronnus ar yr iaith Gymraeg.

4.1.3 Gyda golwg ar yr uchod, mae parhau i gydweithredu a rhannu gwybodaeth yn hanfodol.

**Rhestr o Dermau**

| | |
|---|---|
| AECC | Canolfan Amgen ar gyfer Rheoli Argyfwng |
| AEIG | Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg |
| AGA | Ardal Gwarchodaeth Arbennig |
| AHNE | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| CCA | Canllawiau Cynllunio Atodol |
| CDLl | Cynllun Datblygu Lleol |
| CDLlC | Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd |
| CEMP | Cynllun Rheoli ar gyfer y Gwaith Adeiladu a'r Amgylchedd |
| CNVMP | Cynllun Rheoli ar gyfer Sŵn a Dirgryniad yn codi o'r Gwaith Adeiladu |
| CRhD | Cynllun Rheoli Deunyddiau |
| CSYM | Cyngor Sir Ynys Môn |
| CWAMP | Porth Rheoli Llety i Weithwyr Adeiladu |
| CWAS | Strategaeth Llety ar gyfer Gweithwyr Adeiladu |
| DC | Datblygiadau Cysylltiedig |
| DCO | Gorchymyn Caniatâd Datblygu |
| EIA | Asesiad o'r Effaith ar yr Amgylchedd |
| EqIA | Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb |
| EqIAR | Adroddiad Interim ar yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb |
| ES | Datganiad Amgylcheddol |
| HEAT | Teclyn Asesu Iechyd Economaidd |
| HGV | Cerbydau Nwyddau Trwm |
| KSA | Ardal Astudiaeth Allweddol |
| LlC | Llywodraeth Cymru |
| MCD | Prif Ddogfen Ymgynghori |
| MEEG | Garej Offer Argyfwng Symudol |
| MOU | Memorandwm Cyd-Ddealltwriaeth |
| NEETs | Ddim mewn Addysg, Cyflogaeth neu Hyfforddiant |
| NPS | Datganiad Polisi Cenedlaethol |
| ONR | Swyddfa dros Reoli Niwclear |
| PAC | Ymgynghoriad Cyn Ymgeisio |
| PCC | Polisi Cynllunio Cymru |
| PEIR | Adroddiad Cychwynnol ar yr Effaith Amgylcheddol |
| PNH | Pŵer Niwclear Horizon |
| SNH | Treftadaeth Naturiol Yr Alban |
| SoDdGA | Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig |
| SRhP | Sector Rhentu Preifat |
| STEM | Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg a Mathemateg |
| TAN | Nodyn Cyngor Technegol |

| | |
|---|---|
| ZTV | Parth Gwelededd Damcaniaethol |